# AROLWG AC ASESIAD BWRDD GWEITHREDOL Y BBC

Yn ogystal â'r wybodaeth a roddir ar y tudalennau canlynol, gallwch gymharu ein perfformiad y llynedd ag amrywiaeth llawn o ymrwymiadau eraill – yn cynnwys ein Datganiadau o Bolisi Rhaglenni, y Ffenestr Cystadleuaeth Greadigol (WOCC), cwotâu a thargedau gwasanaethau mynediad Ofcom – yn y pdf Performance Against Public Commitments sydd ar gael yn adran lawrlwytho www.bbc.co.uk/annualreport.

Delwedd ar glawr adroddiad y Bwrdd Gweithredol: Yn y llun gwelir TARDIS *Doctor Who*: gadewch i'r BBC eich tywys ar daith i ble bynnag y mynnoch – gan rannu lleoedd newydd a phosibiliadau newydd.

## RHAN 2 BWRDD GWEITHREDOL Y BBC


**TROSOLWG**
2-2 DOD I DDEALL CYLLID Y BBC
2-4 RHAGAIR Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL
2-10 RHOI ANSAWDD YN GYNTAF

**PERFFORMIAD**
2-14 PWRPASAU'R BBC
2-16 RADIO
2-24 NEWYDDIADURAETH
2-32 TELEDU
2-40 CYFRYNGAU A THECHNOLEG Y DYFODOL
2-46 SICRHAU ANSAWDD AR GYFER Y DYFODOL

**RHEOLI'R BUSNES**
2-60 GWEITHREDIADAU
2-66 RÔL Y BBC YM MAES EHANGACH Y CYFRYNGAU
2-72 RISGIAU A CHYFLEOEDD


**LLYWODRAETHU**
2-76 BWRDD GWEITHREDOL
2-78 ADRODDIAD LLYWODRAETHU CRYNO

**DATGANIADAU ARIANNOL**
2-86 TROSOLWG ARIANNOL
2-94 Y TU HWNT I DDARLLEDU
2-95 DATGANIAD ARIANNOL CRYNO
2-95 DATGANIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL
2-96 DATGANIAD INCWM CYFUNOL CRYNO
2-97 MANTOLEN GYFUNOL GRYNO
2-97 DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD CYFUNOL CRYNO
2-98 NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL CRYNO
2-104 GEIRFA
CYSYLLTU Â NI
DIOLCHIADAU


# 2


POLICE PUBLIC CALL BOX
FREE
PUBLIC
PULL TO OPEN
POLICE PUBLIC CALL BOX

## £142.50 oedd cost ffi'r drwydded eleni. Roedd y gost fisol fesul ffi'r drwydded fel a ganlyn:




## Arbedion effeithlonrwydd gros £m




Drwy gasglu ffi'r drwydded mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, drwy leihau'r gost o drefnu'r ffordd rydym yn rheoli ein busnes bob blwyddyn, a thrwy werthu a thrwyddedu rhaglenni ac asedion cynnwys i gwmnïau yn y DU a thramor, ein nod yw sicrhau bod mwy o arian ar gael i fuddsoddi yn y portffolio cywir o raglenni a gwasanaethau i gynulleidfaoedd y DU.

| | **Cyrhaeddiad %** Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos | **Costau fesul awr defnyddiwr c** Faint i gyflwyno'r gwasanaeth i ddefnyddwyr | **Gwariant fesul gwasanaeth £m** Cyfanswm gwariant ar gynnwys |
|---|---|---|---|
| BBC ONE | 77.3 (77.6) | 6.7 (6.8) | 1,113 (1,142) |
| BBC TWO | 55.7 (57.4) | 7.7 (7.5) | 450 (451) |
| BBC THREE | 20.7 (18.7) | 8.6 (10.6) | 88 (87) |
| BBC FOUR | 8.9 (7.8) | 14.0 (16.8) | 55 (55) |
| CBBC | 5.6 (5.2) | 8.8 (9.5) | 40 (36) |
| CBEEBIES | 8.3 (8.0) | 1.8 (1.8) | 18 (16) |
| BBC HD | 1.6 (0.6) | 1.6 (7.0) | 2 (2) |
| BBC ALBA* | 4.3 (dd/g) | 20.6 (29.4) | 4 (3) |
| BBC RADIO 1 | 21.9 (21.3) | 0.6 (0.6) | 32 (33) |
| BBC RADIO 2 | 26.9 (26.1) | 0.5 (0.5) | 40 (40) |
| BBC RADIO 3 | 3.9 (3.9) | 6.3 (6.3) | 41 (40) |
| BBC RADIO 4 | 19.5 (19.1) | 1.3 (1.3) | 87 (86) |
| BBC RADIO 5 LIVE | 12.3 (11.9) | 2.3 (2.3) | 55 (57) |
| BBC RADIO 5 LIVE SPORTS EXTRA | 1.4 (1.4) | 2.2 (2.6) | 3 (3) |
| BBC 1XTRA | 1.2 (1.1) | 3.6 (4.5) | 7 (7) |
| BBC 6 MUSIC | 1.4 (1.2) | 2.7 (3.4) | 7 (7) |
| BBC 7 | 1.8 (1.7) | 1.7 (2.0) | 5 (5) |
| BBC ASIAN NETWORK | 0.7 (0.8) | 8.5 (6.9) | 9 (9) |
| | | (COST FESUL DEFNYDDIWR A GYRHAEDDIR) | |
| BBC ONLINE** | 37 (–) | 8.9 (9.7) | 127 (112) |
| BBC RED BUTTON | 29 (27) | 2.2 (2.7) | 14 (14) |
| BBC NEWS† | 8.7 (8.4) | 7.6 (8.1) | 48 (48) |
| BBC PARLIAMENT† | 0.3 (0.3) | 14.1 (18.5) | 2 (3) |
| BBC ENGLISH LOCAL RADIO | 16.9 (17.1) | 3.2 (2.9) | 110 (109) |
| BBC RADIO SCOTLAND | 21.2 (21.6 yn cynnwys RnG) | 7.8 (7.1) | 25 (25) |
| BBC RADIO NAN GAIDHEAL | | 16.7 (18.2) | 4 (4) |
| BBC RADIO WALES | 16.7 (17.8) | 5.9 (5.0) | 13 (13) |
| BBC RADIO CYMRU | 5.8 (6.4) | 13.7 (11.5) | 12 (12) |
| BBC RADIO ULSTER\FOYLE | 35.4 (35.6) | 4.3 (4.4) | 14 (15) |

* Dim ond drwy loeren y mae BBC ALBA ar gael.

** BBC Online: Mesur newydd yw CMI. Nid oes ffigur cymharol ar gael ar gyfer 2008/09.

† Seilir cyrhaeddiad ar 15 munud ar gyfer pob sianel a gwasanaeth ac eithrio BBC Online (3+ munud). Byddai cyrhaeddiad o dri munud ar gyfer sianelau BBC News a BBC Parliament – yn unol â safon y diwydiant i wasanaethau newyddion – yn 13.9% a 0.9% yn y drefn honno, felly mae'r ddwy wedi cynyddu eto flwyddyn ar flwyddyn.

( ) Ceir ffigurau 2008/09 mewn cromfachau.

# CIPOLWG AR 2009/10

DARPARWYD Y GWASANAETHAU CANLYNOL GENNYM I'N CYNULLEIDFAOEDD Y LLYNEDD. CEIR DOLENNI I'R TRWYDDEDAU GWASANAETH AR GYFER POB UN O WASANAETHAU'R BBC – YN OGYSTAL AG UNRHYW AROLYGON GWASANAETH A GYNHALIWYD GAN YMDDIRIEDOLAETH Y BBC – YN WWW.BBC.CO.UK/BBCTRUST.

GWASANAETHAU

## TELEDU RHWYDWAITH

## RADIO RHWYDWAITH

## CYFRYNGAU A THECHNOLEG Y DYFODOL

## NEWYDDIADURAETH

# DOD I DDEALL CYLLID Y BBC

## MAE'R BBC YN CREU, COMISIYNU A DARLLEDU MWY O ORIAU O RAGLENNU TELEDU A RADIO GWREIDDIOL NAG UNRHYW SEFYDLIAD DARLLEDU ARALL YN Y BYD, Â'R MWYAFRIF HELAETH OHONO'N CAEL EI GYNHYRCHU YN Y DU.



**GRŴP Y BBC** Drwy ei holl weithgareddau, gweledigaeth graidd y BBC yw sicrhau mai ef yw'r sefydliad mwyaf creadigol yn y byd a chyfoethogi bywydau pobl â rhaglenni sy'n hysbysu, haddysgu a difyrru.

### BBC WORLD SERVICE

**£293M**

CYMORTH GRANT

Darlledodd **BBC World Service** newyddion a gwybodaeth i'r byd dros y radio gyntaf yn 1932. Heddiw, mae'r gwasanaeth radio gwreiddiol wedi'i ymestyn a cheir gwasanaeth teledu ac ar-lein.

Y llynedd, trodd dros 240 miliwn o bobl ledled y byd at y BBC i gael newyddion, dadansoddiadau a gwybodaeth diduedd ac annibynnol.

Mae BBC World Service yn cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ei hun, sydd ar gael yn www.bbc.co.uk/worldservice/specialreports/annual_review2009.shtml

### GWEITHREDIADAU MASNACHOL

**£119M**

ELW CYN LLOG A THRETH

**BBC Worldwide** yw prif is-gwmni masnachol y BBC sydd o dan berchnogaeth lawn, a'i nod yw manteisio i'r eithaf ar yr incwm o hawliau rhaglenni ac eiddo'r BBC, i wrthbwyso ffi'r drwydded.

Mae **BBC Studios and Post Production** yn cydweithio â'r BBC, darlledwyr eraill – ITV, Channel 4, five, a Sky – yn ogystal â chyfryngau eraill a chwmnïau cynhyrchu annibynol i greu cynnwys gwych.

Mae **BBC World News** yn cynnig newyddion, gwybodaeth a dadansoddiadau 24 awr yn Saesneg i fwy na 200 o wledydd a thiriogaethau ledled y byd. Fe'i hariennir drwy refeniw hysbysebu a thanysgrifiadau.

Mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod ei weithgareddau masnachol yn bodloni pedwar amod:
1. cydweddu i weithgareddau pwrpasau cyhoeddus y BBC
2. dangos effeithlonrwydd masnachol
3. peidio â pheryglu enw da'r BBC na gwerth brand y BBC
4. cydymffurfio â'i Ganllawiau Masnachu Teg

Llwyddodd pob un o'r gwasanaethau masnachol i fodloni'r meini prawf uchod rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2010.

Am ragor o wybodaeth ewch i www.bbc.co.uk/info/policies/fairtrading

Am ragor o wybodaeth am y gwasanaethau hyn, ewch i:
www.bbcworldwide.com
www.bbcstudiosandpostproduction.com
www.bbcworldnews.com

### GWASANAETHAU A ARIENNIR GAN FFI'R DRWYDDED

**£3,447M**

INCWM O FFI'R DRWYDDED

Sefydlir y BBC drwy Siarter Frenhinol ac ariennir ein gweithgareddau darlledu cyhoeddus yn y DU gan ffi'r drwydded, y mae cartrefi yn y DU yn talu amdani.

Y llynedd, gwnaethom gynnig y canlynol i gynulleidfaoedd gartref:

- 10 gwasanaeth teledu ledled y DU
- gwasanaethau teledu i'r gwledydd a'r rhanbarthau ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon
- 10 rhwydwaith radio ledled y DU
- dau wasanaeth radio cenedlaethol yr un yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon
- 40 o orsafoedd radio lleol yn Lloegr
- a gwasanaethau ar-lein

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn a'r Cyfrifon yn canolbwyntio'n bennaf ar yr agwedd hon ar ein busnes. Am ragor o wybodaeth am y BBC, neu i wylio rhaglenni a fethwyd gennych, ewch i'n gwefan www.bbc.co.uk a dilynwch y dolenni.

Mewn adroddiad annibynol gan Deloitte, *The Economic Impact of the BBC: 2008/09*, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, dangoswyd bod ffi'r drwydded – a'r ffordd y mae'r BBC yn dewis ei buddsoddi – yn un o gonglfeini economi greadigol y DU.

Mae hyn yn arbennig o wir ar adeg pan fo ystyriaethau masnachol yn cyfyngu ar gyllidebau rhaglenni mewn mannau eraill.

Daeth Deloitte i'r casgliad cyffredinol bod cyfraniad economaidd y BBC i economi'r DU werth o leiaf £7.6biliwn – sy'n golygu bod pob punt o ffi'r drwydded yn creu dwy bunt o werth economaidd.

Yn ogystal â hyn, daeth eu hasesiad o'n gwariant yn yr economi greadigol yn ystod 2008/09 i'r casgliad bod arian ffi'r drwydded a fuddsoddwyd gennym yn y sector cynhyrchu annibynol, sef un o adnoddau mwyaf gwerthfawr economi greadigol y DU, wedi creu £867miliwn o werth economaidd uniongyrchol y flwyddyn honno, sef dwywaith y swm o £435miliwn a wariwyd. Drwy gynnwys buddiannau ehangach gallai'r gwerth hwn fod hyd at £1.4biliwn, gyda chwmnïau llai yn gynyddol yn cael mwy o fuddsoddiad.

Cyhoeddir asesiad o ffigurau 2009-10 yn ddiweddarach eleni.

## ELENI ROEDD FFI'R DRWYDDED YN £142.50, CYNNYDD MISOL O 25C O GYMHARU Â'R LLYNEDD. DYMA SUT Y CAFODD EI GWARIO:

### Tabl 2-1
### Tâl misol fesul ffi'r drwydded

| | £ 09/10 | % 09/10 | £ 08/09 | % 08/09 |
|---|---|---|---|---|
| Teledu | **7.85** | **66** | 7.91 | 68 |
| Radio | **2.01** | **17** | 1.99 | 17 |
| Ar-lein | **0.67** | **6** | 0.60 | 5 |
| Arall | **1.35** | **11** | 1.13 | 10 |
| **Cyfanswm** | **11.88** | **100** | 11.63 | 100 |

### Tabl 2-2
### Dadansoddiad o wariant y BBC


| | £m 09/10 | % 09/10 | £m 08/09 | % 08/09 |
|---|---|---|---|---|
| Teledu | **2,351** | **66** | 2,346 | 68 |
| Radio | **604** | **17** | 590 | 17 |
| Ar-lein | **199** | **6** | 178 | 5 |
| Arall | **406** | **11** | 335 | 10 |
| **Cyfanswm** | **3,560** | **100** | 3,449 | 100 |

LLAI NA

40c


MAE POB CARTREF Â THRWYDDED YN Y DU YN TALU LLAI NA 40 CEINIOG Y DYDD AM HOLL WASANAETHAU'R BBC

### Siart 2-1
### Cyfraddau ffi'r drwydded ledled Ewrop £




Ffynhonnell: Cymdeithas Ffioedd Darlledu. Mae pob trwydded yn para am flwyddyn galendr ac eithrio'r DU, sy'n para o 1 Ebrill i 31 Mawrth. Defnyddiwyd cyfradd gyfnewid yr Ewro fel yr oedd ar 1 Ionawr 2010 (£1=€1.14). Y gost yw'r cyfanswm fesul trwydded i gwsmeriaid domestig ar gyfer teledu a radio. Nod * yn cynnwys TAW.

### Siart 2-2
### Gwariant yn yr economi greadigol £m



# RHOI ANSAWDD YN GYNTAF

ROEDD ETHOLIAD CYFFREDINOL 2010 YN DROBWYNT I WLEIDYDDIAETH PRYDAIN, AC I FYD DARLLEDU PRYDAIN. CAFWYD ENGHREIFFTIAU AMLWG O ARLOESI – MEGIS DADLEUON TELEDU YR ARWEINWYR A GYFLAWNWYD DRWY GYTUNDEB NA WELWYD EI DEBYG ERIOED O'R BLAEN RHWNG TAIR PRIF BLAID Y DU A'R BBC, ITV A SKY NEWS. TORRWYD AMBELL I RECORD HEFYD – YMWELODD BRON 12 MILIWN O DDEFNYDDWYR UNIGRYW Â GWEFAN BBC NEWYDDION AR Y DYDD GWENER AR ÔL YR ETHOLIAD.



Ond roedd rhywbeth pwysicach ar droed. Roedd gan bapurau newydd a ffenomenau cyfryngau cymdeithasol fel Twitter ran i'w chwarae, ond o'r dadleuon hanesyddol hynny i Mrs Duffy i'r rhaglen ganlyniadau, digwyddodd yr etholiad hwn ar y teledu ia'r radio yn fwy nag erioed o'r blaen. Roedd perfformiad gwefan y BBC cystal yn rhannol o leiaf am ei bod wedi'i hintegreiddio mor agos, o ran cynnwys, edrychiad ac ymdeimlad, â'r hyn a gynigiwyd gennym ar y teledu a'r radio.

Ac eto llwyddodd yr etholiad hefyd i gadarnhau cymaint y mae darlledu cyhoeddus ym Mhrydain wedi newid. Dim ond y BBC aeth ati i gomisiynu swm sylweddol o raglennu arbennig i ddilyn yr ymgyrch. A'r noson honno, bum diwrnod wedi'r etholiad pan wahoddodd y Frenhines David Cameron i ffurfio llywodraeth newydd, dim ond y BBC a newidiodd amserlen ei brif sianel er mwyn dilyn y digwyddiadau wrth iddynt ddatblygu. Gwnaethom hyn, am ein bod yn credu mai cenhadaeth bwysicaf un y BBC yw ymdrechu i gynhyrchu'r newyddiaduraeth orau yn y byd a sicrhau ei bod ar gael yn hawdd i bob cynulleidfa. Dyna hefyd y mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl ac am ei weld – trodd deng miliwn o bobl at BBC One i wylio uchafbwynt y ddrama wleidyddol honno.

Mae newyddiaduraeth uchelgeisiol, wedi'i hariannu'n ddigonol, sy'n hygyrch i bawb yn un o'r egwyddorion sydd wrth wraidd strategaeth newydd y BBC, *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf.* Cyflwynwyd y strategaeth i Ymddiriedolaeth y BBC ddiwedd y flwyddyn. Ar hyn o bryd, mae'n ystyried ein cynigion ac yn gofyn am ymateb y cyhoedd cyn dod i'w chasgliad yn yr hydref.

Ond mae'r Ymddiriedolaeth â minnau ar dir cyffredin o ran pum prif thema'r strategaeth. Y newyddion da yw, hyd yn oed cyn i'r strategaeth gael ei chymeradwyo yn derfynol, cafwyd digon o dystiolaeth yn 2009/10 bod y BBC eisoes yn mynd i'r afael â'r themâu hyn.

## GWNEUD LLAI O BETHAU'N WELL

Diben y BBC yw hysbysu, addysgu a difyrru ei gynulleidfaoedd â rhaglenni a chynnwys rhagorol a gwreiddiol. Am y rheswm hwn, y thema gyntaf yn syml yw y dylai'r BBC rhoi ansawdd yn gyntaf bob amser. Yn ail, dylem wneud llai o bethau'n well – hynny yw, yn dilyn cyfnod lle y defnyddiwyd technolegau digidol i ymestyn gwasanaethau'r BBC a chynnig mwy o ddewis i dalwyr ffi'r drwydded, dylem bellach ganolbwyntio buddsoddiad ac egni creadigol ar y rhaglenni a'r prosiectau hynny sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf.

Prosiectau megis 'A History of the World', partneriaeth unigryw â'r Amgueddfa Brydeinig. Mae cyfres wych o raglenni ar BBC Radio 4 *A History of the World in 100 Objects* wedi'i chyflwyno gan Gyfarwyddwr yr amgueddfa Neil MacGregor yn sail i'r prosiect. Ond yn ogystal â hynny – ceir cyfres deledu i blant; gwefan barhaol llawn gwybodaeth; cyfleoedd i gydweithio â gwasanaethau lleol y BBC a channoedd o amgueddfeydd eraill ym mhob cwr o'r wlad; ac ailddarllediadau i gynulleidfaoedd ledled y byd drwy'r BBC World Service.

Bu'r BBC bob amser yn un o sefydliadau diwylliannol pwysicaf y DU – bellach rydym yn dysgu faint yn fwy y gallwn ei wneud i ddod â gwybodaeth, cerddoriaeth a'r celfyddydau i fywydau miliynau o bobl drwy gydweithio â phartneriaid eraill. Pa un a ydym yn gweithio gyda sefydliadau mawr eraill megis y Gymdeithas Frenhinol neu'r Opera Frenhinol yn Covent Garden, neu gydag unigolion talentog, brwd, llawn argyhoeddiad, mae cymaint yn fwy yn bosibl. Roedd y *Poetry Season* a oleuodd ein gwasanaethau am rai wythnosau y Gwanwyn diwethaf yn enghraifft wych. Gallwch ddisgwyl gweld llawer yn rhagor o brosiectau diwylliannol a gwyddonol mawr dros y blynyddoedd nesaf.

Hefyd drwy'r themâu hynny – graddfa, uchelgais, hyder – sicrhawyd blwyddyn ragorol o ran drama, o *The Complete Smiley* ar BBC Radio 4 i *Occupation* ar BBC One. Mae'r cyhoedd am weld dramâu dewr, difrifol, annisgwyl ar ein prif sianel, nid ar BBC Two neu BBC Four yn unig. Pan fyddwn yn cynnig hyn – *Criminal Justice* neu *Five Daughters* yn ddiweddar er enghraifft – mae eu gwerthfawrogiad yn amlwg.

Roedd 2009/10 yn flwyddyn lle y cafodd potensial BBC Three ei wireddu. Gyda dramâu diffiniol megis *Being Human* a rhaglenni materion cyfoes difrifol megis *Blood, Sweat and Takeaways*, gwelwyd twf yng nghynulleidfa'r sianel a hefyd ei henw da. Yn wir, bu'n flwyddyn anarferol o gryf i bob un o'n gwasanaethau. Cyflwynwyd rhaglenni cymhellol ar BBC Two boed yn rhai difrifol – megis ei thymor o raglenni yn nodi blwyddyn ers cwymp Lehman Brothers – neu'n rhai



"DIBEN Y BBC YW HYSBYSU, ADDYSGU A DIFYRRU EI GYNULLEIDFAOEDD Â RHAGLENNI A CHYNNWYS RHAGOROL A GWREIDDIOL."

MARK THOMPSON
CYFARWYDDWR CYFFREDINOL
Y BBC

"DIM OND OS GALLWN SICRHAU BOD POB DIME GOCH A RODDIR I NI GAN Y CYHOEDD I REDEG Y SEFYDLIAD YN CAEL EI DEFNYDDIO'N DDOETH Y GALLWN GYFLAWNI POTENSIAL CREADIGOL LLAWN Y BBC."

digrif, â dyfodiad *Miranda* i'r sianel. O ŵyl Glastonbury i Gystadleuaeth Piano Leeds, roedd cerddoriaeth yn elfen gref ar ein rhwydweithiau radio ac yn fwy gweladwy a chyson ar y teledu. Bydd Mark Damazer, sy'n rhoi'r gorau i'w swydd fel Rheolwr BBC Radio 4, yn gadael yr orsaf ar ei gorau – o dan ei ofal, llwyddodd yr 'Home Service' i gynrychioli'r gwrthwyneb i orsymleiddio, beth bynnag y bo hynny. Cafwyd cynnwys deallusol ymestynnol, cofiadwy, amserol a pherthnasol nad oedd byth yn teimlo'n fanteisgar.

Cynyddodd nifer ac ansawdd y cynyrchiadau rhwydwaith a gynhyrchwyd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon – roedd *Five Minutes of Heaven* a *Wallander* yn ddau gyflawniad creadigol nodedig mewn ffyrdd gwahanol, tra aeth stori hynod *Doctor Who* yn ei blaen gydag un doctor gwych yn trosglwyddo'r awenau i'r un nesaf. Bu'n flwyddyn brysur ond llwyddiannus i wasanaethau newyddiaduraeth, chwaraeon a rhyngwladol y BBC. Er gwaethaf yr amodau masnachu anodd a gafwyd mewn nifer o farchnadoedd, llwyddodd BBC Worldwide i sicrhau ei elw mwyaf erioed.

Allwn ni wneud yn well? Wrth gwrs y gallwn ni. Mae *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* yn nodi cyfres eang o flaenoriaethau newydd. Mae BBC Two a BBC Radio 2 yn wasanaethau gwych dan arweinyddiaeth greadigol eithriadol, ond rydym am weld

1


y ddau ohonynt yn dod yn fwy gwahanol a heriol. Rydym am roi mwy o gynnwys gwreiddiol o Brydain ar ein gwasanaethau i blant a buddsoddi mewn mwy o gynnwys nodedig ar y teledu yn ystod y dydd. Er bod arwyddion pendant o adnewyddiad ym maes comedi ar lawer o wasanaethau'r BBC, rydym am weld mwy o hyder a chreadigrwydd o ran adloniant. Ar ei gorau, mae ein gwefan llawn cystal ag unrhyw wefan yn y byd, ond mae angen iddi gael mwy o eglurder a ffocws – er mwyn sicrhau nad yw'n effeithio ar siawns sefydliadau eraill i sefydlu presenoldeb hyfyw ar y we, ond hefyd er mwyn gwella'r gwerth y mae'n ei gynnig i'w ddefnyddwyr.

## SICRHAU MYNEDIAD I BAWB

Y tu ôl i'r llenni, bu'r BBC yn gweithio'n galed ar drydedd thema *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*, sef sicrhau mynediad i bawb. Freeview oedd ffordd fwyaf poblogaidd y DU o fanteisio ar deledu digidol o hyd yn ystod y flwyddyn; ac, erbyn Rhagfyr, roedd deg miliwn o gartrefi yn defnyddio Freeview ar eu prif set deledu.

Galluogodd technoleg arloesol y BBC hefyd i ni lansio gwasanaeth HD ar Freeview i gyflwyno ansawdd ac effaith manylder uwch i'r cyhoedd drwy erial arferol. Gwerthwyd y miliynfed blwch Freesat, a daeth 'Canvas' – y prosiect i gyflwyno gwasanaethau rhyngrwyd fel BBC iPlayer i brif setiau teledu mewn cartrefi ledled y DU – yn llawer agosach at gyflawni ei nod.

Mae Freeview, Freesat a 'Canvas' oll yn enghreifftiau o'r BBC yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill – un arall o brif themâu'r flwyddyn. Mae'r BBC bob amser wedi chwarae rhan yn y gwaith o lunio a helpu i bennu safonau yn y diwydiant: heddiw rydym yn ffafrio mynediad cyffredinol a, lle y bo'n bosibl, dull o ddosbarthu a defnyddio'r cyfryngau sy'n seiliedig ar ffynonellau agored a safonau agored. Credwn y dylai gwasanaethau'r BBC a'r diwydiant yn gyffredinol gael budd o gwmpas a chryfder gwaith ymchwil a datblygu'r BBC. Ddeunaw mis yn ôl, pan amlygwyd partneriaeth fel thema am y tro cyntaf, cafwyd rhywfaint o amheuaeth ynghylch p'un a fyddem yn cyflawni hynny, neu'n wir, p'un a allem gyflawni hynny. Heddiw, fel yr eglura'r rhan hon o'r Adroddiad Blynyddol, mae rhestr gynyddol o bartneriaethau llwyddiannus i'w nodi.

ELENI DYWEDODD 82% O OEDOLION Y BYDDENT YN GWELD EISIAU'R BBC PE NA FYDDEM YN BODOLI MWYACH (FFYNHONNELL: BMRB).

Mae gan y BBC ran arweiniol yn y gwaith o sicrhau cyfnod pontio esmwyth o deledu analog i deledu digidol ledled y DU. Yn 2009/10, dechreuwyd go iawn ar y gwaith o newid i ddigidol, a hynny yn fwy esmwyth a chyda llai o broblemau nag yr oedd llawer wedi'u disgwyl. Edrychwn ymlaen at siarad â'r Llywodraeth newydd am ddau nod digidol pwysig arall: newid yn gyfan gwbl o radio analog i radio digidol a darpariaeth band-eang cyflymder uchel cyffredinol.

## GWNEUD I FFI'R DRWYDDED WEITHIO'N GALETACH

Dim ond os gallwn sicrhau bod pob dime goch a roddir i ni gan y cyhoedd i redeg y sefydliad yn cael ei defnyddio'n ddoeth y gallwn gyflawni potensial creadigol llawn y BBC. Dyna pam mai pedwaredd thema *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* yw gwneud i ffi'r drwydded weithio'n galetach – a pham ei bod yn ymrwymo'r BBC i sicrhau o fewn ychydig flynyddoedd bod 90c o bob punt o'r drwydded yn mynd tuag at wneud cynnwys eithriadol a'i gyflwyno i'r cyhoedd.

Mae costau seilwaith a gorbenion y BBC sydd ychydig o dan 12% o'n cyllideb wedi haneru ers y 1990au. Unwaith i'n trawsnewidiad digidol gael ei gwblhau rydym am leihau'r costau chwarter pellach i lai na 9% a defnyddio'r arian hwnnw i wneud mwy o raglenni gwych.



2



3


4


Ein nod yw dod â'r amrywiaeth ehangaf o raglenni sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn difyrru ar draws ein holl wasanaethau i'n cynulleidfaoedd.

1 *QI*.

2 BBC Chwaraeon ar gael drwy BBC Mobile.

3. *My Life in Verse* – Sheila Hancock, rhan o'n tymor Barddoniaeth ar draws y BBC.

4 *Wounded*.

"YN DILYN CYFNOD LLE Y DEFNYDDIWYD TECHNOLEG DDIGIDOL I YMESTYN GWASANAETHAU'R BBC A CHYNNIG MWY O DDEWIS I DALWYR FFI'R DRWYDDED, DYLEM BELLACH GANOLBWYNTIO BUDDSODDIAD AC EGNI CREADIGOL AR Y RHAGLENNI A'R PROSIECTAU HYNNY SY'N GWNEUD Y GWAHANIAETH MWYAF."

Rydym yn cydnabod, o ystyried y sefyllfa economaidd galed a wynebir ganddynt eu hunain, ei bod yn gwbl resymol i'r cyhoedd holi cwestiynau am faint y mae'r BBC yn ei dalu i'w dalent orau ar yr awyr a'i uwch reolwyr. Rydym ni – a'r cyhoedd – am gael y bobl orau o flaen y camera a'r microffon yn ogystal â'r tu ôl iddynt; os byddwn yn methu â denu a chadw'r dalent orau yn y byd, bydd ansawdd a gwreiddioldeb y gwasanaethau a gynigiwn i'r cyhoedd yn gostwng. Ond mae'n rhaid cymedroli realiti'r farchnad ar gyfer talent yn y cyfryngau gyda dealltwriaeth glir bod y BBC yn wahanol a'i bod yn fraint gweithio i'r BBC. Os byddwch yn gweithio yma, boed hynny fel seren ar yr awyr neu fel uwch arweinydd, dylech ddisgwyl ennill llawer llai nag y byddech yn ei ennill yn gwneud gwaith tebyg i ddarlledwr masnachol.

Dyna pam bod Ymddiriedolaeth y BBC wedi cymeradwyo dull newydd o dalu uwch reolwyr yn y BBC. Bydd cyfanswm y gwariant yn lleihau o leiaf chwarter, mae bonysau wedi'u hatal am gyfnod amhenodol ac mae cyflogau'r rhan fwyaf o'r uwch gyfarwyddwyr wedi'u rhewi am bedair blynedd. Mae cyfarwyddwyr y BBC eisoes yn cael 5% yn llai mewn termau gwirioneddol o gymharu â dwy flynedd yn ôl. Mae cyflog y dalent orau hefyd wedi dechrau gostwng. Bydd yn gostwng ymhellach yn y blynyddoedd i ddod – am y tro cyntaf, gallwch







1. *Simon King's Shetland Diaries*.

2. *Mrs Mandela*.

3. Fearne Cotton.

4 Mae pod-ddarlledu yn symud cynnwys allan o'r cartref er mwyn galluogi'r defnyddiwr i wrando unrhyw bryd, unrhyw le.

5 *The Thick of It* drwy BBC iPlayer.

olrhain hyn yn yn adran Rheoli'r Busnes yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i wella tryloywder mewn perthynas â chyflog a threuliau'r rheini sy'n rhedeg y sefydliad, gan sicrhau bod y BBC ar flaen y gad o ran datgelu o fewn y sector cyhoeddus. Dilynwyd arfer Ymddiriedolaeth y BBC o gyhoeddi treuliau uwch reolwyr yn rheolaidd. Hefyd, penderfynwyd cyhoeddi gwybodaeth fanwl am gydnabyddiaeth mwy na chant o uwch reolwyr yn rheolaidd.

## GOSOD FFINIAU NEWYDD AR GYFER Y BBC

Mae pumed thema *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* yn ymwneud â gosod ffiniau newydd. Mae'n gymharol glir bod y cyhoedd ym Mhrydain am sicrhau bod cwmpas a maint y BBC yn briodol i ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys i ddiwallu eu hanghenion amrywiol – mae'r syniad o gwtogi hyd yn oed y gwasanaethau na wneir llawer o ddefnydd ohonynt yn arwain at anesmwythyd gwirioneddol a dealladwy ymysg eu cefnogwyr. Ond mae gan y BBC hefyd gyfrifoldeb clir i sicrhau nad yw ei faint yn allgáu rhanddeiliaid eraill yn y cyfryngau. Mae'r ymdrech i sicrhau natur unigryw sy'n sail i *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* ynddo'i hun yn rhan o'r ateb.

Yn ogystal, rydym yn bwriadu nodi ffiniau clir fel bod cystadleuwyr yn gwybod beth y bydd y BBC yn ei wneud a beth na fydd yn ei wneud yn y dyfodol. Byddwn yn dangos mai ein cenhadaeth a'n pwrpasau cyhoeddus sy'n penderfynu ble y caiff ein ffiniau eu pennu. Mae'r eglurder hwn yn ategu ein penderfyniad i leihau ein gwariant ar raglenni a gaffaelwyd a'i gyfyngu i 2.5% o ffi'r drwydded ar y mwyaf. Byddwn yn rhoi terfyn uchaf ar ein gwariant ar hawliau chwaraeon. Byddwn yn canolbwyntio'r hyn rydym yn ei ddarparu ar BBC Ar-lein ar y mathau o gynnwys sydd fwyaf cydnaws â phwrpasau cyhoeddus y BBC. Rydym wedi cynnig i Ymddiriedolaeth y BBC, wrth i ni ganolbwyntio ein hymdrechion ar y we – gan wneud llai o bethau'n well – y dylem leihau ein gwariant ar y gwasanaeth 25%. Rydym yn bwriadu cyhoeddi cyfres o ymrwymiadau o ran y terfynau sy'n gysylltiedig â'n dyheadau golygyddol ar gyfer ein gwefan.

MAE 77% O OEDOLION YN DWEUD Y GELLIR YMFALCHÏO YN Y BBC FEL SEFYDLIAD (FFYNHONNELL: ICM).

## Y BBC A'R CYHOEDD


Nid yw pennu terfynau priodol ar gyfer y BBC yn golygu y dylai ein gwasanaethau ddod yn llai hyblyg. Mae'r cyhoedd yn gadarn o blaid y cam hyderus a gymerodd y BBC i'r oes ddigidol – o ran cyfleustra ac ansawdd gwasanaethau digidol y BBC ei hun a hefyd oherwydd mai'r BBC yn aml a'u hanogodd i samplu dyfeisiau digidol yn y lle cyntaf.


Bu'n flwyddyn llawn trafodaeth am ddyfodol darlledu'n gyffredinol a dyfodol y BBC yn benodol. Drwy ddarllen deunydd yn y wasg yn y DU, byddai'n ddigon hawdd tybio bod cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer y BBC yn pylu. Mewn gwirionedd, dengys tystiolaeth wrthrychol, mewn arolygon annibynnol yn ogystal ag arolygon a gynhaliwyd ar gyfer y BBC ei hun, bod balchder ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn y BBC wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf.

Credaf fod *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* yn dangos nad ydym yn cymryd yr ymddiriedaeth a'r balchder hwnnw'n ganiataol. Gwyddom fod yn rhaid i ni barhau i'w ennill – drwy fod yn agored ac yn onest amdanom ein hunain fel sefydliad, drwy wrando'n astud ar yr hyn sydd gan gynulleidfaoedd i'w ddweud am ein gwasanaethau, drwy fynd i'r afael â chamgymeriadau a phroblemau'n amserol ac yn effeithiol. Ond yn anad dim drwy sicrhau ein bod yn rhoi blaenoriaeth wirioneddol i ansawdd.

**Mark Thompson**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
16 Mehefin 2010




4


5

# RHOI ANSAWDD YN GYNTAF: ADEILADU AR DREFTADAETH GYFOETHOG



## 1920au

1922 Y Cwmni Darlledu Prydeinig yn cael ei greu. Y bwletin Newyddion rheolaidd cyntaf yn cynnwys araith gan yr arweinydd Ceidwadol Andrew Bonar Law, a'r sgorau biliards diweddaraf.

1923 Y darlledriad allanol cyntaf – *The Magic Flute* o Covent Garden. Sylwebaeth ar chwaraeon byw yn dilyn yn 1927. Papurau newydd yn ystyried radio fel cystadleuaeth ac yn gwrthod argraffu amserlenni rhaglenni, felly lansio'r Radio Times.

1926 Y Streic Cyffredinol yn gorfodi'r BBC i wrthdaro â'r llywodraeth dros annibyniaeth olygyddol.

1927 Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig yn cael ei sefydlu gan Siarter Frenhinol, gan sicrhau annibyniaeth olygyddol.



## 1940au

1940 Areithiau brwd Churchill i'r genedl.

1942 Darlledu *Desert Island Discs* am y tro cyntaf.

1945 Adroddiadau dadlennol Richard Dimblebly o wersyll-garchar Belsen.

1946 *Letter from America* gan Alistair Cooke – a ddaeth i ben ar ôl 2,869 o raglenni ym mis Chwefror 2004.

1946 Y rhaglenni teledu cyntaf i blant.

1949 Darlledu *Book at Bedtime* am y tro cyntaf: 'The Three Hostages' gan John Buchan.



## 1930au

1930 Y darlledriad cyntaf gan Gerddorfa Symffoni'r BBC.

1936 Gwasanaeth teledu'n cael ei lansio o Alexandra Palace. Radio i farchnad gyffredinol yn parhau'n gartref i gynnwys cyhoeddus allweddol fel araith ymddiswyddo Edward VIII.

1937 Daeth darllediad radio'r BBC o seremoni coroni Siôr VI â phobl ynghyd ar draws y DU i ddathlu.

1938 Gwasanaeth iaith dramor cyntaf y BBC: Arabeg.



## 1950au


1950 Y darllediad radio a theledu cyntaf o Dŷ'r Cyffredin; darllediadau teledu parhaol yn dechrau yn 1990.

1951 *The Archers*, yr opera sebon hynaf yn y byd.

1953 Seremoni coroni EM Brenhines Elisabeth II. Dros 20 miliwn o bobl ledled Ewrop yn gwylio'r digwyddiad ar y teledu.

1954 Ymchwiliad bywyd gwyllt cyntaf David Attenborough gyda *Zoo Quest*.

1958 Y BBC yn datblygu'r recordydd tâp fideo cyntaf, a'i ddangos ar *Panorama*.



## 1960au

1962 Teledu lloeren byw cyntaf o UDA i orsaf y BBC yn Goonhilly, Cernyw.

1967 BBC Radio 1 yn dechrau darlledu. Y record gyntaf a chwaraewyd oedd *Flowers in the Rain* gan The Move.

1969 Teledu chwyldroadol gan *Pot Black* – mewn lliw am y tro cyntaf, gan lansio snwcer fel diddordeb cenedlaethol; a gan *Monty Python's Flying Circus* – gan wthio ffiniau comedi yn y DU a chreu gair newydd yn sgil hynny: 'pythonesque'.



## 1970au

1971 Partneriaeth gyda'r Brifysgol Agored, gan helpu i wella mynediad i addysg brifysgol.

1972 *Newsround*, y rhaglen newyddion gyntaf erioed ar gyfer plant – a gyflwynwyd gan John Craven.

1974 Y rhaglen ddogfen pry-ar-y-wal *The Family* yn sefydlu teledu realaeth.




## 1980au

1980 Ar ôl 25 o flynyddoedd, mae *Plant mewn Angen* yn dod yn ddigwyddiad gyda'r nos cyfan ac yn codi £1filiwn am y tro cyntaf erioed. Ymddangosiad cyntaf Pudsey yn 1985.

1981 Priodas y Tywysog Siarl â'r Foneddiges Diana Spencer, y rhaglen fwyaf poblogaidd a ddarlledwyd erioed gyda chynulleidfa o 750 miliwn ar draws 74 o wledydd.

1982 Adroddiadau newyddion Brian Hanrahan o Ynysoedd y Falklands a'r ddrama ysgytwol *The Boys from the Blackstuff*, yn eu ffyrdd eu hunain, yn effeithio ar gymdeithas yn gyffredinol ym Mhrydain.




## 1990au

1995 Lansio DAB, gan ddefnyddio technoleg a chymorth gan Is-adran Ymchwil a Datblygu'r BBC.

1997 *Teletubbies* yn trawsnewid teledu i blant cyn oedran ysgol. Ac ar gyfer cynulleidfa ychydig yn wahanol, lansio gwasanaeth newyddion treigl y BBC ar y teledu.

1998 BBC Choice, sianel deledu ddigidol gyntaf y BBC. Caiff ei hailenwi'n BBC Three yn 2003.

1999 *Walking with Dinosaurs*, y rhaglen wyddoniaeth a gafodd y ganmoliaeth uchaf yn hanes Prydain (bron i 19 miliwn o wylwyr).




## 2000au

2002 Freeview yn lansio wrth i'r *BBC Proms* ddathlu 75 mlynedd.

2004 *Strictly Come Dancing* yn ysbrydoli pobl i ddawnsio ym mhob cwr o'r DU.

2007 BBC iPlayer yn trawsnewid y defnydd o'r cyfryngau, gyda 360 miliwn o eitemau yn cael eu lawrlwytho yn ystod ei dri mis cyntaf.



## 2010 AC YMLAEN

Bydd cynnwys o ansawdd uchel – yn cynnwys drama ar draws radio a theledu – yn parhau'n ganolog i arlwy'r BBC.

Yn amodol ar gymeradwyaeth Ymddiriedolaeth y BBC, bwriedir lansio Prosiect 'Canvas' – rhan o strategaeth rheoli newydd i sicrhau y canolbwyntir ar brif egwyddorion y BBC: *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf.*

Am ragor o wybodaeth am hynt y BBC ers 1922, ewch i www.bbc.co.uk/history.



# BBC: GYDA CHI UNRHYW BRYD, UNRHYW LE

MAE'R ADRAN HON YN RHOI CIPOLWG AR FLWYDDYN DDIWETHAF Y BBC AR RADIO, TELEDU AC AR-LEIN.

Nod y BBC yw cefnogi gwasanaethau, rhaglenni a chynnwys unigryw – gan ddarparu gwybodaeth ddiduedd, ffeithiau diddorol ac annisgwyl, neu adloniant sy'n swyno neu'n difyrru cynulleidfaoedd.

Yma rhoddwn ein hasesiad o'n perfformiad dros y 12 mis diwethaf, wedi'i rannu'n gyfleus fesul llwyfan cyflwyno, ynghyd ag adran ar wahân ar ein hallbwn newyddiaduraeth a rhai uchafbwyntiau i gynulleidfaoedd lleol yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon ac ar draws Lloegr.

Gan adeiladu ar ein cynlluniau *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*, rydym hefyd yn rhoi blas o rai o'r rhaglenni rydym yn gobeithio y bydd ein cynulleidfaoedd yn eu mwynhau y flwyddyn nesaf a thu hwnt i hynny.

Yn y llun gwelir Chris Evans yn cyflwyno ei sioe frecwast ar BBC Radio 2. Adolygwyd BBC Radio 2 gan Ymddiriedolaeth y BBC yn ystod y flwyddyn.



# PERFFORMIAD

# PWRPASAU'R BBC

## MAE CHWE PHWRPAS CYHOEDDUS Y BBC – SY'N SEILIEDIG AR EIN HEGWYDDORION I HYSBYSU, ADDYSGU A DIFYRRU – YN SAIL I BOPETH A WNAWN.



### DINASYDDIAETH

**Hysbysu:** mae gennym enw da ledled y byd am ohebu a dadansoddi'r byd sydd ohoni. Mae ein sianelau a'n gwasanaethau ledled y DU, rhyngwladol, cenedlaethol a lleol yn ymdrin ag amrywiaeth eang o straeon, materion a gwybodaeth wedi'u teilwra ar gyfer amrywiaeth eang o ddefnyddwyr.

Roedd gan sianel BBC News gyrhaeddiad wythnosol o 7.9 miliwn ar gyfartaledd y llynedd – a hon yw'r sianel newyddion 24 awr fwyaf poblogaidd yn y DU. Yn y llun gwelir Matthew Amroliwala a Jane Hill.





### DYSGU

**Addysgu:** rydym yn hyrwyddo ac yn cefnogi addysg ffurfiol ac anffurfiol i bob grŵp oedran – o blant cyn oedran ysgol i bobl hŷn sy'n hoff o syrffio'r we, ar draws teledu, radio a'r we.

Cyfres wedi'i hanimeiddio yw *Alphablocks* sy'n difyrru ein gwylwyr iau, ynghyd â'u helpu i ddatblygu sgiliau ymgysylltu a hyder wrth ddarllen a chreu geiriau.



### CREADIGRWYDD

**Difyrru:** rydym yn cynnig cynnwys unigryw ac arloesol sy'n difyrru ac yn ennyn diddordeb cynulleidfaoedd, yn cynnwys cerddoriaeth fyw a'r amrywiaeth mwyaf o ddrama radio, teledu ac ar-lein unigryw o blith yr holl ddarlledwyr yn y byd.

Cyflwynwyd disyfydrwydd ac agosatrwydd cynhyrchiad y cyfarwyddwr theatr Gregory Doran o *Hamlet* ar gyfer y Royal Shakespeare Company ar BBC Two ar ffurf ffilm a gafodd ganmoliaeth eang. Ar hyn o bryd rydym yn cyd-gynhyrchu dehongliad cyfoes o *Coriolanus* gan Shakespeare, gan Ralph Fiennes, sy'n cyfarwyddo am y tro cyntaf.

Am ddegawdau, mae cynulleidfaoedd yn y DU wedi mwynhau lefelau uwch o gynhyrchu cyfryngau domestig a gwariant y pen ar gynnwys nag unrhyw le arall yn y byd bron.

Mae ein cynulleidfaoedd wedi arfer â chael ffrwd o gynnwys gwreiddiol o safon uchel o Brydain sy'n adlewyrchu eu profiadau, yn adrodd eu hanesion ac yn cyflwyno straeon gan bobl eraill o lefydd eraill iddynt, ac maent yn disgwyl cael hyn yn barhaus.

Mae ein pwrpasau yn ein helpu i ganolbwyntio ar gynnig hyn i'n cynulleidfaoedd.



## CYMUNED

Rydym yn adlewyrchu amrywiaeth y DU yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol gan gynnig gwasanaethau yn Gymraeg, Saesneg a Gaeleg yr Alban, a rhaglenni mewn dros 30 o ieithoedd eraill. Mae arlwy unigryw y BBC ar draws ein portffolio yn golygu bod gennym rywbeth i bawb.

Mae ein sylwebaeth chwaraeon – yn enwedig pêl-droed – yn uno cymunedau drwy angerdd. Roedd gan *The Football League Show*, a ddangosir yma, 1.1 miliwn o wylwyr yr wythnos ar gyfartaledd yn ei blwyddyn gyntaf. Oddi ar yr awyr, rydym yn cyflwyno cyngherddau ac yn cynnal digwyddiadau ledled y DU – i gael mwy o wybodaeth am ein gweithgareddau allgymorth ewch i www.bbc.co.uk/outreach neu i wneud cais am docynnau i recordiadau ewch i www.bbc.co.uk/tickets.





## BYD-EANG

Mae ein gwasanaethau newyddion byd-eang yn darparu newyddion a dadansoddiadau annibynnol a berchir yn rhyngwladol, gan ymdrin â straeon allweddol fel y daeargryn yn Haiti a dyfodol Affganistan. Mae BBC Worldwide yn cynnig y cynnwys gorau o'r DU i gynulleidfaoedd newydd ledled y byd.

Lyse Doucet yn cyfweld â'r Prif Weinidog Gordon Brown a'r Arlywydd Hamid Karzai ar gyfer BBC World Service, a gohebodd ar ein cyfryngau eraill.



## DIGIDOL

Y BBC yw'r darparwr cynnwys ar-lein a ddefnyddir fwyaf yn y DU, ac mae 12.1 miliwn bellach yn gwrando ar ein gwasanaethau radio drwy lwyfannau digidol. Rydym yn cynnig help i'r miliynau o wylwyr 75 oed neu'n hŷn, pobl anabl neu bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal i newid i deledu digidol rhwng nawr a 2012.

Dathlodd *EastEnders* ei 25ain flwyddyn gyda rhaglen fyw, a sgîl-raglen newydd ar-lein *E20*, a ddangosir yma. Mae cynulleidfaoedd yn gwylio mwy a mwy o gynnwys drwy ddyfeisiadau a thechnolegau newydd, sy'n cyflwyno heriau a chyfleoedd newydd wrth i ni sicrhau bod ein cynnwys ar gael yn y modd mwyaf priodol.



# RADIO

"BU HON YN FLWYDDYN LLAWN UCHELGAIS CREADIGOL ANHYGOEL AR DRAWS RADIO'R BBC. YN ANAD DIM, RYDYM YN PARHAU I FOD YN LLWYR YMRWYMEDIG I WNEUD RHAGLENNI O'R SAFON UCHAF I'N GWRANDAWYR."
TIM DAVIE
CYFARWYDDWR, SAIN A CHERDDORIAETH



| | | |
|---|---|---|
| **CYRHAEDDIAD** | **66%** | Mae dwy ran o dair o'r holl bobl sy'n gwrando ar y radio (66%) yn gwrando ar radio'r BBC bob wythnos. |
| **ANSAWDD** | **27m** | Mae 27 miliwn o oedolion ledled y DU yn gwrando ar newyddion a materion cyfoes radio rhwydwaith y BBC bob wythnos. Mae miliynau yn rhagor yn gwrando ar ein gwasanaethau llafar lleol ac i'r gwledydd. Caiff ein gwrandawyr eu denu gan y disgwyliad o newyddiaduraeth, dealltwriaeth a dadansoddiad awdurdodol – ac mae eu hymddiriedaeth yn ein hannibyniaeth a'n didueddrwydd golygyddol yn golygu eu bod yn parhau i gael eu denu wrth iddynt lunio eu barn eu hunain ar faterion o bwys. |
| **EFFAITH** | **54** | Enillodd Radio'r BBC 54 o Wobrau Academi Radio Sony yn cynnwys Gorsaf y Flwyddyn y DU ar gyfer BBC Radio 5 live. |
| **GWERTH** | **1.6c** | Y gost fesul awr gwrandäwr ar gyfartaledd (cyfanswm cost rhaglenni wedi'i rhannu â nifer yr oriau gwrandäwr) ar draws ein portffolio o sianelau radio yw 1.6c (2009: 1.6c). Ein gwasanaethau drutaf, yn ôl y metrig hwn, yw'r gwasanaethau iaith genedlaethol pwysig ac unigryw BBC Radio nan Gàidheal a BBC Radio Cymru; y gwasanaethau rhataf – er gwaethaf faint o gerddoriaeth fyw y mae'r ddau yn ei gynnig – yw BBC Radio 2 a BBC Radio 1. |

MAE RADIO YN GANOLOG I GENHADAETH Y BBC I HYSBYSU, ADDYSGU A DIFYRRU CYNULLEIDFAOEDD GYDA RHAGLENNI A GWASANAETHAU GWREIDDIOL, O SAFON UCHEL AC SY'N CYNNIG GWERTH DA. Y LLYNEDD, GWRANDAWODD BRON I 60% O'R OEDOLION YN Y DU AR EIN GWASANAETHAU RHWYDWAITH YN UNIG BOB WYTHNOS AM 15.3 AWR AR GYFARTALEDD.

MAE'R LLWYDDIANT HWN YN DEILLIO O'N DYHEAD I GREU RHAGLENNI UNIGRYW SY'N YSBRYDOLI CYNULLEIDFAOEDD AR DRAWS EIN HOLL WASANAETHAU.

Mae gennym rôl wirioneddol unigryw yn cefnogi ac yn annog cyfranogiad mewn digwyddiadau diwylliannol a digwyddiadau chwaraeon ym Mhrydain. Mae radio'r BBC yn darlledu o amrywiaeth eang o'r digwyddiadau pwysicaf, o Ŵyl Jazz Cheltenham i Gyfres y Lludw, i filiynau o wrandawyr bob blwyddyn.

Dros y flwyddyn ddiwethaf cyflwynwyd newid sylweddol ar draws ein gwasanaethau radio. Ffarweliodd Terry Wogan â gwrandawyr ffyddlon ei sioe frecwast ar BBC Radio 2 a throsglwyddo'r awenau i Chris Evans ym mis Ionawr 2010; symudodd Simon Mayo i'r slot oriau cymudo ar BBC Radio 2, a chymerodd Richard Bacon yr awenau ar BBC Radio 5 live. Lansiodd BBC Radio 4 gyfresi pwysig fel *A History of the World in 100 Objects*, a lansiodd BBC Radio 1 ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol pwysig fel Bullyproof yn ogystal â chyflwyno talent newydd gwych i'w hamserlen yn ystod y dydd. Rydym hefyd yn buddsoddi i ddenu cynulleidfaoedd newydd i radio drwy wasanaethau arloesol fel Radio Player, y gwasanaeth arloesol ar draws y diwydiant, sydd â'r nod o uno cannoedd o orsafoedd radio yn y DU i greu profiad unigol ar-lein i ddefnyddwyr.

## NEWYDDION, DADANSODDI A MATERION CYFOES MANWL

Mae 27 miliwn o oedolion yn y DU yn gwrando ar raglenni newyddion a materion cyfoes y BBC bob wythnos ar draws radio rhwydwaith.

Mae cymysgedd pwerus o raglenni newyddiaduraeth awdurdodol a rhaglenni materion cyfoes llawn gwybodaeth yn ganolog i amserlen unigryw ac eang BBC Radio 4. Y llynedd, lansiodd *The Report*, maes materion cyfoes newydd gyda phob rhaglen yn canolbwyntio ar stori bwysig, ag amser ar gyfer darllediadau a dadansoddiadau manwl.

Tabl 2-3
**Oriau allbwn Radio Rhwydwaith y BBC yn ôl genre**

Mae'r tabl yn dangos cyfanswm nifer yr oriau a ddarlledir o bob genre o'n holl orsafoedd radio.

| | **2009/10** | 2008/09 |
|---|---|---|
| Cerddoriaeth | **40,436** | 40,526 |
| Newyddion a thywydd | **11,833** | 12,304 |
| Chwaraeon | **4,071** | 4,095 |
| Ffeithiol | **2,438** | 2,107 |
| Materion cyfoes | **2,155** | 2,093 |
| Drama | **4,784** | 4,471 |
| Y celfyddydau | **1,156** | 905 |
| Adloniant | **7,420** | 7,597 |
| Crefydd | **1,173** | 1,118 |
| Ysgolion | **128** | 128 |
| Plant | **1,414** | 1,484 |
| Cyflwyniadau | **1,969** | 2,000 |
| Rhaglenni eithrio i'r gwledydd | **292** | 286 |
| **Cyfanswm yr oriau** | **79,268** | 79,113 |

O ganlyniad i'r newidiadau yn nosbarthiad rhai rhaglenni adloniant mae'r cymariaethau wedi'u hail-ddatgan. Croesawyd arolwg y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o effeithlonrwydd cynhyrchu radio gennym y llynedd, a nododd fod rhai arbedion wedi'u cyflawni eisoes. Fodd bynnag, rydym yn benderfynol o wella effeithlonrwydd ymhellach, heb effeithio ar ansawdd ein rhaglenni. Byddwn yn adrodd ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â hyn i Ymddiriedolaeth y BBC y flwyddyn nesaf.

Dangoswyd ymrwymiad BBC Radio 5 live i adlewyrchu'r amrywiaeth ehangaf o leisiau, safbwyntiau a straeon yn bwerus yn ei darllediadau allanol, yn cynnwys adroddiadau Victoria Derbyshire ar fywyd bob dydd o Zimbabwe a'r wythnos a dreuliodd Peter Allen gyda'r lluoedd arfog yn Kandahar yn ystod etholiadau arlywyddol Affganistan. Darlledodd yr orsaf o Octoberfest yn Hull gan gyflwyno cymysgedd uchelgeisiol o newyddion, chwaraeon, trafodaethau ac adloniant o flaen cynulleidfaoedd byw; daeth Nicky Campbell, Simon Mayo, Colin Murray, Anita Anand, Shelagh Fogarty a Richard Bacon â'u rhaglenni i ganol y ddinas.

Mae BBC Radio 1, BBC 1Xtra a BBC Asian Network yn cynnig newyddion wedi'i deilwra i wasanaethu cynulleidfaoedd penodol, gan roi cipolwg unigryw ar feysydd sy'n berthnasol iawn i'w gwrandawyr.

Mae *Newsbeat* BBC Radio 1 yn canolbwyntio ar ddarparu newyddiaduraeth ac adroddiadau manwl o'r safon uchaf, gyda'i safbwynt unigryw o ran herio meysydd o ddiddordeb i wrandawyr ifanc. Lleolwyd gohebydd *Newsbeat* Sima Kotecha gyda Chorfflu Morol y DU a'r UD yn Affganistan am wythnos ym mis Mehefin a mis Tachwedd. Cafodd brofiadau go iawn ar y llinell flaen a'u rhannu ar y radio, mewn dyddiadur ar-lein ac mewn blog fideo.

Yn dilyn arolwg Ymddiriedolaeth y BBC o wasanaethau i gynulleidfaoedd iau, cyflwynodd BBC 1Xtra ddwy raglen newyddion 15 munud wedi'u modelu ar *Newsbeat*. Mewn rhaglen newyddion arbennig estynedig, aeth BBC 1Xtra i'r afael â throseddau sy'n gysylltiedig â drylliau a chyllyll gyda thrafodaeth fyw yn cynnwys ffrind gorau person ifanc yn ei arddegau a gafodd ei drywanu i farwolaeth yn ystod ymosodiad gan gang yn Llundain a Phennaeth Ymgyrch Trident yr Heddlu Metropolitanaidd. Ymchwiliodd yr adroddiad *Holiday Brides* ar BBC Asian Network i stori dynion o dras Asiaidd ym Mhrydain sy'n gadael eu gwragedd Indiaidd ar ôl eu priodi i gael eu gwaddol.

## CERDDORIAETH NEWYDD, FYW AC ARBENIGOL SY'N YSBRYDOLI

Rydym yn ymrwymedig i gefnogi'r amrywiaeth ehangaf o gerddoriaeth newydd, cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth arbenigol ac artistiaid cyfoes o Brydain. Mae'r ymrwymiad hwn yn ganolog i gymorth y BBC i'r economi creadigol ehangach ac yn cynnig rhywbeth unigryw i gynulleidfaoedd.


Detholwyd tîm amrywiol BBC Radio 1 o DJs arbenigol am eu profiad a'u henw da yn eu meysydd cerddoriaeth perthnasol. Mae ei hamserlen yn cynnwys sawl rhaglen arbenigol yn cynnwys Zane Lowe sy'n hyrwyddo cerddoriaeth newydd, Gilles Peterson sy'n cyflwyno jazz modern, a rhaglen pync Mike Davies. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae cerddoriaeth a gefnogir gan raglenni arbenigol wedi cyfrif am tua thri chwarter yr ychwanegiadau newydd i restr caneuon yr orsaf, sy'n golygu bod llawer o fandiau yn cael cynulleidfaoedd llawer mwy nag y byddent yn eu cael fel arall. Drwy ei hymrwymiad i gerddoriaeth arbenigol, mae BBC Radio 1 yn cyflwyno bandiau ac unigolion newydd mewn amrywiaeth llawer mwy eang o genres cerddorol na darparwyr eraill.

Y llynedd, darlledodd BBC Radio 2 dros 1,000 o oriau o gerddoriaeth arbenigol yn cynnwys canu gwlad ac Americana, cerddoriaeth werin, organ a bandiau pres. Mae'n darlledu o amrywiaeth eang o ddigwyddiadau yn cynnwys Gŵyl Werin Caergrawnt, Gwobrau Gwerin BBC Radio 2, Gŵyl Jazz Cheltenham, Unawdydd Pres Ifanc y Flwyddyn a'r Gwobrau Canu Gwlad.

1



2


3


Mae Radio'r BBC yn gartref i amrywiaeth ehangach o allbwn nag unrhyw ddarparwr arall yn y DU, yn cynnwys mwy o gerddoriaeth fyw a dramâu gwreiddiol nag unrhyw le arall, ynghyd â chomedi heb ei hail a newyddion, sylwebaeth a dadansoddiadau manwl. Yn y lluniau gwelir:

1 BBC Radio 1's *Big Weekend*.

2 Caroline Quinn o *PM* ar BBC Radio 4.

3 Ymddangosodd yr actor Timothy Spall yn *Playing with Trains* gan Stephen Poliakoff.

4 *The Now Show*.

Chwaraeodd *Craig Charles Soul & Funk Show*, *Stuart Maconie's Freak Zone* a rhaglen *Culture Clash* Don Lett ar BBC 6 Music draciau eclectig ac annisgwyl i wrandawyr ac arweiniodd DJs sy'n gerddorion fel Jarvis Cocker a Guy Garvey wrandawyr drwy eu detholiadau personol o ganeuon. Hefyd, lansiodd BBC Asian Network y rhaglen siartiau gyntaf erioed sy'n seiliedig ar werthiannau lawrlwythiadau ar gyfer cerddoriaeth Asiaidd.

Nod *BBC Introducing* yw darganfod a chefnogi artistiaid nad oes contract ganddynt ar draws y DU, a'r llynedd cyflwynodd dalent newydd ar lwyfannau penodol mewn gwyliau mawr yn cynnwys Glastonbury, Reading a Leeds, *Big Weekend* BBC Radio 1 a T in the Park. Cafwyd cerddoriaeth newydd hefyd ar raglen Huw Stephens ar BBC Radio 1, *100% Homegrown* ar BBC 1Xtra a Bobby Friction ar BBC Asian Network.

Mae ein sesiynau byw unigryw ar draws nifer o'n gwasanaethau yn rhoi cipolwg ar artistiaid pwysig y dydd. Mae *Live Lounge* BBC Radio 1 yn parhau i ddenu cymysgedd ysbrydoledig o artistiaid newydd fel Mumford & Sons a sêr sefydledig fel Lady Gaga i berfformio'n acwstig. Ehangwyd y fformat i BBC 1Xtra eleni i gwmpasu amrywiaeth ehangach fyth o artistiaid.

Parhaodd partneriaeth BBC Radio 3 gyda Gŵyl Jazz Llundain am ei wythfed flwyddyn gyda darllediadau ar draws yr amserlen, a gwaith newydd a gomisiynwyd yn cynnwys y gitarydd eiconig Bill Frisell yn perfformio gyda Cherddorfa Symffoni'r BBC yn y Barbican. Y llynedd drwy bartneriaeth BBC Radio 3 a Gŵyl WOMAD cyflwynwyd mwy na saith awr o ddarllediadau byw ac roedd gan BBC Radio 3 lwyfan arbennig yn y digwyddiad. Dathlodd cynllun New Generation Artists BBC Radio 3 ei 10fed pen-blwydd y llynedd, ac mae bellach wedi cefnogi dros 60 o gerddorion clasurol newydd. Roedd *BBC Proms* yn fwy llwyddiannus nag erioed, a chynhaliwyd dros 100 o gyngherddau. Cafwyd cynnydd o 11% yn nifer y bobl a brynodd docynnau am y tro cyntaf, a chynnydd o 32% yn nifer y bobl ifanc o dan 16 oed a fu'n bresennol.

## Y GORAU O RADIO LLAFAR

Mae rhaglenni dogfen yn ganolog i'n hallbwn, yn rhoi cerddoriaeth a diwylliant yn eu cyd-destun ac yn cefnogi ymrwymiad y BBC i annog cynulleidfaoedd i werthfawrogi a chwestiynu'r byd o'n cwmpas.

Adroddodd *Radio 1 Stories*, maes rhaglen ddogfen newydd, hanes artistiaid blaenllaw o'r DU a byd-eang yn cynnwys Jay-Z, The Killers a Gorillaz. Roedd *The Story of The Noughties* yn gyfres gymhellol a amlygodd ddigwyddiadau cerddorol, technolegol a diwylliannol allweddol y ddegawd ddiwethaf. Darlledodd BBC Radio 1 o Ŵyl Caeredin am y tro cyntaf gyda *Scott Mills: The Musical*, a ysgrifennwyd yn rhannol gan wrandawyr ac a oedd yn cynnwys enillydd cystadleuaeth agored yn chwarae'r brif ran. Cafodd arolygon pum seren a gwerthwyd pob tocyn ar gyfer y tair noson. Cyflwynodd ysbryd Gŵyl Caeredin i gynulleidfa newydd o filiynau, a gafodd gyfle i ddilyn datblygiad y sioe gerdd o'r prosesau creu i'r perfformiad ar-lein.


## AROLWG O STRATEGAETH Y BBC

Ym mis Mawrth 2010, cyhoeddodd Bwrdd Gweithredol y BBC strategaeth newydd a oedd yn argymell y dylid lleihau buddsoddiad mewn gorsafoedd radio arunig, a chanolbwyntio ar raglennu unigryw ar draws ein portffolio. Mae hyn yn effeithio'n benodol ar ddau wasanaeth rhwydwaith presennol:

- cynigiwyd y dylid cau BBC 6 Music – gan ganolbwyntio ein hallbwn cerddoriaeth boblogaidd ar BBC Radio 1, BBC 1Xtra a BBC Radio 2 sy'n gynyddol unigryw.
- cynigiwyd y dylid cau BBC Asian Network fel gwasanaeth cenedlaethol hefyd – gan ddefnyddio'r arian a gaiff ei arbed i wasanaethu cynulleidfaoedd Asiaidd yn well mewn ffyrdd eraill, er enghraifft drwy rwydwaith o wasanaethau lleol ar DAB a Medium Wave gyda rhai rhaglenni cenedlaethol wedi'u syndicetio.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth, ac mae'r cynigion hyn yn aros i gael eu cymeradwyo.



# PERFFORMIAD
# RADIO PARHAD













Ymysg ein cerddoriaeth eleni roedd darllediadau byw o *The Proms* a'r *Electric Proms*, yn ogystal â genres na chânt eu cwmpasu'n helaeth mewn llefydd eraill. Yn y lluniau gwelir:

1 Nanci Griffiths, enillydd y Wobr Cyflawniad Oes yng Ngwobrau Gwerin BBC Radio 2.

2 Jez Nelson o raglen jazz cyfoes BBC Radio 3.

Ymysg ein hallbwn llafar roedd:

3 Y sylwebydd pêl-droed Jacqui Oatley.

4 *Michael Foot: Champion of the Left*, rhaglen arbennig gan Donald Macintyre, cyn olygydd gwleidyddol The Independent ar fywyd a gyrfa wleidyddol cyn arweinydd y Blaid Lafur, a fu farw eleni.

5 Rhaglenni pynciol gyda Jeremy Vine.




## MAE 27 MILIWN O OEDOLION YN Y DU YN GWRANDO AR EIN RHAGLENNI NEWYDDION A MATERION CYFOES AR Y RHWYDWAITH BOB WYTHNOS – TUA THRI CHWARTER HOLL WRANDAWYR RADIO'R BBC.

Fel rhan o ffocws BBC Radio 2 ar natur unigryw, mae wedi cynyddu ei hymrwymiad i raglenni dogfen. Adlewyrchir amrywiaeth allbwn cerddoriaeth y rhwydwaith yn ei rhaglenni dogfen cerddorol a oedd yn cynnwys cyfres a gyflwynwyd gan Marc Almond yn ymchwilio i fywyd a gwaith un o gantorion-gyfansoddwyr mwyaf dylanwadol yr 20fed ganrif, Jacques Brel, sy'n dod o Wlad Belg, nad yw wedi cael llawer o sylw yn y gorffennol. Cafwyd dwy raglen ddogfen hefyd yn nodi 50 mlynedd ers marwolaeth Billie Holliday, a chyfres ddwy ran ar y cerddor a'r cyfansoddwr jazz eiconig Miles Davis.

Nododd BBC Radio 3 ddyddiadau pwysig yn hanes Purcell, Handel, Haydn a Mendelssohn. Anogwyd gwrandawyr i ailddarganfod y cyfansoddwyr drwy edrych arnynt mewn ffyrdd gwreiddiol, fel archwilio buddsoddiadau Handel yn Liquid Assets: *Tracing Handel's Thousands*.

Mae ymrwymiad BBC Radio 4 i allbwn llafar sy'n ennyn diddordeb heb ei ail – o gyfresi pwysig i feysydd celfyddydol fel *Woman's Hour* ac *In Our Time*. *A History of the World in 100 Objects*, a grëwyd mewn partneriaeth â'r Amgueddfa Brydeinig oedd un o'r prosiectau mwyaf uchelgeisiol a ddarlledwyd erioed, ac ysbrydolodd gyfres o raglenni a gweithgareddau ledled y DU mewn cydweithrediad â'n gwasanaethau radio lleol a radio'r gwledydd.

Nodwyd Black History Month ar BBC 7 gyda darllediadau o *To Sir With Love, The Color Purple* a *Listen to Your Parents* gan Benjamin Zephaniah.

## ADLONIANT UCHELGEISIOL AC UNIGRYW

Mae radio rhwydwaith y BBC yn llwyfan hyfforddiant hanfodol i awduron a digrifwyr newydd ac rydym yn ymrwymedig i gynnal rhaglenni drama a chomedi bywiog ar y radio ar draws ein hamserlenni. Rydym hefyd yn cynnig llwyfan i'r clasuron llenyddol, fel Shakespeare a Chekhov ar BBC Radio 3, ac i awduron sefydledig fel David Hare, yr oedd ei ddrama *Murder in Samarkand* yn un o uchafbwyntiau BBC Radio 4 y llynedd.

Un o'n digwyddiadau drama mwyaf uchelgeisiol y llynedd oedd cyflwyno saith nofel George Smiley John le Carré ar ffurf drama yn *The Complete Smiley*, gyda chast llawn sêr dan arweiniad Simon Russell Beale, a gynhyrchwyd gan BBC Scotland. Cyflwynodd BBC Radio 4 hefyd gyfres o ddramâu teulu yn cynnwys *The Wonderful Wizard of Oz* a *Matilda*.

Deilliodd drama BBC 7 *Chain Gang* o arbrawf lle roedd y gynulleidfa'n cymryd rhan. Anogwyd gwrandawyr i gyflwyno eu syniadau ar gyfer sut y dylai'r stori ddatblygu ar y wefan. Datblygwyd y syniadau dros gyfnod o dri mis a chawsant eu plethu i greu sgript gan yr awdur Robert Shearman, a arweiniodd at recordio'r bennod olaf yng Ngorsaf St Pancras, lle cafodd gwrandawyr wahoddiad i fod yn bresennol.

Roedd amserlen ddrama unigryw BBC Radio 3 yn cynnwys cynyrchiadau llawn o ddramâu llwyfan clasurol, fel *Henry VIII* gan Shakespeare a *John Fletcher*. Adlewyrchir ymrwymiad y rhwydwaith i waith ysgrifennu newydd yn *The Wire*, sy'n parhau i gynnig dramâu gwreiddiol, fel *People Snogging in Public Places*. Mae'r dramâu hyn yn ymgysylltu â'r byd cyfoes mewn ffyrdd gwreiddiol a heriol yn aml.

Yr uchafbwynt comedi ar BBC Radio 4 oedd dychweliad *I'm Sorry I Haven't a Clue* ar ôl dros flwyddyn oddi ar yr awyr. Mae sioe gêm gomedi newydd David Mitchell, *The Unbelievable Truth*, wedi sefydlu ei hun ac mae bellach yn ymddangos fel un o glasuron BBC Radio 4. Hefyd, cyflwynodd BBC 7 sioe sgetsys comedi pynciol newydd, *Newsjack*, a gyflwynir gan y digrifwr Miles Jupp ac sy'n cynnig y cyfle i awduron newydd ddychanu digwyddiadau'r dydd. Atgyfnerthodd BBC 7 ei phartneriaeth â Gŵyl Gomedi Caerlŷr drwy ddarlledu sioe ragarweiniol yr ŵyl.

Atgyfnerthwyd cyfraniad parhaus sylweddol BBC Radio 2 at gomedi radio y llynedd gyda dyfodiad Paul O'Grady, Alan Carr a Liza Tarbuck. Cyflwynodd BBC Radio 5 live *Seven Day Sunday* gan y digrifwr Chris Addison, a oedd yn cymryd golwg ddigrif ar straeon yn y newyddion.

## UNO CYMUNEDAU A'R GENEDL

Mae digwyddiadau cerddoriaeth fyw fel *The Proms, Electric Proms*, cyngerdd *Plant mewn Angen*, digwyddiadau chwaraeon mawr a *Big Weekend* BBC Radio 1 yn ffordd bwysig i ni uno ein cynulleidfaoedd. Rydym hefyd yn cyflwyno amrywiaeth eang o ddigwyddiadau diwylliannol a digwyddiadau chwaraeon i'n gwrandawyr.

Dathlodd BBC 1Xtra Live flwyddyn anhygoel i gerddoriaeth drefol o'r DU drwy gynnal digwyddiad cerddoriaeth fyw yn Arena Sheffield. Roedd yr holl gyfranwyr yn dod o'r DU, a mwynhaodd gwrandawyr BBC 1Xtra berfformiadau gan artistiaid a gafodd gefnogaeth gan yr orsaf yn ystod y blynyddoedd pan oeddent yn datblygu, ac sydd bellach wedi cael llwyddiant prif ffrwd.

Gweithiodd BBC Radio 5 live yn galed drwy gydol y flwyddyn i gyflwyno digwyddiadau chwaraeon mawr i'w gwrandawyr o bob cwr o'r DU a'r byd. Cafodd cyrhaeddiad cynulleidfaoedd BBC Radio 5 live sports extra hwb sylweddol yn sgîl *Test Match Special*, gan gyrraedd bron i filiwn o wrandawyr.

Unodd gŵyl syniadau Free Thinking BBC Radio 3 yn Gateshead feddylwyr, gwleidyddion ac artistiaid mewn deialog uniongyrchol â'r cyhoedd. Ymddangosodd unigolion sydd â phroffil uchel yn cynnwys Tanya Byron a Ken Livingstone. Roedd cyfranogiad y gynulleidfa yn ganolog i'r *BBC Proms* eleni pan lenwyd y Royal Albert Hall gyda chynulleidfa o chwaraewyr iwcalili a chwaraeodd gyda'r Ukelele Orchestra of Great Britain, yn cynnwys perfformiad o'r Ode to Joy gan Beethoven.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi amlygu materion penodol sy'n effeithio ar fywydau ein gwrandawyr mewn Ymgyrchoedd Gweithredu Cymdeithasol. Cymerodd ymgyrch *Living with Dementia* BBC Radio 2 olwg agosach ar fywyd y rheini sy'n byw gyda'r salwch a'u hanwyliaid. Unodd BBC Radio 1 a BBC 1Xtra i nodi'r Wythnos Gwrth-fwlio Genedlaethol gyda thymor gwrth-fwlio ar-lein o'r enw *Bullyproof*. Roedd y gorsafoedd yn rhan annatod o'r gwaith o uno'r prif safleoedd rhwydweithio cymdeithasol i fynd i'r afael â bwlio ar-lein am y tro cyntaf. Canfu gwaith ymchwil y bu'r trafodaethau ynghylch bwlio yn ddefnyddiol i bron i ddwy ran o dair o'r gynulleidfa, a bod 97% yn ymddiried yn y wybodaeth a roddwyd iddynt – un o'r rhesymau allweddol am hyn oedd ei bod ar y BBC.

# RADIO LLEOL A RADIO'R GWLEDYDD

Mae ein gwasanaethau radio lleol a radio'r gwledydd yn ein cysylltu â'n cymunedau. Mae darllediadau allanol yn bwynt cyswllt pwysig gyda chynulleidfaoedd, ac yn aml cânt eu hamserlennu i gyd-fynd â sioeau haf lleol, gwyliau a digwyddiadau cymunedol eraill.

## LLOEGR

Mae gwrandawyr yn dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi ein gallu i uno pobl sydd mewn angen mewn cyfnod o argyfwng, a chynnig cymorth, cyngor a help ymarferol: arweiniodd galwad gan wraig i BBC Northampton i ddweud bod angladd ei thad yn mynd i orfod cael ei ohirio am nad oedd y cyngor wedi graeanu ei ffordd at sawl galwad gan wrandawyr yn cynnig helpu. Mae hon yn enghraifft o'r llu o straeon a ddarlledwyd gennym ac y gwnaethom chwarae rhan ynddynt ledled y wlad yn ystod y tywydd garw.

A phan fydd straeon mawr yn torri, mae Radio Lleol y BBC yn lleoliad naturiol i gynnal trafodaethau â'r cyhoedd. Pan symudodd Kraft i brynu Cadbury, cynhaliodd BBC WM drafodaeth gyhoeddus barhaus ar y radio ynghylch dyfodol y cwmni a arweiniodd at drafodaeth fyw yn Bournville pan gyflwynodd y gynulleidfa eu cwestiynau i banel yn cynnwys yr Arglwydd Digby Jones.

Manteisiodd sawl prosiect eleni o 'gronfa effaith' newydd a alluogodd gorsafoedd i fynd i'r afael â darnau allweddol o newyddiaduraeth eglurhaol ac ymchwiliol naill ai'n unigol neu gyda gorsafoedd eraill: defnyddiodd *Facing the Cuts* arolwg gan y BBC o gynlluniau gwariant cynghorau fel ffocws ar gyfer cannoedd o straeon ar draws pob cyfrwng yn cynnwys trafodaethau ar yr awyr, map cymharol a chynnwys ar bob un o'n gwefannau.

Bob wythnos, mae'r cyrhaeddiad ar gyfer Radio Lleol y BBC yn Lloegr yn 7.0 miliwn o wrandawyr – yn cynnwys 2.5 miliwn o bobl nad ydynt yn gwrando ar unrhyw wasanaeth radio arall gan y BBC.

## YR ALBAN

Arweiniodd blwyddyn greadigol gan dimau radio BBC Scotland at sawl gwobr ac enwebiad, yn cynnwys gwobrau Aur ac Efydd yng Ngwobrau Academi Radio clodwiw Sony.

Archwiliodd y tymor o raglenni a barodd fis – *Under the Influence* – gydberthynas cymdeithasol a diwylliannol yr Alban gydag alcohol a ffocws y ddrama *Daniel & Mary* oedd problemau merch ifanc a oedd yn delio â'i rhieni sy'n gaeth i alcohol. Archwiliodd tymor arall – *30 Days in Europe* – gysylltiadau rhwng yr Alban a'r cyfandir.



1


4


2


3


Ar draws ein gwasanaethau radio a'n gwasanaethau i'r gwledydd, mae ein rhaglennu yn ein cysylltu â'n cymunedau, gan gynnig adloniant a gwybodaeth, a rhoi llwyfan cyfarwydd i straeon a phryderon gwrandawyr. Yn y lluniau gwelir:

1 Cathy MacDonald yn cyflwyno *Feasgar* ar BBC Radio nan Gàidheal.

2 *The Stephen Nolan Show* ar BBC Radio Ulster – mae gan Stephen raglen ar BBC Radio 5 live hefyd.

3 Beti George, a ddathlodd 25 mlynedd o *Beti a'i Phobl* ar BBC Radio Cymru eleni.

4 Y band lleol o Gaint Floors and Walls yn fyw ar *Introducing…* ar BBC Radio Kent.

Cafwyd cefnogaeth barhaus ar gyfer cerddoriaeth fyw yn yr Alban gyda darllediadau o RockNess, T in the Park, Celtic Connections, Gŵyl Jazz Ryngwladol Glasgow a chyngerdd olaf Homecoming yn yr SECC. Yng nghanol yr haf, lleolwyd *MacAulay & Co* a *Festival Café* yng Nghaeredin, gan ddarlledu o'r gwyliau yno.

Ychwanegodd comedi sglein i'n hamserlen gwyliau hefyd gyda'r gyfres newydd o *Desperate Fishwives* yn cael ei darlledu ar draws un wythnos yn y cyfnod cyn y Nadolig. Canfu'r sioe sgetsys hefyd gynulleidfa newydd ar BBC 7 ac mae bellach yn cael ei ffilmio ar gyfer rhaglen beilot ar y teledu ar gyfer BBC Scotland.

Parhaodd timau cynhyrchu yn yr Alban i ddarparu rhaglennu ar gyfer rhwydweithiau radio'r DU. Cafwyd canmoliaeth i ddramâu *The Complete Smiley* gan BBC Radio 4, yn seiliedig ar waith John le Carré, ac *A Very Scottish Homecoming, Who Pays for the High Road North?* a *Johnny Cash of Easter Cash*.

Cyflwynodd BBC Radio nan Gàidheal raglen bynciol ddyddiol newydd a ddarlledir amser cinio o'r enw *Feasgar*, ac mae gan *Siubhal gu Seachd*, y dilyniant ar gyfer oriau cymudo a gafodd ei ail-lansio, bresenoldeb ar Facebook bellach, sy'n hwyluso cyfranogiad y gynulleidfa.

Newidiwyd ffocws rhaglen nos Lun y maes cerddoriaeth boblogaidd *Rapal* i dargedu cynulleidfa ifanc yn eu harddegau ac mae bellach yn cynnig llwyfan ar gyfer datblygu talent cyflwyno newydd o blith ei chynulleidfa.

## GOGLEDD IWERDDON

Mae BBC Radio Ulster/Foyle yn cynnig fforwm poblogaidd ar gyfer trafodaeth a llwyfan pwysig ar gyfer talent ysgrifennu a chynhyrchu.

Gwnaethom nifer o newidiadau i fformat ac arddull ein rhaglenni newyddion yn ystod y flwyddyn. Newidiodd sawl cyflwynydd eu rôl a symudodd *Inside Politics* a *Seven Days* i slotiau newydd yn yr amserlen. Cyflwynodd darllediadau allanol *Good Morning Ulster* bobl a straeon o gymunedau ledled Gogledd Iwerddon a chymerodd *Talk Back* ac *Evening Extra* gyfeiriad golygyddol newydd. Bu ymateb cychwynnol y gynulleidfa i'r newidiadau hyn yn gadarnhaol.

Archwiliwyd themâu hanesyddol mewn cyfres newydd o raglenni fel rhan o *A Short History of Ireland* gan Jonathan Bardon ac archwiliad William Crawley o ddigwyddiadau ac etifeddiaeth Diwygiad 1859. Archwiliwyd ein treftadaeth llenyddol yn *The Book of Irish Writers* ac adolygwyd cyhoeddiadau mwy diweddar yn *The Book Programme*. Cyflwynwyd datblygiadau yn y celfyddydau yn y DU a ledled y byd yn *Arts Extra* a oedd hefyd yn cynnwys rhaglenni arbennig ar awduron a cherddorion lleol.

Cyflwynwyd cerddoriaeth arbenigol ar draws amrywiaeth o raglenni. Bu Colum Sands yn datgloi archifau'r BBC i gyflwyno ein recordiadau o gerddoriaeth werin draddodiadol a chyfoes i gynulleidfa newydd yn *The Festival Sessions* a chyflwynodd ATL waith bandiau newydd. Adlewyrchodd *Pipes and Drums* gyda Tommy Millar a *Strike Up the Band* y broses o greu cerddoriaeth yn y gymuned ac mae gennym uchelgais i ehangu ein rhaglennu yn y maes hwn i gynnwys corau lleol, cerddoriaeth gosbel a chyfoes.

Datblygodd *A Kist o Wurds* ei ddarllediadau o straeon a digwyddiadau yn iaith Albanaidd Ulster a ategwyd gan raglenni ar Burns Night a Hogmanay. Ymysg ein hallbwn yn yr iaith Wyddelig roedd *Blas* a darllediadau *An Domhnach Mor* o'r pencampwriaethau chwarae hyrli a phêl-droed cenedlaethol.

## CYMRU

Mae newyddion a materion cyfoes wrth wraidd allbwn BBC Radio Wales, gyda *Good Morning Wales* a *Good Evening Wales* yn rhoi dadansoddiadau manwl o faterion lleol, cenedlaethol, y DU a rhyngwladol. Ehangwyd yr allbwn awdurdodol hwn wrth i *Eye on Wales*, *Wales@Work* a *Called to Order* ddarparu darllediadau cryf o faterion cyfoes, busnes a materion gwleidyddol.

Rhoddwyd llawer o sylw i ddarllediadau chwaraeon yn ein hamserlenni eto. Yn ogystal â darllediadau helaeth o gemau'r Chwe Gwlad, darparwyd sylwebaeth ar rygbi Cwpan Heineken, a gemau pêl-droed Caerdydd, Abertawe a Wrecsam. Ym mhrawf cyntaf Cyfres y Lludw yng Nghymru cyflwynwyd rhaglenni rhagarweiniol, darllediadau a dadansoddiadau ar draws ein holl allbwn.

Ar Ddydd Gŵyl Dewi, cynigiodd *Wales Music Day* cyntaf BBC Radio Wales amrywiaeth o berfformiadau byw yn cynnwys rhai o dalentau gorau Cymru. Adeiladodd yr allbwn uchelgeisiol hwn ar ein sesiynau *Evening Show* byw (ffilmiwyd llawer o'r rhain ac maent ar gael ar-lein).

Mewn byd digidol cystadleuol BBC Radio Cymru yw'r orsaf radio fwyaf poblogaidd o hyd ymysg siaradwyr Cymraeg. Ymysg yr uchafbwyntiau roedd y gyfres fer *Unnos*, rhaglenni awr o hyd, wedi'u hategu gan wefan fywiog, a oedd yn herio grŵp o gerddorion i greu EP dros nos. Bu'r cyflwynydd Huw Evans yn dilyn hynt y noson a chwaraeodd y pedair cân newydd a gynhyrchwyd.

Ar radio rhwydwaith cyfrannodd ein tîm drama gyfres fawr at faes celfyddydol hirsefydledig BBC Radio 4 *Writing the Century* sy'n archwilio'r 20fed ganrif drwy gyflwyno dyddiaduron a llythrau pobl go iawn ar ffurf drama. Ac roedd ein hallbwn cerddoriaeth yn cynnwys datganiadau amser cinio, *The Choir, Radio 3 Requests* a rhaglen eang o wyliau Cerddoriaeth yng Nghymru. Parhaodd *Composer of the Week*, a gyflwynwyd gan Donald Macleod, i blesio cynulleidfaoedd gyda chyfweliadau prin gyda John Rutter, John McCabe a Stephen Sondheim.

I gael gwybod mwy am weithgareddau lleol, rhanbarthol neu wledydd y BBC – mae llawer o'n darllediadau allanol wedi'u hamserlennu i gyd-fynd â digwyddiadau lleol – neu i gael gwybod sut i gymryd rhan yn ein trafodaethau radio ac ar-lein, ewch i'n gwefannau:

www.bbc.co.uk/england.

www.bbc.co.uk/scotland neu www.bbc.co.uk/alba.

www.bbc.co.uk/wales neu www.bbc.co.uk/cymru.

www.bbc.co.uk/northernireland.

Tabl 2-4

**Radio'r BBC: oriau o'r gwledydd a'r rhanbarthau**

| | **2009/10** | 2008/09 |
|---|---|---|
| Llundain | **8,760** | 8,760 |
| Lloegr | **243,075** | 246,531 |
| Yr Alban | **14,694** | 14,860 |
| Cymru | **15,670** | 16,073 |
| Gogledd Iwerddon | **9,355** | 9,357 |
| **Cyfanswm** | **291,554** | 295,580 |

Mae'r mwyafrif helaeth o'n horiau radio yn fyw – sy'n ein galluogi i roi'r newyddion diweddaraf i'n gwrandawyr ar ddatblygiadau allweddol a materion y dydd.



# NEWYDDIADURAETH

"AR DRAWS TELEDU, RADIO AC AR-LEIN MAE'R BBC YN CYNNIG CYMYSGEDD GWIRIONEDDOL UNIGRYW O NEWYDDIADURAETH DDYDDIOL, DADANSODDIADAU WYTHNOSOL, GWLEIDYDDIAETH A SYLWEBAETH, GAN GWMPASU MATERION LLEOL A BYD-EANG MEWN FFORDD AWDURDODOL A DIDUEDD, A LLEISIO PRYDERON EIN GWRANDAWYR."

MARK BYFORD
DIRPRWY GYFARWYDDWR CYFFREDINOL




BBC NEWS | BBC PARLIAMENT | BBC GLOBAL NEWS | BBC LOCAL RADIO | BBC RADIO SCOTLAND | BBC RADIO NAN GÀIDHEAL | BBC radio cymru | BBC radio wales | BBC RADIO ULSTER | BBC RADIO FOYLE

**CYRHAEDDIAD** **35m**

Mae dros 80% o boblogaeth y DU yn defnyddio ein gwasanaethau newyddion bob wythnos, yn cynnwys 35 miliwn o oedolion sy'n gwylio ein newyddion yn ystod yr wythnos, 29 miliwn o oedolion sy'n gwrando ar y radio, a deg miliwn o bobl sy'n ymweld ar-lein. Yn fyd-eang, mae ein gwasanaethau newyddion yn cyrraedd 241 miliwn o oedolion – mwy nag unrhyw ddarlledwr rhyngwladol arall.

**ANSAWDD** **53%**

Ar straeon mwyaf y flwyddyn, nododd y mwyafrif o gynulleidfaoedd domestig – 53% – mai BBC Newyddion yw'r darparwr newyddion gorau yn y DU ar deledu, radio, ar-lein neu mewn print.

Ymysg y gwobrau eleni mae Rhaglen Newyddion y Flwyddyn RTS ar gyfer *The Ten O'clock News*; aeth gwobrau RTS eraill i *Panorama* am 'What Happened to Baby P' a *This World* ar gyfer 'Gypsy Child Thieves'.

**EFFAITH** **69%**

Dywedodd 69% o ymatebwyr yn y DU, pan ofynnwyd iddynt, fod eu dealltwriaeth o amrywiaeth eang o straeon roeddent wedi'u dilyn wedi gwella. Ymysg y straeon hyn roedd yr economi, y tywydd garw yn y gaeaf, daeargryn Haiti, yr Etholiadau Ewropeaidd a Lleol, treuliau ASau, a'r Etholiadau yn Affganistan, Pacistan ac Iran.

**GWERTH** **7.8c**

Y gost fesul awr gwyliwr ar gyfartaledd (cost gyfunol rhaglenni ar gyfer sianel BBC News a BBC Parliament wedi'i rhannu â chyfanswm nifer yr oriau gwyliwr) ar ein sianelau newyddion ar y teledu yw 7.8c (2009: 8.4c).

NEWYDDIADURAETH Y BBC SY'N DARPARU'R GWASANAETHAU NEWYDDION A MATERION CYFOES A GAIFF EU GWYLIO, Y GWRANDEWIR ARNYNT AC A DDEFNYDDIR FWYAF YN Y DU. ELENI PARHAWYD I GYRRAEDD DROS 80% O BOBLOGAETH OEDOLION Y DU BOB WYTHNOS, A CHYSYLLTODD GWASANAETHAU NEWYDDION BYD-EANG Y BBC Â 241 MILIWN MEWN WYTHNOS GYFFREDIN.

MAE'R HYN A GYNIGIR GENNYM YN CWMPASU AMRYWIAETH EANG AC UNIGRYW O ALLBWN A GWASANAETHAU NEWYDDION A MATERION CYFOES. RYDYM YN GWEITHIO AR LEFELAU LLEOL, CENEDLAETHOL, LEDLED Y DU A BYD-EANG, AR DELEDU, RADIO AC AR LWYFANNAU RHYNGWEITHIOL.

Mewn blwyddyn gref, nododd cynulleidfaoedd mai'r BBC oedd y darparwr newyddion gorau ar gyfer darlledu prif straeon y flwyddyn: economi'r DU a'r economi byd-eang, treuliau ASau, y rhyfel yn Affganistan, y tywydd garw yn ystod y gaeaf, ac ymgyrch yr Etholiad Cyffredinol.

Cyfunodd ein darllediadau adroddiadau cryf gan lygad-dystion â dadansoddiadau manwl – oll wedi'u hategu gan ein hymrwymiad i gywirdeb, annibyniaeth a bod yn ddiduedd.


## NEWYDDION CARTREF

Wrth i'r byd ddechrau adfywio ar ôl y dirwasgiad, cyflwynwyd adroddiadau gennym ar ei effaith ledled y DU gan ddefnyddio ein golygyddion a'n gohebwyr arbenigol. Ym mis Medi 2009, nododd y tymor *Aftershock* flwyddyn ers cwymp y banc buddsoddi Lehman Brothers, y methdaliad mwyaf mewn hanes corfforaethol. Yn ystod y tymor hwn myfyriodd rhaglen arbennig o *Newsnight* ar ganlyniadau gwleidyddol, ariannol a moesol y cwymp a gohebodd Gohebydd Busnes y BBC, Robert Peston, ar y canlyniadau byd-eang o Efrog Newydd.

Dangoswyd effeithiau amrywiol y dirwasgiad mewn rhannau gwahanol o'r DU gan raglen Special BBC News at Six, ar y diwrnod y daeth y dirwasgiad i ben yn swyddogol. Trafodwyd y stori o safbwynt lleol ar raglenni eithrio rhanbarthol a'r gwledydd. Ym mis Chwefror dadansoddodd ein menter radio lleol *Facing The Cuts* doriadau ariannol a dileu swyddi posibl gan lywodraeth leol dros y tair blynedd nesaf, a defnyddiwyd arolwg o arweinwyr awdurdod lleol yn helaeth ar draws holl lwyfannau'r BBC. Mae gohebwyr llywodraeth leol sydd newydd eu recriwtio ar radio lleol yn helpu i wella'r darllediadau hyn.

Roedd yn aeaf o dywydd garw. Dangosodd y darllediadau o'r llifogydd yn Cumbria, yn benodol, werth cydweithredu rhwng

**Siart 2-4**
**Cynulleidfaoedd rhaglenni newyddion ar y teledu ar gyfartaledd yn 2009/10 (miliwn)**



timau radio a theledu rhanbarthol Lloegr a rhaglenni ledled y DU. Dangoswyd lluniau pwerus yn ogystal â'r effaith ymarferol ac emosiynol ar y bobl yr effeithiodd yr argyfwng arnynt. Ac roedd yr eira a gafwyd ym mis Ionawr yn rhan o'r cyfnod oer hiraf a gafwyd yn y DU am bron i 30 mlynedd; cafodd miliynau broblemau teithio a chaewyd cannoedd o ysgolion. Drwy ein gwasanaethau lleol llwyddwyd i ddarparu gwasanaeth newyddion a gwybodaeth cynhwysfawr a gohebodd ein darllediadau Rhwydwaith, yn enwedig sianel BBC News, o bob cwr o'r DU. Denodd ein gwefannau lleol y nifer uchaf erioed o ddefnyddwyr a denodd ein rhaglenni am 6.30pm yn ystod yr wythnos ar BBC One eu cynulleidfa uchaf am o leiaf ddeng mlynedd ar 6 Ionawr 2010 – gyda 10.3 miliwn o wylwyr ar gyfartaledd.

Ac o'r gwledydd datganoledig, gohebodd sianel BBC News hefyd ar arwyddion cynnar cynnydd mewn gweithgarwch anghytunol yng Ngogledd Iwerddon, a darlledwyd cyhoeddiad swyddogol Prif Weinidog newydd Cymru yn fyw.

Darlledwyd rhyddhad bomiwr Lockerbie – stori genedlaethol a chanddi oblygiadau rhyngwladol – yn gynhwysfawr gan ein timau yn yr Alban, a chafwyd dadansoddiadau a sylwebaeth fanwl gan ein gohebwyr materion y byd. Rhoddodd Golygydd Gwleidyddol BBC Scotland, Brian Taylor, gyd-destun pwysig ar draws y rhwydwaith, ac enillodd Glenn Campbell, a dorrodd y stori, Wobr RTS am Sgŵp y Flwyddyn.

Darlledodd a dadansoddodd sianel BBC News hynt Ymchwiliad Irac, gyda rhaglenni arbennig hanner awr o hyd bob penwythnos yn dwyn ynghyd holl ddarllediadau'r wythnos ar yr Ymchwiliad.

## HYSBYSU DEMOCRATIAETH A DINASYDDIAETH

Stori wleidyddol fwyaf y flwyddyn, wrth gwrs, oedd y cyfnod yn arwain at yr Etholiad Cyffredinol, a gwmpaswyd yn fanwl ar draws ein rhaglenni a'n gwasanaethau.

Am y tro cyntaf mewn ymgyrch Etholiad Cyffredinol yn y DU, cafwyd cyfres o Drafodaethau darpar Prif Weinidogion, ar ITV a Sky yn ogystal ag un a gynhaliwyd ar BBC One gan David Dimbleby. Ymysg y darllediadau teledu eraill cyn Diwrnod yr Etholiad roedd Cyfweliadau Paxman ar BBC One ac arolwg dyddiol Jon Sopel yn *Campaign Show* y News Channel – a arweiniodd at ein *Election Show* ar 6 Mai. Gwyliodd mwy na 25 miliwn o bobl rywfaint o'n darllediadau byw o'r canlyniadau.

Gwerthfawrogodd cynulleidfaoedd ein harlwy ar-lein ar yr etholiad gyda'r cyfrifydd seddi etholiadol, blogiau ar yr Etholiad, y cyfleuster olrhain arolwg barn a'r mapiau etholaethol yn arbennig o boblogaidd. Ar y tudalennau *Where They Stand* cafwyd eglurhad o bolisïau'r pleidiau ar brif faterion yr ymgyrch. Cafodd y safle Newyddion ar-lein ei nifer uchaf erioed o ymwelwyr gyda thros 11 miliwn o ddefnyddwyr.

Ar radio lleol, yn Lloegr yn unig, cynhaliwyd dros 100 o drafodaethau etholaethol. Ac – fel rhan o'n cenhadaeth i hysbysu democratiaeth a mynd â'r materion at y bobl – roedd gennym gynnwys pwrpasol wedi'i anelu at bobl ifanc: ar BBC Three, cyflwynodd Dermot O'Leary *First Time Voters Question Time*, a chyfwelodd arweinwyr y pleidiau. Siaradodd *Newsbeat* BBC Radio 1 hefyd ag arweinwyr y pleidiau, ac ar *CBBC Election: Your Vote* gwelwyd plant yn cyfweld â gwleidyddion blaenllaw.

Cyn yr Etholiad Cyffredinol, y datblygiad gwleidyddol a ddilynwyd agosaf gan gynulleidfaoedd oedd y datguddiadau am dreuliau ASau. Ymdrechwyd i adrodd y ffeithiau mewn ffordd ystyrlon yn ogystal ag asesu goblygiadau gwleidyddol hirdymor y stori.

1


2


Rhoddwyd sylw cynhwysfawr i'r etholiadau lleol ac Ewropeaidd ym mis Mehefin 2009 ar draws holl lwyfannau'r BBC. Darlledodd *The Record: Europe* dri diwrnod yr wythnos ar sianel BBC News yn ystod yr etholiadau Ewropeaidd, ac roedd Dominic Hughes yn fyw ym Mrwsel ar gyfer ethol y Llywydd Ewropeaidd newydd. Roedd gan BBC Parliament gyfres o raglenni o Frwsel a Strasbwrg, a rhaglen arbennig yn edrych ar yr ymgyrch yn yr Almaen ac ym Mrwsel.

Arweiniodd y penderfyniad i wahodd arweinydd y BNP ar banel *Question Time* at gryn ddadlau. Gwnaed y penderfyniad oherwydd ein hymrwymiad i fod yn ddiduedd pan fydd hynny'n haeddiannol, a llwyddiant y blaid yn flaenorol yn yr etholiadau lleol ac Ewropeaidd ym mis Mehefin.

Lansiwyd *Democracy Live* ar BBC Ar-lein – rhan o'n hymrwymiad parhaus i feithrin dealltwriaeth well o'r sefydliadau democrataidd. Mae'n darparu darllediadau fideo byw ac ar alw o gyrff gwleidyddol cenedlaethol y DU a Senedd Ewrop, gan alluogi'r cyhoedd i ddilyn datblygiadau a thrafodaethau gan ddefnyddio'r dechnoleg fideo a chwilio ddiweddaraf. Mae *Democracy Live* yn wasanaeth sy'n unigryw i'r BBC – ni cheir arlwy arall tebyg unrhyw le arall yn y byd.

Dathlwyd deg mlynedd ers datganoli eleni. Cafwyd allbwn drwy gydol y dydd ar ben-blwydd Senedd yr Alban drwy raglenni a grëwyd gan BBC Parliament ac a ddarlledwyd gan BBC Scotland.

## Y NEWYDDION O DRAMOR

Yn rhyngwladol, y datblygiadau yn Affganistan a Phacistan oedd ar frig yr agenda. Daeth y ffin gogledd-orllewinol rhwng y gwledydd yn fwy peryglus nag erioed, gan gyflwyno her benodol i frand y BBC o newyddiaduraeth gan lygad-dystion.

Darlledodd BBC Newyddion wythnos o raglennu arbennig ym mis Mehefin 2009, ac archwiliodd *Today* ar BBC Radio 4 y strategaethau gwleidyddol, milwrol a diplomyddol gyda John Humphrys yn Affganistan a Phacistan. Cyflwynodd *Today* hefyd gyfres o adroddiadau gan David Loyn o ddwy ochr y ffin. Yn ogystal, cyfwelodd John Simpson â chomander newydd yr UD, y Cadfridog McChrystal, ac adroddodd *Panorama* ar stori fewnol y frwydr ar gyfer Swat. Cawsom ddarllediadau cynhwysfawr hefyd o etholiadau arlywyddol

## BBC CHWARAEON

Rydym yn darparu darllediadau chwaraeon byd-eang, rhwydwaith a lleol, o'r digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol mwyaf i sylwebaeth ar gemau pêl-droed lleol, ar draws teledu, radio a chyfryngau rhyngweithiol. Y llynedd darlledwyd uchafbwyntiau byw a rhai wedi'u recordio o 31 o chwaraeon gwahanol – bron i 2,000 o oriau ar deledu rhwydwaith ac ychydig dros 4,000 o oriau ar radio rhwydwaith yn unig. Cynigiodd ein gwasanaethau i'r gwledydd a'n gwasanaethau lleol hefyd ddarllediadau chwaraeon gwych. Ymysg yr uchafbwyntiau roedd:

- Fformiwla Un – am y tro cyntaf ar deledu'r BBC ers 1996. Gwyliodd dros hanner y boblogaeth hwn gyda ni.
- Yn Wimbledon gwelwyd Andy Murray yn chwarae o dan y to ar Magic Monday, a chafwyd y gynulleidfa uchaf erioed sef 11.8 miliwn.
- Cafwyd cynulleidfa lawn o dros 11,000 yn Sheffield ar gyfer *BBC Sports Personality of the Year.*
- Ac roedd ein darllediadau o Gemau Olympaidd y Gaeaf yn ddigwyddiad aml-lwyfan – mae ein paratoadau yn parhau ar gyfer Llundain 2012.
- Rhoddodd Cyfres y Lludw hwb i gyrhaeddiad BBC Radio 5 live sports extra i 963,000 o wrandawyr, sef y nifer uchaf erioed.

Caiff ein darllediadau o ddigwyddiadau eu hategu gan wasanaeth newyddion chwaraeon cynhwysfawr. Defnyddiodd 43% o boblogaeth y DU ein darllediadau Chwaraeon mewn wythnos gyffredin y llynedd, i fyny o 40% yn y flwyddyn flaenorol.

Affganistan gyda Gohebydd y BBC yn Kabul Ian Pannell yn canfod tystiolaeth o lwgrwobrwyaeth a thwyll yn y broses bleidleisio.

Cafwyd darllediadau arbennig ar bob llwyfan pan dynnwyd byddin Prydain o Irac, yn cynnwys lluniau byw o'r gwasanaeth coffa ar gyfer y 179 o filwyr o Brydain a fu farw yn ystod y gwrthdaro.











Ar deledu, radio ac ar-lein, mae ein newyddion a'n dadansoddiadau yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar gynulleidfaoedd – o'r penawdau a chwaraeon diweddaraf, i faterion cyfoes manwl. Yn y lluniau gwelir:

1 *Great Offices of State* Michael Cockerell.

2 *Newsnight* – dathlodd 30 mlynedd ar yr awyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

3 Y sylwebydd criced Mike Selvey.

4 Sianel BBC News, gyda'r cyflwynwyr Simon McCoy a Carrie Gracie.

5 John Pienaar, cyflwynydd *Weekend News* BBC Radio 5 live.








Mae newyddion a gwleidyddiaeth yn effeithio ar bobl, ond maent hefyd yn ymwneud â phobl. Yn y lluniau gwelir:

1 Y cyn Brif Weinidog Gordon Brown yn ystod *Prime Minister's Questions* ar BBC Parliament, hefyd ar sianel BBC News.

2 *Democracy Live* – adnodd ar-lein a lansiwyd eleni – gweler www.bbc.co.uk/democracylive.

3 Jane Corbin yn gohebu o Affganistan.

4 *First Time Voters' Question Time:* cadeiriodd Dermot O'Leary banel a gynhwysai ASau o'r tair prif blaid o flaen cynulleidfa o oedolion ifanc. Fe'i darlledwyd yn fyw ar BBC Three.

5 Prif gyflwynydd newyddion BBC London Riz Lateef yn gweithio gyda myfyrwyr ysgol yn ystod prosiect *BBC News School Report* eleni.





RYDYM YN CYNNIG NEWYDDION, GWLEIDYDDIAETH A MATERION CYFOES GWIRIONEDDOL AMRYWIOL – A BYDDWN YN CANOLBWYNTIO FWY FWY AR YR HYN SY'N EIN GWNEUD YN UNIGRYW.

Darparwyd darllediadau cynhwysfawr o'r daeargryn yn Haiti ym mis Ionawr, a'r ymgyrch cymorth a ddilynodd. Y gohebydd Matthew Price oedd un o'r cyntaf i gyrraedd y brifddinas Port-au-Prince, a llwyddodd i ohebu mewn modd sensitif a doeth, yn wyneb yr heriau dynol a thechnegol a wynebai'r tîm. Roedd 83% o'r rheini a ddilynodd y stori o'r farn ein bod wedi darparu nifer ddigonol o ddarllediadau, ac roedd yr un ganran o'r farn bod hynny wedi golygu bod ganddynt ddealltwriaeth well o'r stori. Lansiodd BBC World Service ei raglen gyntaf yng Nghreoliaith Haiti yn union ar ôl y daeargryn.

Yn ystod blwyddyn gyntaf Arlywydd Obama darlledwyd datblygiadau allweddol yn yr economi, hynt y mesur iechyd, a'r polisi tramor, yn cynnwys yr anghydfod ag Israel dros setliadau. Justin Webb, Golygydd Gogledd America, a gynhaliodd y cyfweliad cyntaf gan gyfryngau Prydain â'r Arlywydd newydd.

Cafodd mesurau llym llywodraeth Iran i ddelio â phrotestwyr ar ôl yr etholiadau yno eu dal ar ffonau symudol a chamerâu digidol. Parhaodd gohebydd Tehran Jon Leyne i ddarparu dadansoddiadau arbenigol o Lundain ar ôl penderfyniad Iran i'w ddiarddel. Roedd yr etholiad hwn yn enghraifft o'r modd y mae'r 'blogosffer' yn newid wyneb newyddiaduraeth: pan gaewyd llinellau cyfathrebu swyddogol, manteisiodd pobl ar gyfryngau cymdeithasol pan oeddent yn awyddus i rannu eu straeon. Derbyniodd BBC Persian wyth eitem o Gynnwys a Gynhyrchwyd gan Ddefnyddwyr bob munud, ac roedd angen edrych ar bob un yn fanwl i sicrhau cywirdeb.

Cyflwynodd sianel BBC News adroddiad o ddiwrnod cyntaf achos llys Radovan Karadzic yn Yr Hag, a chyflwynwyd rhaglen arbennig gan BBC News gan Ben Brown a ddarlledwyd ar yr un pryd ar BBC World News. Nododd y sianel hefyd ddau ddyddiad pwysig a oedd yn coffáu digwyddiadau 20 mlynedd yn gynharach: er mwyn dathlu cwymp Wal Berlin cafwyd darllediad byw gan Brian Hanrahan ym Merlin ac adroddiadau gan ein Golygydd Ewropeaidd Gavin Hewitt; a chafwyd cyfres o adroddiadau arbennig gan Chris Rogers a ailadroddodd hanes truenus y cartrefi plant amddifad yn Romania yr achosodd eu lluniau gymaint o ddychryn ledled y byd yn 1990. O ganlyniad i safon ac ehangder y straeon a ddarlledir tyfodd cyrhaeddiad sianel BBC News dros y flwyddyn i 7.9 miliwn bob wythnos (o 7.6 miliwn y flwyddyn flaenorol).

## DATBLYGU'R HYN Y GALLWN EI GYNNIG

Ym mis Gorffennaf y llynedd cyhoeddwyd ein cytundeb rhannu fideos newyddion, pan wnaethom ymrwymo am y tro cyntaf i rannu cynnwys newyddion ar ffurf fideos ar-lein gyda gwefannau prif bapurau newydd y DU. Erbyn hyn gall papurau newydd yn y DU roi rhywfaint o gynnwys newyddion y BBC ar ffurf fideo ar eu gwefannau eu hunain, er mwyn ategu eu deunydd newyddion eu hunain. Roedd The Daily Telegraph, Guardian, Independent a Daily Mail ymysg y gwefannau papurau newydd cyntaf i allu ymgorffori cynnwys newyddion y BBC ar ffurf fideo. Gall y papurau newydd ddewis deunydd fideo arbenigol sydd eisoes wedi'i greu ar gyfer y BBC ac a gyhoeddwyd ar BBC Ar-lein.

## CYFLWYNO'R BYD I'R BYD

Mae'r is-adran BBC Global News yn dwyn ynghyd radio BBC World Service, sianel deledu BBC World News, gwasanaethau newyddion ar-lein rhyngwladol y BBC, BBC Monitoring a'r BBC World Service Trust, elusen datblygu rhyngwladol y BBC.

Y llynedd, cydweithiodd BBC Global News yn agosach nag erioed o'r blaen gyda'r gwasanaethau domestig ar brif straeon y dydd. Ymysg yr uchafbwyntiau roedd:

- Nododd cyfres *Aftershock* o raglenni flwyddyn ers cwymp Lehman Brothers gan gynnig dimensiwn byd-eang ar gyflwr economi'r byd.
- Rhoddodd saith o ganolfannau BBC Global News eu safbwyntiau ar y gynhadledd ar y newid yn yr hinsawdd yn Copenhagen, gan helpu i egluro cymhlethdod y trafodaethau a'r tensiynau rhwng Tsieina, y gwledydd datblygol a'r Gorllewin.
- Cyflwynodd Owen Bennett-Jones gyfres o adroddiadau arbennig o Yemen ym mis Rhagfyr, a glywyd ar draws gwasanaethau newyddion byd-eang a domestig, ac a oedd yn cynnwys stori merch ifanc a oedd wedi priodi ac ysgaru erbyn iddi gyrraedd ei phen-blwydd yn 10 oed.
- Eglurodd timau BBC Urdu ddatblygiadau ym Mhacistan, gyda chyfweliadau gydag Ysgrifennydd Gwladol yr UD Hillary Clinton a darnau ar fyddin Pacistan ynghylch yr ymosodiadau yn erbyn y Taliban.

Y llynedd, cyrhaeddodd ein gwasanaeth newyddion rhyngwladol gynulleidfa fyd-eang sefydlog o 241 miliwn o bobl bob wythnos. Am ragor o wybodaeth ewch i wefan BBC World Service: www.bbc.co.uk/worldservice.

Tabl 2-5
**Cyrhaeddiad Wythnosol 2009***

| | 000oedd |
|---|---|
| Sianel BBC News | 7,896 |
| Sky News | 5,279 |

* Yn seiliedig ar gyrhaeddiad tair munud.

**Mewn ymateb i Arolwg Lambert o BBC News 24 yn 2002 cynigiodd y BBC ystyried y gydberthynas rhwng BBC News a BBC World News, yn cynnwys ymarfer meincnodi bob tair blynedd gan ymgynghorwyr annibynnol i gadarnhau bod y broses o gyfrifo costau ymylol yn parhau i'w chynnal yn unol ag arfer y farchnad a chanllawiau Masnachu Teg y BBC. Cwblhawyd yr ymarfer meincnodi diweddaraf ym mis Mai 2010 a chadarnhawyd bod hyn yn wir.**

Rydym yn cynnig arlwy newyddion, gwleidyddiaeth a materion cyfoes gwirioneddol amrywiol. Gan edrych i'r dyfodol, byddwn yn canolbwyntio'n gynyddol ar feysydd lle rydym yn wahanol i ddarparwyr eraill, neu lle gall partneriaethau ychwanegu mwy o werth i dalwyr ffi'r drwydded.

# NEWYDDIADURAETH AR DRAWS Y DU

Mae newyddiaduraeth leol y BBC yn chwarae rhan greiddiol ym mywyd y DU. Mae ein hymchwiliadau ar draws radio, teledu ac ar-lein yn rhoi goleuni ar faterion o bwys i'n cynulleidfaoedd, gan archwilio pobl a pholisi er budd y cyhoedd.

## GOGLEDD IWERDDON

Erys newyddion a materion cyfoes yn rhan ddiffiniol o allbwn teledu lleol BBC Northern Ireland.

Estynnwyd bwletinau *BBC Newsline* yn yr hwyrnos yn ystod dyddiau'r wythnos i ddeg munud o hyd a datblygwyd ein hallbwn newyddion ar y teledu ymhellach drwy gyflwyno bwletinau newydd ar benwythnosau. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i gynyddu nifer ein gohebwyr ardal, gyda gohebwyr newydd yng ngogledd Down, de Antrim a Tyrone. Ymysg y datblygiadau eraill dros y misoedd diwethaf roedd y broses o ddisodli *Let's Talk* gyda chyfres newydd – *Spotlight Special*. Bydd yn parhau i roi cyfle i gynulleidfaoedd holi gwleidyddion a gwneuthurwyr penderfyniadau blaenllaw a thrafod gyda hwy.

Nodwyd dyddiad coffáu 40 mlynedd ers dechrau'r Helyntion mewn cyfres o adroddiadau ar *BBC Newsline*. Darparodd sail hefyd ar gyfer *The Trouble with 40* a oedd yn cynnwys myfyrdodau gan genhedlaeth a oedd wedi cael eu magu yn ystod cyfnod o wrthdaro cymunedol.

Yn y cyfamser, edrychodd ymchwiliadau rheolaidd *Spotlight* ar bynciau yn cynnwys triniaeth celloedd bonyn, diflaniad y Teigr Celtaidd fel y'i gelwid; gwaith y Comisiwn a sefydlwyd i adfer cyrff 'y diflanedig'; materion sy'n gysylltiedig â gweithredoedd y cyn AS Iris Robinson; yr ymgyrch etholiadol Ewropeaidd; ac effaith y dirywiad economaidd ar fusnesau a chymunedau ledled Gogledd Iwerddon.

Roedd ein darllediadau gwleidyddol yn cynnwys cyfweliadau ac adroddiadau yn y meysydd *Hearts and Minds* a *The Politics Show* sydd mor boblogaidd ag erioed, a rhaglenni byw o gynadleddau'r prif bleidiau. Rhoddwyd sylw cynhwysfawr i waith y Cynulliad drwy *Stormont Live* a ddatblygwyd gyda lansiad *Democracy Live* sy'n cyflwyno darllediadau ar-lein byw o drafodaethau llawn yn Stormont a rhywfaint o'r gwaith a wneir gan bwyllgorau craffu'r Cynulliad.

## CYMRU

Ar draws ein hallbwn, ein nod oedd ymchwilio i Gymru fodern a chyflwyno adroddiadau arni, gan ddatgelu'r amrywiaeth cyfoethog ar draws cymdeithas a gwleidyddiaeth Cymru fodern.

Parhaodd ein hallbwn newyddion a materion cyfoes i gynhyrfu'r dyfroedd. Roedd *Who Cares in Wales* yn ymchwiliad pwysig i brosesau rheoleiddio cartrefi gofal, a datgelodd *Why Do You Hate Me?* y rhagfarn a wynebir gan



I



2




3



4



bobl ag anableddau weithiau. Cyflwynodd ein tîm materion cyfoes hefyd broffil llawn gwybodaeth o Brif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan, a oedd yn ymddeol.

Mae chwaraeon hefyd wedi cael sylw helaeth, gyda *Scrum V* yn parhau i ddarparu gwasanaeth eithriadol i ddilynwyr rygbi.

Fel rhan o'n hymrwymiad i ddarparu cynnwys i S4C, parhaodd ein rhaglen wleidyddiaeth wythnosol, *CF99*, i gynnig fforwm trafod cadarn, ac adeiladodd y meysydd materion cyfoes *Taro 9* a *Ffeil* (y bwletin newyddion dyddiol i blant) ar eu cryfderau a'u harbenigedd newyddiadurol unigryw. Darlledodd *Pawb a'i Farn* yn fyw o leoliadau ledled Cymru, gan roi cyfleoedd i gymunedau leisio barn ar faterion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol o safbwynt Cymreig.

Hefyd galluogodd y newid i ddigidol i ni ehangu gwasanaeth BBC Newyddion ar S4C i gynnig amrywiaeth ehangach o fwletinau.

## LLOEGR

Ar draws Lloegr, cefnogwyd ffocws ar effaith newyddiadurol – yn enwedig yn y bore ac yn ystod oriau cymudo – gan fuddsoddiad mewn gohebwyr llywodraeth leol ac ymrwymiad cryfach i gyflwyno radio lleol fel llwyfan ar gyfer trafodaethau cyhoeddus lleol.

Mae ein timau teledu rhanbarthol wedi parhau i dorri tir newydd, croesawu cynulleidfaoedd newydd a phennu agenda newyddiadurol sydd wedi sicrhau safle'r BBC fel y ffynhonnell fwyaf poblogaidd yn y DU ar gyfer newyddion lleol ar y teledu. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y gostyngiad yn ymrwymiad ITV i newyddion rhanbarthol lle mae rhanbarthau wedi uno i ffurfio ardaloedd darlledu llawer mwy.

Mae darllediadau BBC London ar nifer o straeon pwysig ynghylch maeryddiaeth Llundain wedi darparu cyfres o straeon unigryw. Anfonodd rhanbarth Gorllewin Canolbarth Lloegr dîm i'r Unol Daleithiau a gweithiodd gyda'r Golygydd Busnes, Robert Peston, i egluro'r broses o drosfeddiannu Cadbury gan Kraft.

Ac, wrth gwrs, rhoddodd ein timau ar draws y wlad y newyddion diweddaraf i ni wrth i'r wlad frwydro yn erbyn tywydd garw'r gaeaf, gan ddenu'r cynulleidfaoedd uchaf ers deng mlynedd ar gyfer newyddion teledu dyddiol Rhanbarthau Lloegr gyda 10.3 miliwn o wylwyr yn ystod anterth yr eira ym mis Ionawr. Yn ogystal, bob wythnos cynhyrchodd rhaglen y maes materion cyfoes *Inside Out* yn Lloegr ffilm ar sgil-effeithiau'r eira yn eu hardal. Cynhyrchodd tîm Gogledd Ddwyrain Lloegr ffilm hanner awr arbennig hefyd adeg y llifogydd yn Cumbria. Mae gan *Inside Out* gynulleidfa o tua 3.6 miliwn bob wythnos ar gyfartaledd.

## YR ALBAN

Cynyddodd cynulleidfa *Reporting Scotland* am yr ail flwyddyn yn olynol. Roedd y rhaglen fin nos, ynghyd â *Newsnight Scotland*, yn amlwg yn y darllediadau ar ryddhau bomiwr Lockerbie. Enillodd Glenn Campbell un o'r gwobrau Newyddion teledu mwyaf mawreddog, Gwobr y Gymdeithas Deledu Frenhinol am 'Sgŵp y Flwyddyn', am fod y cyntaf i adrodd y stori.

Nodwyd degawd ers datganoli gyda rhaglen ddogfen Brian Taylor, *Holyrood and the Search for Scotland's Soul*, a thrafodaeth fyw ar y teledu gyda Glenn Campbell.

Drwy gydol y flwyddyn bu'r Golygydd Busnes Douglas Fraser yn dadansoddi'r argyfwng economaidd parhaus, gan ganolbwyntio'n benodol ar y sector ariannol yn yr Alban.

Mewn chwaraeon, ategwyd darllediadau byw o'r Scottish Cup a'r CIS Insurance Cup, a'r gêm gymhwyso rhwng Norwy a'r Alban yng Nghwpan y Byd, gan uchafbwyntiau wythnosol o'r SPL ar *Sportscene* a chlipiau ar-lein o'r holl golau. Darlledwyd Gêm Derfynol Cwpan Camanachd Shinty yn fyw ar y we, gan olygu y gellid ei gweld yn fyd-eang. Mewn rhannau eraill o'r amserlenni, cafodd ralio, bowls, athletau, golff, rygbi a chriced eu darlledu eleni.

Ym mis Medi dathlodd BBC ALBA ei blwyddyn gyntaf ar yr awyr, ar deledu lloeren. Bydd ei rhaglen newyddion unigryw *An Là* yn parhau i ddarparu ffocws ar gyfer newyddion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Bydd *Eòrpa*, sydd hefyd ar gael ar BBC Parliament, yn parhau i asesu materion cyfoes Ewropeaidd ar gyfer y gymuned Gaeleg ei hiaith.

1 Mae Vaughan Roderick ar BBC Cymru a'i gydweithwyr ar draws y DU yn dod â newyddion, sylwadau a dadansoddiadau diduedd o ymgyrchoedd yr etholiadau lleol, cyffredinol ac Ewropeaidd.

2 Ein bwletinau fin nos ar ddyddiau'r wythnos – fel *BBC Newsline* ar BBC Northern Ireland – yw'r rhaglenni newyddion dyddiol mwyaf poblogaidd yn y DU, gyda chynulleidfa gyfunol o 5.2 miliwn o wylwyr.

3 Kirsty Wark yn cyflwyno *The Review Show* gan BBC Scotland, rhaglen drafod bord gron ar y celfyddydau a diwylliant.

4 Cyflwynydd sioe frecwast BBC Essex ar ddyddiau'r wythnos Ray Clark yn rhannu cyfrinachau gyda myfyrwyr ysgol yn ystod prosiect *BBC News School Report* eleni.

I gael gwybod mwy am weithgareddau lleol, rhanbarthol neu wledydd y BBC – neu i gael newyddion a gwybodaeth leol arall – ewch i'n gwefannau:

www.bbc.co.uk/england.

www.bbc.co.uk/scotland neu www.bbc.co.uk/alba.

www.bbc.co.uk/wales neu www.bbc.co.uk/cymru.

www.bbc.co.uk/northernireland.



# TELEDU

"RYDYM YN PENNU SAFONAU NEWYDD MEWN ANSAWDD A GWREIDDIOLDEB, GAN GREU'R CYNNWYS GORAU YN Y BYD AR GYFER TELEDU AC AR-LEIN, BLE BYNNAG A PHRYD BYNNAG Y BYDD CYNULLEIDFAOEDD AM WYLIO."

JANA BENNETT
CYFARWYDDWR, GWASANAETHAU GWELEDOL Y BBC



**CYRHAEDDIAD** **85%**

Mae 85% o'r DU yn gwylio teledu'r BBC bob wythnos – mwy nag unrhyw ddarlledwr teledu arall – am bron i ddeg awr bob wythnos ar gyfartaledd.

**ANSAWDD** **71%**

Cafodd dros ddwy ran o dair o raglenni (71%) ar draws BBC One, Two, Three a Four sgôr gwerthfawrogiad uchel o 80+, sy'n dangos faint mae cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi ein cynnwys.

Enillodd rhaglen ddogfen BBC Three *Women, War, Weddings and Me* y sgôr gwerthfawrogiad uchaf erioed ar gyfer rhaglen ffeithiol ar unrhyw sianel wedi'i recordio.

**EFFAITH** **200+**

Cafodd gwneuthurwyr rhaglenni yn gweithio i deledu'r BBC dros 200 o wobrau mawr y llynedd. Ymysg yr uchafbwyntiau cafodd Stephen Fry gydnabyddiaeth arbennig; enillodd *Wallander* Kenneth Branagh saith gwobr; gwobrau BAFTA i Carey Mulligan ar gyfer *An Education* BBC Film, a *Fish Tank* gan Andrea Arnold; gwobrau Emmy i Ben Whishaw ar gyfer *Criminal Justice* ac i Julie Walters am ei pherfformiad yn *A Short Stay in Switzerland*.

**GWERTH** **7.0c**

Y gost fesul awr gwyliwr ar gyfartaledd (cyfanswm cost rhaglenni wedi'i rhannu â nifer yr oriau gwyliwr) ar draws ein portffolio o ddeg gwasanaeth teledu ar draws y DU yw 7.0c (2009: 7.1c).

HANNER CAN MLYNEDD O DDARLLEDU O'R GANOLFAN DELEDU – CARREG FILLTIR BWYSIG AR GYFER EIN GWASANAETHAU MEWN BLWYDDYN LLE CAFODD TALENT BRYDEINIG AR Y BBC LWYDDIANT EITHRIADOL.

MEWN BYD LLE CEIR DEWIS CYNYDDOL, MAE EIN RHAGLENNI YN PARHAU I SYNNU A DIFYRRU CYNULLEIDFAOEDD YM MHOB MAN, GAN SICRHAU MAI TELEDU'R BBC YW'R DARLLEDWR A GAIFF EI WYLIO A'I WERTHFAWROGI FWYAF YN Y DU.

Drwy weithio drwy saith canolfan cynhyrchu ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a chydweithio â channoedd o gwmnïau cynhyrchu annibynnol – o'r prif gwmnïau annibynnol byd-eang i gynhyrchwyr arbenigol unigol – rydym yn parhau i wella ein henw da am ragoriaeth ledled y byd.

## DWYN POBL YNGHYD

BBC One yw hoff sianel Prydain. Mae'n ganolog i'n bywyd diwylliannol, ac yn rhan o'r sgwrs genedlaethol: dyma lle y byddwn yn dod ynghyd ar adegau o bwys.

Pan fydd y BBC yn buddsoddi ei holl egni creadigol mewn prosiect neu raglen, gall y canlyniadau gyffwrdd pobl mewn cymunedau ledled y wlad. O *Sport Relief* a her farathon anhygoel Eddie Izzard i gyngerdd Gary Barlow i *Plant mewn Angen*; o hyfforddwr y flwyddyn, Smithy, i Syr Alan yn dewis ei *Apprentice*; o anturiaethau hudol David Tennant fel y Doctor i dalent newydd, Matt Smith, a'i addewid eithriadol yn y rôl: roedd y rhain yn ddigwyddiadau darlledu mawr, y gwnaeth pob un ohonom eu rhannu a'u dathlu.

Mae chwaraeon hefyd yn uno cymunedau – o ddychweliad Fformiwla Un, uchafbwyntiau pêl-droed yn *Match of the Day* i aur Amy Williams yn Gemau Olympaidd y Gaeaf yn Vancouver, darlledwyd bron i 2,000 o oriau o chwaraeon y llynedd, yn cynnwys dros 275 o oriau mewn manylder uwch – yn cynnwys rhai darllediadau 'cyntaf' mewn HD fel y Grand National. Byddwn yn parhau i ddangos amrywiaeth talent chwaraeon ym Mhrydain a, chan edrych ymlaen at Gemau Olympaidd Llundain 2012, byddwn yn uno'r DU ar gyfer y digwyddiad chwaraeon mwyaf yn y byd.

**Siart 2-5**
**Cyrhaeddiad wythnosol teledu rhwydwaith o gymharu â'r prif grwpiau masnachol %**

| | 08/09 | 09/10 |
|---|---|---|
| Holl Deledu'r BBC | 84.6 | 84.9 |
| Cyfanswm sianelau eraill | 75.0 | 79.9 |
| Holl ITV | 75.1 | 74.8 |
| Holl Channel 4 | 66.7 | 66.1 |
| Holl five | 44.4 | 43.9 |
| Holl Sky | 35.2 | 39.3 |

MAE'R CYHOEDD YM MHRYDAIN AM I'R BBC FOD WRTH WRAIDD DIWYDIANNAU CREADIGOL Y DU, AC MAE HYNNY'N GOLYGU BOD YN FEIDDGAR, YN ARLOESOL AC YN LLAWN DYCHYMYG.

## CEFNOGI TALENT O BRYDAIN

Cafodd dramâu arwyddol ar BBC One, yn cynnwys *Criminal Justice* gan Peter Moffat ac *Occupation* gan Peter Bowker ganmoliaeth uchel iawn am ansawdd yr ysgrifennu, y cast a chreadigrwydd yr amserlennu. Hefyd yn ystod oriau brig, roedd *The Street, Small Island* a *Five Days* yn ddarnau trawiadol o deledu, gan ddangos enghreifftiau o'n talentau gorau.

Mae'r buddsoddiad mewn drama a wnaethom eleni wedi talu ar ei ganfed i'r cynulleidfaoedd amrywiol a wasanaethir gennym. Ar BBC Two, archwiliodd *Five Minutes of Heaven* yr hanes o drais yng Ngogledd Iwerddon; dychwelodd cyfres boblogaidd BBC Three, *Being Human*, gan gyflwyno byd yn llawn bleidd-ddynion, fampirau ac ysbrydion; a chyflwynodd y tymor *Women We Loved* ar BBC Four, gyda thair o'r actoresau uchaf eu parch ym Mhrydain heddiw, Helena Bonham Carter, Jane Horrocks ac Anne-Marie Duff, bortreadau o rai o artistiaid gorau'r gorffennol.

Y BBC yw'r unig ddarlledwr teledu sy'n cynnig drama wreiddiol o'r DU yn ystod y dydd. Fel rhan o goffâd y BBC o 70 mlynedd ers dechrau'r Ail Ryfel Byd, cyflwynwyd y ddrama gyfnod *Land Girls* ar yr amserlen yn ystod y dydd, a rhoddodd *Moving On* gyfleoedd i awduron newydd, gyda chymorth un o dalentau mwyaf enwog y byd teledu, Jimmy McGovern.

Bu'n flwyddyn lwyddiannus iawn i BBC Films, sy'n rhan greiddiol o'r diwydiant ffilm ym Mhrydain gyda ffilmiau poblogaidd fel *An Education, Fish Tank* ac *In the Loop,* sgîl-ffilm o'r gyfres gomedi ar BBC Two *The Thick Of It*. Ynghyd â chefnogi talent newydd o Brydain, rydym wedi hyrwyddo ffilm nodwedd 3D gyntaf y byd y tu allan i'r UD gyda *StreetDance*.


## BUDDSODDI MEWN CREADIGRWYDD

Mae gennym ymrwymiad arbennig i gefnogi comedi o bob cwr o'r DU, gan ddathlu ein bywydau, ein synnwyr digrifwch a'n diwylliant. Cafwyd sawl llwyddiant mawr eleni: *Miranda, Life of Riley* gyda Caroline Quentin, dychweliad *Rab C. Nesbitt, Michael McIntyre's Comedy Roadshow, The Thick of It,* y comedi sefyllfa sy'n rhannol fyrfyfyr *Outnumbered*, *Gavin and Stacey, Getting On*: mae'r rhaglenni hyn yn codi'r safon i gomedi Prydeinig, gan ymgysylltu â chynulleidfaoedd â'u dull newydd a ffres o wneud i ni chwerthin.

Rydym hefyd wedi mynd i'r afael â rhaglennu celfyddydau gyda hyder ac egni newydd, gan greu tymhorau ac amserlenni rhaglenni ategol ar draws BBC Two a BBC Four ar bynciau mor amrywiol â barddoniaeth a chelf fodern.

Mae BBC Four wedi codi proffil ei hallbwn celfyddydol, gyda rhaglenni yn cynnwys archwiliad yr hanesydd celf Andrew Graham-Dixon o gelf o Rwsia a thymor yn dathlu can mlynedd

1


2


o'r Ballets Russes mewn rhaglen ddogfen a pherfformiad newydd. Mae niferoedd cynulleidfa'r sianel yn parhau i dyfu, wrth iddi arddel dull arbenigol a manwl digywilydd o fynd i'r afael â'r celfyddydau a diwylliant.

## BYD LLAWN RHYFEDDOD

Mae gan ddarlledu cyhoeddus ran hanfodol i'w chwarae wrth feithrin gwybodaeth a sicrhau bod gwyddoniaeth yn hygyrch i gynulleidfaoedd.

Ym mis Ionawr lansiwyd World of Wonder gennym, blwyddyn arbennig ar wyddoniaeth ar draws teledu, radio ac ar-lein, gyda chyfresi eithriadol ar BBC Two a BBC Four: *Chemistry: A Volatile History; How Earth Made Us* gan yr Athro Iain Stewart a *Wonders of the Solar System* gan Brian Cox.

Ar BBC One, dychwelodd *Bang Goes the Theory,* gan roi gwyddoniaeth ar brawf o flaen cynulleidfa fawr a llywio chwilfrydedd y gwylwyr i ddysgu mwy. Ategir y gyfres gan ymgyrch gan BBC Learning, gyda sioeau teithiol yn cyrraedd degau o filoedd o bobl ledled y wlad, ac arlwy helaeth ar-lein. Mae ein gwefannau *Bang* a *Lab UK* yn parhau i ddarparu lle unigryw, yn darparu gwyddoniaeth wreiddiol a hygyrch mewn cydweithrediad â'r gymuned gwyddoniaeth a channoedd o filoedd o'n gwylwyr.

Gwyliodd tua 11 miliwn o bobl y gyfres hanes naturiol nodedig, *Life*, bob wythnos. Ac ar BBC Two, teithiodd Stephen Fry a Mark Carwardine i rai o'r llefydd mwyaf anghysbell ar y ddaear i chwilio am anifeiliaid sydd ar fin diflannu, gan gynnig cyfle unigryw i'w cynulleidfa werthfawrogol yn *Last Chance to See*.

## SAFON AC EFFAITH

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynyddu effaith rhaglenni ffeithiol yn ystod oriau brig gyda lefelau uwch o safon, gwreiddioldeb ac arloesedd.

*Louis Theroux: A Place for Paedophiles,* ffilm emosiynol Rosa Monckton *When A Mother's Love Is Not Enough* a straeon bythgofiadwy Marchfilwr Andrew Allen ac Is-Gorporal Tom Neathway yn Affganistan yn *Wounded*. Roedd y rhain yn ddarnau heriol: rhaglenni dogfen a gyflwynwyd gyda gonestrwydd, dewrder ac argyhoeddiad.

Rydym hefyd yn cyflwyno straeon pynciol i gynulleidfaoedd amrywiol ar BBC One.

Mae *The One Show* yn denu 4.4 miliwn o wylwyr bum noson yr wythnos ar gyfartaledd, gan gyflwyno straeon o hanes i faterion cyfoes o bob cwr o'r DU. Ochr yn ochr â'n hymrwymiad i raglenni newyddion a gwleidyddiaeth sefydledig, rydym yn arloesi'n rheolaidd gyda fformatau newydd, gyda llwyddiannau fel *The Day The Immigrants Left* gan Evan Davis a *Famous, Rich and Homeless*, yn cyflwyno trafodaethau cyfoes i gynulleidfaoedd eang.

Ar BBC Two, cynigiodd *Andrew Marr's The Making of Modern Britain* ac ymchwiliad Simon Schama i *Obama's America* gipolwg amserol i gynulleidfaoedd, gan geisio gwneud synnwyr o'n gorffennol a'n presennol. A chyflwynodd *The Love of Money,* gyda'i amrywiaeth digymar o gyfraniadau llygad-dyst gan wneuthurwyr penderfyniadau allweddol, stori cwymp y banciau byd-eang yn fedrus, gan gynnig drafft cyntaf awdurdodol o hanes.

Mae BBC Three yn cynnig cynnwys ffeithiol arloesol, yn cynnwys uchafbwynt y llynedd *Adult Season* ar dyfu i fyny a'r rhaglen ddogfen eithriadol *The Autistic Me*, ynghyd â newyddion, drama ac adloniant digrif gan amrywiaeth o sêr ifanc y teledu fel Russell Howard. Mae'r sianel yn wirioneddol ennill ei phlwyf, ac mae ei chyfran o gynulleidfaoedd iau wedi cynyddu eleni, gan brofi pa mor barod y mae cynulleidfaoedd ifanc i ymgysylltu â deunydd anodd, os caiff ei gomisiynu gan ystyried eu buddiannau hwy.

Dilynodd *Women, Weddings, War and Me* Nel Hedayat sy'n 21 oed pan ddychwelodd i Affganistan am y tro cyntaf ers 15 mlynedd. Datgelwyd byd llawn rhagfarn, cyfyngiadau a thrais achlysurol yn erbyn merched, a chafodd y mesur gwerthfawrogiad uchaf erioed gan y gynulleidfa ar gyfer unrhyw raglen ffeithiol ar unrhyw sianel deledu a gofnodir.











Mae Teledu'r BBC yn cynnig yr amrywiaeth fwyaf amrywiol o raglenni o safon o blith holl ddarlledwyr y DU. Ymhlith yr enghreifftiau eleni roedd:

1 *Seven Ages of Britain* David Dimbleby.

2 *Chemistry: A Volatile History*, gyda'r Athro Jim Al-Khalili.

3 Comedi newydd eleni, *The Bubble*, a gyflwynir gan David Mitchell.

4 Yn *On Thin Ice* bu Ben Fogle, James Cracknell a enillodd fedal aur yn y Gemau Olympaidd a'r meddyg o Fryste Ed Coats yn rasio i Begwn y De.

Y llynedd gwnaethom gaffael rhaglenni o 29 o wledydd, yn cynnwys:

5 Y ffilm o'r Almaen a enillodd wobrau *The Lives of Others*.


6 *Mad Men* – cyfres llawn steil a leolwyd yn Efrog Newydd yn y 1960au.

Fel rhan o *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf,* rydym wedi cynnig gostwng faint o arian a gaiff ei wario ar gaffaeliadau o £100miliwn i £80miliwn erbyn 2013.









1 *The Gruffalo.*

2 *A History of Christianity.*

3 *Wallander.*

4 *Ashes to Ashes.*

5 *Natural World.*

Dangoswyd y rhaglenni hyn mewn manylder uwch. BBC HD yw sianel HD fwyaf poblogaidd Prydain, yn cynnig cymysgedd o chwaraeon, adloniant a digwyddiadau, ynghyd â brandiau poblogaidd fel *Doctor Who, Top Gear, The Culture Show* a *Dragon's Den.* Mae nifer y gwylwyr wedi mwy na dyblu flwyddyn ar flwyddyn.





Tabl 2-6
**Ailddarllediadau BBC One yn ystod oriau brig**

| | |
|---|---|
| 2007/08 | 8.3% |
| 2008/09 | 8.2% |
| **2009/10** | **8.0%** |

Gostyngodd nifer ailddarllediadau BBC One yn ystod oriau brig unwaith eto flwyddyn ar flwyddyn.

Tabl 2-7
**Ailddarllediadau BBC Two yn ystod oriau brig**

| | |
|---|---|
| 2007/08 | 29.3% |
| 2008/09 | 32.6% |
| **2009/10** | **29.0%** |

Gostyngodd nifer ailddarllediadau BBC Two yn ystod oriau brig flwyddyn ar flwyddyn, ac mae bellach o dan 30% unwaith eto.

Tabl 2-8
**Oriau allbwn teledu rhwydwaith y BBC yn ôl genre**

Rhwydweithiau'r BBC sydd â'r amrywiaeth ehangaf o genres rhaglenni o blith holl ddarlledwyr y DU.

| | BBC One | | BBC Two | | BBC Three | | BBC Four | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2009/10** | 2008/09 | **2009/10** | 2008/09 | **2009/10** | 2008/09 | **2009/10** | 2008/09 |
| Ffeithiol | **2,154** | 1,993 | **1,785** | 1,854 | **1,541** | 1,427 | **915** | 991 |
| Addysg (ffurfiol) | **–** | – | **289** | 440 | **–** | – | **4** | 4 |
| Newyddion a thywydd | **2,407** | 2,330 | **902** | 850 | **32** | 32 | **6** | 12 |
| Materion cyfoes | **235** | 237 | **282** | 287 | **160** | 167 | **165** | 160 |
| Adloniant | **612** | 638 | **499** | 594 | **989** | 1,160 | **293** | 168 |
| Chwaraeon | **597** | 755 | **1,023** | 915 | **75** | 27 | **–** | – |
| Plant | **482** | 475 | **1,660** | 1,673 | **–** | – | **–** | – |
| Drama | **980** | 937 | **472** | 507 | **506** | 364 | **413** | 441 |
| Ffilm | **534** | 638 | **609** | 635 | **236** | 206 | **168** | 190 |
| Cerddoriaeth a'r celfyddydau | **97** | 91 | **317** | 315 | **79** | 72 | **1,272** | 1,255 |
| Crefydd | **97** | 104 | **37** | 34 | **–** | – | **40** | 25 |
| Parhad | **231** | 230 | **302** | 292 | **120** | 114 | **73** | 71 |
| **Cyfanswm oriau rhwydwaith (ac eithrio rhaglenni eithrio)** | **8,426** | 8,429 | **8,177** | 8,399 | **3,738** | 3,569 | **3,349** | 3,317 |

## RHAGLENNI PENIGAMP I BLANT

Mae ein gwasanaethau plant, sianelau CBBC a CBeebies, wedi parhau i atgyfnerthu eu safle blaenllaw mewn marchnad cynyddol gystadleuol. Mae'r sianelau hyn yn cynnig gwasanaeth unigryw, gyda thua 75% o'r holl raglennu yn cael ei gynhyrchu yn y DU. O newyddion a materion cyfoes sydd wedi ennill gwobrau i syniadau newydd mewn drama, comedi ac adloniant, rydym yn ceisio creu fformatau newydd yn rheolaidd er mwyn ysgogi rhai o'n cynulleidfaoedd mwyaf heriol. Mae CBeebies yn cyrraedd dros 40% o blant o dan chwech oed Prydain bob wythnos, a chyflawnodd Sianel Plant y Flwyddyn, CBBC, ei chyfran flynyddol uchaf o wylwyr ers ei lansio, gyda 28% o'r holl blant 6-12 oed yn gwylio bob wythnos.

Defnyddiodd *ZingZillas*, sy'n newydd i CBeebies, animatroneg o'r radd flaenaf, gan annog plant i archwilio'r ystod lawn o arddulliau cerddorol. Archwiliodd *Deadly 60*, cyfres ffeithiol newydd, ysglyfaethwyr ledled y byd, gan gyflwyno byd natur i blant mewn ffyrdd ffres a chyffrous, ac aeth *Horrible Histories* â phlant ar daith ddysgu llawn hwyl drwy'r oesoedd.

CBBC yw'r unig wasanaeth gyfan-gwbl aml-genre i blant, a chreodd dros 670 o oriau o raglennu gwreiddiol y llynedd. Mae rhaglenni arbennig *Newsround*, sy'n archwilio pynciau mor amrywiol â bwlio a diogelwch ar-lein, wedi dod yn rhan o ffabrig y sianel. A, thrwy ddrama, rydym yn cyflwyno straeon effaith uchel yn gyson. *Tracy Beaker Returns, Grandpa in My Pocket, The Sarah Jane Adventures*: mae'r cyfresi uchelgeisiol hyn ymhlith yr enghreifftiau o raglenni sy'n siarad â phlant am eu byd.

## UNRHYW BRYD, UNRHYW LE

Mae mwy a mwy o bobl yn mwynhau ein hallbwn mewn ffyrdd heblaw am y darllediad llinellol traddodiadol. Bu'n flwyddyn gref o dwf ar-lein. Dros y Flwyddyn Newydd, cawsom 17 miliwn o geisiadau ar gyfer ein rhaglenni ar BBC iPlayer sef y nifer uchaf erioed, ac mae rhaglenni fel *Top Gear* a *Doctor Who* bellach yn cael miliwn o geisiadau bob wythnos ar BBC iPlayer yn unig. Mae miliynau yn fwy yn pwyso BBC Red Button bob diwrnod i ryngweithio gyda chynnwys teledu'r BBC.

Rydym hefyd yn datblygu dulliau newydd o adrodd straeon ar-lein. Mae *E20*, safle newydd *Eastenders*, yn meithrin talent ysgrifennu ac actio newydd. Denodd y ddrama ar-lein ymhell dros dair miliwn o geisiadau erbyn diwedd mis Mawrth. Mae'r cynnyrch ar-lein arloesol *Wildlife Finder* a lansiwyd gan Syr David Attenborough, yn rhoi cyfle i bobl archwilio byd natur drwy gyfoeth o fideo, synau a straeon o raglenni nodedig yn cynnwys *Blue Planet, Planet Earth* a *Life*.

## EDRYCH YMLAEN

Gan edrych ymlaen, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn talent amrywiol o Brydain.

Mae BBC One yn datblygu dulliau newydd o gyflwyno rhaglenni materion cyfoes a ffeithiol poblogaidd, hanes naturiol, comedi ac adloniant. Bydd BBC Two yn comisiynu mwy o ddramâu o'r DU i adennill ei lle fel cartref teledu arwyddol a lleoliad ar gyfer BBC Films. Bydd BBC Three yn parhau i fodloni chwant pobl ifanc am straeon difrifol wedi'u hadrodd yn dda ac yn arbrofi gyda drama newydd i ysbrydoli cynulleidfaoedd iau. Ac ar BBC Four, byddwn yn gweld mwy o safbwyntiau cryf a ffyrdd newydd o edrych ar gelfyddydau a diwylliant, cerddoriaeth a gwyddoniaeth.

Ar deledu rhwydwaith mae'r strategaeth newydd *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* yn ymwneud â pharhau i ganolbwyntio ar natur unigryw. Ac felly ein haddewid i gynulleidfaoedd yw: gallwch ddisgwyl syniadau mawr a beiddgar a rhaglenni unigryw o safon.

# TELEDU CENEDLAETHOL A LLEOL

Bwriedir i'n canolfan ddarlledu newydd bwrpasol yn Salford agor ym mis Mai 2011. Bu gan y BBC bresenoldeb y tu allan i Lundain ers y dyddiau cynnar ac mae bob amser wedi ymdrechu i gyflwyno talent orau Prydain i'n cynulleidfaoedd yn lleol ac yn genedlaethol. Ond rydym am wneud mwy i'n helpu i adlewyrchu pob rhan o'r DU yn well – ac mae angen i ni wneud hynny.

## CYMRU

Roedd hon yn flwyddyn hanesyddol, gan mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i newid yn llwyr i deledu digidol: a chododd nifer y gwylwyr i allbwn lleol BBC Cymru i'w lefel uchaf am bum mlynedd.

Rhoddodd y tymor amgylcheddol *Green Wales* gyd-destun Cymreig i Uwchgynhadledd y Byd ar y Newid yn yr Hinsawdd yn Copenhagen. Archwiliodd amrywiaeth o raglenni – yn cynnwys fformat rhaglen ddogfen 'realiti' boblogaidd – yr heriau amgylcheddol sy'n wynebu Cymru dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a chafwyd allbwn a thrafodaethau cysylltiedig ar draws ein gwasanaethau radio ac ar-lein.

Rhoddodd y rhaglen ddogfen *Afghanistan: Five Welsh Families* broc amserol i'r cof i wylwyr am effaith y rhyfel yma yn y DU. Fe'i dilynwyd, yn ddiweddarach yr un noson, gan drafodaeth a gynhaliwyd yn nhref garsiwn Aberhonddu. Unwaith eto, cafwyd darllediadau estynedig ar draws holl wasanaethau BBC Cymru.

Ar deledu rhwydwaith, denodd *Torchwood: Children of Earth* bron i saith miliwn o wylwyr bob nos yn ystod ei gyfnod o wythnos ar BBC One. Ac roedd yn bryd ffarwelio â David Tennant, fel *Doctor Who*, ar ôl finale anhygoel adeg y Nadolig.

Rhagorodd ein tîm ffeithiol gyda *Last Chance to See* ar BBC Two, wrth i Stephen Fry a'r naturiaethwr Mark Carwardine fynd ar daith o amgylch y byd yn chwilio am anifeiliaid sydd ar fin diflannu. Arweiniodd y tîm ffeithiol hefyd dymor ar y Lleuad ar BBC Four. Un o'r uchafbwyntiau niferus oedd *Being Neil Armstrong*, a welodd Andrew Smith, awdur y nofel lwyddiannus *Moondust*, yn teithio ar draws America i ddarganfod y Neil Armstrong go iawn.

## GOGLEDD IWERDDON

Archwiliwyd lle a pherthnasedd crefydd yn y gymdeithas gyfoes gan William Crawley yn *Losing our Religion*. Ac archwiliwyd ymweliad hanesyddol Pab John Paul II ag Iwerddon yn 1979, gan ddefnyddio cyfweliadau â rhai o'r bobl a oedd yn gysylltiedig â'r ymweliad a dangos darnau o ddeunydd prin o'r archif. Rhoddodd *Our Man in the Vatican* gipolwg unigryw



1


4


5


2


3



Mae ein cynyrchiadau a'n comisiynau o'r tu allan i Lundain yn cwmpasu pob genre, yn cynnwys cerddoriaeth fyw a'r celfyddydau, drama a chomedi, chwaraeon a digwyddiadau.

1 *The Sarah Jane Adventures* gan BBC Cymru.

2 Mae datblygu comedi yn flaenoriaeth i BBC Scotland.

3 Rhaglen gylchgrawn arbenigol Rhanbarthau Lloegr ar bêl-droed sydd newydd ei lansio *Late Kick Off*.

4 *Show Me the Mummy – Princess Takabuti* gan BBC Northern Ireland.

5 *Proms in the Park* gan BBC Northern Ireland.

ar fyd diplomyddiaeth uchel a chysylltiadau rhyngwladol gyda'i gyfres am y gŵr lleol, Francis Campbell, a'i waith fel Llysgennad y DU i'r Babaeth.

Ymysg y darllediadau celfyddydol ac adloniannol roedd *Festival Nights, Blas Ceoil* a *The Music Makers*. Denodd *Proms in the Park* o dir Castell Hillsborough dorf lawn a chynulleidfa werthfawrogol ar deledu lleol a rhwydwaith.

Ymysg y rhaglennu comedi ac adloniant roedd *Great Unanswered Questions, May's Panto Party* a'r ymgyrch anodd i ddod o hyd i dalent perfformio newydd yn *Find Me the Funny*. Ein Blackstaff Studios oedd cartref y *Friday Night Show* newydd a King's Hall oedd y lleoliad ar gyfer digwyddiad cerddorol mawreddog a gynhaliwyd fel rhan o Apêl *Plant mewn Angen* y BBC ac, yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ar gyfer digwyddiadau a gynhaliwyd fel rhan o *BBC Sport Relief*.

Mae rhaglenni a gynhyrchwyd yn lleol ar gyfer teledu rhwydwaith y BBC yn nodwedd ddatblygol o'n gwaith – gyda'u holl fuddiannau creadigol ac economaidd. Mae nifer y comisiynau wedi cynyddu'n sylweddol a chafwyd rhywfaint o lwyddiant cynnar (a phwysig) yn y maes hwn. Dangosodd *Occupation* a *Five Minutes of Heaven* sgiliau a photensial ein tîm drama a pharhawyd i ddatblygu ein rôl fel canolfan gynhyrchu ar gyfer rhaglenni materion cyfoes i'r rhwydwaith, yn cynnwys *Panorama* a rhaglenni dogfen fel *Girls on the Frontline*.

## YR ALBAN

Dathlodd tymor *This Is Scotland* ar BBC Four ym mis Medi 2009 gelf, diwylliant a hanes yr Alban, gyda rhaglenni mor amrywiol â *Rory Bremner and the Fighting Scots*, *Brian Cox's Jute Journey, Portrait of Scotland* gan Peter Capaldi ac *Off Kilter*, darlun hynod a chythruddol Jonathan Meades o'r Alban ac Albanwyr. Helpodd hyn i gynyddu cyrhaeddiad y sianel 6% ac roedd dwy o'r rhaglenni ymysg pum rhaglen fwyaf poblogaidd y sianel y mis hwnnw.

Roedd yn flwyddyn gref ar gyfer rhaglenni ffeithiol o'r Alban, yn cynnwys ail hanner y gyfres a enillodd wobr BAFTA *A History of Scotland* ar BBC One Scotland, a ailddarlledwyd ar deledu rhwydwaith ac ar sianel BBC HD ar gyfer cynulleidfaoedd ledled y DU.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cynhaliwyd arolwg eang o'n gallu i gyflenwi'r rhwydwaith a chafwyd cynnydd yn nifer y rhaglenni o'r tu allan i Lundain. Mae nifer o feysydd rhaglenni allweddol wedi trosglwyddo i'r Alban yn cynnwys rhaglenni celfyddydol *The Review Programme* (*Newsnight Review* gynt) ac *Imagine*. Ymunodd y rhain â rhestr a oedd eisoes yn nodedig o raglenni rhwydwaith ar y celfyddydau o'r Alban, yn cynnwys *The Culture Show* ac *Artworks*.

Caiff tua un rhan o bump o holl raglennu plant y BBC ei chomisiynu o'r Alban, a gwneir y rhan fwyaf ohoni yn fewnol. Parhaodd *Nina and the Neurons* i ddod â gwyddoniaeth bywyd a thechnoleg yn fyw i blant o dan 6 oed ar CBeebies a gwnaeth *Ed and Oucho's Excellent Inventions* yr un peth i blant hŷn ar CBBC. Mae *Raven* bellach yn ei degfed gyfres, a chyflwynwyd cyfres newydd wedi'i hanimeiddio, *OOglies*. Darlledwyd y sioe gêm aml-lwyfan arloesol *Mission 2110* am y tro cyntaf yn y Gwanwyn.

Roedd *Wallander*, yr addasiad a enillodd wobrau o nofelau Henning Mankel, a leolwyd yn Sweden a chyda'r actor Kenneth Branagh, yn boblogaidd ymysg cynulleidfaoedd: mae ail gyfres wedi'i chomisiynu. Ar gyfer gwylwyr yn yr Alban – er ei bod ar gael ar BBC iPlayer ledled y DU – mae *River City* bellach ar fformat awr o hyd, a hon yw'r unig opera sebon benodol i'r Alban.

Dangosodd *Hogmanay Live 2009* rai o gerddorion traddodiadol a modern gorau'r Alban. Roedd ar gael i wylwyr ledled y DU drwy BBC Red Button ac ar y we (gan ddarlledu'r achlysur i gynulleidfaoedd rhyngwladol am y tro cyntaf).

## LLOEGR

Gwariwyd mwy yn Lloegr eleni sydd wedi'i dargedu'n benodol at wasanaethu cynulleidfaoedd lleol. Lansiwyd bwletinau newyddion ar benwythnosau sydd bellach yn denu tua hanner miliwn o wylwyr ychwanegol bob wythnos yn rheolaidd.

Cafwyd rhifyn arbennig o'r *Politics Show* ar Sul y Cofio a gyflwynwyd gan Jon Sopel o Camp Bastion yn Affganistan. Yn yr allbwn o'r sioe ar gyfer Rhanbarthau Lloegr, trafodwyd effaith y gwrthdaro gyda theuluoedd milwrol a chyn-filwyr mewn lleoliadau byw ledled y wlad. Un o'r uchafbwyntiau eraill oedd pan alwodd David Hockney am arolwg o'r gwaharddiad ar smygu mewn cyfweliad arbennig â'r *Politics Show* yn Swydd Efrog. Ar gyfartaledd, mae tua 850,000 o bobl yn gwylio allbwn rhanbarthol y *Politics Show* bob wythnos ar draws Lloegr.

I gael gwybod mwy am weithgareddau lleol, rhanbarthol neu wledydd y BBC, ewch i'n gwefannau:
www.bbc.co.uk/england.
www.bbc.co.uk/scotland neu www.bbc.co.uk/alba.
www.bbc.co.uk/wales neu www.bbc.co.uk/cymru.
www.bbc.co.uk/northernireland.

Tabl 2-9
**Gwariant rhaglennu teledu fesul rhanbarth fel % o'r gwariant cymwys**

| | 2009 | 2008 |
|---|---|---|
| Llundain | **62.3%** | 65.1% |
| Yr Alban | **6.1%** | 3.7% |
| Cymru | **4.4%** | 3.5% |
| Gogledd Iwerddon | **1.2%** | 0.6% |
| **Cyfanswm y Gwledydd** | **11.7%** | 7.9% |
| Canolbarth Lloegr | **3.8%** | 3.8% |
| Gogledd Lloegr | **8.2%** | 8.9% |
| De Lloegr | **14.0%** | 14.2% |
| **Cyfanswm Rhanbarthau Lloegr** | **26.0%** | 27.0% |
| **Cyfanswm y Gwledydd a'r Rhanbarthau** | **37.7%** | 34.9% |
| **Prif Gyfanswm** | **100.0%** | 100.0% |

Yn seiliedig ar ddiffiniadau Ofcom fesul blwyddyn galendr.



# CYFRYNGAU A THECHNOLEG Y DYFODOL

"MAE'R IS-ADRAN HON YN SICRHAU Y GALL CYNULLEIDFAOEDD GAEL GAFAEL AR EU HOFF RAGLENNI GAN Y BBC YN DDIDRAFFERTH. DYNA'R EGWYDDOR SYLFAENOL SY'N LLYWIO EIN HARLOESEDD, AC WRTH I NI DDARPARU RYDYM YN CEISIO SICRHAU BOD PROFIAD Y GYNULLEIDFA YN GWELLA O HYD."

ERIK HUGGERS
CYFARWYDDWR, CYFRYNGAU A THECHNOLEG Y DYFODOL Y BBC



BBC ONLINE | BBC RED BUTTON | BBC MOBILE | BBC iPlayer

**CYRHAEDDIAD** **27m+**
Ymwelodd cyfartaledd o dros 27 miliwn o bobl â BBC Ar-lein bob wythnos. Cafwyd cynnydd cyflym yn nifer y ceisiadau i ddefnyddio BBC iPlayer. Mae dros 11 miliwn o bobl yn defnyddio BBC Red Button i gyfoethogi eu profiad teledu bob wythnos.

**ANSAWDD** **75**
Yn ystod 2009/10, Sgôr Netpromoter BBC iPlayer ar gyfartaledd oedd 75, a olygai mai hon oedd y rhan o wefan y BBC oedd yn perfformio orau. Mesur teyrngarwch yw Netpromoter, yn seiliedig ar ganran y defnyddwyr a fyddai'n hyrwyddo neu'n argymell y gwasanaeth llai canran y rhai a fyddai'n ei ddifrïo. Ystyrir bod sgôr o 60 yn gryf.

**EFFAITH** **18.2m**
Lansiodd BBC iPlayer yn 2007 ac yn ystod 2009/10 cafwyd dros 18 miliwn o geisiadau bob wythnos ar gyfartaledd. Mae BBC iPlayer wedi trawsnewid y ffordd y mae pobl yn gwylio ac yn gwrando ar raglenni'r BBC. Mae BBC Red Button yn gartref i'n gwasanaeth mynediad – gan sicrhau y gall y gwylwyr hynny sy'n dibynnu ar isdeitlau, disgrifiadau sain neu arwyddo ddewis derbyn y gwasanaethau hyn a chael mwy o'u teledu.

**GWERTH** **6.8c**
Ar y cyd, mae BBC Ar-lein a BBC Red Button yn costio 6.8c fesul defnyddiwr a gyrhaeddir (2009: 7.6c).

MAE TECHNOLEG DDIGIDOL WEDI CAEL EFFAITH DRAWSNEWIDIOL AR Y CYFRYNGAU YN YSTOD Y DDEGAWD DDIWETHAF. MAE'R RHYNGRWYD WEDI DOD YN LWYFAN DOSBARTHU PWYSIG I'R BBC – YNGHYD Â THELEDU A RADIO LLINELLOL – AC MAE'N HANFODOL O RAN CYFLAWNI EI BWRPASAU CYHOEDDUS. MAE BBC AR-LEIN WRTH WRAIDD DYFODOL RHYNGWEITHIOL AC AR ALW Y BBC – MAE'N LLWYFAN UNIGRYW GAN EI FOD YN CYNRYCHIOLI'R BBC CYFAN MEWN UN LLE AC YN CYSYLLTU EIN HOLL WASANAETHAU.

Mae Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau rhyngweithiol a swyddogaethau technoleg ar gyfer y BBC. Rydym yn gyfrifol am BBC Ar-lein, Red Button, Mobile ac iPlayer, ac yn darparu'r atebion technoleg sy'n sail i'r BBC yn gyffredinol – i'w gadw ar-lein ac ar yr awyr ac i ddarparu'r cyfarpar technoleg sy'n hanfodol i'r holl broses gynhyrchu.

Yn gryno, ein nod yw sicrhau bod y profiad o gael gafael ar gynnwys y BBC cystal â phosibl i'n defnyddwyr, sut bynnag a phryd bynnag y byddant am wneud hynny. Ond, yn bwysig, caiff ein penderfyniadau ar fuddsoddi ac arloesedd eu llywio gan egwyddor glir: mynediad am ddim i dalwyr ffi'r drwydded drwy dechnoleg newydd sy'n galluogi'r BBC i gefnogi'r farchnad ehangach – ac nid ei bygwth.

Mae technoleg newydd hefyd yn ein galluogi i wella profiadau pobl, er enghraifft drwy ddarparu rhagor o wybodaeth ar-lein i ategu rhaglen deledu neu radio.

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn flwyddyn brysur i BBC Ar-lein, yn amrywio o lansio sawl gwasanaeth newydd pwysig fel *Democracy Live* a *Wildlife Finder* i'r broses arfaethedig o newid ffocws y gwasanaeth fel rhan o broses Adolygu'r Strategaeth.

Gyda'r newid i ddigidol bellach yn ei anterth, mae BBC Red Button – ein prif lwybr ar gyfer darparu cynnwys digidol drwy deledu – wedi profi ei bwysigrwydd parhaus, yn enwedig ar gyfer cynulleidfaoedd nad ydynt ar-lein eto.


Yn ddi-os, bu Mobile yn llwyddiant – mae nifer y defnyddwyr misol wedi cynyddu o 4.4 i 7.8 miliwn dros gyfnod o flwyddyn pan ail-lansiwyd rhannau o'n safle BBC Mobile (yn cynnwys Newyddion a Chwaraeon) i gynyddu ei apêl i dalwyr ffi'r drwydded.

Drwy gydol y flwyddyn, mae BBC iPlayer wedi parhau i dyfu (mae ganddo 5.5 miliwn o ddefnyddwyr yr wythnos bellach), gan alluogi cynulleidfa cynyddol eang i fwynhau cynnwys gwych gan y BBC ar alw mewn amgylchedd ar-lein diogel o safon. Bellach mae BBC iPlayer ar gael ar draws nifer o lwyfannau teledu, dyfeisiau symudol a gemau.

Ynghyd â'n dau wasanaeth, rydym wedi parhau i chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gadw'r BBC ar yr awyr ac ar-lein, yn ogystal â galluogi pob elfen o gaffael, cynhyrchu a dosbarthu drwy wasanaethau ac atebion technoleg. Rydym hefyd yn parhau i feithrin arloesedd ar draws y BBC cyfan drwy ein swyddogaeth Ymchwil a Datblygu.

Yn sgîl *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* byddwn yn canolbwyntio ar y pum maes golygyddol allweddol ac ar wneud llai o bethau'n well.

Mae hafan y BBC yn borth diogel yr ymddiriedir ynddi i fyd llawn gwybodaeth, ac mae'n gartref i rywfaint o gynnwys mwyaf arloesol y BBC. Eleni rydym wedi gwella ei hymddangosiad, gan ei gwneud yn fwy deniadol i'n defnyddwyr. Rhowch gynnig ar ein tudalennau chwaraeon gwell neu dewch â hanes yn fyw yn www.bbc.co.uk/history.






## ARLOESI DROS Y BLYNYDDOEDD

### 1930au

Roedd y gwaith ymchwil yn cynnwys darlledu ar donfedd fer:

**1936** Lansio'r gwasanaeth teledu manylder uwch rheolaidd cyntaf.

### 1940au

Sefydlu radio FM; teledu lliw yn dechrau ymddangos fel syniad ymarferol:

**1945** Arbrofion darlledu VHF/FM cyntaf o Alexandra Palace.

### 1950au

Dechrau gweithio ar radio stereo; transistorau yn cael eu defnyddio mewn cyfarpar masnachol, gan arwain y ffordd ar gyfer y chwyldro cyfathrebu:

**1958** VERA (Vision Electronic Recording Apparatus), y peiriant tâp fideo cyntaf a ddefnyddiwyd gan y BBC.

**1959** Darllediad teledu cyntaf dros yr Iwerydd gan 'Cablefirm' yr Is-adran Ymchwil a Datblygu; ymchwiliadau i storio lluniau teledu yn dechrau.

### 1960au

Defnyddio cysylltiadau lloeren am y tro cyntaf wrth ddarlledu; dulliau digidol yn trawsnewid prosesau cyfathrebu sain a llun:

**1962** Y cyswllt teledu lliw cyntaf dros yr Iwerydd drwy loeren, gan ddefnyddio cyfleuster sganio sleid Is-adran Ymchwil a Datblygu'r BBC.

**1967** BBC Two yn darlledu gwasanaeth teledu lliw rheolaidd am y tro cyntaf yn Ewrop.

### 1970au

Yr arbrofion cyntaf gyda phrosesau darlledu sain digidol:

**1972** Y BBC yn cyhoeddi gwasanaeth newydd arfaethedig o'r enw CEEFAX.

**1975** Darlledu signalau teledu digidol yn llwyddiannus.

**1978** Arbrofion darlledu sain stereoffonig ddigidol cyntaf – gan arwain at sain stereo NICAM gyda theledu.

### 1980au

Degawd o drafodaethau: aros gyda systemau analog, aros am ddigidol, neu gymysgedd o'r ddau? Yn y cyfamser, teledu 'manylder uwch' a phrosesau darlledu sain ddigidol ar y gorwel:

**1982** Rhyddhau BBC Microcomputer, gan Acorn.

**1982** Astudiaethau HDTV yn dechrau go iawn.

### 1990au

Dechrau darlledu radio a theledu digidol, a lansio bbc.co.uk. Technegau cynhyrchu rhithwir yn esblygu i ddarparu cyfleusterau cynhyrchu pwerus:

**1995** Dechreuodd y gwasanaeth Radio Digidol newydd ym mis Medi.

**1997** Gwasanaethau'r BBC ar y we yn dechrau.

**1998** Y BBC yn lansio gwasanaeth teledu lloeren digidol.

### 2000au

Datblygiadau a gwelliannau cyffredinol:

**2002** Lansio Freeview.

**2007** Lansio BBC iPlayer.

**2009** Lansio BBC HD ar Freesat.

**2010** Lansio BBC HD ar Freeview.

Am ragor o wybodaeth am ddatblygiadau technolegol a datblygiadau eraill y mae'r BBC wedi bod yn rhan ohonynt dros y blynyddoedd, ewch i www.bbc.co.uk/rd a www.bbc.co.uk/historyofthebbc.

## GWYBODAETH AR FLAENAU EICH BYSEDD

Ein safle newyddion – a gaiff ei ddiweddaru bob munud o'r dydd – sy'n denu'r nifer fwyaf o ymwelwyr i'r BBC. Mae'n darparu darllediadau newyddion diduedd o'r radd flaenaf. Eleni ymdriniwyd â'r straeon byd-eang, cenedlaethol a lleol mwyaf yn fanwl, fel y daeargryn yn Haiti; yr Ymchwiliad i Ryfel Irac a rhyddhau bomiwr Lockerbie (straeon cenedlaethol a chanddynt oblygiadau rhyngwladol); a'r llifogydd yn Cumbria. Mae ein harlwy newyddion yn cynnwys adroddiadau, dadansoddiadau cefndir a sylwadaeth.

Eleni cafwyd datblygiadau a mentrau allweddol ar y llwyfan, fel lansiad *Democracy Live*, ein cyfleuster ar-lein cyffrous wedi'i anelu at ddod â democratiaeth yn fyw drwy fideo byw a fideo o'r archif o Seneddau a Chynulliadau'r DU, yn ogystal ag Ewrop.

Mae Robert Peston, Fergus Walsh, Stephanie Flanders a gohebwyr a newyddiadurwyr eraill y BBC wedi parhau i adrodd straeon newyddion pwysig am y tro cyntaf drwy eu blogiau, neu wedi rhoi dadansoddiadau arbenigol ar straeon sy'n dod i'r amlwg.

Ceir defnydd cynyddol aml-lwyfan o gynnwys newyddion a chwaraeon; gwelwyd twf arbennig yn y defnydd o ddyfeisiau symudol ac mae'r newyddion a'r tywydd diweddaraf wedi bod yn ysgogwyr pwysig i dwf eithriadol BBC Mobile.

Mae cyfuniad unigryw BBC Red Button o'r wybodaeth a'r cynnwys diweddaraf – a chynnwys rhyngweithiol fel sylwebaeth chwaraeon amgen – yn parhau i fod yn bwynt mynediad cyfleus i filiynau o bobl gael y penawdau newyddion a chwaraeon diweddaraf drwy Digital Text. Yn ystod eira trwm mis Ionawr gwelwyd 2.1 miliwn o bobl ychwanegol yn defnyddio'r gwasanaeth. Hwn yw'r gwasanaeth teledu rhyngweithiol mwyaf poblogaidd yn y DU o hyd.

## DWYN POBL YNGHYD

Mae ein gwasanaethau wedi'u hanelu at yr unigolyn – ond rydym hefyd yn gwasanaethu cymunedau â buddiant, gyda chynnwys sy'n apelio i lawer. Eleni darparwyd darllediadau aml-lwyfan o ddigwyddiadau chwaraeon mawr pwysig fel Gemau Olympaidd y Gaeaf, dychweliad Fformiwla Un i'r BBC, twrnamaint tenis Wimbledon a digwyddiadau cerddoriaeth fel Glastonbury a *Big Weekend* BBC Radio 1 o Swindon.

Roedd Gemau Olympaidd y Gaeaf yn ddigwyddiad aml-lwyfan go iawn. Oherwydd y gwahaniaeth amser rhwng y DU a Chanada cafodd llawer o'r digwyddiadau mwyaf poblogaidd eu darlledu dros nos yma yn y DU. Ond oherwydd hygyrchedd a chyfleustra uniongyrchol ein gwasanaethau digidol roedd cynulleidfaoedd yn gallu cael y newyddion diweddaraf, gwylio pecynnau uchafbwyntiau (a oedd yn arbennig o boblogaidd ar BBC Red Button) a gwylio hyd at chwe ffrwd fyw ar yr un pryd ar BBC Red Button a BBC Ar-lein. Dysgwyd gwersi gwerthfawr cyn Cwpan y Byd FIFA yn ystod yr haf eleni a Gemau Olympaidd Llundain 2012.


Hefyd llwyddwyd i gyflwyno datblygiadau technolegol newydd ar gyfer ein darllediadau chwaraeon ar y teledu, er mwyn sicrhau eu bod yn llawn gwybodaeth ac yn ennyn diddordeb yn well. Un enghraifft yw'r ffordd newydd y gallwn ychwanegu graffeg rithwir i ddarllediadau athletau, fel llinellau record y byd ar gyfer digwyddiadau naid hir.

## CYNNIG PROFIAD MWY

Ar draws ein gwasanaethau BBC Ar-lein a Red Button, parhawyd i ymchwilio i ffyrdd newydd o ddarparu cynnwys manylach ac ehangach ar y BBC. Eleni canolbwyntiwyd ar greu ffyrdd newydd o ddefnyddio archif y BBC i gyfoethogi profiad y defnyddiwr: er enghraifft, rhoddodd ein *Wildlife Finder* fynediad i'n harchif hanes naturiol i gynulleidfaoedd am y tro cyntaf.


Lansiwyd y prawf personoliaeth *Lab UK; Virtual Revolution* a enillodd wobrau; ac, mewn partneriaeth â'r Amgueddfa Brydeinig, gwefan i gefnogi'r gwaith amrywiol ar draws y BBC i gefnogi *The History of the World in 100 Objects* ar BBC Radio 4, yn cynnwys y fersiwn hanes lleol ar draws y BBC a ategwyd yn benodol gan ein gwasanaethau lleol a'r gwledydd ledled y DU.

Gallwn ddarparu cynnwys cerddoriaeth aml-lwyfan o safon gan artistiaid a pherfformwyr blaenllaw. Yn ogystal â'n darllediadau poblogaidd o ŵyl Glastonbury, cwmpaswyd gwyliau cerddoriaeth eraill fel Reading, *Big Weekend* BBC Radio 1, tymor Mela a chyflwynwyd *Maestro Cam* yn ystod y *BBC Proms*. Parhawyd i arbrofi ar-lein drwy archwilio'r ffyrdd gorau o ddarparu cynnwys cerddoriaeth a gwybodaeth am gerddoriaeth yn y dyfodol – un o'r camau cyntaf yw cyflwyno'r safle beta www.bbc.co.uk/music.




Mae BBC Red Button yn rhoi dewis i chi – a rheolaeth dros yr hyn rydych am ei wylio.

Beth bynnag sy'n mynd â'ch dant – o ddal i fyny ar gomedi neithiwr gan BBC Three ar BBC iPlayer, neu'r hanesion diweddaraf ym myd pêl-droed neu'r manylion teithio diweddaraf – dylech allu dod o hyd iddo ar www.bbc.co.uk – neu ddod o hyd i ddolen i ddarparwr arall a all helpu.








## RYDYM YN ADEILADU AR LWYDDIANT BBC iPLAYER A BYDDWN YN LANSIO'R RADIO PLAYER YN HWYRACH YN Y FLWYDDYN MEWN PARTNERIAETH Â DARPARWYR RADIO MASNACHOL. BYDD YN SICRHAU BOD DROS 400 O ORSAFOEDD RADIO AR GAEL I WRANDAWYR DRWY'R RHYNGRWYD.



### CYNNWYS GWREIDDIOL

Roedd y ddrama ryngrwyd *E20*, sgîl-raglen o'r gyfres rhiant *EastEnders*, yn brosiect aml-lwyfan uchelgeisiol a ddenodd dros dair miliwn o geisiadau ar draws gwefan *EastEnders* a BBC iPlayer. Cafodd dros hanner miliwn o wylwyr ar BBC Red Button hefyd. Cyflwynodd y rhaglen dalent ysgrifennu ac actio newydd, a phlethodd straeon rhwng y ddwy raglen. Comisiynwyd ail gyfres a chaiff ei darlledu ar wefan *EastEnders* yn nes ymlaen yn 2010.

Gan aros yn Albert Square, roedd gêm *EastEnders* a oedd yn dathlu pen-blwydd yr opera sebon yn 25 oed yn un o lwyddiannau BBC Red Button â chynulleidfaoedd eleni. Ymysg y llwyddiannau amlwg eraill yn ystod y flwyddyn roedd gwefan *Doctor Who* sydd mor boblogaidd ac arloesol ag erioed a *Comedy Extras* amrywiol (sydd ar gael ar BBC Red Button ac ar BBC Ar-lein) a gyflwynodd gynnwys ychwanegol wedi'i gomisiynu'n arbennig gan raglenni fel *Never Mind the Buzzcocks, Stewart Lee's Comedy Vehicle* a *The Thick of It*.


### CYNNWYS I BLANT YR YMDDIRIEDIR YNDDO

Mae ein holl wasanaethau sydd wedi'u targedu at blant yn darparu amgylchedd diogel yr ymddiriedir ynddo i'n defnyddwyr iau ddysgu a chwarae. Mae iPlayers ar wahân ar gyfer CBeebies a CBBC yn ychwanegiadau gwych i'n harlwy.

Rydym wedi adfywio gwefan CBeebies i roi mwy o ffocws ar ryngweithio, gan gyfuno cynnwys gwych gyda chynllun a phrofiad gwych i ddefnyddwyr. Roedd hyn yn boblogaidd iawn ymysg ei defnyddwyr ifanc, sy'n dod i ddeall a chroesawu technolegau a ffyrdd newydd o ddefnyddio cynnwys yn gyflym.

### GALLUOGI'R BBC

Mae technoleg yn darparu sail i weithgarwch dyddiol y BBC, gan amrywio o'r ffordd rydym yn gwneud rhaglenni i'r modd y byddwn yn eu cyflwyno i'n cynulleidfaoedd. Gall gwelliannau i'r dechnoleg sylfaenol wella ansawdd y cynnwys a'r gwerth a ddarparwn i dalwyr ffi'r drwydded. Mae BBC Fabric (cynnyrch y Digital Media Initiative) yn un o'r gwelliannau hyn a fydd yn cyflwyno newid sylfaenol yn y ffordd rydym yn gwneud rhaglenni. Cyfleuster cynhyrchu digidol pen desg yw Fabric sy'n golygu y gellir caffael, golygu a rhannu cynnwys o bell ar draws y BBC cyfan. Rydym wedi dechrau ei gyflwyno ar draws y BBC a bydd ffrwyth ein llafur yn amlwg yn y dyfodol, hyd y gellir gweld.









## PARTNERIAETHAU AC ARLOESEDD DIGIDOL

Bydd arloesedd, gwelliant a phartneriaeth yn eiriau allweddol pwysig o hyd.

Mae lansio gwasanaeth HD newydd ar Freeview – sy'n cynnig sianelau BBC, ITV a Channel 4 HD – yn gam pwysig tuag at wella'r profiad gwylio i gynulleidfaoedd ac mae'n enghraifft glir o'r atebion technoleg arloesol a ddarperir gan Is-adran Ymchwil a Datblygu'r BBC.

A bydd ein partneriaeth arfaethedig 'Canvas' gyda darlledwyr cyhoeddus y DU a rhanddeiliaid masnachol yn gwneud teledu â chysylltiad â'r rhyngrwyd yn realiti, a bydd yn cynnig dewis amgen o safon lle gellir darlledu am ddim yn lle llwyfannau y codir tâl amdanynt.

Rydym yn adeiladu ar ein profiad a llwyddiant BBC iPlayer drwy lansio partneriaeth bellach, i lansio Radio Player yn hwyrach yn y flwyddyn. Bydd yn galluogi defnyddwyr y rhyngrwyd i wrando ar fwy na 400 o orsafoedd masnachol a gorsafoedd y BBC.

Mae Is-adran Ymchwil a Datblygu'r BBC wedi bod wrthi'n gwneud gwaith ymchwil i dechnolegau archif am dros ddegawd bellach, gyda chadwyn hir o brosiectau ar y cyd â darlledwyr, academyddion a phartneriaid diwydiannol ledled Ewrop. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar amrywiaeth o heriau, o ddigideiddio effeithlon a chreu metadata, i brosesau storio digidol a fformatau ffeil gwell ar gyfer cadw cynnyrch yn yr hirdymor. Bydd pob un o'r rhain yn cefnogi ein dyhead hirdymor i roi mynediad agored i'n llyfrgell a'n harchif rhaglenni er budd talwyr ffi'r drwydded.

## GWERTH GWELL

Yn ogystal â blaenoriaethu ein buddsoddiad yn y meysydd cynnwys pwysicaf a mwyaf ystyrlon, rydym wedi gweithio'n galed eleni i wella ein heffeithlonrwydd.

O ran cynnwys, galluogodd Gemau Olympaidd y Gaeaf ni i dreialu'r broses o greu gwefannau'n awtomataidd, er enghraifft, ac rydym yn datblygu mwy a mwy o wefannau y gellir eu graddio a'u hailddefnyddio (fel *Wildlife Finder*).

Gwnaed rhai penderfyniadau anodd megis dileu rhywfaint o gapasiti o BBC Red Button mewn cartrefi Freeview, er mwyn galluogi gwylwyr i gael sianelau HD ar y llwyfan. Rydym hefyd wedi ad-drefnu ein strwythur mewnol er mwyn sicrhau arbedion a sicrhau gwell ffocws ar ansawdd.

# SICRHAU ANSAWDD AR GYFER Y DYFODOL






Gan gyflwyno cynnwys y BBC i'r cyhoedd, mae'r prif lun yn dangos darllediadau BBC Two o seremoni agoriadol Gemau Olympaidd y Gaeaf yn Vancouver ar sgrîn fawr Maer Llundain yn Sgwâr Trafalgar – sydd hefyd yn gartref i Lysgennad Canada.

1 *The Street*, drama afaelgar gan Jimmy McGovern.

2 Mae cerddoriaeth fyw – yn cynnwys y *Proms* ar BBC Radio 3 – yn rhan allweddol o'r hyn sy'n gwneud arlwy'r BBC yn unigryw.

3 Dilynodd *Lambing Live* – estyniad o'r rhaglenni *Springwatch* – ddrama bywyd a marwolaeth un o'r digwyddiadau pwysicaf yng nghalendr ffermio'r DU dros bum noson o fferm ddefaid yn Ne Cymru.

4 Roedd yr Etholiad Cyffredinol yn uchafbwynt blwyddyn fawr yn y byd gwleidyddol, a chafwyd darllediadau deheuig gan Nick Robinson a'i gydweithwyr ar draws y DU.

1


CENHADAETH GWASANAETH CYHOEDDUS Y BBC YW HYSBYSU, ADDYSGU A DIFYRRU CYNULLEIDFAOEDD Â RHAGLENNI A GWASANAETHAU GWREIDDIOL O SAFON SY'N CYNNIG GWERTH DA. AC MAE'R CYHOEDD YM MHRYDAIN – YN BRIODOL – YN DISGWYL I NI FOD YN FFYNHONNELL DDIBYNADWY O NEWYDDION CYWIR A DIDUEDD; I GEFNOGI GWREIDDIOLDEB A RHAGORIAETH YN DDIFLINO; I FOD YN FUDDSODDWR GWARANTEDIG MEWN TALENT A SGILIAU O BRYDAIN; I GYNNAL Y GWERTHOEDD A'R SAFONAU UCHAF; I FOD YN GYDYMAITH CYSON AR ADEGAU O ARGYFWNG A DATHLU.

Wrth i'r dirwedd cyfryngau allanol esblygu, mae'n bwysicach nag erioed bod cenhadaeth y BBC yn glir a'i fod yn gyson o ran y modd y caiff ei gweithredu.

Mae'r sector cyfryngau masnachol yn herio'r BBC dros hyn, ac mae'n briodol iddo wneud hynny, yn enwedig ar adegau o ansicrwydd economaidd. Mae'r cyfyngiadau o ran yr hyn y mae'r BBC yn ei wneud wedi dod yn llai clir dros amser ac mae'r BBC wedi bod yn llai effeithiol nag y gallai neu y dylai fod o ran egluro ei genhadaeth ganolog a chadw ati.

Felly rydym wedi treulio'r flwyddyn ddiwethaf yn edrych ar bob agwedd ar ein busnes. Roeddem am sicrhau ein bod yn anrhydeddu ein hegwyddorion cyntaf – i hysbysu, addysgu a difyrru – wrth i ni baratoi ar gyfer Prydain hollol ddigidol.

Roeddem am edrych ar yr hyn y dylai'r BBC ei wneud ac, yr un mor bwysig, ar yr hyn na ddylai ei wneud.

Ym mis Mawrth cyhoeddwyd strategaeth newydd gennym, *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*. Cyflwynwyd y strategaeth hon i Ymddiriedolaeth y BBC ac roedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus fel bod talwyr ffi'r drwydded yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso i'n helpu i benderfynu sut rydym yn gwario eu harian mewn rhaglenni a gwasanaethau iddynt hwy.

Yn amodol ar gael ei chymeradwyo, mae *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* yn llywio'r BBC i ganolbwyntio ar bum blaenoriaeth olygyddol; i wneud llai o bethau'n well; i sicrhau mynediad i bawb; i wneud i ffi'r drwydded weithio'n galetach; ac i osod ffiniau newydd iddo'i hun. Mae'n ein helpu i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i dalwyr ffi'r drwydded, ac mae'n nodi ein dyheadau o ran cynnwys yn fwy clir a chyson nag o'r blaen.



2


3


4


**Y NEWYDDIADURAETH ORAU YN Y BYD**
Hysbysu bywyd dinesig a democrataidd gartref a thramor – drwy newyddion, materion cyfoes a gwybodaeth annibynnol, diduedd a chywir.

**YSBRYDOLI GWYBODAETH, CERDDORIAETH A DIWYLLIANT**
Cyfoethogi bywydau pobl – cyflwyno gwybodaeth, cerddoriaeth a diwylliant i feddyliau, llygaid a chlustiau newydd.

**DRAMA A CHOMEDI UCHELGEISIOL YN Y DU**
Ysgogi a difyrru cynulleidfaoedd – gyda straeon am eu bywydau a'r byd o'u hamgylch.

**CYNNWYS EITHRIADOL I BLANT**
Difyrru a synnu cynulleidfaoedd ifanc – helpu plant i archwilio eu byd mewn man cyhoeddus diogel.

**DIGWYDDIADAU SY'N UNO CYMUNEDAU A'R GENEDL**
Bod yno i'r DU gyfan – mewn cyfnodau o argyfwng, coffâd a dathlu drwy ddigwyddiadau, chwaraeon ac adloniant nodedig.

**RHAGLENNI A GWASANAETHAU'R BBC: *RHOI ANSAWDD YN GYNTAF.***

# Y NEWYDDIADURAETH ORAU YN Y BYD

## HYSBYSU BYWYD DINESIG A DEMOCRATAIDD GARTREF A THRAMOR – DRWY NEWYDDION, MATERION CYFOES A GWYBODAETH ANNIBYNNOL, DIDUEDD A CHYWIR.

**KPI**

### ADFER YMDDIRIEDAETH MEWN ALLBWN

**Sgôr o 8 neu fwy allan o 10 am 'Rwyf yn ymddiried yn y BBC' %**

| | |
|---|---|
| 08/09 | 29 |
| 09/10 | 31 |

**Sgôr gyfartalog allan o 10 am 'Rwyf yn ymddiried yn y BBC' %**

| | |
|---|---|
| 08/09 | 6.0 |
| 09/10 | 6.0 |

Mae cyfran y bobl sy'n cytuno'n gryf eu bod yn ymddiried yn y BBC wed codi eto, dros un a hanner o bwyntiau canran flwyddyn ar flwyddyn.

Mae canran y bobl sy'n ymddiried yn BBC Newyddion wedi codi o 77% y llynedd i 78% eleni.

1



2



Ers ein bwletin newyddion cyntaf ar y radio ar 14 Tachwedd 1922, mae'r BBC wedi cynnal safonau ar gyfer newyddion cywir, diduedd ac annibynnol. Wrth i dechnoleg wella – ac wrth i ddisgwyliadau cynulleidfaoedd dyfu – ychwanegwyd ymrwymiad pellach y dylai ein newyddion gael ei ddiweddaru'n gyson hefyd.

Heddiw, mae gennym dros 3,500 o newyddiadurwyr a staff newyddion arall ledled y byd – o Efrog i Efrog Newydd, ac o Aberdeen i Sydney. Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith bod ein cynulleidfaoedd yn ymddiried yn ein hallbwn ac yn troi atom ni ar yr awyr ac ar-lein am wybodaeth leol ac wrth i ddigwyddiadau ddatblygu ar y llwyfannau cenedlaethol a rhyngwladol.

Bydd rhoi sylw i straeon o bwys – o newyddion dyddiol ar y teledu ar BBC One i'n rhaglenni brecwast llafar yn unig ar radio lleol, ac o ddadansoddiadau gwleidyddol ar BBC Parliament i raglennu busnes ar BBC Radio 4 – yn parhau i fod yn elfen allweddol o'n strategaeth olygyddol barhaus.

Byddwn yn canolbwyntio mwy a mwy ar feysydd lle gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf a lle mae ein cyfraniad yn wirioneddol unigryw: adroddiadau gan lygad-dystion a phrosesau casglu newyddion rhyngwladol, yn enwedig o'r rhannau hynny o'r byd sydd â phwysigrwydd geowleidyddol cynyddol fel Tsieina a Brasil; dadansoddiadau ac esboniadau arbenigol, yn arbennig ym maes gwyddoniaeth, yr amgylchedd a materion cymdeithasol; newyddiaduraeth ymchwiliol; a materion cyfoes.

Mae'r rhyngrwyd yn galluogi cynulleidfaoedd yn y DU i gael mynediad i amrywiaeth ehangach o newyddion a gwybodaeth nag erioed o'r blaen. Bydd BBC News Online yn parhau i gynnig newyddion, dadansoddiadau a gwybodaeth gefndirol ddibynadwy ynghylch straeon o bwys y dydd. Bydd hefyd yn fan cyhoeddus lle gellir lleisio amrywiaeth o safbwyntiau a'u trafod.

Yn y DU, bydd newyddion y BBC am ddim bob amser i'w ddefnyddio, ni fydd yn cynnwys unrhyw hysbysebion na negeseuon masnachol eraill, a bydd ar gael pryd bynnag, sut bynnag a ble bynnag y byddwch am ei gael.

## YN YSTOD Y FLWYDDYN I DDOD:

- Bydd BBC Radio 5 live yn cyflwyno'r prif straeon newyddion wrth iddynt ddigwydd, ac yn darparu cyd-destun, dadansoddiadau a thrafodaethau – bydd 75% o'i hallbwn yn newyddion.
- Bydd BBC Parliament yn cynnig 80 awr yr wythnos o ddarllediadau o Senedd San Steffan (wythnos eistedd lawn) a darllediadau o weithrediadau Cynulliad Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, yn ogystal â rhaglennu o Frwsel a Strasbwrg.
- Bydd BBC Three yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau o awtistiaeth i fasnachu mewn plant, a bydd yn datblygu ei frand Blood, Sweat and… sy'n ymchwilio i effaith globaleiddio ar y byd datblygol.

I weld mwy o ymrwymiadau rhaglenni a gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc/statements2010.


I weld ein cyflawniadau yn erbyn ein haddewidion y llynedd ewch i pdf 2009/10 *Performance against Public Commitments* yn adran lawrlwytho www.bbc.co.uk/annualreport.















Ein nod fydd cyrraedd 80% o boblogaeth y DU bob wythnos gyda'n hallbwn newyddiaduraeth eang, a pharhau i sicrhau mai ni yw'r darparwr newyddion yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y DU ar deledu, radio ac ar-lein. Yn y lluniau gwelir:

1 Robin Lustig, o *The World Tonight* ar BBC Radio 4 – a ddathlodd 40 mlynedd ar yr awyr ym mis Ebrill.

2 Daeth *Panorama* â straeon heriol – fel 'Dying for a Biscuit' – i deledu daearol oriau brig.

3 Mae Andrew Marr yn cyfweld â gwleidyddion blaenllaw ar BBC One yn *The Andrew Marr Show* ar ddydd Sul, ac yn siarad â meddylwyr arweiniol eraill ar *Start the Week* ar BBC Radio 4.

4 Y tu ôl i'r camerâu yn *BBC 10 O'Clock News*.

5 Hugh Sykes yn cyfweld â ffermwyr Pashtun yn Affganistan.

6 Mae gan *Today* ychydig dros 6.5 miliwn o wrandawyr bob wythnos.

# YSBRYDOLI GWYBODAETH, DIWYLLIANT A CHERDDORIAETH

## CYFOETHOGI BYWYDAU POBL – CYFLWYNO GWYBODAETH, CERDDORIAETH A DIWYLLIANT I FEDDYLIAU, LLYGAID A CHLUSTIAU NEWYDD.

**KPI**

### CYNNAL GWERTH YMHLITH CYMERADWYWYR UCHEL A GWELLA GWERTH YMHLITH CYMERADWYWYR ISEL

**Sgôr o 8 neu fwy allan o 10 am Gymeradwyaeth Gyffredinol %**

| | |
|---|---|
| 08/09 | 37 |
| 09/10 | 38 |

**Sgôr o 4 neu lai allan o 10 am Gymeradwyaeth Gyffredinol %**


| | |
|---|---|
| 08/09 | 12 |
| 09/10 | 12 |

Gwelwyd cynnydd bach yn y gymeradwyaeth o'r BBC ymysg y rheini oedd eisoes wedi rhoi sgorau uchel yn ogystal â chymeradwywyr isel.

Cawn gydnabyddiaeth yn fyd-eang am amrywiaeth ein rhaglennu ffeithiol a gwreiddioldeb ein perfformiad cerddorol. Yn y lluniau gwelir:

1 *Mastercrafts.*
2 The Royal Albert Hall, cartref y *BBC Proms.*
3 *Sacred Music.*
4 *Who Do You Think You Are?*
5 *Wonders of the Solar System.*
6 *Natural World.*
7 *The Art of Russia.*






Gyda'n cenhadaeth graidd i hysbysu ac addysgu, mae meithrin gwybodaeth bob amser wedi bod yn ganolog i arlwy rhaglenni'r BBC wrth i ni geisio dros y blynyddoedd i gyflwyno'r celfyddydau, gwyddoniaeth, hanes a meysydd arbenigol eraill i'n gwrandawyr a'n gwylwyr.

Bu ein rôl ym mywyd cerddorol y DU hefyd yn unigryw, gan annog pobl i greu cerddoriaeth – bu plant cyn oedran ysgol yn cydganu gyda *Listen with Mother* am dros 30 mlynedd – a gwrando ar gerddoriaeth yn bennaf. Heddiw rydym yn cefnogi cymysgedd unigryw o gerddoriaeth newydd – llawer ohoni'n fyw, llawer yn arbenigol, a llawer gan dalent newydd sy'n ceisio gwneud enw iddynt eu hunain – drwy ein gwasanaethau radio yn arbennig neu ar Radio Player (o 2010, yn amodol ar gymeradwyaeth).

Gan edrych i'r dyfodol, bydd ein strategaeth ar gyfer y genres hyn yn canolbwyntio o hyd ar ddarllediadau llinellol fel y ffordd fwyaf effeithiol o gyrraedd cynulleidfaoedd eang, gan archwilio pynciau ffeithiol, y celfyddydau a diwylliant yn fanwl, a chyflwyno amrywiaeth eang o gerddoriaeth a pherfformiad. Er enghraifft, bydd BBC Radio 2 yn cynnwys mwy o gyngherddau byw a jazz mewn slotiau amlwg, a bydd mwy o raglenni dogfen rheolaidd yn archwilio cerddoriaeth a themâu diwylliannol. Bydd *BBC Introducing* yn parhau i gysylltu BBC Radio 1 a 1Xtra â phobl sy'n creu cerddoriaeth a thalent newydd heb gontract ar lawr gwlad.

Bydd BBC Two yn cael budd o gynnydd mewn arian o 2013 (yn amodol ar gymeradwyaeth) a bydd yn defnyddio'r buddsoddiad hwnnw i gomisiynu cynnwys chgwreiddiol o safon, gan gynnig syniadau ffres a newydd i'w chynulleidfa ddeallus, gyda mwy o raglenni fel *Obama's America* gan Simon Schama, *The History of Now* a *How Earth Made Us*, yn ogystal â rhaglenni sy'n difyrru ond yn meithrin gwybodaeth ar yr un pryd fel *Mastercrafts*.

Byddwn hefyd yn ymateb yn gynyddol i ddisgwyliadau esblygol cynulleidfaoedd ar-lein a byddwn, er enghraifft, yn parhau i gefnogi dysgu ffurfiol drwy gynigion fel *Bitesize* wrth i ni chwilio am fwy o gyfleoedd i ddatgloi'r potensial ar gyfer dysgu o bob rhan o'n hallbwn.

## YN YSTOD Y FLWYDDYN I DDOD:

- Bydd BBC Four yn dangos dwy gyfres *Science of Mapping* a *Beauty of Maps* i gyd-fynd ag arddangosfa yn y Llyfrgell Brydeinig; ac mae *Rude Britannia* wedi'i hamserlennu i gyd-fynd ag arddangosfa Tate Britain o gelf comig Prydeinig.
- Bydd ein Tymor Opera ar gyfer 2010 yn dilyn Gareth Malone wrth iddo geisio cynhyrchu a chyfarwyddo opera yn *Gareth Does Glyndebourne*. Ymysg y perfformiadau bydd Plácido Domingo yn Simon Boccanegra gan Verdi.
- Bydd BBC Radio 1 yn darlledu o tua 25 o ddigwyddiadau a gwyliau byw ledled y DU; a bydd yn cynnig 250 o sesiynau newydd i wrandawyr (heb gynnwys ailddarllediadau); bydd BBC Radio 2 yn cynnig o leiaf 260 o oriau o gerddoriaeth fyw.


I weld mwy o ymrwymiadau rhaglenni a gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc/statements2010.

I weld ein cyflawniadau yn erbyn ein haddewidion y llynedd ewch i pdf 2009/10 *Performance against Public Commitments* yn adran lawrlwytho www.bbc.co.uk/annualreport.




4


5


6


7

# DRAMA A CHOMEDI UCHELGEISIOL O'R DU

## YSGOGI A DIFYRRU CYNULLEIDFAOEDD – GYDA STRAEON AM EU BYWYDAU A'R BYD O'U HAMGYLCH.

**KPI**

### CYNYDDU NATUR UNIGRYW AC ANSAWDD

**Sgôr o 8 neu fwy allan o 10 am Ansawdd Uchel %**

| | |
|---|---|
| 08/09 | 34 |
| 09/10 | 36 |

**Sgôr gyfartalog allan o 10 am Ansawdd Uchel %**

| | |
|---|---|
| 08/09 | 6.4 |
| 09/10 | 6.4 |


Cynyddodd cyfran y bobl sy'n cytuno'n gryf bod ein hallbwn o ansawdd uchel dros ddau bwynt canran eleni. Roedd y sgôr gyfartalog yn gyson flwyddyn ar flwyddyn.

Rydym yn darparu llwyfan er mwyn i dalent ysgrifennu a pherfformio gorau'r DU gyrraedd cynulleidfa eang – arlwy unigryw gyda rhywbeth i ddifyrru pawb.



1


2


3


Bob wythnos o'r flwyddyn, rydym yn cynnig amrywiaeth eang o ddrama a chomedi ar draws teledu a radio – gyda chynnwys gwreiddiol ychwanegol fel *E20*, sgîl-raglen *EastEnders* ar gael ar-lein yn unig. Yn y lluniau gwelir:

1 *Outnumbered*.

2 Recordiad o ddrama yn seiliedig ar nofel PD James yn ein stiwdio drama radio yn Birmingham.

3 *Occupation*.

4 *The Thick Of It*.

5 *On Expenses*.

6 *I'm Sorry, I Haven't A Clue*.

Mae'r BBC yn darparu llwyfan er mwyn i dalent ysgrifennu a pherfformio gorau'r DU gyrraedd cynulleidfa eang. Mae'n gyfrifoldeb ar y BBC i gymryd risgiau a herio cynulleidfaoedd gyda straeon a rhaglenni arloesol.

Eleni roedd ein harlwy drama yn cynnwys allbwn newydd o safon fel *Occupation* a *Criminal Justice* gan BBC One, *House of Saddam* a *The Last Days of Lehman Brothers* gan BBC Two, yn ogystal ag arlwy ffres ar BBC Three – datblygodd yr ail gyfres o *Being Human* y cymeriadau a'r straeon o'r gyfres gyntaf yn ogystal â chyflwyno rhai newydd.

Mae BBC Radio 3 a 4 yn gyson yn cynnig amrywiaeth eithriadol o ddrama a darlleniadau newydd a chlasurol – ac ar ôl yr hyn a welwyd ar y pryd fel menter beilot llawn risg, goroesodd *The Archers* a bydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 60 oed yn y flwyddyn newydd.

Mae'n bosibl mai comedi yw'r genre sy'n cyflwyno'r risg fwyaf. Mae angen amser a buddsoddiad i greu sioeau newydd llwyddiannus, ac mae'n hynod o anodd gwneud hynny ac yna cynnal y llwyddiant hwnnw. Eto, mae'r gynulleidfa yn awyddus i gael sioeau o'r fath, fel y mae'r cyfresi teledu poblogaidd diweddar *Outnumbered* a *Gavin and Stacey* yn ei ddangos.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn awduron a pherfformwyr newydd fel y gwnaethom eleni gyda'r timau y tu ôl i *Home Time* a *The Gemma Factor*, gan roi llwyfan iddynt ddangos eu talent. Byddwn yn sicrhau bod lle yn ein hamserlenni ar draws ein portffolio o sianelau – yn arbennig ar BBC Three – i roi cynnig ar bethau newydd cyn eu cynnig i gynulleidfaoedd ehangach. Ac unwaith eto, BBC Radio 4 yw'r unig ddarparwr comedi radio ar unrhyw raddfa yn y DU.

Bydd rhagoriaeth, gwreiddioldeb ac amrywiaeth yn parhau i fod yn sail i'n strategaethau ar gyfer drama a chomedi. Ac, os caiff ei gymeradwyo, bydd ein cynnydd arfaethedig mewn gwariant ar BBC Two yn helpu i ddarparu cyfresi, dramâu cyfres a dramâu unigol mwy gwreiddiol, a ysgrifennwyd gan awduron cryf sy'n adlewyrchu cyflwr Prydain gyfoes, yn ogystal â chomedi cryfach a mwy unigryw gyda'r potensial i fod yn llwyddiant prif ffrwd yn y dyfodol.

## YN YSTOD Y FLWYDDYN I DDOD:

- Byddwn yn buddsoddi rhagor o arian yng nghynnwys BBC Two wrth iddi weithio i ailadeiladu ei henw da ar gyfer drama deledu arwyddol gan ddefnyddio talent o'r DU ac adrodd straeon o'r DU, yn ogystal â sefydlu rôl gryfach a mwy unigryw mewn comedi.
- Bydd BBC Radio 4 yn cynnig o leiaf 180 o oriau o gomedi gwreiddiol (heb gynnwys ailddarllediadau).
- Bydd BBC Four yn cynnig darllediadau digidol cyntaf y DU o 20 o deitlau ffilm sinema'r byd – genre rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig iddo wrth i ni leihau ein gwariant cyffredinol ar raglenni a gaffaelwyd.

I weld mwy o ymrwymiadau rhaglenni a gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc/statements2010.

I weld ein cyflawniadau yn erbyn ein haddewidion y llynedd ewch i pdf 2009/10 *Performance against Public Commitments* yn adran lawrlwytho www.bbc.co.uk/annualreport.




4


5


6

# CYNNWYS EITHRIADOL I BLANT

## DIFYRRU A SYNNU CYNULLEIDFAOEDD IFANC – HELPU PLANT I ARCHWILIO EU BYD MEWN MAN CYHOEDDUS DIOGEL.

**KPI**

### CYNYDDU NATUR UNIGRYW AC ANSAWDD

**Mae teledu'r BBC yn wreiddiol ac yn wahanol %**

| | |
|---|---|
| 08/09 | 36 |
| 09/10 | 37 |

Cytunodd mwy o ymatebwyr yn gryf fod teledu'r BBC yn 'wreiddiol ac yn wahanol' o gymharu â'r llynedd.

Mae ein pwyslais ar gynnwys a grëwyd yn y DU – o *Horrible Histories* i *Timmy Time* i ddarlleniadau o'r *Just So Stories* gan Rudyard Kipling ar BBC 7 – yn golygu ein bod yn wahanol i lawer o'r gwasanaethau eraill sydd wedi'u hanelu at blant sydd ar gael yn y farchnad. Mae ein hamgylchedd anfasnachol yn cynnig man dibynadwy i blant ac mae wedi'i gynllunio i annog dysgu. Yn y lluniau gwelir:

1 *Timmy Time.*

2 *Horrible Histories.*

3 *Show Me, Show Me.*

4 *Relic: Guardians of the Museum.*

5 *Spirit Warrior.*

1



Mae heriau penodol yn gysylltiedig â chynhyrchu cynnwys plant.

Caiff ein plant y cynnwys gorau o'r tu allan i'r DU gan ddarparwyr fel Disney a Nickelodeon, gan godi'r safon ar gyfer creadigrwydd ac ansawdd. Ar yr un pryd, mae darlledwyr a chynhyrchwyr o'r DU o dan bwysau parhaus, sy'n ei gwneud yn anodd i lawer o gwmnïau fuddsoddi mewn allbwn drud, gwreiddiol i blant.

Hyd yn oed pan fydd rhaglenni'n cael eu cymeradwyo, mae'r gystadleuaeth ar draws llwyfannau am sylw'r gynulleidfa hon sydd â disgwyliadau uchel ac o dan ddylanwad eu cymheiriaid yn golygu ei bod yn gynyddol anodd i raglenni newydd ac anhysbys lwyddo.

Er gwaethaf y pwysau hyn, erys y BBC yn gwbl ymrwymedig i ddarparu cynnwys o safon a gynhyrchir yn y DU i blant. Mae ein rôl yn darparu cynnwys teledu, radio ac ar-lein pwrpasol sy'n annog dysgu, yn cefnogi dealltwriaeth o'r byd, ac yn gwneud i blant chwerthin – mewn man diogel y gellir ymddiried ynddo a lle na cheir hysbysebion – yr un mor fawr.

Ac felly, un o'n blaenoriaethau fydd cynyddu'r buddsoddiad mewn rhaglenni plant. Yn amodol ar gymeradwyaeth, byddwn yn cynyddu ein gwariant ar raglennu plant £10miliwn y flwyddyn o 2013 i 2016 o leiaf, gan adeiladu ar y buddsoddiad ychwanegol o £25.5miliwn dros dair blynedd a sicrhawyd eisoes yn ystod cyfnod cyfredol ffi'r drwydded. Caiff llawer o'r arian hwn ei ddefnyddio ar gyfer drama, comedi a chynnwys ffeithiol a grëwyd yn y DU ar gyfer plant hŷn, yn ogystal â rhaglennu newydd CBeebies a fydd yn lleihau cyfraddau ailddarlledu allbwn ar gyfer plant o dan 6 oed.

Drwy Ymddiriedolaeth y BBC, byddwn yn ceisio cymeradwyaeth i ymestyn amser gorffen sianel CBBC o 7pm i 9pm, yr oriau gwylio brig ar gyfer y gynulleidfa hon. Byddwn yn ymgynghori'n ofalus gyda rhieni a phlant i asesu'r goblygiadau posibl, gan gydnabod ei bod yn debygol y bydd amrywiaeth o safbwyntiau ar y pwnc.

## YN YSTOD Y FLWYDDYN I DDOD:

- Bydd o leiaf 70% o oriau CBBC yn gynyrchiadau gwreiddiol – yn cynnwys isafswm o 665 o oriau o ddrama, 85 o oriau o newyddion (yn cynnwys *Newsround*) a 550 o oriau o raglennu ffeithiol.
- Bydd tua 80% o oriau CBeebies yn gynyrchiadau gwreiddiol.
- Yn ogystal â'n hallbwn teledu digidol, bydd BBC One a BBC Two yn darlledu 1,500 o oriau ychwanegol a rennir o raglenni plant.
- Bydd BBC 7 yn cynnig pedair awr o raglennu bob dydd, i blant iau a hŷn.

I weld mwy o ymrwymiadau rhaglenni a gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc/statements2010.

I weld ein cyflawniadau yn erbyn ein haddewidion y llynedd ewch i pdf 2009/10 *Performance against Public Commitments* yn adran lawrlwytho www.bbc.co.uk/annualreport.



2


3


4


5


# UNO'R GENEDL

## BOD YNO I'R DU GYFAN – MEWN CYFNODAU O ARGYFWNG, COFFÂD A DATHLU DRWY DDIGWYDDIADAU, CHWARAEON AC ADLONIANT NODEDIG.

KPI

### CYNNAL CYRHAEDDIAD

**Cyrhaeddiad wythnosol ar draws y BBC %**

| | |
|---|---|
| 08/09 | 93 |
| 09/10 | 97 |

Bob wythnos gwnaeth tua 97% o boblogaeth y DU sy'n oedolion wylio teledu'r BBC, gwrando ar ein gwasanaethau radio neu ddefnyddio BBC Ar-lein.

Mae'r gwahaniaeth flwyddyn ar flwyddyn oherwydd bod methodoleg fwy cadarn yn cael ei defnyddio ers mis Ionawr 2009 i gasglu data cyrhaeddiad ar draws y BBC. Mae'r canlyniad yn fwy cywir, ac mae'n adlewyrchu'r ffyrdd cynyddol y gall y gynulleidfa gael gafael ar gynnwys y BBC.

Dylid bod yn ofalus wrth gymharu data cyrhaeddiad ar draws y BBC eleni â data blynyddoedd blaenorol gan na ellir cymharu'r ddwy fethodoleg yn uniongyrchol.

Daeth amrywiaeth o raglenni â phobl ynghyd eleni:

1 Ein darllediadau o Gemau Olympaidd y Gaeaf.

2 Eddie Izzard, yn rhedeg 43 marathon mewn 51 diwrnod ar gyfer *Sport Relief*.

3 *I'd Do Anything* – rhaglen i'r teulu ar nosweithiau Sadwrn.

4 *Plant mewn Angen*, bob mis Tachwedd.

5 Mae chwaraeon yn uno cymunedau ledled y DU.

6 Ein gwaith allgymorth – yn cynnwys ymweliad y Doctor newydd â Sunderland a lleoliadau eraill ledled y DU.

7 Darllediadau teimladwy o Ddydd y Cofio.



1



2



Roedd ein darllediad radio allanol cyntaf erioed – darllediad o *The Magic Flute* gan Mozart o Covent Garden – ar 8 Ionawr 1923; Streic Cyffredinol 1926 oedd ein gwrthdrawiad cyntaf â'r llywodraeth dros annibyniaeth olygyddol; a dechreuom sylwebu'n fyw ar chwaraeon yn 1927.

Er dyddiau cynnar iawn y BBC – hyd yn oed cyn dyddiad ein Siarter gyntaf – rydym wedi bod yn y sefyllfa freintiedig o fod yn fan cynnull cenedlaethol ar gyfer trafferthion, dathliadau, coffâd ac adloniant.

Mae cynulleidfaoedd yn troi at y BBC o hyd ar adegau o argyfwng, fel cyfnod yr eira a'r llifogydd y gaeaf hwn; pan fydd ganddynt ddewis ar yr un pryd o ffynonellau gwahanol mae'r mwyafrif llethol yn troi at y BBC ar adegau o ragoriaeth mewn chwaraeon rhyngwladol, fel *World Cup Final*; maent yn dilyn digwyddiadau cenedlaethol neu ddiwylliannol fel y Gwasanaeth Coffa neu'r Etholiad Cyffredinol gyda'r BBC; ac roedd pawb yn siarad am y rhifyn o *Eastenders* a ddarlledwyd yn fyw ym mis Mawrth i ddathlu pen-blwydd yr opera sebon yn 25 oed.

Mae ehangder ac amrywiaeth y digwyddiadau a gefnogir gennym, a'n presenoldeb ar draws teledu, radio a'r cyfryngau digidol, yn rhoi cyfrifoldeb unigryw i ni ddangos yr adegau pwysig mewn bywyd cenedlaethol. Yn eironig, yn hytrach na cholli perthnasedd, mae'r ffaith bod y cyfryngau'n ymrannu fwy a newid cymdeithasol yn golygu bod y cyfrifoldeb hwn yn fwy hanfodol nag erioed.

Gan edrych i'r dyfodol, byddwn yn parhau i ddarlledu'r digwyddiadau chwaraeon hynny sydd â phwysigrwydd cenedlaethol arbennig a nodwyd gan arolwg diweddar y Llywodraeth o Ddigwyddiadau a Restrwyd, yn amodol ar ennill hawliau chwaraeon sy'n cynnig gwerth am arian: ein her yw darparu pecyn chwaraeon amrywiol i'n cynulleidfaoedd heb aflunio marchnad lle mae gan ddarlledwyr eraill sy'n darlledu am ddim werth masnachol a chyhoeddus sylweddol.

Un o'r digwyddiadau allweddol i ni fydd Gemau Olympaidd Llundain 2012 – y digwyddiad chwaraeon mwyaf i'w gynnal yn y DU erioed. Byddwn yn manteisio ar ein galluoedd ar-lein i gynnig cynnwys ychwanegol yn y cyfnod yn arwain at y Gemau, yn ogystal â darparu etifeddiaeth archifol unwaith y byddant wedi dod i ben.

## YN YSTOD Y FLWYDDYN I DDOD:

- Bydd BBC One yn adeiladu ar lwyddiant *Strictly Come Dancing* a rhaglenni eraill i ailgadarnhau ei hun fel cartref y BBC ar gyfer 'profiadau mawr i gynulleidfaoedd mawr'. Bydd ei hamserlen yn parhau'n uchelgeisiol ar nosweithiau Sadwrn.
- Bydd BBC Two Wales yn darlledu o Sioe Frenhinol Cymru, y digwyddiad awyr agored mwyaf poblogaidd yng Nghymru, ac ar draws ein gwasanaethau bydd *Plant mewn Angen* yn dychwelyd ar ei newydd wedd ym mis Tachwedd.
- Byddwn yn adfywio ein gwefan chwaraeon, i roi profiad mwy boddhaol a chyson i'w defnyddwyr.
- Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod ein cynnwys ar gael mor eang â phosibl ac felly byddwn yn darparu is-deitlau ar ein holl raglenni. Hefyd, byddwn yn cynnig gwasanaeth sainddisgrifio ar o leiaf 10% o'n rhaglenni perthnasol ac yn arwyddo o leiaf 5% ohonynt.

I weld mwy o ymrwymiadau rhaglenni a gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc/statements2010.

I weld ein cyflawniadau yn erbyn ein haddewidion y llynedd ewch i pdf 2009/10 *Performance against Public Commitments* yn adran lawrlwytho www.bbc.co.uk/annualreport.















# BBC: CYNYDDU GWERTH DRWY WEITHIO'N WELL

MAE'R ADRAN HON YN DANGOS SUT RYDYM YN CYNNAL EIN GWEITHREDIADAU AC YN CEFNOGI EIN POBL.

Y cyhoedd ym Mhrydain sy'n talu am y BBC. Ac mae'n briodol ein bod mor dryloyw â phosibl ynglŷn â sut rydym yn cynnal ein busnes.

Yn yr adran flaenorol disgrifiwyd ein cenhadaeth olygyddol, a'n strategaeth i'w chyflawni. Yma rydym yn rhannu elfennau o'n strategaeth fusnes – sut rydym yn gwneud pethau. Rydym yn cynnwys adran fer ar Academi'r BBC, a lansiwyd eleni, a hyfforddi staff y BBC a'r diwydiant ehangach.

Disgrifiwn sut rydym yn gweithio gydag economi greadigol ehangach y DU, gan adolygu Stiwdios ac Ôl-gynhyrchu'r BBC a BBC Worldwide, ac amlinellu'r fframwaith masnachol sy'n pennu sut rydym yn gweithio gyda sefydliadau a chwmnïau eraill.

Gorffennwn drwy dynnu sylw at ychydig o risgiau allweddol posibl i'n busnes, a sut rydym yn eu lliniaru.

Llun o'r ddynes fusnes Peggy Mitchell, a chwaraeir gan Barbara Windsor, sy'n gadael Albert Square yn ddiweddarach eleni ar ôl deng mlynedd y tu ôl i'r bar yn y Queen Vic. Dathlodd *EastEnders* ei ben-blwydd yn 25 yn gynharach yn 2010 gyda 13 o wobrau a chynulleidfa o bron 19 miliwn o bobl am ei ddarllediad byw. Drama fydd un o gonglfeini ein strategaeth raglenni yn y dyfodol.

# RHEOLI'R BUSNES






# GWEITHREDIADAU

"WRTH I GYNULLEIDFAOEDD FANTEISIO'N FWYFWY AR DECHNOLEGAU DIGIDOL NEWYDD, MAE'N RHAID I NI REDEG EIN BUSNES MEWN FFORDD SY'N CYNNIG GWERTH AMLWG YN OGYSTAL Â CHYNNWYS O'R RADD FLAENAF."
CAROLINE THOMSON
PRIF SWYDDOG GWEITHREDU

MAE TECHNOLEGAU NEWYDD A GLOBALEIDDIO CYNYDDOL YN SBARDUN I NEWIDIADAU NA WELWYD MO'U TEBYG O'R BLAEN YM MYD Y CYFRYNGAU: DIBYNNWN AR GYFRYNGAU DIGIDOL I WNEUD EIN GWAITH, A DEFNYDDIWN GYNNWYS CYFRYNGAU YN EIN HAMSER HAMDDEN.

UN O EFFEITHIAU'R NEWID HWN YN Y DU YW BOD Y MODEL SYDD BOB AMSER WEDI DARPARU RHAGLENNI DARLLEDU CYHOEDDUS AM DDIM O'R RADD FLAENAF YN WYNEBU'R BYGYTHIAD MWYAF ERIOED.












Bu'r gostyngiad cymharol mewn gwariant ar hysbysebu o'i gymharu â'r twf economaidd cyffredinol – a welwyd cyn y dirwasgiad ac sydd wedi ei waethygu ganddo – yn ergyd i ddarlledwyr masnachol ar ddau gyfrif wrth i'r arian a werir ar hysbysebu leihau'n sydyn, tra bod y llu o sianelau lloeren ac ar-lein newydd yn peri i gyfraddau hysbysebu ostwng.

Y sgîl-effaith i'r diwydiant ehangach oedd bod y darlledwyr masnachol PayTV yn buddsoddi cyfran lai mewn cynnwys newydd yn y DU (36%, wedi gostwng o tua 51% am ddarlledwr am ddim nodweddiadol, yn ôl Screen Digest).

Yn y cyfamser, nid yw'r porthgeidwaid mawr i gynnwys digidol yn yr UD – Google ac YouTube – wedi bod yn buddsoddi cyfrannau mawr o'u henillion yn y DU yn ôl yn y DU. Mae hyn yn lleihau ymhellach yr arian sydd ar gael i wneud rhaglenni Prydeinig unigryw o safon uchel.

Bydd strategaeth arfaethedig y BBC yn mynd i'r afael â'r ddau fater hyn. Byddwn yn trefnu ac yn rhedeg ein busnes mewn ffordd hyblyg er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi i'n cynulleidfaoedd yr hyn a ddymunant, yn y ffordd fwyaf costeffeithiol bosibl; a byddwn yn addasu'r ffordd rydym yn ymddwyn yn y farchnad ehangach, fel cyflenwr, partner a chystadleuwr.

## CADWYN WERTH SYML Y BBC

Y CYFRYNGAU A'R DIRWEDD REOLIADOL

EFFAITH TECHNOLEG DDIGIDOL AR GYNULLEIDFAOEDD A CHYFLENWYR

ffactorau allanol

SUT MAE'R BBC YN GWEITHREDU HEDDIW

RHEOLI EIN BUSNES A'N LLIF ARIAN PAROD

ffactorau mewnol

**INCWM**

Ffi'r drwydded ynghyd â pheth incwm masnachol.

Rhaglen Effeithlonrwydd sy'n parhau.

**STRWYTHUR**

A yw'r fframwaith a'r strwythur gweithredol yn briodol i gyflawni ein cenhadaeth mewn ffordd effeithlon ac effeithiol?

**CYNNYRCH**

Prynu? Gwneud? Partner? Modelau cynnwys ac ariannu gwasanaethau gwahanol ac iddynt oblygiadau gwahanol a manteision/anfanteision i dalwyr ffi'r drwydded.

**RHEOLI ASEDAU**

Buddsoddi mewn pobl – yn fewnol ac yn y diwydiant.

Manteisio i'r eithaf ar asedau rhaglenni

sut rydym yn gwneud pethau

GWELLA SUT RYDYM YN GWNEUD PETHAU – LLUNIO BBC SY'N ADDAS AT Y DYFODOL

RHOI ANSAWDD YN GYNTAF

ysgogwyr busnes strategol

## NEWID Y FFORDD Y GWEITHREDWN

Mae'r BBC heddiw yn wahanol i'r BBC ar ddechrau'r 90au pan oedd tua chwarter ffi'r drwydded yn cael ei wario ar orbenion. Rydym wedi mynd ati i haneru'r ffigur hwnnw i tua 12% heddiw, a bwriadwn ei ostwng ymhellach fel y bydd o leiaf 90c o bob £1 o ffi'r drwydded o 2013 ymlaen yn cael ei wario ar wneud a throsglwyddo cynnwys o safon. Dros y ddwy flynedd nesaf byddwn yn arbed £2biliwn o gostau yn gynyddol.

Erbyn hyn, mae tua hanner cyfanswm ein gwariant yn cael ei wario ar gyflenwyr allanol, sy'n rhoi budd uniongyrchol i economi'r DU. Rydym wedi dileu costau, symleiddio ein prosesau, a gosod ar gontract allanol yr agweddau hynny ar ein busnes y gallai cyflenwr trydydd parti eu gwneud yn fwy effeithlon.

Ond nid oes a wnelo ein newidiadau â lleihau costau yn unig. Rydym yn anelu at sicrhau bod y BBC yn sefydliad llawer mwy cyfoes ac effeithlon – gyda llai o uwch reolwyr a haenau rheoli, prosesau gwneud penderfyniadau cynt, ffyrdd mwy cydweithredol o weithio, a sefydliad lle mae defnydd mwy creadigol o dechnoleg newydd yn lleihau biwrocratiaeth ac yn symleiddio ein prosesau ymhellach.

## ARTISTIAID, CYFLWYNWYR A PHERFFORMWYR

Rydym wedi cyflwyno newidiadau i'n ffordd strategol o reoli talent ar yr awyr – ein hartistiaid, cyflwynwyr a pherfformwyr – y bobl sydd fwyaf cyfrifol am ddylanwadu ar asesiad cynulleidfaoedd o ansawdd a natur unigryw'r BBC. Oherwydd eu pwysigrwydd i dalwyr ffi'r drwydded rydym wedi cyflwyno prosesau newydd o asesu gwerth, cyd-drafod contractau, cymeradwyo cynigion, meithrin talent newydd, a datblygu talent sy'n bodoli eisoes. Mae ein diben yn glir iawn: sicrhau bod y BBC yn sefydliad lle mae'r artistiaid gorau am weithio i greu rhaglenni gwych am y gwerth gorau i dalwyr ffi'r drwydded.

Er i arolwg yr Ymddiriedolaeth o gostau talent yn 2008 ddangos nad oedd y BBC yn talu mwy na 'phris y farchnad' am y dalent orau ar y teledu, gwnaethom ymrwymiad i leihau'r gwariant ar y dalent orau, yn enwedig oherwydd y dirwasgiad, ac i reoli ein gwariant cyffredinol ar dalent yn ofalus.

Rydym am roi gwybodaeth sy'n galluogi eraill i farnu ein perfformiad yn erbyn yr ymrwymiad, ond heb danseilio ein gallu i gyd-drafod cynigion am dalent sy'n rhoi gwerth da.

Tabl 2-10
**Tâl i artistiaid, cyflwynwyr, newyddiadurwyr, cerddorion £m**

| | **2009/10** | 2008/09 | £ Newid O flwyddyn i flwyddyn |
|---|---|---|---|
| Hyd at £50,000 | **112.1** | 114.6 | -2.5 |
| £50,000 i £100,000 | **41.8** | 43.9 | -2.1 |
| £100,000 i £150,000 | **15.4** | 16.3 | -0.9 |
| Dros £150,000 | **52.2** | 54.4 | -2.2 |
| **Cyfanswm** | **221.5** | 229.2 | -7.7 |

Dengys y tabl isod wariant cyffredinol y BBC ar dalent ar gyfer y ddwy flynedd diwethaf. O un flwyddyn i'r llall lleihawyd y gwariant bron £8miliwn. Byddwn yn parhau i reoli'n llym.

## SICRHAU'R CYNNIG GORAU I DALWYR Y DRWYDDED

Yn ogystal â lleihau'r gwariant ar ein talent allanol, rydym yn parhau i asesu ein buddsoddiad mewn pobl a chontractwyr yn fewnol, i leihau gwastraff a dyblygu, ac ychwanegu gwerth.

Bu'r dirwasgiad yn ergyd drom i'r cyfryngau ac mae'n briodol bod y BBC yn defnyddio ffi'r drwydded i gynnig gwaith a chyfleoedd hyfforddiant i bobl yn y diwydiant ehangach, gan feithrin sgiliau trosglwyddadwy – y gellir eu defnyddio mewn marchnad bortffolio – a chynaliadwy yn y byd cwbl ddigidol.

## RHOI'R CYMORTH GORAU I'N STAFF

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwneud newidiadau i'r ffordd rydym yn recriwtio pobl. Rydym yn hysbysebu'r rhan fwyaf o'n swyddi gwag ar-lein, yn https://jobs.bbc.co.uk/fe/tpl_bbc01.asp ynghyd ag esboniad o'n prosesau recriwtio.

Ac rydym wedi mynd ati i symleiddio a gwella ein prosesau a'n polisïau sy'n effeithio ar bobl ar ôl iddynt ymuno â ni. Er enghraifft, rydym wedi buddsoddi mewn technoleg a systemau sy'n cynorthwyo ein rheolwyr i arwain eu timau.

Gwellwyd swyddogaeth gynghori Adnoddau Dynol, ac rydym bellach mewn sefyllfa well i gynnig cyngor ymarferol ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â phobl i arweinwyr ein hunedau is-adrannol a busnes.

Ac rydym wedi parhau i gydweithio â'n partner allanol i wella ac atgyfnerthu'r gwasanaeth a ddarperir ganddo.

## CYDNABYDDIAETH STAFF

Rydym yn parhau i leihau nifer y bobl a gyflogwn. Fodd bynnag, rydym wedi gweld cynnydd net bach yn y niferoedd cyfartalog dros y flwyddyn ddiwethaf. Cyn y symud i Salford, rydym wedi bod yn cyfuno rhai swyddi, ac mae hyn yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r cynnydd dros dro mewn niferoedd. Yn gyffredinol, rydym yn disgwyl i'r niferoedd leihau eto ar ôl 2010/11.

Cafodd y cynnig cyflog ar gyfer 2009/10 ei setlo ar £470 y cyflogai i staff gradd sy'n ennill o dan £60,000. Cafodd cyflog pobl a oedd yn uwch na'r trothwy hwn ei rewi.

Rydym hefyd wedi cymryd camau a fydd yn lleihau'r swm a werir ar uwch reolwyr 25% dros y tair blynedd nesaf.

- Mae tâl cyfarwyddwyr gweithredol y BBC wedi cael ei rewi am bedair blynedd.
- Mae bonysau i swyddogion gweithredol y BBC wedi cael eu hatal am gyfnod amhenodol.
- Mae tâl uwch reolwyr wedi cael ei rewi, ac mae bonysau wedi cael eu hatal am ddwy flynedd.
- Rydym yn addo lleihau nifer yr uwch reolwyr 18% dros gyfnod o bedair blynedd.

Er i nifer yr uwch reolwyr dyfu yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, erbyn mis Mawrth – bum mis ar ôl i'r camau gael eu cyhoeddi – roeddem wedi lleihau nifer yr uwch reolwyr 15 (2.3%) ac roedd cyfanswm y cyflogau am y cyfnod wedi gostwng £6.8miliwn (8.6%). Byddwn yn parhau i leihau nifer yr uwch reolwyr a bil cyflog uwch reolwyr, a bydd Pwyllgor

Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn parhau i adolygu cynnydd yn rheolaidd.

Ein nod yw cael y cydbwysedd cywir rhwng denu a chadw'r staff priodol i arwain y BBC a darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf, a rhoi gwerth amlwg i dalwyr y drwydded.

## AMRYWIAETH AR YR AWYR AC ODDI ARNO

Mae recriwtio a datblygu gweithlu amrywiol sy'n cynrychioli poblogaeth gyfoes Prydain yn ein gwneud yn fwy perthnasol i dalwyr ffi'r drwydded ac yn ein hamlygu ni, a'n cynulleidfaoedd, i straeon a materion sydd y tu hwnt i'n gorwelion.

Mae amrywiaeth o brofiad a safbwynt yn sbardun i greadigrwydd ac yn arwain at allbwn mwy cyfoethog ac ystyrlon sy'n taro tant â phob cynulleidfa yn y DU.

Ar hyn o bryd mae tua hanner (49%) gweithlu'r BBC yn ferched; mae staff duon a lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 12.1% o staff (o'i gymharu â tharged o 12.5%); ac mae 4.4% o'n staff wedi'u cofrestru'n anabl (targed: 5.5%).

Ein huchelgais yw sefydlu amrywiaeth ym mhob un o'n gweithgareddau a'n swyddogaethau – o greu allbwn unigryw ac ysbrydoledig i ddenu a meithrin talent wych, o gysylltu â chynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd i sicrhau bod gwasanaethau newydd yn hygyrch:

Strategaeth gorfforaethol a chynllunio busnes: cafodd y Cod Safonau Gwasanaeth ar gyfer Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol ei lywio gan ymgynghoriadau â chymunedau amrywiol, a sicrhawyd bod ystyriaethau o ran cydraddoldeb yn rhan o brosesau caffael. Ceir rhagor o wybodaeth am y cynllun yn www.digitaluk.co.uk

Cynulleidfaoedd: buom yn bartner i Channel 4 ar Talking Disability, prosiect ymchwil a ystyriodd ganfyddiadau cynulleidfaoedd anabl o deledu. Mae'r canfyddiadau wedi cael effaith wirioneddol, ac rydym wedi trefnu gweithdai i wneuthurwyr rhaglenni i'w helpu i ystyried yn ddyfnach ac yn well, y ffordd y mae pobl anabl yn cael eu portreadu, castio a mynediad.

Allbwn: Rydym yn gweithio gyda gwneuthurwyr a chomisiynwyr rhaglenni i wella cynrychiolaeth ar y sgrîn ac ar yr awyr. Ymhlith yr enghreifftiau amlwg eleni bu cyflwynwraig CBeebies, Cerrie Burnell; cyhoeddodd *EastEnders* gymeriad anabl rheolaidd newydd, Adam Best (a chwaraeir gan David Proud sy'n defnyddio cadair olwyn) yn ogystal â rhoi ein pennod gyntaf a oedd yn cynnwys pobl dduon yn unig; roedd drama gignoeth *Moses Jones* yn cynnwys cast o bobl dduon yn bennaf a chafodd ei darlledu yn ystod oriau brig ar BBC One; ac ar y radio, cyflwynodd cwmni theatr Graeae *The Hunchback of Notre Dame* ar BBC Radio 4. Rydym yn gweithio gyda BECTU ac eraill i drefnu cynhadledd rwydweithio i gyflwynwyr radio du neu leiafrifoedd ethnig llawrydd.

Gweithlu: Hon oedd y drydedd flwyddyn a'r flwyddyn olaf o raglen fuddsoddi wedi'i thargedu at gefnogi amrywiaeth ar bob lefel o'n gweithlu. Dros y cyfnod, roedd 40% o bobl a ymunodd â'n Cynllun i Newyddiadurwyr o Dan Hyfforddiant a 33% a ymunodd â'n Cronfa o Dalent Newyddiadurol yn dod o gefndir du neu leiafrifoedd ethnig. Mae ein Rhaglen Mentora a Datblygu wedi helpu nifer amrywiol o staff wrth iddynt

Tabl 2-11
**Cyfanswm PSB cyfartalog (cyfwerth ag amser llawn)**

| | |
|---|---|
| Diwedd y flwyddyn 2006 | 18,860 |
| Diwedd y flwyddyn 2007 | 17,914 |
| Diwedd y flwyddyn 2008 | 17,677 |
| Diwedd y flwyddyn 2009 | 17,078 |
| Diwedd y flwyddyn 2010 | 17,238 |

Tabl 2-12
**Nifer yr uwch reolwyr yn ôl band cyflog**

| Band cyflog | 2009/10 | 2008/09 |
|---|---|---|
| O dan £70,000 | **40** | 45 |
| £70,000 i £99,999 | **261** | 265 |
| £100,000 i £129,999 | **157** | 153 |
| £130,000 i £159,999 | **82** | 76 |
| £160,000 i £189,999 | **33** | 39 |
| £190,000 i £219,999 | **23** | 23 |
| £220,000 i £249,999 | **9** | 8 |
| £250,000 i £279,999 | **4** | 3 |
| £280,000 i £309,999 | **2** | 4 |
| £310,000 i £339,999 | **3** | 1 |
| £340,000 i £369,999 | **–** | – |
| £370,000 i £399,999 | **–** | 1 |
| **Cyfanswm** | **614** | 618 |

Dengys y siart staff PSB y DU yn unig. Byddwn yn lleihau'r cyfanswm i 520 (18% o'r ffigur sylfaenol) erbyn 2013.

Tabl 2-13
**Staff PSB y DU yn ôl Cenedl (cyfwerth ag amser llawn)**

| | 2009/10 | 2008/09 |
|---|---|---|
| Lloegr (heb gynnwys Llundain) | **24** | 23 |
| Llundain | **59** | 60 |
| Yr Alban | **7** | 6 |
| Cymru | **7** | 7 |
| Gogledd Iwerddon | **3** | 4 |

Tabl 2-14
**Tabl amrywiaeth, % o gyfanswm y staff**

| | Targed 2012 | Gwirioneddol 2010 | Newid o flwyddyn i flwyddyn |
|---|---|---|---|
| Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig | 12.5 | 12.1 | +1.2% |
| Uwch Reolwyr, Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig | 7.0 | 5.7 | +0.7% |
| Staff anabl | 5.5 | 4.4 | -0.3% |
| Uwch reolwr, staff anabl | 4.5 | 3.4 | dd/g |

ddysgu'r sgiliau i symud i mewn i uwch swyddi. A rhododd Extend, ein cynllun lleoliad gwaith i bobl anabl, gyfleoedd i 50 o unigolion.

## Y FLWYDDYN SYDD I DDOD

Bydd llawer o'n hymdrechion gweithredol eleni yn canolbwyntio ar gynorthwyo pobl yr effeithir arnynt gan ddau newid mawr i'r BBC:

Yn Llundain, byddwn yn symud allbwn Newyddion rhwydwaith o White City a World Service o Bush House, i'r Ganolfan Ddarlledu. Mae cynlluniau manwl ar waith i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiadau darlledu yn ystod y cyfnod hwn. Caiff 1,500 o swyddi eu trosglwyddo o Lundain i Salford Quays, a byddwn yn rheoli'r broses o symud tua 700 o unigolion a'u dibynyddion er mwyn sicrhau y gall craidd o staff profiadol gynnal 'busnes fel arfer' wrth i hyn ddigwydd. Rydym yn bwriadu recriwtio'r gweddill i sicrhau ein bod yn cael y cymysgedd cywir o sgiliau a chontractau er mwyn cael adnoddau pobl hyblyg. Lansiwyd gwefan recriwtio BBC North www.bbc.co.uk/jobs/north ym mis Chwefror, gyda thua 200 o bobl yn cofrestru y dydd yn ystod yr wythnos hyd at ddiwedd mis Mawrth. Mae partneriaeth â Connexions a'r Ganolfan Byd Gwaith wedi arwain at ddatblygu cynllun prentisiaeth sy'n targedu grwpiau anodd eu cyrraedd yn yr ardal leol.

Rydym yn ymrwymedig i adleoli cymaint o staff sydd wedi dewis peidio symud ag y bo modd.

At hynny, mae Gemau Olympaidd Llundain 2012 yn cynnig cyfle unigryw i gysylltu â chynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd ac i greu gwaddol cymdeithasol a fydd yn parhau i fod o fudd. Bydd prosiectau sgiliau ac addysg sy'n ymgysylltu â'r amrywiaeth mwyaf o gynulleidfaoedd â phosibl yn cael eu cynnal ledled y DU gyda'r nod o newid canfyddiadau am y BBC, gwella ein brand fel cyflogwr, gwella cynhwysiant cymdeithasol a chyflwyno cynnwys newydd i'n llwyfannau.

## DYFODOL CYNALIADWY

Mae'r byd yn newid, ac mae'r rhaid i'r BBC ymaddasu er mwyn parhau i fod yn berthnasol.

Ni allwn warantu swydd am oes mwyach, ond mae'n rhaid i ni gyflogi mewn ffordd hyblyg a theg. Gallwn gynnig gweithle ymestynnol a chreadigol, lle rydym yn helpu pobl i ddysgu llawer o sgiliau, a'u hannog i roi cynnig ar lawer o rolau gwahanol drwy'r sefydliad. Ond er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i ni ddileu rhai o'r swyddi parhaol a strwythuro ein gwaith o amgylch gweithlu hyblyg.

Ym mis Mawrth cytunwyd ar Gytundeb Deialog â BECTU a oedd yn cwmpasu staff llawrydd sy'n gweithio yn ein hadran cynhyrchu teledu fewnol. Mae hwn yn gam cadarnhaol ymlaen, sy'n sicrhau deialog cynhyrchiol parhaus â'n cymuned lawrydd a werthfawrogir yn fawr iawn.

Bydd ein strategaeth ar gyfer cysylltiadau â chyflogeion yn canolbwyntio ar gynnal perthynas gydweithredol ac agored â chyflogeion ac undebau llafur mewn amgylchedd cynyddol heriol.

Mae'n amgylchedd sy'n ein herio i gadw ein hymrwymiad i dalwyr ffi'r drwydded i ddarparu'r rhaglenni a'r gwasanaethau gorau posibl tra'n lleihau costau.

## DIOGELWCH Y BBC

Mae arbenigwyr adran Diogelwch ac Iechyd y BBC yn rhagweithiol o ran rhoi cyngor a chymorth i dimau casglu newyddion a gwneuthurwyr rhaglenni sy'n gweithredu ledled y byd. O ganlyniad, rydym wedi llwyddo i leihau nifer y damweiniau y dylid rhoi gwybod i'r HSE amdanynt i 28 eleni (2009: 36). Ers 2000 rydym wedi lleihau'r gyfradd o ddamweiniau y dylid rhoi gwybod amdanynt o 277 fesul 100,000 o staff i 127.

Mae ein tîm iechyd galwedigaethol hefyd wedi rhoi cyngor a chymorth i staff sydd â phroblemau iechyd sy'n ymwneud â gwaith ac wedi sicrhau bod gennym wybodaeth gywir a chynlluniau cadarn i reoli Ffliw Moch ac argyfyngau eraill.

Yn ystod y flwyddyn mireiniwyd ein proses o asesu risg a chyflwynwyd offeryn risg ar-lein i wneud y broses asesu mor syml â phosibl.

Mae'r adran yn cydweithio'n agos â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar nifer o feysydd megis: rheoli digwyddiadau mawr megis cyngherddau roc, a digwyddiadau chwaraeon o bwys, gan gynnwys paratoi ar gyfer Gemau Olympaidd Llundain 2012.

Mewn menter allweddol – a fydd o fudd i'r diwydiant ehangach – rydym wedi hyrwyddo pasport diogelwch a fydd yn caniatáu i staff llawrydd ddefnyddio hyfforddiant diogelwch gan un sefydliad wrth weithio i sefydliad arall ac felly symud rhwng gwahanol sefydliadau'n haws.

Tristwch i'r BBC oedd nodi marwolaeth Anton Turner yn Tanzania ym mis Hydref, pan oedd yn ffilmio *Serious Explorers* i CBBC. Ymosodwyd ar Anton gan eliffant a bu farw yn y fan a'r lle. Daeth y tîm ymchwilio i'r casgliad bod marwolaeth Anton yn ddamwain drasig. Cyhoeddwyd yr ymchwiliad yn www.bbc.co.uk/info/reports

Mae'r adran yn gweithio gyda gwneuthurwyr rhaglenni mewnol ac allanol i gyflwyno styntiau cofiadwy – dyma un o *Bang Goes The Theory* – a rhai o'r lluniau gorau a mwyaf syfrdanol o fyd natur i'n sgrîn.



# ACADEMI'R BBC







2010 fydd yr ail flwyddyn o'r cynllun prentisiaeth. Dengys y lluniau brentisiaid newydd Adil, Jade a Tommy yn mynd drwy eu pethau o flaen y camera, ac yn bwysicach na hynny, y tu ôl i'r camera,

## MAE RHWYMEDIGAETH AR Y BBC "…I WNEUD CYFRANIAD EFFEITHIOL I'R DASG O BARATOI A CHYNNAL GWEITHLU CYFRYNGAU HYFEDR YN Y DIWYDIANT CLYWELEDOL". (SIARTER Y BBC ADRAN 3.2B)

Mae BBC o'r cychwyn wedi hyfforddi'r diwydiant darlledu. Ac wrth i staff a hyfforddwyd gan y BBC symud i ddarlledwyr eraill neu gwmnïau annibynnol mae'r hyfforddiant hwnnw wedi bod yn gonglfaen i'r diwydiant. Yn wir, mae Deloitte yn amcangyfrif bod hyfforddiant presennol y BBC yn werth tua £59miliwn y flwyddyn mewn gwell cynhyrchiant i'r diwydiannau creadigol. (Ffynhonnell: The Economic Impact of the BBC: 2008/09.)

Mae'r ffordd y mae cynhyrchu digidol yn datblygu'n fwyfwy cyflym drwy'r diwydiant yn golygu bod hyfforddiant cynaliadwy yn bwysicach nag erioed. Ac eto arweiniodd y dirwasgiad economaidd at lai o fuddsoddi mewn hyfforddiant wrth i gwmnïau atgyfnerthu eu llifau arian parod ar adeg o ansicrwydd.

Drwy'r diwydiant cyfan, y BBC sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf i hyfforddiant o bell ffordd, gan wneud ein rôl o ran cynnal safonau yn bwysicach nag erioed.

- Wrth i'r diwydiant ddod yn ddibynnol ar gronfa gynyddol o staff llawrydd, rydym bellach yn hyfforddi pobl am oes o gyflogadwyedd yn hytrach nag am swydd am oes. Mae ein buddsoddiad mewn staff llawrydd yn cynnig mantais uniongyrchol i dalwyr ffi'r drwydded drwy raglenni a chynnwys BBC o safon uchel, a hefyd drwy eu cyfraniadau i gynnwys gwych ar sianelau nad ydynt yn rhai'r BBC.
- Oherwydd cyflymder y newid technolegol mae angen diweddaru sgiliau'n rheolaidd: cynhyrchu o'r dechrau i'r diwedd, cyfuno, dosbarthu, cydweithredu a diwylliannau newydd. Ac mae gweithio mewn amgylchedd aml-lwyfan 360 gradd yn gofyn am dalent sy'n meddu ar sgiliau trosglwyddadwy iawn. Mae ein buddsoddiad mewn pobl yn golygu na fyddant yn mynd ar ei hôl hi.
- Mae cyflawni ein targedau o ran Cyflenwi Cynyrchiadau Rhwydwaith – gan sicrhau y caiff dosbarthiad teg o arian ffi'r drwydded ei wario ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon – yn dibynnu ar ddatblygu ymhellach gronfeydd o dalent greadigol dra hyfforddedig ledled y DU.

Lansiwyd Academi'r BBC ym mis Rhagfyr i sicrhau y gallem ddiwallu'r anghenion hyn yn well. Mae Academi'r BBC yn gweithio gyda Channel 4 ac ITV ar fentrau amrywiaeth, ac rydym yn rhannu hyfforddiant Sylfaen Aml-lwyfan y BBC gyda darlledwyr a sefydliadau eraill gan gynnwys PACT, BECTU a'r Gronfa Hyfforddiant Annibynnol. Yn amodol ar gymeradwyaeth reoliadol, byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i rannu ein hasedau hyfforddi ac eiddo deallusol mor eang â phosibl fel rhan o'n cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus i gefnogi'r diwydiant.

Y llynedd darparwyd 4,416 o ddiwrnodau hyfforddi allanol, ac rydym wrthi'n chwilio am gyfleoedd i wneud mwy yn y dyfodol. A pharhawn i gefnogi cyrff y diwydiant megis Skillset a'r Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol – cyfanswm ein cymorth ariannol oedd £1.4miliwn yn 2009/10.

# RÔL Y BBC YM MAES EHANGACH Y CYFRYNGAU

DIM OND OS PARHAWN I GYFOETHOGI BYWYDAU POBL DRWY RAGLENNI UNIGRYW O SAFON UCHEL SY'N EU HYSBYSU, EU HADDYSGU A'U DIFYRRU Y GELLIR CYFLAWNI PWRPASAU CYHOEDDUS A GWELEDIGAETH Y BBC I FOD YN SEFYDLIAD MWYAF CREADIGOL Y BYD.

OND MAE'R CYD-DESTUN AR GYFER CYFLAWNI EIN CENHADAETH YN NEWID YN GYFLYM, WRTH I DECHNOLEGAU A DIWYDIANNU GYDGYFEIRIO AC WRTH I GYNNWYS A CHYSTADLEUAETH DDOD YN GYNYDDOL FYD-EANG.




1


2


3


## BYD SY'N NEWID

Mae gan y DU draddodiad clodwiw o fuddsoddi'n drwm mewn cynnwys a grëir yn y DU, sydd wedi arwain yn ei dro at lwyddiannau byd-eang trawiadol ym mhob math o genre a fformat. Mae teitlau'r BBC megis *Top Gear* a *Doctor Who* a fformatau megis *Strictly Come Dancing* i'w gweld bob dydd ar sianelau ledled y byd.

Fodd bynnag, mae hyn o dan fygythiad wrth i'r farchnad danseilio'r model cyflenwi traddodiadol ar gyfer darparu cynnwys gwreiddiol o safon uchel yn y DU i'w ddarlledu am ddim drwy ffactorau megis:

- cydbwysedd newydd ariannu'r diwydiant
- rolau newydd yn y gadwyn werth
- costau cynyddol cynnwys a dosbarthu
- ansicrwydd o ran rheoleiddio.

## EGWYDDORION MASNACHOL SYLFAENOL Y BBC

Mae newidiadau o'r fath ym marchnad y cyfryngau yn gofyn am newidiadau yn ymddygiad y BBC. Mae ein strategaeth newydd, *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*, yn nodi amcanion clir ar gyfer ein gweithgareddau masnachol, yn ogystal â ffiniau priodol o'u hamgylch. Mae'n rhaid i'n gweithgareddau masnachol – boed fel partner, cyflenwr neu gystadleuwr – gyfrannu at gyflawni ein pwrpasau cyhoeddus. Nid ydynt ar wahân i genhadaeth gyhoeddus y BBC, ac mae'n rhaid iddynt ddiogelu a hyrwyddo brand ac enw da'r BBC ymhellach.

At hynny, bydd ein strategaeth newydd yn ein helpu i sicrhau mai dim ond mewn meysydd sy'n ategu cenhadaeth gyffredinol y BBC mewn gwirionedd ac sy'n rhoi manteision yn ôl i dalwyr ffi'r drwydded y byddwn yn ehangu. Ein hegwyddorion sylfaenol yw y dylai'r BBC:

- gadw gwerth ei eiddo deallusol
- manteisio ar y gwerth hwnnw ar ran talwyr ffi'r drwydded
- sicrhau na fydd gweithgarwch masnachol yn niweidiol i frand craidd ac enw da'r BBC, yma neu dramor.

## BBC FEL PARTNER O DDEWIS


Wrth gynnal ei fusnes, mae'r BBC yn ceisio sicrhau ein bod yn arfer ein dylanwad i gefnogi, yn hytrach na rhwystro. Mae'r BBC wedi gwneud cynnydd da o ran ei raglen bartneriaethau, sydd â'r nod o gefnogi darlledu cyhoeddus y DU a sector ehangach y cyfryngau yn y DU, ers ei lansio ym mis Rhagfyr 2008.

Ymhlith yr uchafbwyntiau mae:

- mae partneriaid newydd wedi llofnodi'n ddiweddar (Channel 4 a TalkTalk) ar gyfer prosiect 'Canvas', a fydd yn cyflwyno IPTV mewn cartrefi. Mae'r prosiect yn mynd drwy broses graffu rheoliadol ar hyn o bryd.
- ar gyfer y bartneriaeth *Cynhyrchu Digidol* mae'r BBC yn ymwneud â'r diwydiant er mwyn canfod y ffordd orau o foderneiddio galluoedd cynhyrchu, pennu safonau a datblygu cyfleoedd creadigol newydd drwy fabwysiadu technoleg ddigidol.
- llofnodwyd memorandwm cyd-ddealltwriaeth eang ei gwmpas gydag STV, gan agor y ffordd i gydweithredu mewn sawl maes.
- mae'r cynnig ar gyfer Radio Player BBC/masnachol wedi bod yn datblygu, a bwriedir ei lansio erbyn haf 2010, yn amodol ar gymeradwyaeth.
- mae'r Cyngor Radio wedi dwyn ynghyd y BBC a radio masnachol i hyrwyddo radio digidol.
- Lansiwyd Rhannu Newyddion Fideo yn llwyddiannus yn 2009 gyda phedwar partner papur newydd mawr, ac mae sawl gwefan arall wedi ymuno ers hynny.











Mae BBC S&PP a BBC Worldwide yn gweithio gyda'r diwydiant a'r BBC i greu cynnwys gwych i bob cynulleidfa. Yn y lluniau gwelir:

1 *Are You Smarter Than a Ten Year Old?*

2 Sioe gemau i blant *BAMZOOKi*.

3 *Electric Proms* Robbie Williams a ddarlledwyd yn fyw i bron 200 o sgriniau mewn mwy na 23 o wledydd ledled Ewrop, gyda darllediadau hwyrach yn Awstralia a De Affrica.

4 *Strictly Come Dancing*.

5 *Blue Peter*.

6 *Bellamy's People*.

- mae partneriaethau archif yn datblygu cynlluniau gwaith gyda nifer o sefydliadau gan gynnwys Sefydliad Ffilm Prydain ac Archifau Cenedlaethol y DU.
- o dan Bartneriaeth Dinas Bryste, mae'r BBC yn gweithio gyda phartneriaid i hybu cynhyrchu teledu a ffilmio lleol a chydweithredu ar brosiectau digidol a chysylltedd.
- at hynny, mae Academi'r BBC wedi lansio nifer o fentrau hyfforddi gydag ITV a Channel 4.

Mae ein profiad dros y 18 mis diwethaf wedi dangos yr heriau sy'n gysylltiedig â cheisio bodloni amcanion gwahanol bartneriaid a gweithredu mewn amgylchedd rheoliadol cymhleth. Fodd bynnag, credwn o hyd y gallwn wneud mwy i wneud ein hadnoddau yn agored i fusnesau creadigol eraill mewn ffyrdd a ddymunant, ac ar delerau sy'n gwneud synnwyr tra'n rhoi manteision i'r BBC a chynulleidfaoedd. Bydd BBC North yn rhoi cyfle i herio modelau a chydberthnasau traddodiadol, gan sefydlu partneriaethau fel ffordd o weithio o'r diwrnod cyntaf ac ar gyfer Prosiect 2012, sy'n gyfrifol am gyflawni gweithgarwch y BBC drwy gydol 2012 gan gynnwys Gemau Olympaidd Llundain, bydd partneriaethau yn hanfodol i lwyddiant.

Mae gan bedwar maes arall gryn botensial lle y byddwn yn canolbwyntio ymdrech yn ystod y flwyddyn sydd i ddod:

- sgiliau a hyfforddiant, manteisio i'r eithaf ar fuddsoddiad yn y meysydd hyn
- hwyluso mynediad at y 'gofod cyhoeddus digidol' i sefydliadau cyffelyb
- defnyddio adnoddau sy'n bodoli eisoes
- cyflwyno model Partneriaeth Dinas Bryste mewn rhannau eraill o'r DU.

## HENRY MOORE O ARCHIF Y BBC

Mewn partneriaeth â Sefydliad Henry Moore, ac ar y cyd â Tate Britain, cafodd chwe ffilm gan y cyfarwyddwr enwog John Read eu digideiddio a'u rhyddhau, ynghyd â rhaglenni dogfen, cyfweliadau ac adroddiadau eraill y BBC o'n harchif. Cafodd y rhaglenni eu gwneud dros bron bum degawd, ac fe'u rhyddhawyd i gyd-daro ag arddangosfa fawr o waith Henry Moore a gynhaliwyd rhwng mis Chwefror a mis Awst eleni yn Tate Britain.

Mae'r portread ffilm hanner awr o Moore gan Read yn cael ei ystyried bellach yn rhaglen ddogfen deledu gyntaf y DU ar y celfyddydau, ac yn cael ei ystyried yn arloesol ac yn ddylanwadol.

Am ragor o wybodaeth neu i weld y rhaglenni hyn, ewch i www.bbc.co.uk/archive/henrymoore. Am ragor o wybodaeth am yr hyn y mae'r Tate yn ei wneud yn Llundain, Lerpwl a St Ives ewch i www.tate.org.uk

Drwy ein partneriaethau gydag eraill rydym mewn sefyllfa well i ddatgelu cyfoeth ein harchif a gwneud y gofod cyhoeddus digidol yn lle i fynd iddo.

Mae ffilmiau Read yn dangos yr union foment y cafodd y Reclining Figure, a ddangosir isod, ei greu – mae'r cerflun ei hun bellach yn sefyll y tu allan i Oriel Genedlaethol Celf Fodern yr Alban yng Nghaeredin.



## CYSYLLTU TELEDU

Prosiect 'Canvas' (teitl gweithio) yw cynnig y BBC i gysylltu llwyfannau teledu am ddim y DU yn y dyfodol. Mae'n seiliedig ar fodel llwyddiannus Freeview a bydd yn cynnig amrywiaeth diderfyn o bosibl o gynnwys darlledu a gwasanaethau cyfryngau i gynulleidfaoedd drwy ei gwneud yn bosibl i'w dyfeisiau (o gyfrifiaduron personol i ffonau symudol) gael eu cysylltu drwy unrhyw fand eang ISP â'u teledu.

I ddefnyddwyr, bydd yn golygu nid yn unig eu bod yn gallu cael cynnwys darlledu prif ffrwd, ond hefyd gymwysiadau'r we gan ddatblygwyr sydd eisoes yn creu cynnwys ar gyfer dyfeisiau megis iPhone Apple.

Mae 'Canvas' ond yn un enghraifft o agenda 'partneriaethau gwasanaeth cyhoeddus' y BBC, a lansiwyd ym mis Rhagfyr 2008.

Er i'r prosiect gael ei ddechrau gan y BBC ac ITV, mae bellach yn cynnwys Arqiva, BT, Channel 4, five a TalkTalk fel partneriaid ariannu cyfartal. Os caiff y bartneriaeth ei chymeradwyo, bydd yn gyd-fenter annibynnol, wedi'i sefydlu ar sail adennill costau.

Llwyfan agored yw 'Canvas'. Mae'n anelu at fod yn enghraifft wirioneddol o 'ofod cyhoeddus' ym maes darlledu'r DU am flynyddoedd i ddod. Mae'r posibilrwydd a gynigia am berthynas uniongyrchol rhwng darparwr cynnwys a defnyddiwr wedi ennyn diddordeb hefyd ymhlith amrywiaeth mawr o grwpiau, gan gynnwys darparwyr masnachol fideo ar alw, sefydliadau celfyddydau a diwylliannol cenedlaethol, a darparwyr gwasanaethau'r llywodraeth.

Mae 'Canvas' yn dangos y rôl gynaliadwy y gall y BBC ei chwarae er mwyn bod yn sbardun i arloesi drwy sector cyfan y cyfryngau yn y DU, gan gefnogi amrywiaeth o weithgareddau sydd o fudd i dalwyr ffi'r drwydded.

*"Gall 'Canvas' sef llwyfan teledu agored ar y rhyngrwyd, weddnewid mynediad y cyhoedd at ddiwylliant Prydain, gan gynnig modd i weld cyfoeth o gynnwys – ffilmiau, digwyddiadau byw a deunydd archifol – y talwyd am lawer ohono eisoes drwy arian cyhoeddus ond sydd ond wedi bod ar gael hyd yma i'r ychydig rai."*

**John Woodward, Prif Swyddog Gweithredol, Cyngor Ffilm y DU**

## CYFLENWI'R ECONOMI GREADIGOL GARTREF

Rydym yn bartner a chwenychir yn fawr o ran gwasanaethau stiwdio ac ôl-gynhyrchu – gweithgareddau a reolir drwy adran Stiwdios ac Ôl-gynhyrchu'r BBC, is-gwmni masnachol o dan berchenogaeth lwyr y BBC, a chyflenwr bach ond pwysig i gynhyrchwyr a darlledwyr eraill.

Mae marchnad cyfleusterau darlledu'r DU wedi mynd drwy gyfnod o ansicrwydd ers rhai blynyddoedd, ac mae'r heriau sy'n gysylltiedig â'r amodau masnachu anodd parhaus a wynebwn ni i gyd wedi gwaethygu yn sgîl hinsawdd economaidd ehangach sy'n gwaethygu. Ar ben hynny, effeithiwyd ar ein gallu i ddatblygu ein busnes, cynorthwyo ein diwydiant, ac ychwanegu gwerth i dalwyr ffi'r drwydded ymhellach oherwydd cyllidebau cynhyrchu is a'r penderfyniad i drosglwyddo rhai o raglenni'r BBC o Lundain i Glasgow. Fodd bynnag, er gwaethaf yr anawsterau hyn, bu perfformiad BBC Studios and Post Production Ltd yn gadarn dros y cyfnod, gan symud o golled weithredu o £0.4miliwn y llynedd i elw gweithredol o £0.4miliwn cyn ailstrwythuro.

Drwy ein hymarfer ailstrwythuro, a gyhoeddwyd yn Adroddiad Blynyddol y llynedd, cyfunwyd ein pedwar busnes newydd i gwsmeriaid – Gwasanaethau Drama; Adloniant; Atebion i'r Cyfryngau; a Chwaraeon a Phlant – i weithredu'n fwy effeithlon gan haneru nifer y cyflogeion o gymharu â'r strwythur blaenorol, sy'n gallu ymateb i ofynion penodol ein sylfaen cwsmeriaid amrywiol yn well.

Fel cyflenwr gwasanaeth, mae'r BBC wrth wraidd proses greadigol y DU. Ymhlith uchafbwyntiau'r llynedd mae:

- cefnogi'r bennod fyw gyntaf o *EastEnders*, gan ddarparu criw a chyfleusterau technegol llawn ar gyfer gweithrediad technegol ac ymarferol hynod gymhleth
- darparu'r cynhyrchiad 3D cyntaf yng Nghanolfan Deledu'r BBC – gan gefnogi *Are you Smarter Than Your Ten Year Old?* Twofour i Sky
- bod yn bartner i BBC Chwaraeon ar gyfer Gemau Olympaidd Gaeaf 2010 Vancouver
- cefnogi'r gyfres lwyddiannus *Harry Hill's TV Burp*, a wneir gan Avalon i ITV
- defnyddio technoleg rithwir newydd ar gyfer *BAMZOOKi Street Rules*
- buddsoddi mewn cyfarpar HD newydd er mwyn ei gwneud yn bosibl darlledu mewn HD o bob un o stiwdios y Ganolfan Deledu
- cynnal *Plant mewn Angen* y BBC sef marathon teledu byw saith awr, yn gyfan gwbl mewn HD eleni am y tro cyntaf
- defnyddio gwasanaethau Ingex Ymchwil a Datblygu'r BBC – gan ei gwneud yn bosibl caffael cynnwys di-dâp HD mewn fformatau lluosog

Byddwn yn parhau i feithrin ein henw da am gynnwys cyffrous ac arloesol, gan gyfuno galluoedd blaengar y farchnad â thechnolegau a phartneriaethau newydd.

## Y TU HWNT I BRYDAIN

Mae'r cynnwys a grëir gennym yn gallu bod yn werthfawr mewn marchnadoedd dramor. BBC Worldwide yw ein prif is-gwmni masnachol ac mae'n gweithredu amrywiaeth eang

## CYFLENWI'R BBC

O dalent ar y sgrîn ac ar yr awyr, i gwmnïau cynhyrchu annibynnol, ac i ddarparwyr gwasanaethau cymorth allanol, ein nod yw dewis ein holl gyflenwyr yn ofalus, er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar arbenigedd penodol a'u bod yn cyflwyno gwerth am arian.

Bu cydberthnasau parhaus ar waith ers sawl blwyddyn, er enghraifft, gyda darparwyr gwasanaethau sy'n hanfodol i barhad darlledu – megis Arqiva, Siemens a SES Astra sy'n darparu ac yn cynnal ein rhwydweithiau dosbarthu – tra bod cyflenwyr eraill yn rhai newydd i'r BBC.

Caiff ein holl drefniadau cyflenwi eu rheoli drwy ein timau caffael arbenigol, er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol, ac yn defnyddio telerau masnach sy'n safonol i'r diwydiant. Gellir cael gwybodaeth am ein holl anghenion caffael – gan gynnwys tendrau newydd – yn www.bbc.co.uk/supplying.

1


2


1 Mae BBC S&PP yn gwerthu ei arbenigedd yn y farchnad agored, ac yn helpu i greu cynnwys poblogaidd ar y cyd â darlledwyr eraill, megis *Harry Hill's TV Burp* o ITV.

2 Mae BBC S&PP yn un o'r cynhyrchwyr digwyddiadau stiwdio teledu byw mwyaf profiadol yn y byd, sydd wedi cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau dros y blynyddoedd, gan gynnwys *Plant mewn Angen* y BBC ers 1980.

Tabl 2-15
**Prif gwmnïau annibynnol yn seiliedig ar wariant**

| Teledu | Radio |
|---|---|
| Kudos | Somethin' Else |
| Talkback THAMES | Smooth Operations |
| Shine Limited | Unique |
| Shed Productions | Above The Title |
| Tiger Aspect | Pier Productions |


Cynhyrchu annibynnol a mewnol
Cyflwynwyd WOCC (Ffenestr Cystadleuaeth Greadigol) dair blynedd yn ôl, er mwyn hyrwyddo cystadleuaeth greadigol rhwng cynhyrchwyr annibynnol ac adrannau cynhyrchu mewnol y BBC ym maes teledu. Mae'r system yn seiliedig ar ymrwymiad cadarn i'r ddau sylfaen cyflenwi drwy gyfres o warantau ac mae 25% (tua £250miliwn, mewn unrhyw flwyddyn benodol) o allbwn cymwys ar gael ar gyfer cystadleuaeth uniongyrchol rhwng y ddau sylfaen cyflenwi. Eleni, mae'r canlyniadau cyffredinol yn debyg i'r llynedd – gyda chwmnïau annibynnol yn ennill 70% o'r busnes a'r adrannau cynhyrchu mewnol yn cael y 30% sy'n weddill. Fodd bynnag, gwelir symud mawr o fewn genres gyda newidiadau o un flwyddyn i'r llall o blaid cwmnïau annibynnol ac adrannau cynhyrchu mewnol. Dengys hyn fod cystadleuaeth wirioneddol ar waith ac mae'n gosod her greadigol. Cynulleidfaoedd sydd ar eu hennill yn y pen draw.

1 Mae'r gyfres byd natur *Life* wedi cael ei gwerthu i fwy na 50 o ddarlledwyr mewn dros 40 o diriogaethau bellach.


2 Mae *Top Gear* yn parhau i fod yn frand hynod boblogaidd ar bob fformat. Yn y llun gwelir Jeremy Clarkson gyda'r actor Eric Bana.

3 Mae'r sianel CBeebies bellach ar gael i fwy na 13 miliwn o danysgrifwyr ledled y byd.









o fusnesau cyfryngau er mwyn ategu incwm ffi'r drwydded drwy fanteisio i'r eithaf ar y gwerth hwn a hyrwyddo brand y BBC a chynnwys y DU yn rhyngwladol. Er gwaethaf yr hinsawdd economaidd sy'n heriol o hyd mewn rhai marchnadoedd, cafodd y cwmni flwyddyn lwyddiannus ynghyd â pherfformiad cryf gan fusnes dramor a gwrthbwysodd effaith pwysau dirwasgiad, a oedd yn amlwg yn enwedig yn y DU, gan fentrau twf diweddar.

Cafwyd y gwerthiannau a'r elw mwyaf erioed cyn eitemau penodol sef £1,074.2miliwn (2009: £1,003.6miliwn) a £145.2miliwn (2009: £106.4miliwn) yn y drefn honno. Parhawyd i ehangu busnes Sianelau ac roedd hyn yn cyfrif am y twf o 36% mewn elw gweithredol; perfformiad ardderchog gan Werthiannau a Dosbarthu (sy'n trwyddedu rhaglenni i ddarlledwyr eraill) lle roedd elw wedi cynyddu 26% o un flwyddyn i'r llall; ymgymryd â pherchenogaeth lawn o 2entertain (gweithrediad DVD a fu gynt o dan berchenogaeth 40% Woolworths Group plc); a lleihad mewn colledion ym musnes y Cyfryngau Digidol. Daeth ychydig dros 5.5% o gyfanswm y refeniw o fusnesau ar-lein yn 2009/10 (2009: 4.6%), gan roi BBC Worldwide ar y trywydd iawn i gyrraedd ei nod o 10% erbyn 2012.

Enillion BBC Worldwide i'r BBC ar ffurf difidendau a buddsoddiadau mewn rhaglenni oedd £151.1miliwn (2009: £152.6miliwn). Cynyddodd difidendau o £68.4miliwn i £73.6miliwn, a buddsoddwyd £77.5miliwn (2009: £84.2miliwn) mewn rhaglenni a gomisiynwyd gan y BBC. Mae'r gostyngiad o'i gymharu â'r llynedd yn adlewyrchu trai a llanw cylchoedd cynhyrchu rhaglenni.

Parhaodd hysbysebu a manwerthiannau yn y DU i wynebu amodau marchnad anodd, ond roedd economi ac arian cyfred gwannach yn y DU yn golygu bod y cwmni wedi cael cynnydd mewn gwerthiannau tramor, yn enwedig ym marchnad yr UD ac Awstralia. Cafodd Lonely Planet berfformiad gweithredu cryf ac mae ei gyhoeddiadau newydd wedi bod yn boblogaidd, yn enwedig yn yr UD, ac y mae'r defnydd o'i wefan ar ddiwedd y flwyddyn yn cyrraedd y lefel uchaf erioed sef chwe miliwn o ddefnyddwyr unigryw. Symudodd y busnes o golled o £(3.2)miliwn y llynedd i elw o £1.9miliwn, ac erbyn hyn daw 22% o werthiannau o weithgareddau nad ydynt yn ymwneud ag argraffu, sy'n tanlinellu ei lwyddiant i symud i'r rhyngrwyd a dyfeisiau symudol.

Mae BBC Worldwide yn gwneud mwy nag ychwanegu gwerth ariannol at y BBC. Mae hefyd yn dwysáu perthynas y BBC â chynulleidfaoedd yma a thramor ac yn helpu'r BBC i gyflawni ei bumed pwrpas cyhoeddus – cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU. Ym mis Tachwedd 2009, cyhoeddodd Ymddiriedolaeth y BBC ei Harolwg o Wasanaethau Masnachol, a bwysleisiodd y mandad olaf hwn i'r cwmni. Roedd refeniw y tu allan i'r DU yn cyfrif am 54.6% o gyfanswm refeniw BBC Worldwide yn ystod y flwyddyn (2009: 51.3%) a hwn fydd ei brif ffocws ar gyfer twf yn y dyfodol, yn enwedig yn yr UD.

Felly y blaenoriaethau i BBC Worldwide yn y dyfodol yw: parhau i atgyfnerthu ei bortffolio o sianelau teledu â brand y BBC, sydd bellach ar gael mewn pum cyfandir; datblygu ei sianelau ar-lein megis BBC.com a sicrhau bod y BBC yn cael

cydnabyddiaeth brand ddyladwy am gymaint o'i weithgarwch â phosibl. Ochr yn ochr â hyn bydd yn cynnal effeithiolrwydd ei weithrediadau hynod lwyddiannus ym maes gwerthu DVDs a rhaglenni a fformatau teledu. Er mwyn sicrhau bod ei weithrediadau ym maes cylchgronau a llyfrau sain yn cael y buddsoddiad sydd ei angen arnynt i ffynnu a datblygu potensial ar-lein yn llawnach, mae BBC Worldwide wrthi'n ystyried strwythurau partneriaeth posibl i'r busnesau hyn.


Ffocws allweddol arall yw manteisio i'r eithaf ar ei frandiau rhyngwladol pwysig o ddefnyddwyr megis *Top Gear, Doctor Who* a *Dancing with the Stars* (yr enw rhyngwladol am *Strictly Come Dancing*). Er enghraifft, mae *Top Gear* wedi cynyddu ei refeniw o un flwyddyn i'r llall ac mae bellach yn gweithredu ym mhob maes fformat gan gynnwys lawrlwytho digidol drwy iTunes, cylchgronau, sioeau byw a nwyddau.

O ystyried amrywiaeth portffolio BBC Worldwide, ei frandiau cadarn a dosbarthiad eang ei farchnadoedd ledled y byd, credwn fod y cwmni mewn sefyllfa dda i fanteisio ar gyfleoedd pellach ledled y byd yn 2010/11.

**Siart 2-6**
**Refeniw statudol BBC Worldwide £m**




**Siart 2-7**
**Elw BBC Worldwide cyn eitemau penodol, llog a threth £m**




* Eitemau penodol yw eitemau sylweddol a amlygir oherwydd eu maint neu bwysigrwydd er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o berfformiad BBC Worldwide.

Paratowyd ffigurau 2007/08 o dan drefn UK GAAP. Paratowyd ffigurau blynyddoedd eraill o dan drefn IFRS

# Y BBC YN MASNACHU'N DEG

AMLINELLIR Y FFRAMWAITH GWEITHREDOL MANWL AR GYFER EIN GWEITHGAREDDAU GWASANAETH CYHOEDDUS A MASNACHOL YN EIN CANLLAWIAU MASNACHU TEG, A GEIR YN WWW.BBC.CO.UK/INFO/POLICIES/FAIRTRADING. CAFODD Y RHAIN EU DIWEDDARU DDIWETHAF YM MIS EBRILL 2009.

Mae Cytundeb y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Gweithredol sicrhau bod yr holl wasanaethau masnachol yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- cydweddu i bwrpasau cyhoeddus y BBC
- dangos effeithlonrwydd masnachol
- sicrhau nad yw'n peryglu enw da'r BBC na gwerth brand y BBC
- cydymffurfio â Chanllawiau Masnachu Teg y BBC ei hun ac osgoi aflunio'r farchnad.

Ar ôl cael adroddiadau gan uwch reolwyr perthnasol, mae Bwrdd Gweithredol y BBC yn fodlon bod yr holl wasanaethau masnachol wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2009 i 31 Mawrth 2010.

Ymdriniwyd â phedair cwyn Masnachu Teg yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwyd apêl i Ymddiriedolaeth y BBC mewn perthynas â thair cwyn. Ceir manylion yn ein Bwletin ar Fasnachu Teg www.bbc.co.uk/info/policies/fairtrading_complaints ac ar dudalen apeliadau Ymddiriedolaeth y BBC www.bbc.co.uk/bbctrust/appeals/fair_trading_appeal_findings.html

Mae ein Canllawiau ar Fasnachu Teg yn rhoi arweiniad ar y gydberthynas fasnachu rhwng y BBC a BBC World Service er mwyn sicrhau gwahanu rhwng incwm cymorth grant ac incwm ffi'r drwydded. Caiff y gydberthynas hon ei harchwilio'n flynyddol a chanfyddiad yr adroddiad diweddaraf oedd bod y BBC yn cydymffurfio.

Achredwyd y broses o reoli ein trefniadau Masnachu Teg â safon ansawdd ISO 9001:2008. Cadarnhaodd yr asesiad diweddaraf, a gynhaliwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ym mis Rhagfyr 2009, fod ein gweithdrefnau yn parhau i weithredu'n effeithiol.

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn comisiynu archwilwyr annibynnol Deloitte LLP i gynnal archwiliad Masnachu Teg blynyddol. Ceir manylion yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol hwn a'r Cyfrifon.

# RISGIAU A CHYFLEOEDD

## MAE'R BWRDD GWEITHREDOL YN GYFRIFOL AM NODI RISGIAU AC AM GYMRYD CAMAU I'W LLINIARU. Y RISGIAU A'R CYFLEOEDD CYSYLLTIEDIG A NODIR ISOD YW'R RHAI Y CREDIR IDDYNT GAEL YR EFFAITH FWYAF SYLWEDDOL AR EIN CYNULLEIDFAOEDD, EIN STRATEGAETH A'N GWEITHREDIADAU. NI CHÂNT EU MYNEGI O RAN GRADDFA NAC O RAN TREFN BLAENORIAETH.

**CYNNWYS A CHYNULLEIDFAOEDD:** Caiff heriau eu lleddfu gan ein strategaeth olygyddol a amlinellir yn *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*
Ein cenhadaeth yw hysbysu, addysgu a difyrru cynulleidfaoedd a rheoli unrhyw fygythiadau i'r amcan hwn. Mae'n rhaid i ni barhau i achub ar gyfleoedd priodol a gwasanaethu pob cynulleidfa yn erbyn cefndir o newidiadau mawr yn sector y cyfryngau.

| RISG | GWEITHREDU | RHAGOLWG AR GYFER Y DYFODOL |
|---|---|---|
| • Methiant i gyflawni **gofynion y Siarter** a strategaethau | • Strategaethau golygyddol a busnes effeithiol<br>• Monitro parhaus o gynulleidfaoedd a datblygiadau yn y diwydiant | • Ffocws parhaus ar ein Siarter, ein Cenhadaeth a'n Pwrpasau |
| • Gallai methiant i ddenu, cadw a datblygu potensial llawn **y goreuon** ar bob lefel, boed ar y sgrîn/awyr neu oddi arno, beryglu ansawdd ein darpariaeth | • Cynnig y cyfleoedd cyflogaeth a datblygu gorau<br>• Polisïau tâl a buddiannau sy'n adlewyrchu gofynion a chyfleoedd | • Bydd ansicrwydd yn sector y cyfryngau yn herio modelau busnes sefydledig, ond yn cynnig cyfleoedd |
| • Gallai methiant i arddel y gwerthoedd a'r safonau uchaf, a chadw cywirdeb a didueddrwydd ym mhob cynnwys, arwain at golli **ymddiriedaeth y gynulleidfa** | • Rheolaethau golygyddol cadarn a phrosesau cydymffurfio effeithiol<br>• Hyfforddiant parhaus o dimau cynhyrchu<br>• Ystyriaeth ddifrifol o gwynion | • Bydd y safonau uchaf o gywirdeb golygyddol a natur ddiduedd yn parhau'n hollbwysig<br>• Ymdrinnir ag unrhyw ddiffygion golygyddol yn gyflym ac mewn ffordd gymesur<br>• Gwell hyfforddiant golygyddol |
| • Gallai methiant i ddatblygu ochr yn ochr â datblygiadau mewn **technoleg** gyfyngu ar fynediad at gynnwys | • Strategaethau technoleg sy'n adlewyrchu datblygiadau a'r egwyddor o wasanaeth am ddim wrth ei ddefnyddio | • Bydd datblygiadau mwyfwy cyflym yn gosod heriau ond hefyd yn cynnig cyfleoedd newydd yn y ffordd rydym yn ymgysylltu â'n cynulleidfaoedd |

**GWEITHREDIADAU A GWASANAETHAU:** Caiff heriau eu lliniaru gan ein strategaeth, ein polisïau a'n gweithdrefnau busnes
Mae cadernid ein gweithrediadau, a gweithrediadau ein cyflenwyr a'n partneriaid, yn hanfodol i ddarparu'r gwasanaethau y mae talwyr ffi'r drwydded yn eu disgwyl fel arfer a phan fo argyfwng. Mae arloesi yn hanfodol er mwyn rhagweld anghenion cynulleidfaoedd cyfoes:

| RISG | GWEITHREDU | RHAGOLWG AR GYFER Y DYFODOL |
|---|---|---|
| • Gallai methiant technegol, rhyngddibyniaeth seilwaith, gweithredu diwydiannol neu weithredoedd trydydd partïon gan gynnwys cyflenwyr, arwain at **golli gwasanaethau darlledu** | • Caiff cynlluniau parhad darlledu manwl eu hadolygu a'u profi'n rheolaidd<br>• Strategaethau ymadael a chynlluniau wrth gefn ar gyfer cyflenwyr allweddol<br>• Meithrin cydberthnasau ag undebau, cyrff cynrychioliadol a chyflenwyr priodol | • Adolygir adnewyddu cyfarpar TG<br>• Bydd datblygiad technegol yn parhau i gynnig cyfleoedd ochr yn ochr â risgiau<br>• Gwella cadernid drwy opsiynau a gynigir gan ddatblygiadau technolegol ar y rhyngrwyd ac ym maes darlledu |
| • Oni chaiff adnoddau eu dyrannu a'u rhannu'n ofalus, ni fyddwn yn llwyddo i gwblhau cwmpas eang y **prosiectau** cyfredol, gan beryglu ein gallu i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yn y dyfodol | • Rhyng-ddibyniaethau, terfynau amser cyffredin a sgiliau yn cael eu dadansoddi, eu hadolygu a'u cofnodi ar lefel uwch<br>• Gwersi a ddysgir oddi wrth arolygon allanol o brosiectau mawr | • Bydd cynlluniau manwl yn ymdrin â materion o ran adnoddau a sgiliau lle mae amserau terfyn cyflawni prosiectau allweddol yn cyd-daro<br>• Caiff dibyniaethau y gellir eu rhagweld eu monitro |

**ARIANNOL A MASNACHOL:** Caiff heriau eu lliniaru gan ein strategaeth ariannol a'n polisi a'n canllawiau masnachol

Mae'r sefyllfa economaidd sy'n parhau yn y DU a'r byd yn effeithio arnom ni a'n holl randdeiliaid a gallai arwain at ostyngiad mewn incwm:

| RISG | GWEITHREDU | RHAGOLWG AR GYFER Y DYFODOL |
| --- | --- | --- |
| • Gallai dirywiad economaidd arwain at lai o **incwm o ffi'r drwydded** a llai o **hyblygrwydd ariannol**, a fyddai yn eu tro yn cynyddu'r pwysau ar drefniadau benthyg | • Monitro effaith tueddiadau cymdeithasol, economaidd a thechnolegol<br>• Cynlluniau wrth gefn sy'n rhan o gynlluniau ariannol, gan gynnwys cost pensiynau<br>• Effeithlonrwydd a geir drwy gydweithredu â phartneriaid | • Mae posibilrwydd o ddirwasgiad dwbl yn y DU yn parhau<br>• Erys cryn ansicrwydd o ran yr economi fyd-eang gan effeithio'n sylweddol ar brisio pensiynau ac ariannu |
| • Gallai methiant i ddiogelu **brand y BBC** a chael budd ohono arwain at wneud drwg i enw da'r BBC a gostyngiad mewn incwm | • Datblygu cyfleoedd eraill i fanteisio ar y rhaglenni cyfredol a'r archif<br>• Ymwybyddiaeth o frand a monitro gwerth | • Bydd gwaith craffu manwl ar frandiau yn parhau<br>• Cyfleoedd newydd mewn amrywiaeth eang o farchnadoedd yn y DU a thramor |
| • Gallai ymestyn y tu hwnt i **ffiniau** priodol effeithio ar fuddiannau masnachol gweithredwyr eraill a hynny'n groes i fudd y cyhoedd | • Cydymffurfio â'r canllawiau presennol ar gystadleuaeth annheg<br>• Gwyliadwriaeth ynglŷn â ffiniau | • Gall yr ansicrwydd yn sector y cyfryngau barhau<br>• Bydd datblygiadau mewn technoleg yn gosod heriau newydd<br>• Rôl dryloyw o ran gwasanaeth cyhoeddus |

**CYFRIFOLDEB CORFFORAETHOL:** Caiff heriau eu lliniaru gan gryfder ein prosesau busnes

Tra byddwn yn hyrwyddo ein strategaeth i gynnig safon, gwreiddioldeb a gwerth i'n cynulleidfaoedd, mae'n rhaid i ni gynnal arferion priodol:

| RISG | GWEITHREDU | RHAGOLWG AR GYFER Y DYFODOL |
| --- | --- | --- |
| • Gallai rheolaethau annigonol beryglu **iechyd a diogelwch** unigolion, yr **amgylchedd** naturiol a'n henw da | • Gweithdrefnau cadarn ar gyfer asesu risg i ddiogelwch wedi'u cymhwyso'n ddiwyd<br>• Effeithiau amgylchedd yn cael eu hadolygu'n barhaus | • Sylw i risgiau newydd ac arfer gorau'r diwydiant<br>• Achub ar gyfleoedd i lunio atebion eco-gyfeillgar |
| • Gallai methiant i gydymffurfio â **gofynion cyfreithiol a rheoliadol** arwain at gosbau | • Cydgysylltu ac ymgysylltu â chyrff rheoleiddio a grwpiau rhanddeiliaid | • Mae'r ffocws gwleidyddol ar drefn reoleiddio diwydiant y cyfryngau yn debygol o barhau |
| • Gallai methiant i gyflawni cyfrifoldebau **polisi cyhoeddi digidol** gyfyngu ar fwynhad gan bawb | • Ffocws ar heriau newid i ddigidol<br>• Ymgysylltu â grwpiau diamddiffyn | • Gall datblygiadau arloesol fynd i'r afael â rhai risgiau a'u lliniaru a chynnig cyfleoedd newydd |
| • Mae datblygiadau mewn technoleg a newidiadau mewn deddfwriaeth yn dod at ei gilydd i gynyddu bygythiadau posibl oherwydd **tor-diogelwch gwybodaeth** | • Mynd ati i ystyried bygythiadau, gyda mesurau lliniaru yn parhau<br>• Gweithdrefnau a hyfforddiant Diogelwch Data | • Bydd arferion a gweithdrefnau effeithiol yn parhau'n allweddol<br>• Parhau i ddefnyddio'r dechnoleg orau sydd ar gael i ddiogelu data |



# BBC: WEDI'I FEINCNODI YN ERBYN ARFER GORAU

MAE'R ADRAN HON YN DANGOS SUT RYDYM WEDI CYDYMFFURFIO Â CHANLLAWIAU RHEOLEIDDIO EHANGACH.

Mae i'r fframweithiau rheoleiddio a chyfreithiol allanol oblygiadau o ran y BBC a'r ffordd rydym yn ymgymryd â'n gweithgareddau.

Yma rydym yn cyflwyno ein Bwrdd Gweithredol ac yn dangos y broses y maent yn ei dilyn i reoli risgiau i'n busnes.

Ac mae ein Cyfarwyddwyr anweithredol annibynnol yn rhoi eu barn ynghylch sut mae ein pwyllgorau a'n strwythurau wedi gweithio eleni, a hefyd ar y materion y maent wedi ymdrin â hwy.

Am ragor o wybodaeth gweler yr adran estynedig ar Lywodraethu yn y ganolfan lawrlwytho yn www.bbc.co.uk/annualreport.

Yn y llun gwelir Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol David Robbie yn trafod â chynghorydd allanol. Mae'r BBC yn ceisio cyngor arbenigol i sicrhau ei fod yn bodloni neu'n rhagori ar ei ofynion rheoleiddiol a chyfreithiol.



# LLYWODRAETHU



## MARK THOMPSON
Cyfarwyddwr Cyffredinol ers mis Mehefin 2004. Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol a Grŵp Cyfarwyddyd y BBC, sy'n cynnwys holl gyfarwyddwyr isadrannol y BBC.



## MARK BYFORD
Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol. Aelod o'r Bwrdd ers mis Rhagfyr 1998. Cadeirydd y Bwrdd Newyddiaduraeth. Cadeirydd y Bwrdd Safonau Golygyddol, y Bwrdd Rheoli Cwynion, y Bwrdd Dysgu a Grŵp Cydlynu Gemau Olympaidd Llundain 2012.



## ZARIN PATEL
Prif Swyddog Ariannol ers mis Ionawr 2005. Un o Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn y BBC ac un o Gyfarwyddwyr anweithredol BBC Worldwide Limited.



## CAROLINE THOMSON
Prif Swyddog Gweithredu. Aelod o'r Bwrdd ers mis Mai 2000. Un o Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn y BBC. Un o Gyfarwyddwyr anweithredol Digital UK.



## LUCY ADAMS
Cyfarwyddwr BBC People ers mis Mehefin 2009.



## SHARON BAYLAY
Cyfarwyddwr Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd ers mis Mai 2009. Un o Gyfarwyddwyr anweithredol BBC Worldwide Limited, Freesat a Digital UK.



## MARCUS AGIUS
Fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr anweithredol ac yn Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol ym mis Rhagfyr 2006. Fe'i hailbenodwyd eleni. Mae'n cadeirio Pwyllgor Cydnabyddiaeth Bwrdd Gweithredol y BBC. Cadeirydd Grŵp Barclays PLC. Cadeirydd Ymddiriedolwyr Gerddi Botaneg Brenhinol Kew a Chadeirydd Sefydliad a Chyfeillion Gerddi Botaneg Brenhinol Kew.



## VAL GOODING CBE
Fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr anweithredol ym mis Ionawr 2008. Fe'i hailbenodwyd eleni. Mae hefyd yn aelod anweithredol o fwrdd Standard Chartered a bwrdd J Sainsbury, yn Aelod Cynghorol o Fwrdd Ysgol Fusnes Warwick, yn un o Ymddiriedolwyr Amgueddfa Prydain, yn un o gyfarwyddwyr anweithredol Cymdeithas Tenis Lawnt ac un o Ymddiriedolwyr Rose Theatre.

# BWRDD GWEITHREDOL

## MAE'R BWRDD GWEITHREDOL, A GADEIRIR GAN Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL, A'I IS-BWYLLGORAU, YN GYFRIFOL AM DDARPARU GWASANAETHAU'R BBC A GWEITHREDIADAU O DDYDD I DDYDD DRWY'R SEFYDLIAD.



### JANA BENNETT OBE
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gweledol. Aelod o'r Bwrdd ers mis Ebrill 2002.



### TIM DAVIE
Cyfarwyddwr Sain a Cherddoriaeth ers mis Medi 2008. Aelod o'r Bwrdd ers mis Ebrill 2005.



### ERIK HUGGERS
Cyfarwyddwr Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol y BBC. Aelod o'r Bwrdd ers mis Awst 2008. Cyn hyn, bu'n Rheolwr Grŵp, Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol y BBC.



### PETER SALMON
Cyfarwyddwr, BBC North. Aelod o'r Bwrdd ers mis Tachwedd 2009.



### DR MIKE LYNCH OBE
Fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr anweithredol ym mis Ionawr 2007. Entrepreneur ym maes technoleg a sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol Autonomy Corporation plc.



### DAVID ROBBIE
Fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr anweithredol ym mis Ionawr 2007. Mae'n cadeirio Pwyllgor Archwilio Bwrdd Gweithredol y BBC. Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp yn Rexam PLC. Un o Ymddiriedolwyr Aldeburgh Music.



### DR SAMIR SHAH OBE
Fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr anweithredol ym mis Ionawr 2007. Prif Weithredwr Juniper Communications Limited. Un o Ymddiriedolwyr Amgueddfa Victoria ac Albert ac Athro Arbennig ym maes Astudiaethau Ôl-Wrthdaro yn yr Ysgol Ieithoedd a Diwylliannau Modern, Prifysgol Nottingham. Cadeirydd Screen Gorllewin Canolbarth Lloegr.



### ROBERT WEBB CF
Fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr anweithredol ym mis Ionawr 2007. Fe'i penodwyd yn CF yn 1988. Cadeirydd BBC Worldwide a Bwrdd BBC Commercial Holdings. Cadeirydd Autonomy Corporation plc a Chyfarwyddwr anweithredol Cyfnewidfa Stoc Llundain, Hakluyt & Co Ltd, Argent Group plc a Fforwm Bygythiadau Newydd i Iechyd. Cymrawd Anrhydeddus UNICEF.

### JOHN SMITH
Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide Limitied. Aelod o'r Bwrdd o 1997 hyd at fis Medi 2009.

Am ragor o wybodaeth am aelodau Bwrdd Gweithredol y BBC, ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc/running/executive.

# ADRODDIAD LLYWODRAETHU CRYNO

## MAE'R BWRDD GWEITHREDOL WEDI CYDYMFFURFIO Â GOFYNION SIARTER FRENHINOL Y BBC, GAN GREU TREFNIADAU LLYWODRAETHU PRIODOL AC EFFEITHIOL AR GYFER Y BBC.

Diffinnir fframwaith llywodraethu corfforaethol y BBC yn y Siarter Frenhinol, sydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Gweithredol ddilyn egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a dderbynnir.

Drwy gydymffurfio â'r Siarter cydymffurfiwyd hefyd â Chod FRC 2008 i raddau helaeth, er nad yw Cod FRC 2008 yn briodol i'r BBC mewn sawl maes – mae cydymffurfio â'r Siarter yn golygu torri Cod FRC 2008 ar aelodaeth y Bwrdd. Fodd bynnag, credwn nad yw hyn yn peryglu ansawdd y trefniadau llywodraethu a bod y cyfuniad o Gyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol, a'r cymysgedd o sgiliau busnes a darlledu, yn ein galluogi i arwain Grŵp y BBC yn effeithiol.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am bob agwedd ar reoli gweithredol y BBC (ac eithrio Uned Ymddiriedolaeth y BBC), er bod rhai o'n cyfrifoldebau yn ymarferol yn cael eu dirprwyo i grwpiau rheoli eraill. Nodir unrhyw ddirprwyaeth o'r Bwrdd Gweithredol yn rheolau sefydlog perthnasol pob grŵp a phennir fframwaith ar gyfer adrodd ac adolygu. Mae rheolau sefydlog y Bwrdd Gweithredol a'i is-Bwyllgorau ar gael yn www.bbc.co.uk/info/running/executive.

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn asesu perfformiad rheolwyr y BBC a'i wasanaethau, a cheir asesiad eleni yn Rhan Un o'r Adroddiad, ac yn www.bbc.co.uk/annualreport, lle ceir copi o Adroddiad Llywodraethu llawn y Bwrdd Gweithredol hefyd.

I sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol yn 2009/10, aethom i gostau cydymffurfio amcangyfrifedig o £17.6miliwn (2009: £17.3million), sy'n cynnwys tanysgrifiad blynyddol y BBC i Ofcom, sef £3.5miliwn.

### Penodiadau i'r Bwrdd

Ni wnaed unrhyw benodiadau gweithredol eleni. Fodd bynnag, dechreuodd Sharon Baylay (yr Adran Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd), a Lucy Adams (BBC People) yn eu swyddi yn ystod y cyfnod, ac ymunodd Peter Salmon (BBC North) â'r Bwrdd Gweithredol ym mis Tachwedd.

Goruchwyliodd y Pwyllgor Enwebiadau ailbenodi dau Gyfarwyddwr anweithredol yr oedd eu swyddi yn dod i ben: bydd Marcus Agius yn Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol am dair blynedd arall, a Val Gooding yn parhau am ddwy flynedd arall.

### Adroddiad yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol

Yn ystod y flwyddyn, roedd llawer o agenda Bwrdd Gweithredol y BBC yn ymwneud ag ymateb y BBC i'r dirwasgiad economaidd a barhaodd i effeithio ar holl weithgareddau'r BBC. Yn y cyd-destun hwn daeth gwariant cyhoeddus yn bwnc trafod mawr ac fel sefydliadau cenedlaethol eraill bu craffu ar weithgareddau'r BBC a hynny'n gwbl briodol.

Roedd ymateb y BBC ei hun i'r heriau gweithredol a gododd oherwydd yr amgylchedd economaidd sydd ohoni yn un buan. Ar gais Ymddiriedolaeth y BBC, cyflwynodd y Bwrdd Gweithredol gynigion ynglŷn â pholisi tâl i uwch reolwyr, sydd wrthi'n cael ei roi ar waith. Roeddem yn ystyriol o hyd o'r pwysau ar gystadleuwyr y BBC oherwydd yr argyfwng ariannol byd-eang, a datblygiad technoleg newydd, ac rydym wedi ystyried cyfleoedd a phartneriaethau lle y gallai'r BBC ddefnyddio ei sefyllfa'n briodol i fod o fudd i sector ehangach y cyfryngau.

Ym mis Mawrth, cyflwynwyd ein strategaeth newydd, *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*. Cred fy nghyd-Gyfarwyddwyr anweithredol a minnau y bydd ei chynigion i leihau cwmpas cynyrchiadau ac allbwn y BBC yn y dyfodol tra'n gwella ansawdd ei raglenni, yn lliniaru rhai o'r risgiau i fusnes a wynebai'r BBC ar hyn o bryd ac yn ei roi mewn sefyllfa gadarnach ar gyfer y dyfodol. Ansawdd sydd wrth wraidd y BBC ac fel Bwrdd mae'n gyfrifoldeb arnom i sicrhau ei fod yn bodloni disgwyliadau'r cyhoedd. Yng nghyd-destun setliad aml-flwyddyn ffi'r drwydded, golyga hyn wneud llai o bethau, ond eu gwneud hyd yn oed yn well na chynt.

Newidiodd aelodaeth y Bwrdd eleni hefyd, ac ychwanegwyd swydd newydd – Cyfarwyddwr BBC North – tra rhoddodd Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide y gorau i'w swydd. Yn y byd sydd ohoni, erys safbwynt annibynnol y Cyfarwyddwyr anweithredol yn hollbwysig, ac mae'r sylw ychwanegol a gawsom wedi arwain at ymagwedd gliriach a mwy penodol, er mwyn i ni ddod i'r casgliadau cywir i dalwyr ffi'r drwydded a chynulleidfaoedd.



**Marcus Agius**
Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol
16 Mehefin 2010

## ATEBOLRWYDD A RHEOLAETH FEWNOL

**Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol**

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu ac yn goruchwylio prosesau adrodd ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg yn y BBC. Canolbwyntio gwariant y BBC ar yr hyn sy'n bwysig i'r cyhoedd ym Mhrydain – ysgogi gwell gwerth am arian ac ailfuddsoddi arbedion mewn cynnwys o safon uchel – yw ein cyd-destun ar gyfer barnu a yw'r amgylchedd rheoli yn addas at y diben.

Rydym yn gwerthuso materion a godir gan Archwilwyr Mewnol, a'r graddau y mae rheolwyr wedi mynd i'r afael â hwy, a hynny'n ddi-oed. Rydym hefyd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan ein harchwilwyr allanol, sy'n amlinellu'r ffordd y bwriadant gynnal eu harchwiliad ac unrhyw faterion y dymunant eu tynnu at ein sylw.

Rydym yn adolygu'r risgiau mwyaf a wynebir gan y busnes yn rheolaidd, gan gomisiynu papurau a chyflwyniadau gan reolwyr ar faterion o bwys ac ar broffiliau risg o bob rhan o'r BBC, gyda'r nod o sicrhau bod unrhyw gamau a gymerir i reoli a lliniaru risg yn briodol ac yn ddigonol. Lle nad ydynt yn briodol nac yn ddigonol, rydym yn herio rheolwyr i wneud yn well ac ailystyried blaenoriaethau.

Ymhlith y materion a wynebwyd gan y BBC, neu'r diwydiant ehangach, ac a ystyriwyd gennym eleni, mae: goblygiadau newidiadau cymdeithasol a thechnegol, yn enwedig o ran incwm ffi'r drwydded; diogelwch gwybodaeth gyfrinachol; cadernid cyffredinol cynnwys; a goblygiadau mabwysiadu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol i'r BBC.

Mae'r pwyllgor hwn yn cwmpasu Grŵp y BBC yn ei gyfanrwydd; felly rydym hefyd yn cael ac yn trafod diweddariadau gan y Pwyllgorau Archwilio eraill sy'n goruchwylio ein busnesau masnachol.



**David Robbie**
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio
16 Mehefin 2010

### Rheoli risg a rheolaeth fewnol

Bu proses sy'n parhau ac sy'n datblygu ar gyfer nodi, gwerthuso, rheoli a monitro risgiau sylweddol i'r BBC a'u hadrodd ar waith am y flwyddyn ariannol, gyda chyfrifoldeb clir ar gyfarwyddwr grwpiau busnes y BBC i nodi a rheoli risgiau a wynebir gan eu busnesau hwy. Ystyrir amlygiad i risg ar lefel grŵp busnes a lefel y Bwrdd Gweithredol.


Mae'r Bwrdd Gweithredol, gan ddibynnu ar waith manwl Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol (sy'n ystyried canfyddiadau gwaith archwilio mewnol ac allanol) a thrwy adolygu a thrafod adroddiadau chwarterol ar risg a chydymffurfio, yn cadarnhau ei fod wedi ystyried effeithiolrwydd y system o reolaethau mewnol sydd wedi bod ar waith drwy gydol y flwyddyn ariannol a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

## ADRODDIAD CYDNABYDDIAETH Y BWRDD GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn nodi polisi cydnabyddiaeth y BBC ac yn rhoi manylion am y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r Bwrdd Gweithredol. Fe'i paratowyd ar y sail bod gofynion Rheoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a rhai'r Awdurdod

### RHEOLI RISG YN Y BBC

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn goruchwylio proses wedi'i sefydlu sy'n amlygu risgiau a flaenoriaethwyd.



**Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol**

Fersiwn talfyredig yw hwn. Mae'r adroddiad llawn ar gael ar y wefan yn www.bbc.co.uk ac yn y pdf estynedig ar lywodraethu yn yr adran lawrlwytho.

Mae cydnabyddiaeth swyddogion gweithredol wedi cael sylw cynyddol yn ystod y misoedd diwethaf, ac ym mis Chwefror 2009, gofynnodd Ymddiriedolaeth y BBC i Fwrdd Gweithredol y BBC gynnal arolwg trylwyr o'i bolisi cydnabyddiaeth i uwch reolwyr ac ystyried sut y gallem ymaddasu i ymateb i'r hinsawdd economaidd sydd ohoni. Ymatebwyd drwy gymryd nifer o gamau a fydd yn lleihau faint o arian a werir ar uwch reolwyr 25% dros y tair blynedd nesaf:

- Mae tâl Swyddogion Gweithredol y BBC wedi cael ei rewi am bedair blynedd.
- Mae bonysau i Swyddogion Gweithredol y BBC wedi cael eu hatal am gyfnod amhenodol.
- Mae tâl uwch reolwyr wedi cael ei rewi ac mae bonysau pob uwch reolwr wedi cael eu hatal am ddwy flynedd.
- Mae'r BBC wedi addo lleihau nifer yr uwch reolwyr 18% dros gyfnod o bedair blynedd.

O ganlyniad, gall uwch reolwr sy'n ymuno â'r BBC neu'n aros yn y BBC ddisgwyl cael cydnabyddiaeth llawer llai mewn termau gwirioneddol na chymheiriaid masnachol.

Nod y Bwrdd Gweithredol wrth gynnal yr arolwg hwn oedd cael cydbwysedd anodd rhwng denu a chadw'r staff talentog sydd eu hangen i arwain y BBC a pharhau i ddarparu darlledu cyhoeddus o'r radd flaenaf, a'r angen i sicrhau bod y BBC yn parhau i gynnig gwerth am arian i dalwyr Ffi'r Drwydded mewn cyfnod pan fydd llawer ohonynt yn profi effeithiau negyddol y dirwasgiad.

Edrychodd yr arolwg ar y pwysau masnachol a wynebir gan y BBC hefyd, a gwelsom dystiolaeth bod y dirwasgiad economaidd wedi arwain at newid sylfaenol yn arferion y farchnad o ran cydnabyddiaeth swyddogion gweithredol.

Rwyf yn falch o nodi ein bod eisoes wedi gwneud cynnydd yn yr ychydig fisoedd ers cyhoeddi ein hadroddiad. Rydym wedi lleihau nifer yr uwch reolwyr 15 (2.3%) ac rydym wedi lleihau cyfanswm y cyflogau am y cyfnod Hydref 2009-Ebrill 2010 £6.8miliwn (8.6%). Byddwn yn cynnal y momentwm hwn, a gwelir gostyngiad mwy fyth mewn niferoedd a chyflogau eleni. Bydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn parhau i adolygu i cynnydd yn rheolaidd.

Erys yn dasg gymhleth a heriol, ond credaf ein bod wedi adolygu pob ffactor mewnol ac allanol perthnasol yn drylwyr, ac wedi llunio strategaeth ar gydnabyddiaeth a chyfres o gamau tymor canolig sy'n rhoi hyder ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau.



**Marcus Agius**
Cadeirydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol
16 Mehefin 2010

Gwasanaethau Ariannol yn gymwys i'r BBC lle bynnag y bo'r darpariaethau datgelu hyn yn berthnasol. Caiff yr adrannau ar bensiynau a chydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r Bwrdd Gweithredol eu harchwilio gan KPMG LLP.

### Pwyllgorau Cydnabyddiaeth: cyfansoddiad a gweithrediad

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau Ymddiriedolaeth y BBC yn gyfrifol am bennu'r strategaeth gydnabyddiaeth ar gyfer y Bwrdd Gweithredol ac mae'n gyfrifol am bob agwedd ar gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwyr anweithredol.

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am weithredu'r strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer pob un o aelodau gweithredol y Bwrdd Gweithredol, ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae ei aelodau yn Gyfarwyddwyr anweithredol: Marcus Agius (Cadeirydd), Robert Webb a Val Gooding.

Mynychir cyfarfodydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol a Chyfarwyddwr BBC People hefyd, drwy wahoddiad, i gynghori ar faterion yn ymwneud ag aelodau eraill o'r Bwrdd Gweithredol a pherfformiad cyffredinol y BBC. Pan ystyrir materion ynghylch cydnabyddiaeth Cyfarwyddwr BBC People, ni fyddant yn bresennol. Gall Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol fanteisio ar arbenigedd mewnol drwy Gyfarwyddwr Gwobrwyo'r BBC, sydd hefyd yn bresennol.

Gan gydymffurfio â Chod Cyfunol FRC 2006 ar Lywodraethu Corfforaethol, mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn cael cyngor arbenigol gan gynghorwyr proffesiynol allanol ar rai materion, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag arfer yn y farchnad. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd cyngor annibynnol gan PricewaterhouseCoopers.

### Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr anweithredol

Pennir ffioedd Cyfarwyddwyr anweithredol gan yr Ymddiriedolaeth.

### Cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr gweithredol

Bwriad y strategaeth, a luniwyd gan yr Ymddiriedolaeth, yw rhoi cydnabyddiaeth sy'n denu, yn cymell ac yn cadw'r bobl allweddol sydd eu hangen i arwain y BBC ac i ddarparu darlledu cyhoeddus o'r radd flaenaf, tra'n cydnabod statws y BBC fel corfforaeth a ariennir gan y cyhoedd y mae'n rhaid iddi sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded.

Bob blwyddyn, mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn adolygu data annibynnol ar daliadau'r farchnad i ategu ei benderfyniadau ar gydnabyddiaeth, a sicrhau bod lefelau tâl yn gyson â'r strategaeth y cytunwyd arni. Am fod cyflogau sylfaenol pob cyfarwyddwr gweithredol wedi eu rhewi yn 2009, ni chynhaliwyd ymarfer cymharu â'r farchnad.

Rhoddir manylion pellach ar bob elfen ar gydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr gweithredol yn y paragraffau canlynol.

#### Cyflog sylfaenol

Wrth bennu cyflog sylfaenol mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn ystyried cyflog sylfaenol prif gystadleuwyr y BBC a'r sefydliadau eraill y mae'n cystadlu â hwy am dalent; fforddiadwyedd y BBC i wobrwyo ei swyddogion gweithredol; a pherfformiad yr aelodau gweithredol. Caiff cyflog sylfaenol ei gysoni â lefel ganolrifol y farchnad ar gyfer cyfanswm cydnabyddiaeth, wedi'i disgowntio o ffactor o 50-80% er mwyn sicrhau nad yw'r BBC yn arwain y farchnad o ran cyflogau swyddogion gweithredol yn sector y cyfryngau.

Tabl 2-16

## Cydnabyddiaeth a roddwyd

Dangosir cydnabyddiaeth aelodau'r Bwrdd Gweithredol a'r Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn isod:

| | | Ffi/cyflog sylfaenol[4] £000 | Bonws blynyddol £000 | Buddiannau trethadwy £000 | Cydnabyddiaeth arall[5] £000 | Cyfanswm cydnabyddiaeth 2009/10 £000 | Cyfanswm cydnabyddiaeth 2008/09 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddwyr gweithredol** | | | | | | | |
| **Cyfarwyddwr, BBC People** | | | | | | | |
| Lucy Adams | Ymunodd 1 Mehefin 2009 | 267 | – | 12 | 49 | 328 | – |
| Stephen Kelly | Gadawodd 28 Chwefror 2009 | – | – | – | – | – | 396 |
| **Cyfarwyddwr, yr Adran Marchnata, Cysylltiadau a Chynulleidfaoedd** | | | | | | | |
| Sharon Baylay | Ymunodd 5 Mai 2009 | 281 | – | 13 | 51 | 345 | – |
| **Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Gweledol** | | | | | | | |
| Jana Bennett | | 415 | – | 15 | 87 | 517 | 515 |
| **Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol** | | | | | | | |
| Mark Byford | | 475 | – | 13 | – | 488 | 485 |
| **Cyfarwyddwr, Sain a Cherddoriaeth** | | | | | | | |
| Tim Davie[1] | | 365 | – | 15 | 72 | 452 | 403 |
| Jenny Abramsky | Ymddeolodd 30 Medi 2008 | – | – | – | – | – | 248 |
| **Cyfarwyddwr, Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol** | | | | | | | |
| Erik Huggers | Ymunodd 1 Awst 2008 | 330 | – | 15 | 62 | 407 | 274 |
| Ashley Highfield | Gadawodd 30 Mehefin 2008 | – | – | – | – | – | 124 |
| **Prif Swyddog Ariannol** | | | | | | | |
| Zarin Patel | | 352 | – | 14 | 68 | 434 | 429 |
| **Cyfarwyddwr, BBC North** | | | | | | | |
| Peter Salmon | Ymunodd 1 Tachwedd 2009 | 156 | – | 6 | 31 | 193 | – |
| **Prif Swyddog Gweithredol, BBC Worldwide** | | | | | | | |
| John Smith[4] | Gadawodd 30 Medi 2009 | 200 | 141 | 7 | – | 348 | 480 |
| **Cyfarwyddwr Cyffredinol** | | | | | | | |
| Mark Thompson | | 668 | – | 7 | 163 | 838 | 834 |
| **Prif Swyddog Gweithredu** | | | | | | | |
| Caroline Thomson | | 335 | – | 21 | 63 | 419 | 413 |
| **Cyfanswm cyfarwyddwyr gweithredol** | | **3,844** | **141** | **138** | **646** | **4,769** | **4,601** |

| | Ffi/cyflog sylfaenol[4] £000 | Bonws blynyddol £000 | Buddiannau trethadwy £000 | Cydnabyddiaeth arall[6] £000 | Cyfanswm cydnabyddiaeth 2009/10 £000 | Cyfanswm cydnabyddiaeth 2008/09 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddwyr anweithredol[7]** | | | | | | |
| Marcus Agius | 51 | – | – | – | 51 | 50 |
| Val Gooding[2] | 37 | – | – | – | 37 | 35 |
| Mike Lynch | 36 | – | – | – | 36 | 35 |
| David Robbie | 41 | – | – | – | 41 | 40 |
| Samir Shah | 36 | – | – | – | 36 | 35 |
| Robert Webb[3] | 83 | – | – | – | 83 | 40 |
| **Cyfanswm Cyfarwyddwyr anweithredol** | 284 | – | – | – | 284 | 235 |
| **Cyfanswm y Bwrdd Gweithredol** | 4,128 | 141 | 138 | 646 | 5,053 | 4,836 |
| **Cyfanswm yr Ymddiriedolwyr** | | | | | 662 | 677 |
| **Cyfanswm** | | | | | **5,715** | **5,513** |

1 Ar 1 Hydref 2008 penodwyd Tim Davie yn Gyfarwyddwr Sain a Cherddoriaeth. Cyn hyn bu'n Gyfarwyddwr yr Adran Marchnata, Cysylltiadau a Chynulleidfaoedd.
2 Penodwyd Val Gooding yn Gadeirydd y Pwyllgor Masnachu Teg 1/2/10.
3 Ymddiswyddodd Robert Webb fel Cadeirydd y Pwyllgor Masnachu Teg 30/9/09. O 1 Hydref 2009 fe'i penodwyd yn Gadeirydd anweithredol BBC Commercial Holdings Limited a BBC Worldwide Limited. Er mwyn cydnabod y cyfrifoldebau ychwanegol hyn cafodd ffioedd o £45,000 yn ystod y flwyddyn ariannol 2009/10.
4 Ymddiswyddodd John Smith o Fwrdd y BBC ar 30/9/09. Mae'r cyflog sylfaenol a nodir ar gyfer y chwe mis pan oedd yn gyfarwyddwr gweithredol. £420,000 oedd y cyflog sylfaenol ar gyfer y flwyddyn. Cyfrifwyd y buddiannau ar sail pro rata. Mae'r taliad bonws a ddangosir yn cynrychioli taliad ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfan, a hefyd buddsoddwyd swm cyfatebol i gynllun bonws gohiriedig 2010-2013. Cynyddodd uchafswm tâl o dan y cynllun cymelldaliadau hirdymor i 25% yn weithredol ar gyfer cynllun 2009-2012. Roedd cyfanswm y gydnabyddiaeth ar gyfer y flwyddyn yn £823,000 fel y datgelwyd yn Arolwg Blynyddol BBC Worldwide.
5 Cyflwynodd y BBC drefniant aberthu cyflog ar 1 Mehefin 2008 ar gyfer aelodau a ymunodd â'r Cynllun Pensiwn cyn 1 Tachwedd 2006, a chymerodd y cyfarwyddwyr hynny a nodir yn y tabl uchod ran yn y trefniant. Newidiwyd telerau ac amodau cyflogaeth y cyflogeion hynny a ddewisodd y trefniant aberthu cyflog ac o ganlyniad mae cyfraniadau pensiwn cyflogeion a wnaed drwy'r trefniant aberthu cyflog wedi'u trin fel cyfraniadau'r cyflogwr, gyda gostyngiad cyfatebol mewn cyflog. Nid yw cyflogau sylfaenol cyfarwyddwyr gweithredol wedi'u haddasu i adlewyrchu effaith yr aberth cyflog er mwyn gallu eu cymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Cyfanswm y cyflog a aberthwyd gan gyfarwyddwyr gweithredol oedd £77,060 (2009: £84,704).
6 Mae cydnabyddiaeth arall yn ymwneud â threfniadau pensiwn; rhoi symiau arian parod ychwanegol i gyfarwyddwyr yn amodol ar yr uchafswm terfyn blynyddol.
7 Penodir Cyfarwyddwyr anweithredol am gyfnod o ddwy flynedd i ddechrau, ac eithrio'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, a benodir am gyfnod o dair blynedd i ddechrau.

Tabl 2-17
## Cynlluniau buddiannau diffiniedig

Dangosir manylion hawliadau buddiannau diffiniedig isod:

| Cyfarwyddwyr gweithredol | Oedran ar 31 Mawrth 2010 | Cynnydd/ (gostyngiad) mewn pensiwn cronedig dros flwyddyn £000 | **Cyfanswm y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2010 £000** | Gwerth trosglwyddo'r pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2010 £000 | **Gwerth trosglwyddo'r pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2009 000** | Cyfraniadau'r cyfarwyddwr (heb gynnwys cyfraniadau a dalwyd drwy'r trefniant aberthu cyflog) £000 | Cynnydd/ (gostyngiad) mewn gwerth trosglwyddo llai cyfraniadau'r cyfarwyddwr £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lucy Adams[1] | 45 | 2 | **2** | 11 | **–** | – | 11 |
| Sharon Baylay[2] | 41 | 2 | **2** | 10 | **–** | – | 10 |
| Jana Bennett | 54 | 3 | **16** | 247 | **212** | – | 35 |
| Mark Byford | 51 | 9 | **215** | 3,682 | **3,406** | – | 276 |
| Tim Davie | 42 | 2 | **10** | 92 | **57** | – | 35 |
| Erik Huggers[3] | 37 | 2 | **4** | 19 | **7** | – | 12 |
| Zarin Patel | 49 | 3 | **24** | 284 | **220** | – | 64 |
| Peter Salmon[4] | 53 | 2 | **7** | 107 | **73** | – | 34 |
| John Smith[5] | 52 | (26) | **183** | 3,250 | **3,673** | – | (423) |
| Mark Thompson | 52 | 3 | **12** | 167 | **130** | – | 37 |
| Caroline Thomson | 55 | 6 | **73** | 1,460 | **1,475** | – | (15) |

[1] Penodwyd Lucy Adams yn gyfarwyddwr ar 1 Mehefin 2009, ac ymunodd â'r cynllun ar 1 Gorffennaf 2009. Mae'n aelod Buddiannau Cyfartalog Gyrfa sydd â llai na dwy flynedd o wasanaeth, ac felly nid oes ganddi hawl i bensiwn gohiriedig ar 31 Mawrth 2010. Fodd bynnag, er mwyn bod yn gyson ag aelodau eraill, rydym wedi cyfrifo ac wedi prisio ei buddiannau pensiwn gohiriedig cronedig.
[2] Penodwyd Sharon Baylay yn gyfarwyddwr ar 5 Mai 2009 ac ymunodd â'r cynllun ar 1 Mehefin 2009. Mae'n aelod Buddiannau Cyfartalog Gyrfa sydd â llai na dwy flynedd o wasanaeth, ac felly nid oes ganddi hawl i bensiwn gohiriedig ar 31 Mawrth 2010. Fodd bynnag, er mwyn bod yn gyson ag aelodau eraill, rydym wedi cyfrifo ac wedi prisio ei buddiannau pensiwn gohiriedig cronedig.
[3] Mae Erik Huggers yn aelod Buddiannau Cyfartalog Gyrfa sydd â llai na dwy flynedd o wasanaeth ar 31 Mawrth 2009, ac felly nid oes ganddo hawl i bensiwn gohiriedig ar y dyddiad hwnnw. Fodd bynnag, er mwyn bod yn gyson ag aelodau eraill ar 31 Mawrth 2009 rydym wedi cyfrifo ac wedi prisio ei fuddiannau pensiwn gohiriedig cronedig ar 31 Mawrth 2009.
[4] Aelod Buddiannau Newydd yw Peter Salmon a benodwyd yn gyfarwyddwr ar 1 Tachwedd 2009, er iddo ymuno â'r cynllun ar 1 Hydref 2006. Mae'r ffigurau a ddangosir yn cynnwys y cyfnod cyn iddo gael ei benodi'n gyfarwyddwr.
[5] Ymddiswyddodd John Smith fel cyfarwyddwr ar 30 Medi 2009 ond mae'n parhau'n aelod o'r Cynllun ar 31 Mawrth 2010, felly prisiwyd ei bensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2010.
Ni wnaed unrhyw daliadau mewn perthynas â therfynu contract ac ni thalwyd unrhyw iawndal am golli swydd i aelodau o'r Bwrdd Gweithredol yn ystod y flwyddyn ac nid oedd unrhyw daliadau o'r fath yn dderbyniadwy ganddynt.

Tabl 2-18
## Rhestr o daliadau'r cynllun cymelldaliadau hirdymor ar gyfer BBC Worldwide

| Gradd perfformiad BBC Worldwide | Taliadau'r cynllun cymelldaliadau hirdymor |
|---|---|
| Chwartel uchaf neu uwch | 20% o gyflog sylfaenol (25% ar gyfer Cynllun 2009-12), a swm cyfatebol o 100% o'r bonws gohiriedig |
| Canolrif | 10% o gyflog sylfaenol, a swm cyfatebol o 50% o'r bonws gohiriedig |
| Islaw'r canolrif | Dim byd yn daladwy |

Nodiadau
1 Mae dosbarthu llinell syth yn gymwys rhwng y canolrif a'r chwartel uchaf.
2 Fforffedir 50% o swm unrhyw fonws blynyddol gohiriedig hefyd os yw'r perfformiad yn is na'r chwartel isaf.

Tabl 2-19
## Taliadau'r cynllun cymelldaliadau hirdymor ar gyfer Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide

| Dyfarniad y cynllun cymelldaliadau hirdymor | Bonws gohiriedig £000 | Diwedd y cyfnod perfformiad | Dyfarniad cynllun cymelldaliadau hirdymor a roddwyd £000 | Dyfarniad a dalwyd sy'n cyfateb i'r bonws gohiriedig £000oedd | Cyfanswm a roddwyd £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| | a | | b | c | a+b+c |
| Cynllun cymelldaliadau hirdymor 2007 i 2010 | 80 | Mawrth 2010 | 88 | 80 | 248 |

Tabl 2-20
## Taliadau posibl y cynllun cymelldaliadau hirdymor yn 2011 hyd at 2012 ar gyfer Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide

| Dyfarniad y cynllun cymelldaliadau hirdymor | Bonws gohiriedig £000oedd | Diwedd y cyfnod perfformiad | Taliadau posibl y cynllun cymelldaliadau hirdymor (targed) £000oedd | Taliadau posibl y cynllun cymelldaliadau hirdymor (uchafswm) £000oedd | Dyfarniad posibl sy'n cyfateb i'r bonws gohiriedig (targed) £ 000oedd | Dyfarniad posibl sy'n cyfateb i'r bonws gohiriedig (uchafswm) £000oedd | Cyfanswm posibl (targed) £000oedd | Cyfanswm posibl (uchafswm) £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | a | | b | c | d | e | a+b+d | a+c+e |
| 2008 hyd at 2011 | 88 | Mawrth 2011 | 44 | 88 | 44 | 88 | 176 | 264 |
| 2009 hyd at 2012 | 69 | Mawrth 2012 | 44 | 110 | 34 | 69 | 147 | 248 |

Nodiadau
1. Cynllun cymelldaliadau hirdymor 2008-2011 ar gyfer perfformiad sy'n is na'r chwartel isaf, fforffedir 50% o'r bonws gohiriedig.
2. Mae dyfarniad posibl y cynllun cymelldaliadau hirdymor yn seiliedig ar enillion cyfredol a chaiff ei dalgrynnu i'r 1,000 agosaf.

## Tâl amrywiadwy

Darperir elfen gyfyngedig o dâl amrywiadwy, sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion allweddol a chyfraniad cyffredinol at berfformiad y BBC. Mae'r cyfarwyddwyr gweithredol yn gymwys i gael bonws blynyddol o hyd at 10% o'u cyflog sylfaenol, y mae hyd at 6% ohono am gyflawni targedau gwerth am arian is-adrannol, a hyd at 4% am gyflawni amcanion gweddnewid is-adrannol. Yn ystod y flwyddyn ataliwyd cynllun bonws blynyddol y cyfarwyddwyr gweithredol (ac eithrio Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide) am gyfnod amhenodol. O ganlyniad ni thalwyd unrhyw fonysau dewisol yn 2010.

Mae strategaeth gydnabyddiaeth y BBC yn cydnabod, fel busnes a ariennir yn fasnachol, ei bod yn briodol bod y Prif Swyddog Gweithredol yn rhan o gynlluniau bonws blynyddol a chymelldaliadau hirdymor BBC Worldwide.

## Buddiannau

Yn ogystal â phensiynau, y prif fuddiannau cytundebol eraill a ddarperir yw car a lwfans tanwydd, yswiriant iechyd preifat ac aswiriant bywyd. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol yn gymwys i gael car â gyrrwr o dan drefniadau cynharach. Nid oes gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol hawl i gar personol na lwfans tanwydd.

## Pensiwn

Mae Aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn gymwys i fod yn rhan o Gynllun Pensiwn y BBC, sy'n darparu ar gyfer buddiannau pensiwn ar sail buddiannau diffiniedig.

Ar gyfer cyflogai a ymunodd â'r Cynllun Pensiwn cyn 1 Tachwedd 2006, y gyfradd gronni yw 1 rhan o 60 o'r cyflog pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth a'r cyflog pensiynadwy yw'r cyflog sylfaenol, yn cynnwys Pwysoliad Llundain, ond nid yw'n cynnwys unrhyw daliadau bonws na thaliadau eraill. Ar gyfer cyflogeion yn y grŵp hwn yr oedran pensiynadwy arferol yw 60. Ar gyfer cyflogai a ymunodd ar neu ar ôl 1 Tachwedd 2006, y gyfradd gronni yw 1.67% o'u cyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth, wedi ei haddasu yn unol â chwyddiant. Ar gyfer cyflogeion yn y grŵp hwn yr oedran pensiynadwy arferol yw 65.

Mae gan y rhan fwyaf o'r cyfarwyddwyr gweithredol oedran pensiynadwy arferol o 60 ond gallai fod yn 65. Oedran ymddeol arferol Erik Huggers, Sharon Baylay a Lucy Adams yw 65 oed fel aelodau Buddiannau Cyfartalog Gyrfa o'r Cynllun Pensiwn. I'r y rhai a ymunodd â'r Cynllun Pensiwn ar ôl 31 Mai 1989 gosodir uchafswm terfyn blynyddol ar enillion (£123,600 y flwyddyn ar gyfer 2009/10). Ni chymhwysir unrhyw uchafswm terfyn blynyddol i'r rhai a ymunodd ar neu cyn 31 Mai 1989. Mae'r Cynllun Pensiwn yn darparu ar gyfer ymddeoliad cynnar ar sail feddygol ac aswiriant bywyd o bedair gwaith y cyflog pensiynadwy hyd at derfyn a bennir.

Rhoddwyd amrywiaeth o drefniadau ar waith, ar gyfer aelodau o'r Bwrdd Gweithredol a ymunodd ar neu ar ôl 1 Mehefin 1989, lle mae eu cyflog pensiynadwy yn uwch na'r uchafswm terfyn blynyddol, yn cynnwys trefniadau wedi eu hariannu a heb eu hariannu y tu allan i'r Cynllun Pensiwn. Ers 1 Ebrill 2006, disodlwyd y trefniadau hyn gan dâl arian parod ychwanegol a delir ar gyflog pensiynadwy sy'n uwch na'r uchafswm terfyn blynyddol. Gweler Tabl 2-16.

Gall unrhyw gyflogai sy'n rhan o'r cynllun sy'n cyrraedd neu'n mynd y tu hwnt i'r Lwfans Gydol Oes (£1.75miliwn ar gyfer 2009/10) ddewis eithrio o'r Cynllun Pensiwn a chael tâl arian parod ychwanegol yn lle hynny.

## Contractau cyflogaeth

Mae contractau cyflogaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn cynnwys cyfnod rhybudd o 12 mis ar y mwyaf, a gellir eu terfynu'n gynt am reswm penodol. Ar 31 Mawrth 2010, roedd cyfnod heb ddarfod pob cyfarwyddwr gweithredol yn 12 mis ar y mwyaf. Nid oes hawl gytundebol i unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol os terfynir contract yn gynnar oni bai ei fod yn cael ei derfynu ar sail diswyddo.

## Buddiannau allanol

Gyda chytundeb y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Pwyllgor Enwebiadau ymlaen llaw, gall aelodau gweithredol y Bwrdd Gweithredol ddal un swydd cyfarwyddwr allanol â chydnabyddiaeth, a chaniateir hyd at 15 diwrnod y flwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau hyn. Gall yr aelod gweithredol gadw cydnabyddiaeth sy'n deillio o swyddi cyfarwyddwyr. Gall cyfarwyddwyr gweithredol hefyd ddal swyddi na thelir cydnabyddiaeth mewn perthynas â hwy y tu allan i'r BBC.

Yn ystod y flwyddyn ni ddaliwyd unrhyw swydd cyfarwyddwr allanol â chydnabyddiaeth gan gyfarwyddwr gweithredol. Er mwyn cael copi o gofrestr buddiannau'r Bwrdd Gweithredol ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc/running/executive/eb.

## Busnesau masnachol y BBC

Roedd Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide (is-gwmni masnachol y BBC) yn aelod o'r Bwrdd Gweithredol am chwe mis o'r flwyddyn. Mae'n rhan o gynllun bonws blynyddol a chynllun cymelldaliadau hirdymor BBC Worldwide. Nid ariennir y cynlluniau hyn gan ffi'r drwydded ac mae costau llawn cyflog sylfaenol, bonws blynyddol a'r cynllun cymelldaliadau hirdymor wedi eu hunanariannu gan refeniw masnachol BBC Worldwide.

Mae'n gymwys i gael uchafswm bonws blynyddol o 55% o gyflog sylfaenol o dan y cynllun (sy'n gynnydd o'r 50% ym mis Ebrill 2009), a bennir yn bennaf yn ôl perfformiad yn erbyn targedau elw. Gellir gohirio hyd at 75% o fonws blynyddol y flwyddyn flaenorol i mewn i'r cynllun cymelldaliadau hirdymor.

Yr uchafswm a delir o dan y cynllun cymelldaliadau hirdymor yw 25% o gyflog sylfaenol, a swm cyfatebol posibl ychwanegol o 100% o'r bonws blynyddol gohiriedig. Caiff dau fesur perfformiad eu defnyddio wrth benderfynu ar ddyfarniadau a wneir o dan y cynllun, yn cynnwys yr elfen gyfateb: mesurir Twf Elw (pwysoliad o 75%) a thwf Adenillion ar Werthiannau (pwysoliad o 25%) dros gyfnod o dair blynedd a'u cymharu â grŵp cymharol o 15 o leiaf o gwmnïau cyfryngau rhyngwladol eraill. Mae aelodau'r grŵp cymharol yn yr adran estynedig ar Lywodraethu yn www.bbc.co.uk/annualreport.

Mae'n rhaid i BBC Worldwide gael ei raddio o leiaf yng nghanol y grŵp cymharol cyn y telir unrhyw ddyfarniad. Telir y swm uchaf os caiff ei raddio yn y chwartel uchaf neu'n uwch. Ceir graddfa taliadau llinell syth rhwng y ddau bwynt hyn. Dangosir y rhestr taliadau yn Nhabl 2-18.



# BBC: YN CANOLBWYNTIO AR ROI GWERTH AM ARIAN

MAE'R ADRAN HON YN RHOI GWYBODAETH ARIANNOL ALLWEDDOL Y BBC.

Yma rhannwn gyd-destun ein strategaeth ariannol a'n stori effeithlonrwydd barhaus: ar y trywydd iawn ar gyfer arbedion effeithlonrwydd cronnol o bron £2biliwn dros bum mlynedd.


Rydym yn nodi ein data ariannol allweddol a'n cyfrifon, a'r nodiadau ategol – gan gynnwys dadansoddiad fesul gwasanaeth o wariant. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran Gyllid estynedig yn y ganolfan lawrlwytho yn www.bbc.co.uk/annualreport

Rhown y brif wybodaeth am rai gweithgareddau 'y tu hwnt i ddarlledu' megis yr amgylchedd ac allgymorth, a ble i fynd am ragor o wybodaeth.

Mae'r darlun yn dangos Evan Davis yn cyfweld arweinwyr busnes ar gyfer rhaglen BBC Radio 4 The Bottom Line, sydd hefyd yn cael ei darlledu ar y World Service, ac sy'n cael ei ffilmio ar gyfer sianelau BBC News a World News

# DATGANIADAU ARIANNOL





# TROSOLWG ARIANNOL

"RHAID I NI BARHAU I REOLI EIN BUSNES FEL EIN BOD YN ATEB EIN PWRPASAU CYHOEDDUS, AC YN BODLONI EIN TALWYR FFI'R DRWYDDED BOD Y GWAITH YN CAEL EI WNEUD YN DDA."


ZARIN PATEL
PRIF SWYDDOG ARIANNOL

**KPIs**

## EFFEITHLONRWYDD

- Mwy na £550miliwn wedi ei arbed ers dechrau ein rhaglen effeithlonrwydd gyfredol ym mis Ebrill 2008, gan gynnwys £316miliwn eleni.
- Ar y trywydd iawn i gyflawni ein targed arbedion blynyddol o 3% – yn cyfateb i bron £2biliwn (£1.8biliwn net), i'w ailfuddsoddi mewn cynnwys, seilwaith a gwasanaethau.


**Arbedion effeithlonrwydd gros £m**




## CASGLU FFI'R DRWYDDED

- Cost casglu ac osgoi talu wedi ei chynnal ar 8.7% o ffi'r drwydded am y drydedd flwyddyn yn olynol.
- Mae mwy o bobl yn talu am eu trwydded deledu ar-lein, drwy ddebyd uniongyrchol a thros y ffôn.

**Casglu/osgoi talu ffi'r drwydded %**




## ELW BBC WORLDWIDE

- Er gwaethaf yr argyfwng economaidd byd-eang, cynyddodd BBC Worldwide ei werthiannau flwyddyn ar ôl blwyddyn 7%, a chododd ei elw statudol i £145miliwn, yr uchaf erioed, a chododd elw gweithredol o 11% i 14%.
- Mae BBC Worldwide wedi dychwelyd £837miliwn mewn difidendau a buddsoddiadau rhaglenni ers 2004.

**Elw statudol BBC Worldwide cyn eitemau penodol, llog a threth £m**




UK GAAP yw ffigurau 2007/08. Blynyddoedd eraill yw IFRS.

* Eitemau penodol yw eitemau sylweddol a amlygir oherwydd eu maint neu bwysigrwydd er mwyn deall perfformiad BBC Worldwide yn llawn.

EIN NOD PARHAUS YW DARPARU'R GWERTH GORAU POSIBL I DALWYR FFI'R DRWYDDED. RHOI GWERTH AM ARIAN, AC MAE HYNNY'N GOLYGU CANOLBWYNTIO AR WELLA EFFEITHLONRWYDD A SICRHAU'R ELW MWYAF O'N HASEDAU.

ERBYN 2013, BYDDWN WEDI SICRHAU ARBEDION EFFEITHLONRWYDD O BRON £2BILIWN, GAN GYRRAEDD EIN TARGED ARBEDION BLYNYDDOL O 3%.

Bellach mae dwy flynedd o'n rhaglen effeithlonrwydd pum mlynedd wedi mynd heibio. Erbyn 2013, bydd y gwaith rydym eisoes wedi ei wneud wedi arwain at arbedion effeithlonrwydd o £1,453miliwn, sy'n cyfateb i 73% o gyfanswm ein targed arbedion. Mae cynlluniau ar waith yn awr i sicrhau £0.5biliwn arall.

Rydym wedi llwyddo i leihau costau osgoi talu ffi'r drwydded i 5.2% o'r incwm yn unig, gwelliant o 0.1% ers 2008/09. Gwnaed hyn er gwaethaf amgylchedd economaidd anodd iawn, a thwf arafach na'r disgwyl yn nifer y cartrefi newydd (twf o 0.5% o gymharu â'r hyn a gyllidebwyd sef 0.8%).

Rydym unwaith eto wedi cofnodi gwarged o £478miliwn (2009: £244miliwn), gan gynnwys buddiant eithriadol untro o £334miliwn yn deillio o gamau a gymerwyd i leihau costau pensiwn yn y dyfodol.

Mae BBC Worldwide wedi cyflawni cynnydd sylweddol mewn proffidioldeb eleni o £106miliwn i £145miliwn*, drwy ddatblygu ei feysydd busnes newydd. Bydd y perfformiad gwell hwn o fudd i'r BBC drwy sicrhau elw cynyddol i'w fuddsoddi mewn rhaglenni gwreiddiol. Mae enillion cyfnewid wedi helpu i wrthsefyll effaith yr amodau economaidd anodd, a effeithiodd yn benodol ar fusnesau yn y DU.

Mae Arolwg Strategaeth y BBC, Rhoi Ansawdd yn Gyntaf, yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i wneud i ffi'r drwydded weithio'n galetach. Rydym yn blaengynllunio i sicrhau bod gennym reolaeth ariannol gadarn, sy'n ein galluogi i barhau i roi ansawdd a gwerth cynulleidfa wrth wraidd ein hagenda.

Mae gan y BBC strwythur ariannu unigryw, ac ariennir Darlledu Cyhoeddus gan ffi'r drwydded, difidendau o weithgareddau masnachol y BBC, a chymorth grant i gefnogi'r World Service.

Mae gennym nifer o amcanion craidd a metrigau sy'n caniatáu i ni fesur ein perfformiad a'n heffeithlonrwydd. Mae'r rhain yn ddangosyddion pwysicach i ni na thargedau proffidioldeb a thwf.

Fel y rhan fwyaf o sefydliadau sector cyhoeddus eraill, mae'r BBC wedi mabwysiadu IFRS am y tro cyntaf yn 2009/10. Er nad yw hyn yn effeithio ar ein llifau arian parod na'n perfformiad sylfaenol, mae mabwysiadu IFRS yn newid y ffordd rydym yn cydnabod ac yn mesur rhai o'n prydlesau eiddo a'n contractau gwasanaeth hirdymor, allanol. Mae ein datganiadau ariannol yn cynnwys cysoniad rhwng IFRS ac UK GAAP.

## EFFEITHLONRWYDD

- **Sicrhau'r incwm mwyaf i ni ein hunain drwy gasglu ffi'r drwydded mewn ffordd mor effeithlon ag y gallwn.**

Mae nifer y cartrefi newydd, lefel cost osgoi talu ffi'r drwydded a lefel y ffi'r drwydded ei hun yn effeithio ar ein hincwm. Mae incwm gros wedi codi £85miliwn neu 2% eleni, gan adlewyrchu gwerth cynyddol ffi'r drwydded (£76miliwn) a thwf cartrefi (£9miliwn). Roedd nifer y cartrefi newydd yn is na'r disgwyl oherwydd y dirwasgiad, gyda thwf o 0.5% yn unig, o gymharu â chyllideb o 0.8%.

Rydym wedi gallu lleddfu'r lleihad mewn twf cartrefi drwy gadw costau'n isel, a chynnal cyfanswm cost casglu ac osgoi talu ar 8.7%. Mae cyfanswm y gost wedi lleihau 40% mewn termau cymharol, o 14.4% yn 2000, i 8.7% yn unig yn 2010.

Mae'r amgylchedd economaidd cyfredol yn galed i bawb. Yn yr amgylchiadau anodd hyn, rydym wedi ceisio ei gwneud yn haws i bobl dalu ffi'r drwydded. Mae casglu yn fwy hyblyg nag y bu erioed, ac wedi ei gefnogi gan wefan newydd a mwy ystyriol o gwsmeriaid, a rhaglenni cyfathrebu gweithredol fel yr ymgyrch 'push a little button' i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Mae hyn wedi helpu i leihau cost osgoi talu i 5.2%,

ac mae lefel y cwynion wedi gostwng ychydig o 0.14% i 0.12% o drwyddedau teledu.

Mae lansiad y wefan newydd yn golygu y gall pob talwr ffi'r drwydded yn awr weld eu trwydded ar-lein, yn ogystal â thalu am eu trwydded a newid eu manylion. O ganlyniad, cynyddodd nifer y trafodion hunanwasanaeth unwaith eto eleni o 35% i 44%. Mae lefel y taliadau debyd uniongyrchol hefyd wedi cynyddu unwaith eto, i 68%.

- **Gwneud y BBC mor effeithlon â phosibl, a darparu gwerth da am arian**

Rydym bellach wedi cwblhau dwy flynedd gyntaf ein rhaglen effeithlonrwydd bum mlynedd, gan sicrhau arbedion cronnol o £553miliwn hyd yma, gyda chostau untro o £85miliwn. Erbyn 2013, bydd y gwaith rydym eisoes wedi ei wneud yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn y pen draw o £1,453miliwn, sy'n cyfateb i 73% o'n targed llwyr. Dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn rhoi rhagor o fentrau ar waith, a fydd yn cynhyrchu arbedion ychwanegol o £0.5biliwn ac felly erbyn 2013, byddwn wedi sicrhau cyfanswm arbedion effeithlonrwydd cronnol o bron £2biliwn (£1.8biliwn net).


Mae hyn yn gryn gyflawniad o gofio'r heriau mewnol ac allanol a wynebwyd gennym, gan gynnwys marchnad eiddo masnachol dawel, sy'n golygu ein bod wedi gorfod addasu ein cynlluniau effeithlonrwydd i ymateb i hynny.

Rydym wedi bod yn cynnal rhaglenni effeithlonrwydd ar gyfer y BBC cyfan ers 2000, a bellach maent yn rhan annatod o'r ffordd rydym yn rhedeg y busnes. Mae ein rhaglen Gwelliant Parhaus gyfredol yn edrych ar sawl ffordd newydd o arbed

Tabl 2-21
**Rhaglen Gwelliant Parhaus – arbedion effeithlonrwydd fesul categori**

| Categori arbedion | % o gyfanswm yr arbedion | |
|---|---|---|
| Pobl | 13% | Rydym wedi lleihau nifer y bobl yn ein sefydliad, gan sicrhau bod staff yn canolbwyntio ar flaenoriaethau golygyddol y mae cynulleidfaoedd yn eu gwirioneddol werthfawrogi. Rydym hefyd yn ymrwymedig i leihau ein gwariant ar y talentau gorau ac ar uwch reolwyr. Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, mae ein bil talu wedi cynyddu llai na chwyddiant. |
| Cynhyrchu a gwella proses | 29% | Rydym yn gwneud y gorau o'r dechnoleg newydd i wella ein rhaglenni, cwtogi ar ein costau, a gwella sgiliau ein pobl. Mae dulliau newydd wedi ein helpu i ddod yn fwy effeithlon ym mhopeth a wnawn, o amserlennu i ffilmio. Er enghraifft, mae ein hystafell newyddion Amlgyfrwng wedi ein helpu i gyflawni allbwn yn fwy effeithlon ar draws teledu, radio ac ar-lein. |
| Caffael a chontractau | 23% | Rydym yn rhyddhau arian ar gyfer gwaith cynhyrchu, gan wneud arbedion drwy swmp-brynu, rhoi gwaith ar gontractau allanol ac ail-negodi contractau. Rydym wedi ailnegodi contractau i sicrhau arbedion heb effeithio ar ansawdd, gan gynnwys ein contractau darlledu mawr, a'r gwasanaethau isdeitlo ac iaith arwyddion. |
| Eiddo a thechnoleg | 7% | Mae prosiectau mawr fel y Fenter Cyfryngau Digidol yn ein helpu i drawsnewid y ffordd rydym yn gweithio. Er enghraifft, mae newid i gynhyrchu digidol di-dâp yn caniatáu i ni greu cynnwys yn fwy effeithlon nag erioed o'r blaen. Byddwn yn gwneud mwy o arbedion wrth i ni wireddu manteision llawn ein rhaglen moderneiddio eiddo a thechnoleg. |
| Canolbwyntio ar ansawdd y cynnwys | 28% | Rydym yn newid ein canolbwynt i'r math o allbwn y mae cynulleidfaoedd yn ei wirioneddol werthfawrogi. Rydym wedi gwario llai ar raglenni sy'n rhoi gwerth is, ac wedi cyfeirio arian at raglenni sy'n rhoi'r ansawdd mwyaf ac sy'n cael yr effaith fwyaf ar gynulleidfaoedd, megis *A History of the World in 100 Objects* a *The Seven Ages of Britain.* |

Siart 2-8
**Incwm £m**




**Incwm**

- Mae incwm ffi'r drwydded wedi cynyddu £85miliwn o ganlyniad i'r cynnydd o £3 fesul trwydded, cyfraddau osgoi talu is a chynnydd yn nifer y trwyddedau a roddwyd.
- Rhagwelir yn awr y bydd costau cyffredinol newid i ddigidol yn llai na'r disgwyl ac y bydd y BBC yn ad-dalu £132miliwn o danwariant i'r Llywodraeth.
- Gan addasu ar gyfer yr ad-daliad hwn, mae incwm ffi'r drwydded, yn gyffredinol, yn dangos dirywiad, gan nad yw'r tanwariant wedi ei gydnabod fel incwm.
- Mae Incwm Arall wedi codi £177miliwn i £1,344miliwn, yn bennaf oherwydd twf BBC Worldwide.

arian. Mae'r rhain yn cynnwys addasu'r ffordd y gwnawn raglenni, gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg newydd, a newid y ffordd rydym yn gweithio fel sefydliad. Mae'r olaf yn galw am newidiadau ymddygiadol, sydd yn ôl eu natur yn fwy cymhleth, ond a fydd yn cyflawni buddiannau cynaliadwy, ariannol a chreadigol hirdymor.

Mae pencadlys newydd BBC Scotland yn Pacific Quay yn enghraifft dda. Mae'n adeilad mwy effeithlon, sy'n rhatach i'w gynnal, ond mae hefyd wedi ein galluogi i arloesi datblygiadau technolegol newydd fel cynyrchiadau di-dâp, ac wedi lleihau nifer y bobl sydd ei hangen arnom, fel eu bod bellach yn gallu gweithio ym meysydd teledu, radio ac ar-lein.

Mae'r newidiadau hyn yn y llif gwaith a thechnoleg wedi helpu BBC Scotland i sicrhau arbedion effeithlonrwydd o tua 30% dros bum mlynedd. Yn bwysicaf oll, mae'r arbedion effeithlonrwydd hyn yn gynaliadwy, ac yn dangos y gwahaniaeth y gall amgylchedd gwaith mwy effeithiol ei wneud i sefydliad creadigol. Roeddem hefyd wedi gallu mabwysiadu ymagwedd fwy arloesol tuag at ariannu'r adeilad, a wnaeth osgoi treuliau cyfalaf mawr ar y cychwyn a lleihau risgiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gwaith gosod technegol.

Mae Pacific Quay yn enghraifft o effeithlonrwydd ac arloesedd ar raddfa fawr, ond mae newidiadau ar raddfa fach yr un mor bwysig, o ddefnyddio ein cyfleusterau cynhyrchu yn well, i amserlenni cynhyrchu mwy effeithlon. Mae pob arbediad effeithlonrwydd yn caniatáu i ni fuddsoddi mwy yn ansawdd ein cynnwys. Ymhlith yr enghreifftiau eleni mae cynyddu ein buddsoddiad mewn HD a gwario £25.5miliwn yn fwy ar raglenni plant erbyn 2013.

## SICRHAU BOD FFI'R DRWYDDED YN CAEL YR EFFAITH FWYAF

### • Sicrhau'r elw mwyaf o raglenni y telir amdanynt gan ffi'r drwydded

Crëwyd ein prif is-gwmni masnachol, BBC Worldwide, i gynhyrchu'r elw mwyaf o raglenni y telir amdanynt gan dalwyr ffi'r drwydded. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n gwerthu rhaglenni, fformatau a nwyddau'r BBC ledled y byd.

Mae BBC Worldwide wedi cael blwyddyn heriol ond llwyddiannus, gyda refeniw (gan gynnwys trafodion mewnol y grŵp a chyfran o incwm cyd-fentrau) yn codi 7% i £1,074miliwn, ac elw statudol cyn eitemau penodol, llog a threth hefyd yn cynyddu 36% i £145miliwn eleni. Mae elw gweithredu wedi codi o 11% i 14%.


Mae'r perfformiad hwn wedi caniatáu i BBC Worldwide ddarparu elw sylweddol i'r BBC, gan gynnwys £78miliwn a fuddsoddwyd yn rhaglenni'r BBC, a £32miliwn a ddychwelwyd i'r BBC drwy ddifidendau. Mae BBC Worldwide hefyd wedi datgan difidend pellach ar gyfer 2009/10, a fydd yn rhoi cyfanswm difidendau o £74miliwn, cynnydd blwyddyn ar ôl blwyddyn o £5miliwn. Ers 2004, mae hyn yn golygu bod BBC Worldwide wedi dychwelyd £837miliwn i'r BBC mewn difidendau a buddsoddiad yn rhaglenni'r BBC.

Cyflawnodd BBC Worldwide dwf refeniw drwy ehangiad daearyddol, gan gynnwys lansio sianelau yn Awstralasia, Affrica, Sgandinafia ac America Ladin; gan ganolbwyntio ar brif frandiau fel *Lonely Planet* a *Top Gear*; a thrwy sicrhau'r gwerthiannau mwyaf o'i fuddsoddiadau cynhyrchu, gan gynnwys *Dancing with the Stars*, fersiwn rhyngwladol *Strictly Come Dancing* y BBC. Mae perfformiad gwell yn y busnes Cyfryngau Digidol, a mesurau eraill i arbed costau wedi helpu i gynyddu proffidioldeb. Yn ystod y flwyddyn, sicrhaodd BBC Worldwide berchenogaeth lwyr o 2entertain (y gweithrediad DVD yr oedd Woolworths Group plc yn berchen ar 40% ohono yn gynt) am £17miliwn, gan sicrhau dosbarthiad o gynnwys y BBC a chynnwys arall o ansawdd y DU.

Er i effaith dirwasgiad economaidd y DU gael ei theimlo fwyaf yn y busnesau hysbysebu a manwerthu, elwodd gweithrediadau tramor BBC Worldwide ar wendid Sterling. Cynhyrchodd hyn enillion cyfnewid, a helpodd i wrthsefyll amodau masnachu anodd. Fodd bynnag, mae gwendid Sterling yn erbyn Doler Awstralia wedi ei gwneud yn ofynnol i BBC Worldwide leihau gwerth cario *Lonely Planet*, ei fusnes gwybodaeth deithio, er gwaethaf perfformiad gweithredu cryf. Pe bai'r cyfraddau cyfnewid ar 28 Chwefror 2010, pan gyflawnwyd y profion, wedi aros yn gyson â chyfraddau 31 Mawrth 2009, byddai'r gwerth adenilladwy wedi mynd y tu hwnt i'r gwerth cario ac ni fyddai unrhyw dâl lleihad mewn gwerth wedi ei gofnodi.

Siart 2-9

**Gwariant gweithredu £m**




**Gwariant gweithredu**

- Mae rhaglen Gwelliant Parhaus y BBC wedi bod yn effeithiol wrth gyflawni arbedion effeithlonrwydd cronnol o £316miliwn yn ystod y flwyddyn a £553miliwn hyd yma.
- Rheoleiddir gwariant ar gynnwys UK PSB gan Ymddiriedolaeth y BBC drwy drwyddedau gwasanaeth.
- Roedd dwy gyllideb trwydded gwasanaeth (2009: dwy) y tu allan i'r goddefiant o 10% eleni (BBC Radio 3 a BBC HD).

Bydd BBC Worldwide yn parhau i ganolbwyntio ar weithgareddau rhyngwladol, brandiau a gweithrediadau ar-lein, fel y gall barhau i ddarparu gwerth i'r BBC a thalwyr ffi'r drwydded.

Gwelodd BBC World News leihad mewn gwerthiannau hysbysebu hefyd, wedi ei wrthbwyso'n rhannol gan incwm tanysgrifio cynyddol gan ddarparwyr cebl a lloeren, gyda chyfanswm y refeniw yn gostwng 2% yn unig i £62.9miliwn (gan gynnwys incwm mewnol y grŵp). Gwrthbwyswyd colledion masnach gan enillion cyfnewid tramor, yn arwain at PBIT statudol o £3.6miliwn. Cyflawnodd World News y refeniw gorau erioed ym mis Mawrth 2010, ac yn ddiweddar gweithredodd fesurau lleihau costau i wrthdroi colledion masnachu.

Mae'r dirywiad cyfredol hefyd wedi effeithio ar BBC Studios a Post Production, a chynnydd yn nifer y cynyrchiadau sy'n symud allan o Lundain. Er gwaethaf hyn, mae'r busnes wedi cyflawni refeniw o £59.8miliwn (gan gynnwys incwm mewnol y Grŵp) ac elw gweithredu statudol cyn ailstrwythuro o £0.4miliwn, yn bennaf o ganlyniad i reolaeth dynnach ar gostau.

**• Lledaenu mantais ffi'r drwydded ar draws y DU gyfan**

Mae'r BBC ar gyfer pob talwr ffi'r drwydded, ar draws pob cornel o'r DU gyfan, ac rydym yn ymrwymedig i gynyddu diwydiannau creadigol a thalentau cynhyrchu'r wlad gyfan.

Dyna pam mai un o'n metrigau allweddol yw'r gyfran o arian a wariwn ar deledu rhwydwaith y tu allan i Lundain. Bydd hanner ein rhaglenni teledu rhwydwaith yn cael eu gwneud y tu allan i Lundain erbyn 2016, a bydd y Gwledydd yn cyfrif am 12% o'n gwariant rhwydwaith erbyn 2012, a 16% erbyn 2016.

Rydym eisoes ar y trywydd iawn i gyflawni hyn: yn yr adroddiad a gyflwynwyd gennym i Ofcom eleni, nodwyd bod cyfanswm y gwariant teledu rhwydwaith y tu allan i Lundain ar gyfer y flwyddyn galendr 2009 yn 38% o'n gwariant cymwys, cynnydd o gymharu â'r 35% a gafwyd yn 2008.

Cafwyd y cynnydd mwyaf yn yr Alban, lle y gwnaethom gynyddu'r ganran o allbwn rhwydwaith cymwys o 3.7% i 6.1% yn 2009, yn rhannol drwy gomisiynau o bwys, megis y gyfres This is Scotland. Symudodd nifer o feysydd rhaglenni o Lundain yn ystod 2009/10, gan gynnwys *The Review Show* (*Newsnight Review* gynt) i Glasgow.

Yng Ngogledd Iwerddon, gwnaethom ddyblu lefel y rhaglenni a gomisiynwyd i 1.2% o'r allbwn rhwydwaith cymwys, gyda theitlau megis *Five Minutes of Heaven* ar BBC Two, sydd wedi ennill gwobrau lu.

Yng Nghymru, gwnaethom gynyddu cyfran y teledu rhwydwaith cymwys a gomisiynwyd o 3.5% i 4.4%. Yn sgîl agor ein Pentref Drama newydd ym Mae Caerdydd, mae disgwyl i'r duedd hon barhau. *Casualty* yw un o'r prif raglenni y bwriedir ei symud i'r Pentref Drama yn 2011.

Dim ond rhan o'n hymrwymiad hirdymor clir i ledaenu buddsoddiad y BBC mewn cynnwys yn fwy eang ledled y wlad gyfan yw hyn. Gyda meysydd cynhyrchu fel Plant a Chwaraeon yn symud i Salford o 2011/12, hwn fydd y newid mwyaf a welwyd erioed ym mhresenoldeb daearyddol y BBC. Fel rhan o'r gwaith o symud i Salford, bydd BBC Radio 5 live yn adleoli o Lundain i'w chartref newydd yng Ngogledd Lloegr. Mae hyn yn rhan allweddol o'n hymrwymiad i gynyddu cyfran y radio rhwydwaith a gomisiynir y tu allan i Lundain i 38% o 2012.

Yn ôl astudiaeth annibynnol o'n heffaith economaidd gan Deloitte, mae gweithgaredd y BBC bellach yn cefnogi tua 7,000 o swyddi yn Glasgow, Caerdydd a Bryste. Mae hyn yn cynhyrchu tua £200miliwn o werth economaidd bob blwyddyn.


**• Sicrhau bod ffi'r drwydded yn cefnogi'r economi greadigol ehangach.**

Mae'r astudiaeth effaith economaidd hefyd wedi cymeradwyo rôl bwysig y BBC fel buddsoddwr yn economi greadigol y DU. Mae'n dangos ein bod, am bob £1 o ffi'r drwydded a warir, yn cynhyrchu £2 o werth i dalwyr ffi'r drwydded. Mae ein Harolwg Strategaeth yn cynnwys ymrwymiad i gynnal y lefel hon o effaith.

Rydym yn buddsoddi symiau sylweddol bob blwyddyn mewn cwmnïau cynhyrchu annibynnol, artistiaid a chyfranwyr, yn ogystal â chyfleusterau allanol a phrynu rhaglenni. Mae'r ffaith ein bod yn gwneud hyn yn ffactor sefydlogi arbennig o bwysig ar adeg anodd, pan fo'r sector masnachol dan bwysau o ran buddsoddi. Roedd hyn yn sicr yn wir dros y 18 mis diwethaf, ac yn ystod y cyfnod hwnnw rydym wedi cynnal ein lefelau

Siart 2-10

**Llifau arian parod a dyled net £m**




**Rheoli ein hadnoddau**

- Cyfyngir ar fenthyciadau UK PSB gan y DCMS, ond mae'r terfynau hyn yn eithrio rhai prydlesau eiddo. Ar ôl addasu dyled net i eithrio'r prydlesau hyn, mae PSB yn parhau i weithredu'n dda o fewn terfyn benthyca'r DCMS ar gyfer dyledion.
- Roedd gan UK PSB gronfeydd net o £168miliwn (2009: £46miliwn) ar gael i'w defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn, gyda £132miliwn yn ad-daladwy o dan y DSHS.
- Mae gan y BBC, fel sefydliad cyfan, £575miliwn o fenthyciadau ar gael o dan ei gyfleusterau bancio cyfredol.
- Mae sefyllfa arian parod y BBC wedi cynyddu o £124miliwn yn 2009 i £264miliwn yn 2010, y mae £132miliwn ohono yn ddyledus i'w ad-dalu. Mae dyled net wedi gwella £173miliwn i £3miliwn.

gwariant ni ein hunain. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi buddsoddi £1.1biliwn yn economi greadigol y DU, ac wedi comisiynu 40% o'n cynnwys teledu gan gwmnïau annibynnol. Mae hyn yn gynnydd o gymharu â'r 37% a gafwyd y flwyddyn gynt. Comisiynwyd 14% o'n cynnwys radio rhwydwaith cymwys hefyd gan gwmnïau annibynnol, sef cynnydd o 0.5%. Cafodd cyflenwyr allanol 26% o wariant BBC Ar-lein cymwys, gan fynd ychydig y tu hwnt i'w darged o 25%.

Dim ond un agwedd ar ein cefnogaeth i economi greadigol y DU yw'r swm a wariwn ar y sector annibynnol. Yr agwedd bwysig arall yw partneriaethau. Ers lansio ein rhaglen partneriaethau yn 2008, rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth ag ITV, Channel 4, five a radio masnachol i gefnogi gwasanaeth cyhoeddus y DU a'r sector cyfryngau ehangach yn y DU.

## STRATEGAETH A RISG ARIANNOL

Mae'r BBC yn canolbwyntio yn anad dim ar ddarparu rhaglenni gwych i'r DU gyfan. Rydym yn strwythuro ein busnes i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o ffi'r drwydded, er enghraifft drwy ein rhaglen effeithlonrwydd Gwelliant Parhaus. Rydym hefyd yn targedu mwy o ffi'r drwydded at raglenni drwy leihau gorbenion a chostau cymorth.

Un ffordd o wneud hyn yw drwy roi rhai gwasanaethau cymorth ar gontract allanol i ddarparwyr arbenigol, a lleihau faint o ffi'r drwydded a warir ar y gweithgareddau hyn.

Strwythurwn ein cytundebau cyflenwi mewn ffyrdd gwahanol, yn unol â'r amgylchedd cystadleuol. Mewn rhai marchnadoedd, mae hyn yn golygu bod gennym gytundebau tymor byrrach, gyda chontractau yn cael eu rhoi ar dendr bob tair i bedair blynedd. Mewn achosion eraill gallwn gyflawni gwerth gwell drwy gytundebau tymor hwy, lle y gall partneriaeth, rhannu arbedion, a ffyrdd newydd o weithio sicrhau'r gwerth gorau.

Gall mabwysiadu'r ymagwedd hon olygu ein bod yn lleihau'r risg i dalwr ffi'r drwydded, a gwarantu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol. Yna gall yr arbedion a wnawn gael eu buddsoddi mewn cynnwys o safon. Ar draws ein contractau mwyaf, rydym wedi arbed mwy na £350miliwn.

## MABWYSIADU IFRS

Mae'r BBC wedi paratoi ei ddatganiadau ariannol gan ddefnyddio Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) am y tro cyntaf yn 2009/10. Mae hyn yn gyson â mabwysiadu IFRS yn y sector cyhoeddus ehangach, ac ar gyfer Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan (WGA). 1 Ebrill 2008 yw'r dyddiad newid ar gyfer ein mantolen IFRS gyntaf.

Fel y cofnodwyd mewn Adroddiadau Blynyddol blaenorol, effaith bwysicaf mabwysiadu yw cydnabod a mesur prydlesau o dan IFRS. Bellach caiff rhai prydlesau eiddo eu trin fel prydlesau cyllid yn hytrach na phrydlesau gweithredu, gan arwain at gydnabod asedau a rhwymedigaethau prydlesau sylweddol uwch ar y fantolen. Fodd bynnag, effaith ased net hyn yw tua £159miliwn yn unig. Yn ogystal, mae newidiadau i ofynion datgelu sy'n ymwneud â phrydlesau gweithredu ac ymrwymiadau eraill wedi newid y modd rydym yn dangos yr ymrwymiadau hirdymor iawn hyn.


Nid yw'r ymrwymiadau prydlesu a chytundebol hyn yn rhai newydd. Maent yn deillio o'r ffordd y mae'r BBC yn rheoli ei fusnes. Rydym wedi dewis rhoi nifer o wasanaethau nad ydynt yn ganolog i raglenni na chynnwys ar gontractau allanol, gan gynnwys er enghraifft, gwasanaethau darlledu. Mae'r strategaeth hon wedi galluogi'r BBC i ganolbwyntio ar gyflawniad craidd, gwella gwerth am arian, a lleihau risg. Mae ein strategaeth eiddo wedi ein galluogi i ryddhau gwerth ein hasedau, drwy werthu ac adlesu, gan roi'r arian parod ymlaen llaw i ni fuddsoddi mewn rhaglenni a gwasanaethau.

Mae llawer o'r contractau hyn yn rhai hirdymor o ran natur. Mae hyn yn ein galluogi i sicrhau pris gwell, ac yn rhoi sicrwydd i ni a'n partneriaid cytundebol, yn amodol ar feini prawf perfformiad. O ganlyniad, bob blwyddyn, mae gennym ymrwymiadau cyfalaf o £116miliwn yn unig, sy'n cynrychioli llai na 2.5% o gyfanswm yr incwm, ac ymrwymiadau contractau amrywiadwy gwerth £557miliwn y flwyddyn.

Mae'n bwysig nodi bod y rhwymedigaethau prydlesau cyllid a gydnabyddir ar y fantolen o ganlyniad i fabwysiadu IFRS wedi eu heithrio o ddiffiniad yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o fenthyciadau, ac felly nid ydynt yn effeithio ar ein terfynau benthyca.

Siart 2-11

**Asedau/(rhwymedigaethau) net £m**




**Asedau/(rhwymedigaethau) net**

- Mae'r datganiadau ariannol yn dangos bod gan y BBC rwymedigaethau net. Mewn gwirionedd, mae gan y BBC asedau net o £1.1biliwn, ac eithrio diffyg y cynllun pensiwn o £1.6biliwn. Mae'r diffyg yn cynrychioli rhwymedigaeth hirdymor.
- Wrth anelu at sicrhau gwerth am arian mae'r BBC wedi rhoi llawer o wasanaethau ar gontract allanol, gan gynnwys gwasanaethau darlledu.
- Mae ymrwymiadau ar fantolen y BBC yn ymestyn dros gyfnod hir o amser. Dim ond £116miliwn o ymrwymiadau'r BBC sy'n ddyledus yn y flwyddyn nesaf. (llai na 2.5% o'r incwm blynyddol).
- Mae incwm ffi'r drwydded, o dan y Siarter, wedi ei warantu tan 2013, ac rydym yn disgwyl iddo gael ei ymestyn ar ôl hynny. Fel y cyfryw, mae gan y BBC hyblygrwydd ariannol sylweddol i fodloni ei rwymedigaethau yn y dyfodol, gan barhau i ganolbwyntio ar yr un pryd ar gyflawni mewn perthynas â'r pwrpasau cyhoeddus.

Mae Nodyn 27 yn y datganiadau ariannol amlinellol estynedig yn rhoi mwy o fanylion am effaith mabwysiadu IFRS.

## HERIAU HEDDIW AC YFORY ERAILL

### Rhwymedigaethau pensiwn

Nododd ein Hadroddiad Blynyddol 2008/09 yr angen i adolygu ein hymagwedd at y ddarpariaeth bensiwn yn barhaus, gan gydnabod bod yn rhaid iddi barhau'n fforddiadwy yn yr hirdymor.

Dros y 12 mis diwethaf, mae cyfuniad o ansicrwydd yn y farchnad, disgwyliad oes cynyddol, cyfraddau llog is a chynnydd disgwyliedig mewn chwyddiant wedi codi prisiad cyfrifyddu Cynllun Pensiwn y BBC o ddiffyg o £0.1biliwn i ddiffyg o £1.6biliwn ar 31 Mawrth 2010.

Er mwyn prisio'r pensiwn, caiff taliadau pensiwn (rhwymedigaethau) yn y dyfodol eu disgowntio yn ôl i arian heddiw gan ddefnyddio arenillion llog y farchnad gyfredol ar fondiau corfforaethol â statws uchel. Syrthiodd yr arennill hwn o 7.2% yn 2009 i 5.5% yn 2010, gan gynyddu rhwymedigaethau pensiwn £2.2biliwn. Yn ogystal, mae'r gyfradd chwyddiant a ddefnyddir i bennu'r swm y mae pensiynau yn tyfu bob blwyddyn wedi cynyddu o 2.9% yn 2009 i 3.7% yn 2010, sydd hefyd yn cynyddu gwerth y rhwymedigaethau pensiwn £0.9biliwn.

Mae'r gwerth a osodir ar y taliadau pensiwn yn y dyfodol yn sensitif iawn i'r arennill ar fondiau corfforaethol a'r gyfradd chwyddiant dybiedig. Er enghraifft, pe bai'r arennill ar fondiau corfforaethol wedi bod tua 6.8% yn 2010, byddai'r rhwymedigaethau wedi lleihau i lefel a fyddai wedi dileu'r diffyg.

Mae'r cynnydd yng ngwerth y rhwymedigaethau wedi dileu'r adferiad yng ngwerth asedau'r Cynllun ac wedi arwain at y cynnydd o £1.5biliwn yn y diffyg.

Dim ond ciplun ar adeg benodol yw'r prisiad cyfrifyddu ac felly mae amrywiadau marchnad cymharol tymor byr yn effeithio arno. Yn yr hirdymor, mae'r Cynllun yn parhau yn iach, yn yr ystyr ei fod yn ennill mwy o gyfraniadau pensiwn ac incwm buddsoddi nag y mae'n ei dalu allan mewn pensiynau.

Mae Cynllun Pensiwn y BBC yn agored i brisiad actiwaraidd ffurfiol bob tair blynedd, a ddefnyddir i benderfynu ar gyfraniadau'r cyflogwr. Cynhelir prisiad ffurfiol ar 1 Ebrill 2010, ac er na fydd y canlyniadau yn hysbys am beth amser, rydym yn amcangyfrif y bydd diffyg o tua £1.5biliwn.

Dechreuasom raglen o ddiwygio ein Cynllun yn sylweddol yn 2006, gyda'r nod o reoli costau a risgiau. Caewyd adran cyflog terfynol y Cynllun i'r rhai newydd oedd yn ymuno, a chyflwynwyd adran buddiant diffiniedig cost is, cyfartaledd gyrfa. Mae cyfraniadau cyflogeion i adran cyflog terfynol y Cynllun wedi bod yn cynyddu'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf, gan godi i 7.5% o fis Ebrill 2010. Adolygwyd y telerau talu'n gynnar ar gyfer yr adran cyflog terfynol hefyd a'u diwygio i leihau costau, gan roi cynnydd untro eithriadol mewn incwm o £334miliwn. Gyda'i gilydd, mae'r newidiadau hyn wedi helpu i wneud y Cynllun yn fwy fforddiadwy i'r BBC dros yr hirdymor.

Wedi dweud hynny, mae gennym ddyletswydd i ddiogelu iechyd hirdymor y Cynllun. Mae gennym ddiffyg cyfredol y mae angen ei leihau ac angen tymor hwy i wella fforddiadwyedd y Cynllun, y mae disgwyliad oes cynyddol ac anwadalrwydd cynyddol y farchnad wedi effeithio'n andwyol arno. Heb ddiwygio ymhellach, rhagwelwn y gall costau pensiwn barhau i godi, wrth i bobl fyw am fwy o amser ac wrth i farchnadoedd barhau yn ansefydlog.


Credwn y byddai'n amhriodol dargyfeirio cyfran uwch o ffi'r drwydded i wrthbwyso cynnydd pellach mewn costau pensiwn. Ni fyddai gwneud hynny yn gwarantu na fyddai diffyg tebyg yn digwydd yn y dyfodol, ac nid yw ein hincwm wedi ei warantu yn y tymor hwy, felly byddai'n amhriodol cymryd risg o'r fath.

Felly rydym wedi cyhoeddi pecyn o newidiadau i'r buddiannau a dalwyd gan y Cynllun, gyda'r nod o leihau risg a chost i'r BBC ymhellach. Efallai yr ymgynghorir ar y newidiadau hyn, ond rydym yn bwriadu cynnwys:

- bydd pob adran o'r cynllun buddiant diffiniedig ar gau i staff newydd sy'n ymuno a chynigir aelodaeth o drefniant cyfraniad diffiniedig, newydd iddynt, lle y bydd y BBC yn cyfateb cyfraniadau cyflogeion.
- cynigir dewis i aelodau cyfredol y Cynllun o barhau o fewn y Cynllun, neu ymuno â threfniant cyfraniad diffiniedig newydd. I aelodau sy'n dymuno aros o fewn y Cynllun,

Siart 2-12

**Symudiad yn niffyg y cynllun pensiwn yn ystod y flwyddyn £m**



caiff cynnydd mewn cyflogau yn y dyfodol ar gyfer cyfrifo buddiannau pensiwn ei gapio ar 1% y flwyddyn gan gynnwys cynnydd o ran dyrchafiad.

Dros y flwyddyn i ddod, byddwn yn gweithio'n agos gyda'n staff, Ymddiriedolwyr y Cynllun ac undebau llafur i gytuno ar y diwygiadau hyn a'u rhoi ar waith, sef diwygiadau sydd eu hangen i ddod o hyd i ateb fforddiadwy a diogelu iechyd hirdymor y Cynllun ar gyfer cyflogeion cyfredol a chyn-gyflogeion.

## MATERION ERAILL

### Polisïau'r Trysorlys

Mae ein swyddogaeth Trysorlys yn rheoli risg ariannol y BBC, ac yn sicrhau y gallwn fodloni ein rhwymedigaethau pan ddônt yn ddyledus, a'n bod yn parhau o fewn ein terfynau a'n cyfamodau benthyca.

Ariennir y rhan fwyaf o weithgareddau'r BBC o ffi'r drwydded ac, o ganlyniad, mae ein cyfleusterau benthyca yn gymharol isel o gymharu â chyfanswm ein hall-lif arian parod blynyddol (£200miliwn ar gyfer Darlledu Cyhoeddus, a £350miliwn ar gyfer y busnesau masnachol). Rhoddwyd y cyfleusterau hyn ar waith yn 2007/08 i sicrhau ein bod wedi ein hariannu'n llawn hyd at 2012/13. Mae'r cyfleusterau gyda grŵp dethol o wrthbartïon, gyda statws credyd cryf. Gellir eu defnyddio i ariannu trafodion o bwys, ond gellir defnyddio llwybrau ariannu eraill hefyd lle bo hynny'n briodol. Er enghraifft, mae'r eiddo yng nghanolfan BBC North yn Salford yn cael ei brydlesu.

Un o'r risgiau ariannol eraill y mae angen i ni ei hystyried yw amlygiad i amrywiadau mewn cyfraddau cyfnewid. Mae gennym nifer gymharol fach o drafodion arian cyfred tramor, ond rydym yn dal i geisio lleihau neu ddileu'r risg o anwadalrwydd drwy lunio blaengontractau arian cyfred. Yn y bôn mae'r rhain yn pennu pris sterling y trafodion hyn.

## POLISÏAU CYFRIFYDDU HOLLBWYSIG

Polisïau cyfrifyddu hollbwysig yw'r meysydd hynny lle mae angen arddel y farn fwyaf. Ar gyfer y BBC mae'r rhain yn cynnwys:

- Tybiaethau'r cynllun pensiwn – er bod y tybiaethau ar gyfer adroddiadau ariannol yn rhai sy'n seiliedig ar y farchnad, mae penderfyniadau pwysig i'w gwneud o hyd i benderfynu sut y mae rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn y BBC yn cymharu â mynegeion y farchnad. Gall newid bach mewn tybiaethau gael effaith sylweddol ar brisiad y rhwymedigaethau. Mae'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir ar gyfer prisiadau yn enghraifft dda.
- Darpariaethau – mae angen arddel cryn farn wrth gyfrifyddu ar gyfer darpariaethau, gan gynnwys penderfynu pa mor debygol ydyw y bydd angen gwariant ar y BBC, a chyfrifo amcangyfrif gorau. Gall hyn fod yn gymhleth iawn, yn enwedig pan fydd ystod eang o ganlyniadau posibl.
- Prydlesau a gwasanaethau a reolir – rhaid i ni benderfynu a yw prydles neu drefniant yn y bôn wedi trosglwyddo'r hawliau a'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig ag asedau i'r BBC. O gofio bod prydlesau cyllid yn cael eu cydnabod fel rhwymedigaethau, ond nid prydlesau gweithredu, gall hyn gael effaith sylweddol ar sefyllfa ariannol y BBC a gofnodir. Fodd bynnag, o dan IFRS datgelir gwerth llawn taliadau prydlesau gweithredu hefyd.
- Lleihad mewn gwerth – weithiau tybir bod ased neu fuddsoddiad wedi lleihau mewn gwerth, am fod y buddiannau a ddaw oddi wrtho yn llai na'i gost. Mae hyn yn galw am amcangyfrif y llifau arian parod a gaiff eu gwireddu yn y dyfodol, ac mae angen arddel barn wrth lunio canlyniadau posibl.



**Zarin Patel**
Prif Swyddog Ariannol
16 Mehefin 2010

**Siart 2-12 parhad**

Mae'r symudiad ar y diffyg ar gynllun pensiwn buddiant diffiniedig y BBC yn deillio o:

- Newidiadau yn y tybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo'r rhwymedigaeth pensiwn: Mae'r gyfradd ddisgowntio, yn seiliedig ar arenillion bondiau corfforaethol AA, wedi syrthio o 7.2% i 5.5%, gan gynyddu'r diffyg £2.2biliwn. Yn ogystal, mae'r gyfradd chwyddiant a gymhwysir i daliadau pensiwn disgwyliedig yn y dyfodol wedi cynyddu o 3% i 3.7%, gan ychwanegu £0.9biliwn i'r diffyg.
- Ennill ar asedau: Buddiant o £1.8biliwn yn gyffredinol o ganlyniad i asedau cynllun yn cyflawni elw uwch na'r disgwyl wrth i farchnadoedd ecwiti'r byd adfer flwyddyn ar ôl blwyddyn.
- Incwm gwasanaeth yn y gorffennol: mae diwygiad i'r trefniadau ymddeol yn gynnar yn arwain at leihad o£334miliwn yng nghost y gwasanaeth yn y gorffennol (net £302miliwn).
- Cyfraniadau: taliadau i mewn i'r cynllun gan gyflogeion a'r BBC.
- Llog a chost gyfredol y gwasanaeth: Yn cynnwys tâl llog o flwyddyn a godir ar y rhwymedigaeth pensiwn lawn o £463miliwn a chost gyfredol y gwasanaeth o £128miliwn, sef cost yr hawliau pensiwn a enillwyd gan gyflogeion yn ystod y flwyddyn.

# Y TU HWNT I DDARLLEDU

YN OGYSTAL Â'R MATERION ARIANNOL, MASNACHOL A BUSNES Y MAE'R BBC YN CYFLWYNO ADRODDIAD ARNYNT YN YR ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON HYN, MAE DEDDF CWMNÏAU 2006 YN EI GWNEUD YN OFYNNOL I NI GOFNODI EIN GWEITHGAREDDAU AMGYLCHEDDOL A CHYMDEITHASOL.

MAE GAN Y BBC BRESENOLDEB LEDLED Y DU, AC FELLY DAW CYFRIFOLDEB I YMDDWYN YN GYNHALIOL, MOESEGOL AC YSTYRLON TUAG AT EIN CYMDOGION A'R BOBL YR YDYM YN CYFFWRDD Â'U BYWYDAU.

## Y BBC A'R AMGYLCHEDD

Mae ein hôl-troed amgylcheddol yn deillio o weithrediadau busnes sy'n cynnwys yr adeiladau a feddiannwn, teithiau staff, gwneud rhaglenni a gweithgareddau masnachol.

Mae gennym dargedau uchelgeisiol i leihau ynni, trafnidiaeth, dŵr a gwastraff, ac eleni gwnaethom gyflwyno cyfres o fentrau i gwtogi ar ein hallyriadau carbon, o oleuadau stiwdio ynni isel, defnydd mwy deallus o ddulliau gwresogi ac oeri yn ein hadeiladau i godi ymwybyddiaeth staff ac annog newid ymddygiad.

Tabl 2-22

**Ein targedau amgylchedd – erbyn 31 Mawrth 2013**

| Maes | Targed 2012/13 | Perfformiad 2009/10 |
|---|---|---|
| Lleihad mewn ynni a ddefnyddiwyd fesul cyfwerth ag amser llawn | -20% | -4% |
| Lleihad mewn dŵr a ddefnyddiwyd fesul cyfwerth ag amser llawn | -25% | -3% |
| Lleihad mewn gwastraff i safle tirlenwi fesul cyfwerth ag amser llawn. | -25% | -39% |
| Cynnydd yn y gyfradd ailgylchu | +75% | +51% |
| Lleihad mewn allyriadau $CO_2$ fesul defnyddiwr BBC | -20% | -5%* |

* Ffigur 2008/09. Ni chofnodwyd ffigur 2009/10 ar yr adeg gyhoeddi.

Noder: Ar gyfer nodiadau manwl ar ein perfformiad, ewch i www.bbc.co.uk/outreach.

Wrth i ni gyrraedd hanner ffordd yn ein strategaeth pum mlynedd, rydym wedi cychwyn arolwg o'n heffeithlonrwydd amgylcheddol. Ein nod o hyd yw bod yn arweinydd sector o ran arfer gorau amgylcheddol a chynaliadwy.

## BBC OUTREACH

Mae cyfrifoldeb corfforaethol, allgymorth a gwaith partneriaeth yn ganolog i'r BBC. Rydym yn canolbwyntio ar gyrraedd cynulleidfaoedd heb wasanaeth digonol a chyflawni gwerth ychwanegol sy'n mynd y tu hwnt i'r cynnwys a ddarlledwn ar deledu, radio ac ar-lein.

Mae gennym ystod eang o weithgareddau allgymorth lle y ceisiwn gynnwys cynulleidfaoedd mewn cyfranogiad gweithredol, megis gwirfoddoli cymunedol, cymryd rhan mewn cyfleoedd i lunio allbwn y BBC, neu ddefnyddio ein cynnwys i helpu gyda dysgu.

Er enghraifft, gweithiodd BBC News School Report, sydd bellach yn ei bedwaredd flwyddyn, gyda thros 700 o ysgolion ledled y DU i annog a galluogi myfyrwyr 11-14 oed i ysgrifennu a chyhoeddi eu hadroddiadau newyddion eu hunain. Nod y prosiect yw gwella cynrychiolaeth pobl ifanc ac ysgogi eu diddordeb gwleidyddol – sy'n arbennig o bwysig mewn blwyddyn etholiad. Mae hefyd yn cynhyrchu cynnwys ar gyfer y gynulleidfa ehangach, gyda darllediadau ar draws gorsafoedd rhanbarthol a darllediadau cenedlaethol, gan gynnwys adroddiadau ar y rhaglenni *One*, *Six* a *Ten O'Clock News*.

I gael mwy o wybodaeth am ein gweithgareddau Allgymorth ewch i www.bbc.co.uk/outreach.

## RHODDION ELUSENNOL

Rydym yn darlledu apeliadau elusennol i godi ymwybyddiaeth o ystod eang o elusennau gwahanol yn y DU ac arian i'w cefnogi. Ceir gwybodaeth am elusennau corfforaethol y BBC yma:

- Plant mewn Angen y BBC: www.bbc.co.uk/pudsey
- Cronfa Celfyddydau Perfformio y BBC: www.bbc.co.uk/performingartsfund
- Cronfa Bywyd Gwyllt y BBC: www.bbc.co.uk/wild
- Ymddiriedolaeth BBC World Service: www.bbc.co.uk/worldservice/trust

Rydym hefyd yn gweithio'n agos â *Comic Relief* a *Sport Relief*, gan gynnal apeliadau wythnosol ar BBC Radio 4 a'r apêl *Lifeline* fisol ar BBC One. Mae'r Gwledydd a'r Rhanbarthau yn cynnal eu hapeliadau lleol eu hunain. Nid yw'r BBC yn gwneud rhoddion ariannol i elusennau.

Cododd *Plant mewn Angen* y BBC £39miliwn fel rhan o'i dymor apeliadau ym mis Tachwedd, ac ym mis Mawrth cododd Sport Relief dros £30miliwn.

Y llynedd, darparwyd gwasanaethau gwerth tua £384,000 (2009: £330,000) i elusennau. Yn ogystal ag apeliadau darlledu, rhoddodd busnesau masnachol y BBC £6,843 i elusennau yn ystod y flwyddyn (2009: £1,400).

## CYFRIFOLDEB CORFFORAETHOL

Yn ystod y flwyddyn, cymerwyd rhan unwaith eto ym Mynegai Cyfrifoldeb Corfforaethol Busnes yn y Gymuned, gan gynnal ein safon Platinwm. Adlewyrcha hyn safonau uchel yr anelwn at eu cyflawni wrth reoli ein busnes yn gyfrifol. Rydym hefyd yn cymryd rhan yn arolwg Grŵp Meincnodi Llundain, Fforwm Meincnodi CRS, y Grŵp Cyfrifoldeb Corfforaethol, a'r Grŵp Cyfrifoldeb Corfforaethol Seneddol Cyswllt.

I gael rhagor o wybodaeth am y gweithgareddau hyn, ewch i www.bbc.co.uk/outreach a dilynwch y dolenni.

## DATGANIAD ARIANNOL CRYNO

Mae'r datganiad ariannol cryno hwn yn cynnwys Datganiad Incwm, Mantolen a Datganiad Llif Arian Parod y BBC, yn ogystal â rhai nodiadau manwl i'w helpu i'w hegluro. Mae'r rhain yn cynnwys y prif ddata allweddol o'r datganiadau ariannol llawn a'r adroddiad Llywodraethu, sydd ar gael ar-lein yn y ganolfan lawrlwytho yn www.bbc.co.uk/annualreport.

Fel y cyfryw, nid yw'r datganiad ariannol cryno yn cynnwys digon o wybodaeth i ddeall yn llwyr ganlyniadau na materion Grŵp y BBC, na'i drefniadau Llywodraethu na'i bolisïau na'i drefniadau o ran cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr fel y byddai'r datganiadau ariannol blynyddol llawn a'r adroddiadau yn eu darparu.

Cymeradwywyd y datganiad ariannol cryno, gan gynnwys yr adroddiad llywodraethu Cryno ac Adroddiad Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol, gan y Bwrdd Gweithredol ar 16 Mehefin 2010 ac fe'i llofnodwyd ar ei ran gan:

**Mark Thompson**
Cyfarwyddwr Cyffredinol

**Zarin Patel**
Prif Swyddog Ariannol

## DATGANIAD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL AT YMDDIRIEDOLWYR Y GORFFORAETH DDARLLEDU BRYDEINIG (BBC)

Rydym wedi archwilio'r datganiad ariannol cryno sy'n cynnwys y Datganiad Incwm Cyfunol Cryno, y Fantolen Gyfunol Gryno, y Datganiad Llif Arian Parod Cyfunol Cryno ac Adroddiad Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol.

Mae Ymddiriedolwyr y BBC wedi ein penodi i archwilio'r datganiad ariannol cryno a baratowyd fel petai'r BBC yn gwmni a restrir a chanddo'r hawl i baratoi datganiad o'r fath o dan Adran 426 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Gwneir y datganiad hwn yn unswydd i Ymddiriedolwyr y BBC fel corff ar delerau rydym wedi cytuno arnynt. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu Ymddiriedolwyr y BBC o'r materion hynny rydym wedi cytuno i'w hysbysu ohonynt mewn datganiad o'r fath ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r BBC ac Ymddiriedolwyr y BBC fel corff, am ein gwaith, am y datganiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

### Priod gyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr, Yr Ymddiriedolwyr a'r archwilwyr

Yr Ymddiriedolwyr a'r Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am baratoi arolwg ac asesiad Bwrdd Gweithredol y BBC fel petai Adran 428 o Ddeddf Cwmnïau 2006 yn gymwys i'r BBC ac fel petai'n gwmni a restrir.

Ein cyfrifoldeb ni, yn unol â thelerau ein penodiad yw rhoi ein barn i chi ar gysondeb y datganiad ariannol cryno o fewn arolwg ac asesiad Bwrdd Gweithredol y BBC â'r datganiadau ariannol blynyddol llawn ac Adroddiad Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol, a'i gydymffurfiaeth â gofynion perthnasol adran 428 o Ddeddf Cwmnïau 2006 a'r rheoliadau a wnaed yn unol â hi fel petaent yn gymwys i'r BBC ac fel petai'n gwmni a restrir.

Rydym hefyd yn darllen y wybodaeth arall a gynhwysir yn arolwg Bwrdd Gweithredol y BBC ac yn asesu ac ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os deuwn yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu unrhyw anghysondebau perthnasol â'r datganiad ariannol cryno.

### Sail y farn

Gwnaethom gynnal ein gwaith yn unol â Bwletin 2008/3 Datganiad yr archwiliwr ar y datganiad ariannol cryno a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae ein hadroddiad ar ddatganiadau ariannol blynyddol llawn y BBC yn disgrifio sail ein barn archwilio ar y datganiadau ariannol hynny ac Adroddiad Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol.

### Barn

Yn ein barn ni mae'r datganiad ariannol cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol blynyddol llawn ac Adroddiad Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol ar gyfer y BBC am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 ac mae'n cydymffurfio â gofynion cymwys adran 428 o Ddeddf Cwmnïau 2006 a'r rheoliadau a wnaed yn unol â hi fel petaent yn gymwys i'r BBC ac fel petai'n gwmni a restrir.

**Scott Cormack**
**Dros ac ar ran KPMG LLP, Archwiliwr Statudol**
Cyfrifwyr Siartredig
8 Salisbury Square
London EC4Y 8BB
16 Mehefin 2010

## DATGANIAD INCWM CYFUNOL CRYNO

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010

| | Nodyn | 2010 £m | 2009 £m |
|---|---|---|---|
| Gweithrediadau parhaus: | | | |
| **Incwm o ffi'r drwydded** | | **3,446.8** | 3,494.4 |
| **Incwm a refeniw arall** | | **1,343.6** | 1,166.4 |
| **Cyfanswm incwm** | 1 | **4,790.4** | 4,660.8 |
| Costau gweithredu ac eithrio costau ailstrwythuro ac incwm pensiwn eithriadol | | **(4,540.5)** | (4,469.6) |
| Incwm pensiwn eithriadol | | **334.1** | – |
| Costau ailstrwythuro | | **(61.9)** | (40.3) |
| **Cyfanswm y costau gweithredu** | 2 | **(4,268.3)** | (4,509.9) |
| **Gwarged weithredu'r Grŵp** | | **522.1** | 150.9 |
| Ennill/(colled) o werthu a therfynu gweithrediadau | | **2.0** | (2.9) |
| Ennill o waredu asedau sefydlog | | **39.0** | 15.9 |
| Cyfran o ganlyniadau partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | | **36.9** | 29.8 |
| (Cost)/incwm ariannu net | | **(87.7)** | 57.6 |
| **Gwarged cyn trethiant** | | **512.3** | 251.3 |
| Trethiant | | **(34.7)** | (7.5) |
| **Gwarged am y flwyddyn** | 3 | **477.6** | 243.8 |
| **Priodolir i:** | | | |
| BBC | | **473.3** | 242.7 |
| Buddiant lleiafrifol | | **4.3** | 1.1 |
| **Gwarged am y flwyddyn** | | **477.6** | 243.8 |

Noder:

Y warged am y flwyddyn ariannol yw'r swm a geir drwy ddidynnu pob eitem o wariant a gydnabyddir yn y flwyddyn o'r holl incwm sy'n dderbyniadwy am y flwyddyn. Ar gyfer Grŵp y BBC, fel endid budd cyhoeddus, mae unrhyw warged sy'n codi yn cynrychioli *'gwahaniaeth amseru'* sy'n ymwneud â gwariant yn y gorffennol neu yn y dyfodol yn hytrach nag 'elw' y gellir ei ddychwelyd at gyllidwyr endid.

## MANTOLEN GYFUNOL GRYNO

Ar 31 Mawrth 2010

| | Nodyn | 2010 £m | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | **1,558.8** | 1,998.0 | 1,922.6 |
| **Asedau cyfredol** | | **2,241.9** | 1,499.0 | 1,429.2 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | **(1,601.4)** | (1,016.2) | (1,164.1) |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(1,084.4)** | (1,485.2) | (1,321.9) |
| **Asedau net ac eithrio ased pensiwn** | | **1,114.9** | 995.6 | 865.8 |
| **(Rhwymedigaeth)/ased pensiwn net** | 5 | **(1,647.1)** | (143.3) | 523.3 |
| **(Rhwymedigaethau)/asedau net** | | **(532.2)** | 852.3 | 1,389.1 |
| | | | | |
| **Cynrychiolir gan** | | | | |
| Cronfeydd wrth gefn y BBC | | **(547.8)** | 841.3 | 1,378.1 |
| Buddiannau lleiafrifol | | **15.6** | 11.0 | 11.0 |
| | | **(532.2)** | 852.3 | 1,389.1 |

## DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD CYFUNOL CRYNO

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010

| | 2010 £m | 2009 £m |
|---|---|---|
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | **441.2** | 226.8 |
| All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi | **(146.8)** | (199.1) |
| (All-lif)/mewnlif arian parod net o weithgareddau ariannu | **(144.8)** | 14.3 |
| **Cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | **149.6** | 42.0 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | **124.3** | 78.0 |
| Effaith newidiadau yn y gyfradd gyfnewid dramor ar arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | **(1.7)** | 4.3 |
| Arian parod a ddosberthir yn arian a ddelir i'w werthu | **(8.3)** | – |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | **263.9** | 124.3 |

## NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL CRYNO

### 1 Incwm

Daw prif incwm y BBC o drwyddedau teledu. Cydnabyddir incwm ffi'r drwydded yn llawn pan roddir trwydded, yn amodol ar ddidyniadau ar gyfer ad-daliadau a diddymiadau gwirioneddol a disgwyliedig.

| 2010 | Grŵp UK PSB £m | BBC World Service a BBC Monitoring £m | BBC Worldwide £m | Cwmnïau Masnachol Eraill £m | Addasiadau Grŵp £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm o ffi'r drwydded** | **3,446.8** | **–** | **–** | **–** | **–** | **3,446.8** |
| **Refeniw arall** | **283.8** | **7.9** | **843.0** | **122.0** | **–** | **1,256.7** |
| **Incwm gweithredu arall** | **28.2** | **293.0** | **45.3** | **0.6** | **–** | **367.1** |
| | **3,758.8** | **300.9** | **888.3** | **122.6** | **–** | **5,070.6** |
| **Llai incwm mewnol y grŵp** | **(219.6)** | **(1.5)** | **–** | **(48.9)** | **(10.2)** | **(280.2)** |
| **Cyfanswm incwm** | **3,539.2** | **299.4** | **888.3** | **73.7** | **(10.2)** | **4,790.4** |

| 2009 | Grŵp UK PSB £m | BBC World Service a BBC Monitoring £m | BBC Worldwide £m | Cwmnïau Masnachol Eraill £m | Addasiadau Grŵp £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Incwm o ffi'r drwydded | 3,494.4 | – | – | – | – | 3,494.4 |
| Refeniw arall | 255.3 | 7.6 | 662.8 | 128.7 | – | 1,054.4 |
| Incwm gweithredu arall | 24.3 | 289.6 | 41.8 | 0.6 | – | 356.3 |
| | 3,774.0 | 297.2 | 704.6 | 129.3 | – | 4,905.1 |
| Llai incwm mewnol y grŵp | (185.6) | (0.7) | – | (50.5) | (7.5) | (244.3) |
| Cyfanswm incwm | 3,588.4 | 296.5 | 704.6 | 78.8 | (7.5) | 4,660.8 |

## 2 Cyfanswm y gwariant gweithredu, gan gynnwys gwariant Grŵp UK Public Service Broadcasting fesul gwasanaeth

| | 2010 £m | 2009 £m |
|---|---|---|
| Grŵp UK Public Service Broadcasting | **3,519.2** | 3,421.2 |
| BBC World Service a BBC Monitoring | **255.0** | 249.6 |
| Worldwide | **790.4** | 685.7 |
| Busnesau Masnachol Eraill | **95.0** | 151.5 |
| Incwm pensiwn eithriadol* | **(334.1)** | – |
| Addasiadau Grŵp | **(57.2)** | 1.9 |
| | **4,268.3** | 4,509.9 |

* Mae incwm pensiwn eithriadol yn ymwneud ag Incwm Gwasanaeth yn y Gorffennol ar y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, yn deillio o newid yn nhelerau ac amodau ymddeol yn gynnar.

| Cysoni â'r sail at ddibenion cofnodi trwyddedau gwasanaeth | 2010 £m | 2009 £m |
|---|---|---|
| Gwariant gweithredu Grŵp UK Public Service Broadcasting | **3,519.2** | 3,421.2 |
| Addasiadau: | | |
| IAS 17 – Ailddosbarthu prydlesau | **38.2** | 26.8 |
| IAS 19 – Buddiannau cyflogeion | **2.8** | 1.3 |
| Gwariant Grŵp UK Public Service Broadcasting at ddibenion cofnodi trwyddedau gwasanaeth | **3,560.2** | 3,449.3 |

Mae Tabl 2a yn nodi cyfanswm y gwariant ar gyfer pob grŵp o drwyddedau gwasanaeth yn y fframwaith a bennir gan Ymddiriedolaeth y BBC.

2a Cyfanswm y gwariant gweithredu, gan gynnwys gwariant Grŵp UK Public Service Broadcasting fesul gwasanaeth parhad
**Gwasanaethau cyhoeddus y DU**

| | Cyllideb cynnwys Trwydded Gwasanaeth £m | Dosbarthu £m | Seilwaith /cymorth £m | Eitemau eraill £m | **2010 Cyfanswm £m** | 2009 Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BBC One | 1,113.1 | 43.2 | 217.1 | – | **1,373.4** | 1,399.1 |
| BBC Two | 450.0 | 30.6 | 95.0 | – | **575.6** | 572.2 |
| BBC Three | 87.5 | 6.8 | 24.3 | – | **118.6** | 115.1 |
| BBC Four | 54.5 | 3.8 | 15.7 | – | **74.0** | 71.7 |
| CBBC | 39.9 | 6.0 | 11.2 | – | **57.1** | 50.2 |
| CBeebies | 18.1 | 4.2 | 6.4 | – | **28.7** | 25.5 |
| BBC HD | 1.6 | 7.8 | 1.5 | – | **10.9** | 6.7 |
| BBC ALBA | 4.3 | 0.8 | 1.0 | – | **6.1** | 4.5 |
| Sianel BBC News | 47.8 | 8.4 | 7.8 | – | **64.0** | 61.2 |
| BBC Parliament | 2.4 | 6.5 | 1.4 | – | **10.3** | 9.7 |
| BBC Red Button | 14.2 | 13.8 | 4.7 | – | **32.7** | 30.1 |
| **Teledu** | **1,833.4** | **131.9** | **386.1** | **–** | **2,351.4** | **2,346.0** |
| BBC Radio 1 | 32.2 | 4.9 | 6.7 | – | **43.8** | 43.1 |
| BBC Radio 2 | 40.4 | 4.4 | 7.7 | – | **52.5** | 50.8 |
| BBC Radio 3 | 40.8 | 4.7 | 8.5 | – | **54.0** | 51.3 |
| BBC Radio 4 | 86.7 | 8.8 | 16.5 | – | **112.0** | 109.0 |
| BBC Radio 5 live | 55.0 | 5.8 | 11.2 | – | **72.0** | 72.5 |
| BBC Radio 5 live sports extra | 2.5 | 0.2 | 1.4 | – | **4.1** | 3.7 |
| BBC 1Xtra | 6.5 | 0.4 | 2.5 | – | **9.4** | 9.6 |
| BBC 6 Music | 6.5 | 0.4 | 2.4 | – | **9.3** | 9.0 |
| BBC 7 | 5.0 | 0.3 | 1.8 | – | **7.1** | 6.9 |
| BBC Asian Network | 8.9 | 0.4 | 2.8 | – | **12.1** | 12.1 |
| Radio Lleol y BBC | 110.2 | 6.1 | 21.4 | – | **137.7** | 133.6 |
| BBC Radio Scotland | 24.9 | 2.6 | 5.2 | – | **32.7** | 32.4 |
| BBC Radio nan Gàidheal | 4.2 | 0.9 | 0.9 | – | **6.0** | 5.7 |
| BBC Radio Wales | 13.1 | 0.9 | 2.5 | – | **16.5** | 16.2 |
| BBC Radio Cymru | 12.3 | 1.2 | 2.3 | – | **15.8** | 15.5 |
| BBC Radio Ulster/BBC Radio Foyle | 14.4 | 1.4 | 3.0 | – | **18.8** | 18.5 |
| **Radio** | **463.6** | **43.4** | **96.8** | **–** | **603.8** | **589.9** |
| **BBC Ar-lein** | **126.7** | **22.3** | **50.3** | **–** | **199.3** | **177.8** |
| **Gwariant wedi ei reoleiddio gan drwydded gwasanaeth** | **2,423.7** | **197.6** | **533.2** | **–** | **3,154.5** | **3,113.7** |
| Costau casglu ffi'r drwydded | – | – | – | 126.5 | **126.5** | 122.8 |
| Cerddorfeydd a grwpiau perfformio | 20.3 | – | 3.8 | – | **24.1** | 25.2 |
| S4C | 30.0 | – | 6.6 | – | **36.6** | 32.7 |
| Gwariant datblygu | 31.2 | – | 5.9 | – | **37.1** | 36.3 |
| Costau yr aed iddynt i gynhyrchu incwm trydydd parti | – | – | – | 41.5 | **41.5** | 40.0 |
| Radio digidol DAB | – | 11.6 | – | – | **11.6** | 10.3 |
| Testun digidol | – | 6.6 | – | – | **6.6** | 6.9 |
| **Arall** | **81.5** | **18.2** | **16.3** | **168.0** | **284.0** | **274.2** |
| Costau ailstrwythuro | – | – | – | 36.9 | **36.9** | 11.0 |
| **Cyfanswm gwariant gwasanaethau cyhoeddus y DU** | **2,505.2** | **215.8** | **549.5** | **204.9** | **3,475.4** | **3,398.9** |
| Gwariant Digital UK Limited wedi ei neilltuo | – | – | – | 29.2 | **29.2** | 26.0 |
| Gwariant newid i ddigidol Digital UK wedi ei neilltuo | – | – | – | 55.6 | **55.6** | 24.4 |
| **Cyfanswm gwariant Grŵp UK Public Service Broadcasting** | **2,505.2** | **215.8** | **549.5** | **289.7** | **3,560.2** | **3,449.3** |

## 2b Cyfanswm y gwariant gweithredu, gan gynnwys gwariant Grŵp UK Public Service Broadcasting fesul gwasanaeth parhad

Dadansoddir costau seilwaith a chymorth fel a ganlyn:

| Costau seilwaith/cymorth | 2010 £m | 2009 £m |
|---|---|---|
| Marchnata | **74.5** | 76.6 |
| Y wasg a chyhoeddusrwydd | **5.0** | 5.3 |
| Llyfrgelloedd, cymorth dysgu a digwyddiadau cymunedol | **49.8** | 49.9 |
| Lleihad mewn taliad pensiwn | **–** | (19.5) |
| Gorbenion (ac eithrio ailstrwythuro) | **406.3** | 387.1 |
| Uned Ymddiriedolaeth y BBC (ac eithrio ailstrwythuro) | **13.9** | 14.7 |
| | **549.5** | 514.1 |

## 3 Gwarged weithredu

| | 2010 £m | 2009 £m |
|---|---|---|
| Gwarged/(diffyg) gweithredu cyn incwm a chostau ariannu a threthiant | | |
| Grŵp UK Public Service Broadcasting | **55.9** | 177.8 |
| BBC World Service a BBC Monitoring | **44.4** | 46.9 |
| Worldwide | **140.0** | 44.1 |
| Busnesau Masnachol Eraill | **(21.3)** | (66.8) |
| Addasiadau Grŵp* | **381.0** | (8.3) |
| | **600.0** | 193.7 |
| (Costau)/incwm ariannu | **(87.7)** | 57.6 |
| Trethiant | **(34.7)** | (7.5) |
| Gwarged am y flwyddyn | **477.6** | 243.8 |

* Mae addasiadau Grŵp yn cynnwys buddiant o £334.1miliwn yn ymwneud ag Incwm Gwasanaeth yn y Gorffennol ar y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, yn deillio o newid yn nhelerau ac amodau ymddeol yn gynnar.

Mae'r Arolwg Ariannol yn cynnwys trafodaeth bellach ar berfformiad y busnesau masnachol a sut y mae'r amodau economaidd cyfredol wedi effeithio ar eu cyfraniad i sefyllfa weithredu'r Grŵp ar gyfer y flwyddyn.

## 4 Gwariant Gwasanaeth Cyhoeddus y DU a neilltuwyd

Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi neilltuo'r symiau canlynol o fewn y Siarter newydd a setliad ffi'r drwydded chwe blynedd (2008 i 2013).

| Newid i Ddigidol | Swm a wariwyd cyn 2009 £m | Swm a wariwyd yn 2009 £m | **Swm a wariwyd yn 2010 £m** | **Swm sy'n ad-daladwy yn 2010 £m** | **Cyfanswm Cronnol £m** | Cyllid chwe blynedd wedi ei neilltuo £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth i'r henoed a'r anabl | 5.9 | 23.6 | **48.5** | **132.0** | **210.0** | 603.0 |
| Digital UK Limited | 27.6 | 20.4 | **29.7** | **–** | **77.7** | 201.0 |

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cytuno â'r BBC y caiff costau amcangyfrifedig y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol (a weithredir gan DSHS Limited) sef £603miliwn ei neilltuo a'i wahanu oddi wrth ffi'r drwydded at ddiben ariannu'r Cynllun dros fywyd setliad ffi'r drwydded o chwe blynedd: os bydd costau'r prosiect yn fwy na'r terfyn hwn oherwydd mwy o alw na'r disgwyl, ni fydd hyn ar draul rhaglenni, gwasanaethau nac adnoddau eraill y BBC. Yn ystod y flwyddyn cytunodd y BBC a'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddull o adennill arian a oedd wedi ei neilltuo ond a danwariwyd. O'r £132.0miliwn o danwariant a gronnodd ar 31 Mawrth 2010, caiff £89.1miliwn ei ad-dalu yn 2010/11 a £42.9miliwn yn 2011/12. Bydd tanwariant a gadarnhawyd sy'n codi ar unrhyw adeg yn y dyfodol yn dod ar gael i'w ad-dalu yn y flwyddyn ganlynol. Bydd y cyfrifoldeb am sicrhau gwerth am arian i gronfeydd a ad-dalwyd yn trosglwyddo o Ymddiriedolaeth y BBC i'r Llywodraeth. Caiff y cronfeydd eu defnyddio at ddibenion nad ydynt yn anghyson â dibenion ffi'r drwydded.

Mae'r Cytundeb Fframwaith yn nodi bod y BBC yn ymrwymedig i arwain rhai agweddau ar y rhaglen newid i ddigidol, drwy Digital UK, ac mae setliad ffi'r drwydded yn cynnwys swm wedi ei neilltuo o hyd at £201miliwn o gychwyn Digital UK tan ddiwedd bywyd setliad ffi'r drwydded o chwe blynedd ar gyfer gweithgareddau cyfathrebu. Dim ond rhan o gyfraniad blynyddol y BBC i Digital UK yw'r swm wedi ei neilltuo.

Ar 31 Mawrth 2010, mae disgwyl i'r BBC gadw o fewn y symiau a neilltuwyd ar ddiwedd y cyfnod o chwe blynedd.

## 5 (Rhwymedigaeth)/ased y Cynllun Pensiwn a gynhwysir ar y fantolen

Mae'r BBC yn gweithredu cynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig yn ogystal â rhai cynlluniau cyfraniadau diffiniedig. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn aelodau o'r cynlluniau buddiannau diffiniedig, sy'n darparu buddiannau yn seiliedig ar gyflog terfynol, neu gyfartaledd gyrfa, neu gyflog pensiynadwy.

| | Cynllun Pensiwn y BBC 2010 £m | Cynllun nas ariannwyd 2010 £m | **Cyfanswm 2010 £m** | Cynllun Pensiwn y BBC 2009 £m | Cynllun nas ariannwyd 2009 £m | Cyfanswm 2009 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 8,154.8 | – | **8,154.8** | 6,454.0 | – | 6,454.0 |
| Gwerth actiwaraidd rhwymedigaethau'r cynllun | (9,795.7) | (6.2) | **(9,801.9)** | (6,592.6) | (4.7) | (6,597.3) |
| Rhwymedigaeth pensiwn net terfynol | (1,640.9) | (6.2) | **(1,647.1)** | (138.6) | (4.7) | (143.3) |

Mae cyfrifo rhwymedigaethau a thaliadau pensiwn y cynllun, at ddibenion IAS 19, yn gofyn am wneud nifer o dybiaethau, ariannol a demograffig. Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwarïaid ar ddyddiad y fantolen oedd:

| Prif dybiaethau ariannol | **2010 %** | 2009 % | 2008 % |
|---|---|---|---|
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | **3.7** | 4.4* | 5.6 |
| Cyfradd y cynnydd mewn taliadau pensiwn: | | | |
| Hen fuddiannau | **3.7** | 3.0 | 3.6 |
| Buddiannau newydd | **3.5** | 2.7 | 3.4 |
| Buddiannau cyfartaledd gyrfa | **2.4** | 2.4 | 2.5 |
| Tybiaeth ynglŷn â chwyddiant | **3.7** | 2.9 | 3.6 |
| Cyfradd ddisgowntio | **5.5** | 7.2 | 6.9 |

* Dyma'r dybiaeth o 1 Ebrill 2011. Y dybiaeth hyd at 31 Mawrth 2011 yw 3.9% y flwyddyn.

Y tybiaethau o ran disgwyliad oes ar gyfartaledd, ar gyfer aelodau sy'n ymddeol yn 60 oed, yw:

| Prif dybiaethau demograffig | **2010 Nifer y blynyddoedd** | 2009 Nifer y blynyddoedd | 2008 Nifer y blynyddoedd |
|---|---|---|---|
| Ymddeol heddiw: | | | |
| Gwryw | **27.0** | 26.9 | 26.6 |
| Benyw | **29.7** | 29.6 | 29.1 |
| Ymddeol ymhen 20 mlynedd: | | | |
| Gwryw | **29.0** | 28.9 | 28.1 |
| Benyw | **31.8** | 31.7 | 30.7 |

Dewiswyd y tybiaethau o ran hir oes i adlewyrchu nodweddion a phrofiad aelodau'r cynllun. Gwnaed hyn drwy addasu tablau marwolaethau safonol (PMAC07MC+0.5 a PFAC07MC+1) sy'n adlewyrchu ymchwil ddiweddar i brofiad marwolaethau yn y DU, gyda gwelliant gofynnol o 1% y flwyddyn yn cael ei ddefnyddio.

Diweddarwyd y tybiaethau demograffig o'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer prisiad actiwaraidd y cynllun ar 1 Ebrill 2007 i adlewyrchu'r tybiaethau tebygol a gaiff eu defnyddio ar gyfer prisiad actiwaraidd y cynllun ar 1 Ebrill 2010.

## 6 Cysoni dyled net â therfynau benthyca'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS)

| | Ar 1 Ebrill 2009 £m | Llifau Arian parod £m | Newidiadau anariannol £m | Cyfnewid £m | **Ar 31 Mawrth 2010 m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 124.3 | 149.6 | (8.3) | (1.7) | **263.9** |
| Gorddrafftiau banc | (2.5) | 0.8 | – | – | **(1.7)** |
| Cronfeydd gros | 121.8 | 150.4 | (8.3) | (1.7) | **262.2** |
| Arian parod a ddosberthir yn arian a ddelir i'w werthu | – | – | 8.3 | – | **8.3** |
| Benthyciadau a nodiadau benthyca | (271.3) | 72.3 | – | (12.4) | **(211.4)** |
| Deilliadau sy'n gysylltiedig â benthyciadau | (4.8) | – | (3.5) | – | **(8.3)** |
| Prydlesau Cyllid | (617.9) | 9.0 | – | – | **(608.9)** |
| Prydlesau nas cynhwyswyd yn nherfynau benthyca DCMS* | 596.2 | – | (40.7) | – | **555.5** |
| **Cronfeydd/(dyled) net** | (176.0) | 231.7 | (44.2) | (14.1) | **(2.6)** |
| Yn cynnwys: | | | | | |
| Darlledu Cyhoeddus | 46.4 | | | | **168.1** |
| Centre House Productions | (13.6) | | | | **(10.7)** |
| BBC Worldwide | (157.5) | | | | **(23.0)** |
| Busnesau masnachol eraill | (51.3) | | | | **(137.0)** |
| **Dyled net** | (176.0) | | | | **(2.6)** |

* Mae diffiniad DCMS o 'fenthyciadau' yn eithrio prydlesau â gâi eu dosbarthu yn rhai gweithredu o dan UK GAAP ond a ddosberthir yn brydlesau cyllid o dan IFRS. Felly eithrir y prydlesau hyn wrth gymharu (dyled)/cronfeydd net â therfynau benthyca DCMS.

Caiff y ddyled a'r ad-daliadau ar brydlesau cyllid a ddelir gan Centre House Productions Limited eu gwrthbwyso'n uniongyrchol gan arian parod a ddelir ar adneuon cyfatebol, a'r incwm ohonynt, fel na fydd unrhyw effaith o ran arian parod yn yr hirdymor.

### Cysoni cronfeydd/(dyled) net â therfynau benthyca yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS)

Pennir terfyn benthyca'r Gwasanaeth Cyhoeddus o £200miliwn gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â'r Cytundeb Fframwaith rhwng y BBC a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ar 31 Mawrth 2010, 31 Mawrth 2009 a thrwy gydol y ddwy flwyddyn ariannol, roedd y BBC yn cydymffurfio â'r terfynau benthyca.

Mae cronfeydd net yn cynnwys yr arian yn y banc a'r arian parod mewn llaw sydd gan y BBC, llai unrhyw fenthyciadau yn cynnwys prif symiau sy'n ddyledus ar brydlesau cyllid.

| | Gwasanaethau Cyhoeddus | | Busnesau Masnachol |
|---|---|---|---|
| | | Newid i ddigidol | |
| **2010** | Gwariant cyfalaf neu gyfredol £m | Gwariant cyfredol ar y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol* £m | £m |
| Cronfeydd/(dyled) net | 168.1 | – | (160.0) |
| **Terfyn benthyca** | **(200.0)** | **(25.0)** | **(350.0)** |
| 2009 | | | |
| Cronfeydd/(dyled) net | 46.4 | – | (208.8) |
| Terfyn benthyca | (200.0) | (25.0) | (350.0) |

* Dim ond mewn perthynas â benthyca i ariannu gwariant cyfredol ar fodloni cyfrifoldebau a osodir ar y BBC gan unrhyw gynllun y cytunir arno o dan gymal 39 o'r Cytundeb Fframwaith (cynlluniau cymorth wedi eu targedu), yn cynnwys costau y mae'r BBC yn mynd iddynt ar gyfer gorbenion a chostau ariannu'r cynllun y gellir defnyddio'r £25miliwn.

O dan delerau cytundeb yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, rhaid i BBC Commercial Holdings Limited fodloni dau gyfamod ariannol. Mae'n ofynnol i'r cyfamodau hyn gael eu bodloni erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Ar 31 Mawrth 2010 a 31 Mawrth 2009 roedd BBC Commercial Holdings Limited yn cydymffurfio â'r ddau gyfamod hyn. O dan gyfarwyddyd a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer yr Adran, pennwyd terfyn benthyca o £350miliwn ar gyfer grŵp masnachol y BBC.

# GEIRFA

## RYDYM WEDI DEFNYDDIO RHAI TERMAU YN YR ADRODDIAD HWN I EGLURO SUT RYDYM YN CYNNAL EIN BUSNES, A ALLAI FOD YN ANGHYFARWYDD I'N DARLLENWYR. MAE'R RHESTR GANLYNOL YN RHOI DIFFINIADAU AR GYFER RHAI O'R TERMAU A DDEFNYDDIR AMLAF.

| | |
|---|---|
| Rhaglenni a Gaffaelir | Prynir **Rhaglenni a Gaffaelir** mewn cyflwr gorffenedig oddi wrth gyflenwr arall, er enghraifft *Mad Men* (BBC Four) neu *The Wire* (BBC Two). Y llynedd trwyddedwyd rhaglenni o fwy nag 20 o wledydd. Fel rhan o'r arolwg *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*, rydym wedi cynnig lleihau'r swm a warir ar gaffaeliadau o £100miliwn i £80miliwn erbyn 2013. |
| Mynegai Gwerthfawrogi neu AI | **Mynegai Gwerthfawrogi** neu **AI** yw'r sgôr gyfartalog allan o 10 yn seiliedig ar fwynhad ymatebwyr o raglen. Yna caiff y sgôr ei lluosi â 100 â'i mynegi allan o 100 (er enghraifft, 8.1 allan o 10 yw AI o 81). |
| Economi Greadigol | Mae **economi greadigol** y DU yn cynnwys y sefydliadau a'r bobl sy'n gweithio yn y diwydiannau dylunio a'r cyfryngau, gan gynnwys y cwmnïau annibynnol, actorion ac awduron. Dangosodd adroddiad gan Deloitte ym mis Mawrth 2010 fod y BBC yn cyfrannu o leiaf £7.6biliwn at economi greadigol y DU, gan gynhyrchu gwerth £2 o werth economaidd am bob punt o ffi'r drwydded. |
| BARB | **BARB** (Broadcasters Audience Research Board) yw'r sefydliad annibynnol sy'n gyfrifol am ddarparu'r mesur swyddogol o gynulleidfaoedd teledu'r DU. |
| Cost fesul awr defnyddiwr | **Cost fesul awr defnyddiwr** (CPUH) – yn cyfuno gwariant a defnydd o'r gwasanaeth er mwyn helpu i lywio asesiad o werth am arian. Mae gan BBC Radio 2 y CPUH isaf o holl wasanaethau radio'r BBC (tua 0.5c) oherwydd ei phoblogrwydd. |
| CMI | **Cross Media Insight** (CMI) – arolwg gan GfK/NOP Media yn mesur cynulleidfaoedd honedig i wasanaethau'r BBC ar draws pob llwyfan. Mae'n fwy cadarn na PBTS a ddefnyddiwyd o'r blaen. 2009/10 oedd ei flwyddyn lawn gyntaf. |
| Newid i ddigidol | Mae'r broses o **newid i ddigidol** yn golygu diffodd system ddarlledu teledu analog y DU erbyn 2012. Am ragor o wybodaeth ewch i www.helpscheme.co.uk. |
| Freesat | Mae **Freesat** yn wasanaeth teledu lloeren a ddarlledir am ddim a ddarperir gan y BBC ac ITV, lle mae defnyddwyr yn talu am yr offer ond ddim yn talu tanysgrifiad misol. Ewch i www.freesat.co.uk/Mae Freesat gan Sky hefyd ar gael am daliad untro: www.freesatfromsky.co.uk. |
| Freeview | **Freeview** yw prif wasanaeth teledu daearol digidol y DU a drosglwyddir drwy erial gan ddefnyddio blwch pen set. Nid oes angen tanysgrifiad. Freeview yw'r llwyfan teledu digidol a ddefnyddir fwyaf. Gweler www.freeview.co.uk. |
| HDTV | **HDTV** – neu deledu manylder uwch – mae hwn ar gael naill ai drwy flwch pen set neu deledu digidol integredig, ac mae'n rhoi darluniau eglur iawn o ansawdd gwell i wylwyr. |
| Effaith | **Effaith** – mae hyn yn dangos pa mor gofiadwy yw rhaglen neu wasanaeth neu faint y mae'n cael ei ganmol, a gellir mesur yr effaith yn ôl sawl gwobr a enillir gan wasanaeth, neu'r sylwadau (cadarnhaol neu negyddol) a geir yn y wasg. |
| IPTV | **IPTV** (Internet Protocol TV) – mae fel arfer yn darparu cynnwys ar alw i lawr llinell ffôn i deledu. Mae Prosiect 'Canvas' yn enghraifft o'r cyfleoedd sydd ar gael o ganlyniad i ddatblygiad IPTV. |
| Ailddarllediad naratif | **Ailddarllediad naratif** yw rhifyn o raglen a ddarlledir o fewn saith diwrnod i'w darllediad cyntaf. |
| Ar alw | Mae gwasanaethau **ar alw** yn galluogi'r gwyliwr neu'r gwrandäwr i fwynhau rhaglen ar adeg sy'n addas iddynt hwy, er enghraifft drwy gyfrwng BBC iPlayer, itvplayer, 4oD neu Sky Player. |
| Oriau brig | Mae **oriau brig** gwasanaethau teledu'r BBC rhwng 6pm a 10.30pm. Mae radio'n wahanol iawn, ac fel arfer diffinnir oriau brig fel amser brecwast ac oriau cymudo. |
| PSB | Darlledwyr Cyhoeddus y DU (**PSB**s) yw'r BBC, ITV, Channel 4, five ac S4C. |
| Rajar | **Rajar** (Radio Joint Audience Research) yw'r corff swyddogol sy'n gyfrifol am fesur cynulleidfaoedd radio yn y DU. Mae'r BBC a'r RadioCentre yn berchen arno ar y cyd ar ran y sector masnachol. |
| Cyrhaeddiad | **Cyrhaeddiad** ar deledu yw nifer neu ganran grŵp cynulleidfa sy'n gwylio rhaglen neu sianel (15 munud yn olynol bob wythnos yw mesur arferol y BBC, o gymharu â thair munud ar deledu masnachol); ac ar y radio dyma nifer neu ganran y bobl 15+ oed sy'n gwrando ar o leiaf bum munud o radio mewn cyfnod o 15 munud yn ystod wythnos arferol. |
| Cyfran | **Cyfran** o gyfanswm y gwylwyr neu'r gwrandawyr sy'n gwylio neu'n gwrando ar raglen neu wasanaeth penodol dros gyfnod penodol o amser, wedi ei mynegi fel canran o gyfanswm yr oriau gwylio/gwrando. Er enghraifft, mae gan BBC One gyfran o 21% o'r gwylio ym mhob cartref bob wythnos, ac roedd gan BBC Radio 4 12% o'r gwrando ar gyfer y flwyddyn 2009/10. |
| Defnyddwyr unigryw | **'Defnyddwyr unigryw'** neu borwyr unigryw yw mesur ar gyfer defnyddwyr gwefannau. Nid yw'n arolwg traddodiadol o 'bobl', ond fe'i mesurir yn awtomatig gan ddefnyddio naill ai logiau gweinyddion neu drwy dag a ymgorfforir yn y tudalennau gwe. |

Os ydych am gael gwybodaeth neu os hoffech wybod mwy am sut y caiff y BBC ei redeg yna ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc.











# CYLCH GWAITH GWASANAETHAU'R BBC

## TELEDU RHWYDWAITH

Nod BBC One yw sicrhau mai hi yw'r sianel deledu a gaiff ei gwerthfawrogi fwyaf yn y DU , â'r ystod ehangaf o raglenni o safon ymysg yr holl rwydweithiau prif ffrwd yn y DU.

Mae BBC Two yn cyflwyno rhaglenni o ddyfnder a sylwedd i gynulleidfa eang. Mae'n gyfrifol am y swm a'r ystod fwyaf o raglennu ffeithiol o holl sianelau teledu'r BBC, ynghyd â chelfyddydau, comedi a drama nodedig.

Mae BBC Three yn ymroddedig i gynnwys a thalent arloesol o Brydain. Nod y sianel yw darparu cymysgedd eang o raglenni a anelir at gynulleidfaoedd iau yn bennaf.

Nod BBC Four yw sicrhau mai hi yw'r sianel sy'n cynnig y cyfoeth deallusol a diwylliannol gorau ym Mhrydain, gan gynnig cyfuniad nodedig o raglenni dogfen, perfformiadau, cerddoriaeth, ffilm a phynciau amserol.

Mae sianel CBBC yn cynnig amserlen gymysg nodedig ar gyfer plant 6-12 oed, gan annog pob plentyn i atgyfnerthu ei ddiddordebau presennol a datblygu rhai newydd.

Nod CBeebies yw cynnig cymysgedd o raglenni o safon a gynhyrchwyd yn y DU yn bennaf a gynlluniwyd i annog dysgu drwy chwarae mewn amgylchedd cyson diogel i blant o dan chwech oed.

## RADIO RHWYDWAITH

Nod BBC Radio 1 yw cynnig gwasanaeth o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd ifanc gan gyfuno'r gerddoriaeth newydd orau, ystod gynhwysfawr o sesiynau stiwdio byw, cyngherddau a gwyliau, ac allbwn llafar wedi'i deilwra.

Mae BBC Radio 2 yn cynnig amrywiaeth eang o gerddoriaeth boblogaidd ac arbenigol i wrandawyr gan ganolbwyntio ar dalent o Brydain a pherfformiadau byw, yn ogystal ag ystod eang o allbynnau llafar yn cynnwys materion cyfoes, rhaglenni dogfen, crefydd a'r celfyddydau.

Mae BBC Radio 3 yn canolbwyntio ar gerddoriaeth glasurol ac yn cyflwyno ystod eang o gerddoriaeth jazz, cerddoriaeth y byd, rhaglenni celfyddydol a drama; ceir pwyslais cryf ar berfformiadau cerddorol o bob cwr o'r DU.

Nod BBC Radio 4 yw defnyddio grym iaith lafar i gynnig rhaglennu dwys sy'n ceisio ennyn diddordeb ac ysbrydoli, gyda chyfuniad unigryw o raglenni ffeithiol, dramâu, darlleniadau a chomedi.

Mae BBC Radio 5 live yn darlledu newyddion a chwaraeon byw 24 awr y dydd, gan gyflwyno digwyddiadau wrth iddynt ddigwydd mewn ffordd hygyrch.

Rhwydwaith rhan amser yw BBC Radio 5 live sports extra sy'n cynnig darllediadau chwaraeon ychwanegol gan ddefnyddio hawliau y mae'r BBC eisoes yn berchen arnynt er mwyn cynnig gwerth gwell am arian i dalwyr ffi'r drwydded.

## NEWYDDIADURAETH

Gwasanaeth newyddion 24 awr ar y teledu yw'r sianel BBC News, sy'n cyflwyno darllediadau a dadansoddiadau cynhwysfawr o'r straeon mwyaf a phwysicaf yn y DU ac yn rhyngwladol.

BBC Parliament yw'r unig sianel yn y DU sy'n ymroddedig i ddarlledu gwleidyddiaeth, gan gynnwys trafodaethau, pwyllgorau a gwaith cyrff seneddol a deddfwriaethol y DU a Senedd Ewrop.

Mae BBC Global News yn dwyn ynghyd BBC World Service, sianel deledu BBC World News, gwasanaethau newyddion ar-lein rhyngwladol y BBC yn Saesneg, BBC Monitoring a BBC World Service Trust.

Cylch gwaith Radio Lleol y BBC yw darparu gwasanaeth newyddion, gwybodaeth a thrafodaethau llafar yn bennaf, gyda phwyslais cryf ar ryngweithio.

Gwasanaeth llafar i oedolion yw Radio Scotland; gwasanaeth radio llafar a cherddoriaeth i siaradwyr Gaeleg yw BBC Radio nan Gàidheal. Mae'r ddau wasanaeth yn cynnig amrywiaeth eang o genres ac yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl yr Alban.

Gwasanaeth llafar i oedolion yw BBC Radio Wales; gwasanaeth radio llafar a cherddoriaeth i siaradwyr Cymraeg yw BBC Radio Cymru. Mae'r ddau wasanaeth yn cynnig amrywiaeth eang o genres ac yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru.

GWNAETHOM DDARPARU'R GWASANAETHAU CANLYNOL I'N CYNULLEIDFAOEDD Y LLYNEDD. GALLWCH DDOD O HYD I DDOLENNI I DRWYDDEDAU GWASANAETH POB UN O WASANAETHAU'R BBC – YNGHYD AG UNRHYW AROLYGON O WASANAETHAU A GYNHALIWYD GAN YMDDIRIEDOLAETH Y BBC – YN WWW.BBC.CO.UK/BBCTRUST.

Llwyfan arddangos manylder uwch yw sianel HD y BBC i ddarlledu amrywiaeth o raglennu o holl wasanaethau teledu eraill y BBC.

Mae BBC ALBA yn cynnig darllediadau nodedig i siaradwyr Gaeleg a rhai sy'n dysgu'r iaith ar bynciau mor amrywiol â cherddoriaeth fyw, gyfoes a thraddodiadol, pêl-droed a rhaglennu plant ac amrywiaeth o raglennu gwreiddiol sy'n adlewyrchu ac yn ategu diwylliant, hunaniaeth a threftadaeth Gaeleg.

Mae BBC 1Xtra yn chwarae'r gerddoriaeth ddu gyfoes orau â phwyslais cryf ar gyflwyno cerddoriaeth fyw o ansawdd uchel a chefnogi artistiaid newydd o'r DU.

Nod BBC 6 Music yw denu'r rhai sy'n mwynhau cerddoriaeth boblogaidd drwy gynnig y gerddoriaeth orau o archif sain y BBC yn ogystal â cherddoriaeth gyfoes o'r tu allan i'r brif ffrwd, a newyddion a rhaglenni dogfen am gerddoriaeth.

Gwasanaeth radio llafar digidol yw BBC 7 sy'n cynnig rhaglenni comedi, dramâu a darlleniadau yn bennaf o archif y BBC. Mae hefyd yn darlledu rhaglenni i blant.

Nod BBC Asian Network yw cynnig trafodaethau heriol, newyddiaduraeth hyddysg, cerddoriaeth, chwaraeon, adloniant a drama i Asiaid Prydeinig o genedlaethau gwahanol.

Mae BBC Radio Ulster/Foyle yn wasanaeth llafar sy'n cwmpasu ystod eang o genres ac sy'n adlewyrchu pob agwedd ar fywyd cyfoes yng Ngogledd Iwerddon, gan gyfuno darllediadau o faterion, diddordebau a digwyddiadau lleol gyda darllediadau o ddatblygiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

## CYFRYNGAU'R DYFODOL

Nod BBC Online yw darparu cynnwys ar-lein arloesol a nodedig sy'n adlewyrchu ac yn ehangu amrywiaeth gwasanaethau darlledu'r BBC.

Mae BBC Red Button yn darparu gwasanaethau rhyngweithiol i wylwyr teledu digidol, gan gynnwys y wybodaeth a'r cynnwys cyfoes diweddaraf drwy'r dydd, gan gynnwys newyddion, tywydd, dysgu, adloniant a rhaglennu rhyngweithiol.

# CYSYLLTU Â NI

## CYSYLLTU Â'R BBC

Os hoffech wybod mwy am flwyddyn y BBC – gan gynnwys datganiadau ariannol llawn a pherfformiad pob gwasanaeth yn erbyn ei Ddatganiad am Bolisi Rhaglenni, yn ogystal ag ymrwymiadau cyhoeddus eraill ewch i **www.bbc.co.uk/annualreport**.

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg ac mewn fersiwn sain.

Os hoffech wybodaeth neu wybod mwy am sut y caiff y BBC ei redeg ewch i **www.bbc.co.uk/aboutthebbc**.

Am docynnau i sioeau, teithiau a digwyddiadau ewch i **www.bbc.co.uk/showsandtours**.

Os oes gennych sylw, gwerthfawrogiad neu gŵyn am raglenni a gwasanaethau'r BBC ewch i **www.bbc.co.uk/feedback**.

Neu ysgrifennwch i BBC Audience Services,
PO Box 1922, Darlington, DL3 0UR

Llinell ffôn sylwadau: 03700 100 222*
Llinell ffôn ymholiadau eraill: 03700 100 123*
Ffôn testun 03700 100 212*

Mae'r llinellau ar agor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Efallai y caiff galwadau eu monitro neu eu recordio at ddibenion hyfforddiant.

Y llynedd cafodd y BBC dros 3.3 miliwn o gysylltiadau â'r cyhoedd.

## YMDDIRIEDOLAETH Y BBC

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau ynglŷn â gwaith Ymddiriedolaeth y BBC, gallwch gysylltu â ni drwy'r post, drwy e-bost, neu dros y ffôn.

BBC Trust Unit
1st Floor
180 Great Portland Street
London W1W 5QZ

Ffôn: Llinell Wybodaeth y BBC 03700 103 100†*
Ffôn testun: 03700 100 212*

Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.30am a 5.30pm.

E-bost: trust.enquiries@bbc.co.uk

## CYNGHORAU CYNULLEIDFA'R BBC

Mae'r Cynghorau Cynulleidfa yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn helpu Ymddiriedolaeth y BBC i ddeall anghenion a phryderon cynulleidfaoedd ledled y DU. I gysylltu â'r Cynghorau Cynulleidfa:

### Audience Council England
E-bost: audiencecouncil.england@bbc.co.uk

### Audience Council Scotland
E-bost: acs@bbc.co.uk

### Cyngor Cynulleidfa Cymru
E-bost: acw@bbc.co.uk

### Audience Council Northern Ireland
E-bost: audiencecouncil.ni@bbc.co.uk

† Gellir recordio galwadau at ddibenion hyfforddiant.
* Rhifau 'ledled y DU' yw rhifau 0370 ac ni fyddant yn costio mwy na galwadau i rifau daearyddol 01 neu 02.

# DIOLCHIADAU


## FFOTOGRAFFIAETH

Mae'r delweddau canlynol wedi cael eu trwyddedu i'r BBC o dan y cytundeb PACT. Y cwmnïau cynhyrchu annibynnol a elwir yn Ddeiliaid Hawlfraint yw: tudalen 1-11 *Small Island* (h) Ruby Television Production; tudalen 2-6 *QI* (h) Talkback THAMES; tudalen 2-7 *My Life in Verse* (h) Wall to Wall; tudalen 2-8 *Mrs Mandela* (h) Diverse Productions; tudalen 2-14 *Hamlet* (h) Illuminations Media/RSC ac *Alphablocks* (h) Magic Lantern; tudalen 2-35 *The Bubble* (h) Hat Trick, *Mad Men* (h) AMC, *The Lives of Others* (h) Lionsgate ac *On Thin Ice* (h) Twofour Productions; tudalen 2-36 *The Gruffalo* (h) Magic Light Company, *Wallander* (h) Left Bank Pictures/Yellow Bird, *Ashes to Ashes* (h) Kudos; tudalen 2-50 *Mastercrafts* (h) Ricochet; tudalen 2-51 *Who do you think you are?* (h) Wall to Wall; tudalen 2-52 *Natural World* (h) AGB Films, *Outnumbered* (h) Hat Trick ac *Occupation* (h) Kudos; tudalen 2-54 *Timmy Time* (h) Aardman Animations; tudalen 2-55 *Horrible Histories* (h) Lion Television; tudalen 2-70 *Charlie and Lola* (h) Tiger Aspect Productions a *Life* (h) Norbert Rottcher; a thudalen 2-105 Winston Churchill (h) Rainmark Films.

Y BBC sy'n berchen ar yr hawlfraint ar gyfer yr holl ffotograffau eraill yn y llyfr hwn.

Mike Abrahams a dynnodd y llun ar gyfer clawr y prif Adroddiad Blynyddol a'r lluniau ar dudalennau 1-3, 1-4, 1-26, 1-32, 1-34, 1-40, 1-41, 1-42, 1-43, 2-4, llun 2 ar dudalen 2-7, 2-8, 2-9, 2-12, 2-16, 2-24, llun 4 ar dudalen 2-28, 2-30, 2-32, 2-40, 2-45, 2-46, llun 2 ar dudalen 2-47, llun 2 ar dudalen 2-52, llun 4 ar dudalen 2-57, 2-60, pob llun ar dudalennau 2-61 a 2-65, 2-74, pob llun ar dudalennau 2-76 i 2-80, 2-84, 2-85 a 2-86; Andy Shephard a dynnodd y llun ar dudalen 1-15; Farhana Haider a dynnodd y llun ar dudalen 1-16; Sarah Barney a dynnodd y llun ar dudalen 1-20; Janie Airey a dynnodd y llun o'r cwpwl yn gwylio'r teledu ar dudalen 1-35 a'r llun o'r ffôn symudol ar dudalen 2-44; Trevor Aston a dynnodd y llun ar dudalen 1-28; Alan Peebles a dynnodd y llun ar dudalen 1-38; Karen Robinson a dynnodd y llun o *The Now Show* ar dudalen 2-19; Adrian Weinbrecht a dynnodd y llun o Jez Nelson ar dudalen 2-20; a Jennifer Burgess a dynnodd y llun o *Bang Goes the Theory* ar dudalen 2-64. Llun lloeren o'r DU ar fflap Rhan Un (h) NEODAAS/NERC/Prifysgol Dundee.

## DYLUNIAD

luminous.co.uk

## CYFIEITHIAD

Prysg Cyf

## ARGRAFFIAD

Royle Print. Gwneir yr inc argraffu o olew llysiau nad yw'n beryglus o ffynonellau adnewyddadwy. Caiff dros 90% o doddyddion a datblygyddion eu hailgylchu i'w defnyddio eto ac mae mentrau ailgylchu ar waith ar gyfer pob gwastraff arall sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchiad hwn. Mae Royle Print wedi ei ardystio FSC ac ISO 14001 ac mae gweithdrefnau llym ar waith i ddiogelu'r amgylchedd drwy bob proses.

## PAPUR

Argraffwyd ar bapur Cocoon Offset sydd wedi'i wneud o ffibrau wedi'u hailgylchu 100% sy'n deillio o wastraff ôl-ddefnyddwyr yn unig. Ardystir Cocoon Offset yn unol â'r rheolau ar gyfer y Forest Stewardship Council.



FSC

Recycled

Supporting responsible use of forest resources

Cert no. TT-COC 002228

www.fsc.org

© 1996 Forest Stewardship Council

**CarbonNeutral**® printing company

British Broadcasting Corporation
Broadcasting House
London WIA IAA
bbc.co.uk
(h) BBC 2010